# Cofnod y Trafodion
# The Record of Proceedings
# 17/03/2015

Cynnwys Contents


Datganiad gan y Llywydd
Statement by the Presiding Officer

1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog
1. Questions to the First Minister

2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
2. Business Statement and Announcement

3. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch Mynediad at Gyllid
3. Statement: Update on Access to Finance

4. Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015
4. The Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Consequential Provisions) Regulations 2015

5. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015
5. The Environmental Permitting (Amendment) Regulations 2015

6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (Memorandwm Rhif 4): Diwygiad i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 mewn perthynas â Diogelu Chwythwyr Chwiban yn y GIG
6. Supplementary Legislative Consent Motion on the Small Business Enterprise and Employment Bill (Memorandum No. 4): Amendment to the Employment Rights Act 1996 in relation to the Protection of Whistleblowers in the NHS

7. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
7. Stage 4 Debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill

8. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2013-2014
8. Debate on the Care and Social Service Inspectorate Wales (CSSIW) Annual Report 2013-2014

9. Dadl ar Gyflog Cyfartal
9. Debate on Equal Pay

10. Cyfnod Pleidleisio
10. Voting Time


*Cyfarfu'r Cynulliad am 13:30 gyda'r Llywydd (y Fonesig Rosemary Butler) yn y Gadair.*

*The Assembly met at 13:30 with the Presiding Officer (Dame Rosemary Butler) in the Chair.*

13:31

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Good afternoon. The National Assembly for Wales is now in session, and the first item this afternoon—no, I beg your pardon. I have something before the first item.

Prynhawn da. Dyma ddechrau trafodion Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r eitem gyntaf y prynhawn yma—na, mae'n ddrwg gen i. Mae gen i rywbeth cyn yr eitem gyntaf.

13:31

## Datganiad gan y Llywydd

## Statement by the Presiding Officer

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

It gives me great pleasure to announce that, in accordance with Standing Order 26.75, the Higher Education (Wales) Bill was given Royal Assent on 12 March.

Mae'n bleser mawr gennyf gyhoeddi, yn unol â Rheol Sefydlog 26.75, y rhoddwyd Cysyniad Brenhinol i Fil Addysg Uwch (Cymru) ar 12 Mawrth.

13:31

## 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

## 1. Questions to the First Minister

Senedd.tv Fideo Video

### Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Now we move to the first item on the agenda, which is questions to the First Minister. The first question is Mohammad Asghar's.

Symudwn nawr at yr eitem gyntaf ar yr agenda, sef cwestiynau i'r Prif Weinidog. Daw'r cwestiwn cyntaf gan Mohammad Asghar.

### Mynediad i Feddygfeydd Teulu

### Access to GP Surgeries

13:31 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*1. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i wella mynediad i feddygfeydd meddygon teulu yng Nghymru yn 2015? OAQ(4)2171(FM)*

*1. What plans does the Welsh Government have to improve access to GP surgeries in Wales in 2015? OAQ(4)2171(FM)*

13:31 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Our plans to improve access to GP services, which are a key part, of course, of a preventative, primary care-led NHS, are set out in our new national plan for a primary care service. It is backed by over £40 million-worth of new funds and a new two-year deal with GPs.

Cyflwynir ein cynlluniau i wella mynediad at wasanaethau meddygon teulu, sy'n rhan allweddol, wrth gwrs, o GIG ataliol, a arweinir gan ofal sylfaenol, yn ein cynllun cenedlaethol newydd ar gyfer gwasanaeth gofal sylfaenol. Fe’i cefnogir gan werth dros £40 miliwn o gronfeydd newydd a chytundeb dwy flynedd newydd gyda meddygon teulu.

13:31 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much, First Minister, for the reply. Four years ago, you made a manifesto promise to require GPs to hold appointments in the evenings and Saturday mornings. The latest figures show that less than half of 1 per cent of GP practices in Wales offer any Saturday appointments, and the percentage of GP practices offering evening appointments fell to just 7 per cent last year. Does the First Minister agree that this pre-election promise back in 2011 was just an undeliverable gimmick, or how long will it take to fulfil this promise?

Diolch yn fawr iawn, Brif Weinidog, am yr ateb. Bedair blynedd yn ôl, gwnaethoch addewid maniffesto i'w gwneud yn ofynnol i feddygon teulu gynnal apwyntiadau gyda'r nos ac ar fore Sadwrn. Mae'r ffigurau diweddaraf yn dangos bod llai na hanner o 1 y cant o feddygfeydd teulu yng Nghymru yn cynnig unrhyw apwyntiadau dydd Sadwrn, a gostyngodd canran y meddygfeydd teulu sy’n cynnig apwyntiadau gyda'r nos i ddim ond 7 y cant y llynedd. A yw'r Prif Weinidog yn cytuno mai dim ond gimic na ellid ei gyflawni oedd yr addewid hwn cyn yr etholiad yn ôl yn 2011, neu pa mor hir fydd hi cyn cyflawni'r addewid hwn?

13:32 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I don’t know where he gets his figures from, but I can tell him that 80 per cent of GP practices are open for daily core hours or within one hour of daily core hours. That’s an increase of 20 points from 2011. Ninety-seven per cent of GP practices offer appointments at any time between 5 p.m. and 6.30 p.m. on at least two days a week—a 5 per cent increase since 2011; 79 per cent of GP practices offer appointments at any time in the later evening between 5 p.m. and 6.30 p.m. every day—an increase of 16 per cent from 2011; and the percentage of practices closed for half a day a week has reduced from 19 per cent in 2011 to 6 per cent in 2014. As I say, I don’t know where his figures are from; these are the official figures and they show the Welsh Government delivering.

Wel, wn i ddim o ble mae'n cael ei ffigyrau, ond gallaf ddweud wrtho fod 80 y cant o feddygfeydd teulu ar agor am oriau craidd dyddiol neu o fewn un awr i oriau craidd dyddiol. Mae hynny’n gynnydd o 20 pwynt ers 2011. Mae naw deg saith y cant o feddygfeydd teulu’n cynnig apwyntiadau ar unrhyw adeg rhwng 5 p.m. a 6.30 p.m. ar o leiaf ddau ddiwrnod yr wythnos—cynnydd o 5 y cant ers 2011; mae 79 y cant o feddygfeydd teulu yn cynnig apwyntiadau ar unrhyw adeg yn hwyrach fin nos rhwng 5.00 p.m. a 6.30p.m. bob dydd—cynnydd o 16 y cant o 2011; ac mae canran y meddygfeydd sydd ar gau am hanner diwrnod bob wythnos wedi gostwng o 19 y cant yn 2011 i 6 y cant yn 2014. Fel y dywedais, nid wyf yn gwybod o ble mae ei ffigurau ef yn dod; dyma’r ffigurau swyddogol ac maen nhw’n dangos bod Llywodraeth Cymru yn cyflawni.

13:33 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I recently had a very positive meeting with the Minister for Health and Social Services to discuss capacity issues at surgeries in my constituency. We also discussed the action that is being taken to recruit and retain GPs, particularly in Valleys areas. Now, whilst I very much welcome the £1.8 million extra investment that has been announced for primary care services within Cwm Taf, will the Welsh Government continue to work closely with the health board to develop the primary and community care workforce, and ensure that high-calibre staff continue to be attracted to work within the NHS in Wales?

Brif Weinidog, cefais gyfarfod cadarnhaol iawn yn ddiweddar gyda’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i drafod materion capasiti mewn meddygfeydd yn fy etholaeth i. Cawsom drafodaeth hefyd am y camau sy'n cael eu cymryd i recriwtio a chadw meddygon teulu, yn enwedig yn ardaloedd y Cymoedd. Nawr, er fy mod i’n croesawu'n fawr y buddsoddiad ychwanegol o £1.8 miliwn a gyhoeddwyd ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol yng Nghwm Taf, a wnaiff Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda'r bwrdd iechyd i ddatblygu'r gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol, a sicrhau bod aelodau staff o ansawdd uchel yn parhau i gael eu denu i weithio yn y GIG yng Nghymru?

13:33 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Absolutely. Of course. I know that the local health board are working very hard to make sure that that is the case, and we want to make sure that we attract high-calibre staff to all parts of Wales.

Yn sicr. Wrth gwrs. Gwn fod y bwrdd iechyd lleol yn gweithio'n galed iawn i wneud yn siŵr bod hynny'n digwydd, ac rydym ni eisiau sicrhau ein bod yn denu staff o ansawdd uchel i bob rhan o Gymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

First Minister, the best way to get access to GPs is to adopt Plaid Cymru's policy of employing 1,000 extra doctors. Will you increase the training places available, please?

Brif Weinidog, y ffordd orau i gael mynediad at feddygon teulu yw mabwysiadu polisi Plaid Cymru o gyflogi 1,000 o feddygon ychwanegol. A wnewch chi gynyddu nifer y lleoedd hyfforddi sydd ar gael, os gwelwch yn dda?

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I don't know how many GPs are included in that figure; we've never been told, of course, so who knows? In terms of how to ensure that people can see GPs, the first thing to do is to make sure that people choose well, and that they look to go to a pharmacist first, then perhaps go to a nurse within a GP practice and then go and see the GP. But the number of GPs has risen by more than 11 per cent over the past decade, and that shows that more GPs than ever are working in Wales.

Nid wyf yn gwybod faint o feddygon teulu sydd wedi'u cynnwys yn y ffigur hwnnw; nid ydym erioed wedi cael gwybod, wrth gwrs, felly pwy a ŵyr? O ran sut i sicrhau y gall pobl weld meddygon teulu, y peth cyntaf i'w wneud yw gwneud yn siŵr bod pobl yn dewis yn dda, a'u bod yn ystyried mynd at y fferyllydd yn gyntaf, ac yna at nyrs mewn meddygfa deulu efallai, ac yna mynd i weld y meddyg teulu. Ond mae nifer y meddygon teulu wedi cynyddu mwy nag 11 y cant dros y degawd diwethaf, ac mae hynny'n dangos bod mwy o feddygon teulu nag erioed yn gweithio yng Nghymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:34 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

First Minister, as Llanwrtyd and the surrounding communities anxiously await the response by the Builth Wells medical practice to the offer put forward to them by Powys local health board, it's been clear there is no national procedure for dealing with the closure of GP surgeries. The community health council don't, clearly, understand their role in the GP surgery closure situation, and there's no national guidance or protocol. Would you look again at whether it is necessary to have a very clear national approach to handling threats to GP surgeries, such as the ones we have in Llanwrtyd at the moment?

Brif Weinidog, wrth i Lanwrtyd a'r cymunedau cyfagos ddisgwyl yn bryderus am yr ymateb gan feddygfa Llanfair-ym-Muallt i'r cynnig a wnaed iddi gan fwrdd iechyd lleol Powys, mae wedi bod yn amlwg nad oes gweithdrefn genedlaethol ar gyfer ymdrin â chau meddygfeydd teulu. Mae'n amlwg nad yw'r cyngor iechyd cymuned yn deall ei swyddogaeth yn y sefyllfa o gau meddygfeydd, ac nid oes unrhyw ganllawiau na phrotocol cenedlaethol. A wnewch chi edrych eto a oes angen cael dull cenedlaethol eglur iawn i ymdrin â bygythiadau i feddygfeydd teulu, fel y rhai sydd gennym ni yn Llanwrtyd ar hyn o bryd?

Senedd.tv Fideo Video

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, first of all, of course, the majority of GPs are self-employed contractors. We know that. They're not directly part of the health service in that way. They must explain to the people they serve the reasoning for their decisions. I very much hope, of course, that there will be agreement, and that the people of Llanwrtyd will continue to have access to GP services in their own community. I know the discussions have been, I understand, fruitful, in the last few weeks, and I sincerely hope, of course, that that service will continue in the future.

Wel, yn gyntaf oll, wrth gwrs, mae'r rhan fwyaf o feddygon teulu yn gontractwyr hunangyflogedig. Rydym ni'n gwybod hynny. Dydyn nhw ddim yn rhan uniongyrchol o'r gwasanaeth iechyd yn y ffordd honno. Mae'n rhaid iddyn nhw esbonio i'r bobl maen nhw'n eu gwasanaethu y rhesymeg sy'n sail i'w penderfyniadau. Rwy'n gobeithio'n fawr, wrth gwrs, y bydd cytundeb, ac y bydd pobl Llanwrtyd yn parhau i fod â mynediad at wasanaethau meddyg teulu yn eu cymuned eu hunain. Rwy'n gwybod bod y trafodaethau, rwy'n deall, wedi bod yn ffrwythlon, yn ystod yr wythnosau diwethaf, ac rwy'n mawr obeithio, wrth gwrs, y bydd y gwasanaeth hwnnw'n parhau yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

## Effaith y Dreth Ystafell Wely

## The Impact of the Bedroom Tax

13:35 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*2. Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith y dreth ystafell wely yng Nghymru? OAQ(4)2188(FM)*

*2. What assessment has the Welsh Government made of the impact of the bedroom tax in Wales? OAQ(4)2188(FM)*

13:35 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, our research has shown the impact of the reforms is not spread equally. The bedroom tax has a disproportionate effect on disabled people. This reform, combined with the remaining UK Government's benefit and tax reforms, are hitting those, of course, around the poverty line and working-age disabled households much harder than others.

Wel, mae ein gwaith ymchwil wedi dangos nad yw effaith y diwygiadau wedi'i dosbarthu'n gyfartal. Mae'r dreth ystafell wely yn cael effaith anghymesur ar bobl anabl. Mae'r diwygiad hwn, ynghyd â diwygiadau eraill Llywodraeth y DU i fudd-daliadau a threth, yn taro'r rhai, wrth gwrs, sy'n agos at y llinell dlodi a chartrefi anabl o oedran gweithio yn llawer caletach nag eraill.

13:36 **Joyce Watson** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that answer, First Minister. According to research by the Auditor General for Wales, the bedroom tax has indeed hit Wales the hardest. The number of tenants in arrears shot up by a quarter in the six months after introduction, and there were more than 2,000 repossessions last year. First Minister, your Government is doing what it can to soften the blow, with the discretionary assistance fund, and the extra £20 million for one and two-bedroomed homes, but do you agree with me that the best way—in fact, the only way—that people can be sure to rid us of this pernicious tax is by voting Labour in the next general election?

Diolch i chi am yr ateb yna, Brif Weinidog. Yn ôl gwaith ymchwil gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae'r dreth ystafell wely wir wedi taro Cymru galetaf. Saethodd nifer y tenantiaid ag ôl-ddyledion i fyny gan chwarter yn ystod y chwe mis ar ôl ei chyflwyno, a bu mwy na 2,000 o achosion o adfeddiannu y llynedd. Brif Weinidog, mae eich Llywodraeth yn gwneud yr hyn a all i leddfu'r ergyd, gyda'r gronfa cymorth dewisol, ac £20 miliwn ychwanegol ar gyfer cartrefi un a dwy ystafell wely, ond a ydych chi'n cytuno â mi mai'r ffordd orau—yr unig ffordd a dweud y gwir—y gall pobl fod yn sicr o gael gwared ar y dreth niweidiol hon yw trwy bleidleisio dros Lafur yn yr etholiad cyffredinol nesaf?

13:36 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Absolutely, absolutely. What we've seen, of course, is an attack on the most vulnerable in society. We know that the number of claimants affected by the bedroom tax in Wales was £31,000—31,000 people, rather—as of November last year. We know that the reforms will reduce the income of working-age households in Wales by around £900 million in 2015-16. We estimate an average annual loss of £500 per working-age adult in Wales. And we know that the tax and welfare reforms hit those around the poverty line harder than middle and higher-income groups—typical, of course, of the Tories.

Yn sicr, yn sicr. Yr hyn yr ydym ni wedi ei weld, wrth gwrs, yw ymosodiad ar y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Rydym yn gwybod mai £31,000—31,000 o bobl, yn hytrach—oedd nifer y rhai sy'n hawlio a effeithiwyd gan y dreth ystafell wely yng Nghymru ym mis Tachwedd y llynedd. Rydym ni'n gwybod y bydd y diwygiadau yn lleihau incwm cartrefi o oedran gweithio yng Nghymru o tua £900 miliwn yn 2015-16. Rydym ni'n amcangyfrif colled blynyddol cyfartalog o £500 fesul oedolyn o oedran gweithio yng Nghymru. Ac rydym ni'n gwybod bod y diwygiadau treth a lles yn taro'r rhai sy'n agos at y llinell dlodi yn galetach na grwpiau incwm canolig ac uwch—sy'n nodweddiadol, wrth gwrs, o'r Toriaid.

13:37 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, statements such as these serve little purpose other than to scaremonger, especially when there was no mention whatsoever of the valid exemptions available for those with disabilities. Sheer hypocrisy. In 2001, the Labour Government actually trialled the policy, through the under-occupation pilot scheme, and then, in 2008, went on to introduce this for private tenancies. First Minister, will you acknowledge the £830 million saved to date, and that the housing benefit bill has fallen for the first time in a decade, or do you endorse the something-for-nothing culture—

Brif Weinidog, nid oes fawr o ddiben i ddatganiadau fel hyn heblaw codi bwganod, yn enwedig pan nad oedd sôn o gwbl am yr eithriadau dilys sydd ar gael ar gyfer y rhai ag anableddau. Rhagrith llwyr. A dweud y gwir, yn 2001, arbrofwyd y polisi gan y Llywodraeth Lafur, drwy'r cynllun arbrofol tan-feddiannaeth, ac yna, yn 2008, aeth ymlaen i gyflwyno hyn ar gyfer tenantiaethau preifat. Brif Weinidog, a wnewch chi gydnabod yr £830 miliwn a arbedwyd hyd yn hyn, a bod y bil budd-dal tai wedi gostwng am y tro cyntaf mewn degawd, neu a ydych chi'n cymeradwyo'r diwylliant rhywbeth am ddim—

13:38 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think you've asked the question. You've already asked a question. You're asking two questions.

Rwy'n credu eich bod chi wedi gofyn y cwestiwn. Rydych chi wedi gofyn cwestiwn eisoes. Rydych chi'n gofyn dau gwestiwn.

13:38 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

[Continues.]—that significantly contributes towards the massive debts our country now faces?

[Yn parhau.]—sy'n cyfrannu'n sylweddol at y dyledion enfawr y mae ein gwlad yn eu hwynebu erbyn hyn?

13:38 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

There's rank hypocrisy from the Tories—rank hypocrisy. They sit there claiming to represent the vulnerable—they attack the vulnerable; that much we know. How wonderful it is to hear them say, 'We've reduced the housing benefit budget'. What they mean is, 'We've attacked those people who need help the most', and that's why, of course, the bedroom tax—. And I go around, as Members of these benches will go around, and we listen to people who are affected by this bedroom tax. We see the effect it has on them, and we see that they are the people who are most affected, and most need help in society. I will not accept any lectures from the Conservative Party, when they sit there, hypocritically telling us they represent the vulnerable, when their main task is to hit the vulnerable and protect the rich. That's why, of course, they've cut taxes for the richest in society.

Ceir rhagrith llwyr gan y Toriaid—rhagrith llwyr. Maen nhw'n eistedd yn y fan yna yn honni eu bod yn cynrychioli'r rhai sy'n agored i niwed—maen nhw'n ymosod ar y rhai agored i niwed; rydym ni'n gwybod cymaint â hynny. Pa mor rhyfeddol yw eu clywed nhw'n dweud, 'Rydym ni wedi gostwng y gyllideb budd-dal tai'. Yr hyn maen nhw'n ei olygu yw, 'Rydym ni wedi ymosod ar y bobl hynny sydd fwyaf angen cymorth', a dyna pam, wrth gwrs, mae'r dreth ystafell wely—. Ac rwy'n mynd o gwmpas, fel y bydd Aelodau'r meinciau hyn yn mynd o gwmpas, ac rydym ni'n gwrando ar bobl sy'n cael eu heffeithio gan y dreth ystafell wely hon. Rydym ni'n gweld yr effaith y mae'n ei chael arnyn nhw, ac rydym ni'n gweld mai nhw yw'r bobl sy'n cael eu heffeithio fwyaf, ac sydd fwyaf angen cymorth mewn cymdeithas. Ni wnaf dderbyn unrhyw bregethu gan y Blaid Geidwadol, pan fyddan nhw'n eistedd yn y fan yna, yn dweud wrthym ni'n rhagrithiol eu bod yn cynrychioli'r rhai agored i niwed, pan mai eu prif dasg yw taro'r rhai agored i niwed ac amddiffyn y cyfoethog. Dyna pam, wrth gwrs, maen nhw wedi torri trethi i'r rhai cyfoethocaf mewn cymdeithas.

13:39 **Rhodri Glyn Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Mae'r syniad o bleidleisio Llafur er mwyn osgoi effeithiau y dreth ystafell wely yn eironig a dweud y lleiaf, oherwydd y mae Llywodraeth yr SNP yn yr Alban wedi sicrhau nad yw tenantiaid yn yr Alban yn cael eu heffeithio gan y dreth arbennig yma. Mae Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi gwneud dêl gyda'r Trysorlys er mwyn sicrhau nad yw e'n cael ei weithredu yng Ngogledd Iwerddon. Cymru yw'r unig wlad ddatganoledig yn y Deyrnas Unedig sy'n cael ei heffeithio gan y dreth ystafell wely, er bod pobl Cymru wedi pleidleisio i Lywodraeth Lafur.

The concept of voting Labour to avoid the impacts of the bedroom tax is ironic to say the least, because the SNP Government in Scotland has ensured that tenants in Scotland are not affected by this particular tax there. The Government in Northern Ireland has come to a deal with the Treasury to ensure that it isn't implemented in Northern Ireland. Wales is the only devolved nation in the United Kingdom to be affected by the bedroom tax, although the people of Wales have voted for a Labour Government.

13:39 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, nid yw'n hynny'n dweud bod Plaid Cymru yn mynd i wneud lot fawr o wahaniaeth ynglŷn â'r dreth hon. Yn gyntaf, wrth gwrs, mae budd-daliadau wedi cael eu datganoli yng Ngogledd Iwerddon, ond nid yng Nghymru a'r Alban. Mae'n wir i ddweud bod yr Alban wedi ffeindio'r arian, ond dyna i gyd y mae'r Alban wedi ei wneud yw defnyddio arian yr Alban lle y dylen nhw ddefnyddio arian y Deyrnas Unedig. Felly, dyna i gyd sydd wedi digwydd yw bod y Trysorlys wedi sifffto'r bai a'r ddyletswydd i'r Alban, i'r Alban dalu am rywbeth y dylai'r Deyrnas Unedig dalu amdano. Felly, unwaith eto, mae'n rhaid inni sicrhau, er lles pawb yn y Deyrnas Unedig, fod pobl yn cael gwared ar y Llywodraeth Brydeinig hon ym mis Mai er mwyn sicrhau tegwch yn y Deyrnas Unedig i gyd.

Well, that is not to say that Plaid Cymru is going to make a great deal of difference relating to this tax. First of all, of course, benefits have been devolved to Northern Ireland, but not to Wales or Scotland. It is true to say that Scotland has found the money, but all that Scotland has done is use Scottish funding where it should have used United Kingdom funding. So, all that's happened is that the Treasury has shifted the blame and the responsibility to Scotland, for Scotland to pay for something that should be paid for by the UK. So, once again, we have to ensure, for the benefit of everyone in the UK, that people get rid of this UK Government in May to ensure fairness for the United Kingdom as a whole.

13:40 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

No way.

Dim o gwbl.

13:40 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Not all would agree with that, clearly.

Ni fyddai pawb yn cytuno â hynny, yn amlwg.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I didn't hear.

Wnes i ddim clywed.

Senedd.tv Fideo Video

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

13:40 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

I now call the party leaders to question the First Minister. First is the leader of the Welsh Liberal Democrats, Kirsty Williams.

Galwaf ar arweinwyr y pleidiau nawr i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog. Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru, Kirsty Williams, sydd gyntaf.

Senedd.tv Fideo Video

13:40 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru / The Leader of the Welsh Liberal Democrats*

Thank you, Presiding Officer. First Minister, in response to the McClelland review of the ambulance service, your health Minister said that we needed, and I quote:

'unambiguous agreement on its nature as a clinical service.'

Do you agree that the Welsh Ambulance Services NHS Trust needs to focus on delivering a clinically led emergency response service?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, wrth ymateb i adolygiad McClelland o'r gwasanaeth ambiwlans, dywedodd eich Gweinidog iechyd bod angen, ac rwy'n dyfynnu:

cytundeb diamwys ar ei natur fel gwasanaeth clinigol.

A ydych chi'n cytuno bod angen i Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ganolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth ymateb brys dan arweiniad clinigol?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes.

Ydw.

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Thank you, First Minister. Could you explain then, if it has been deemed clinically appropriate and that an individual does not need an ambulance, why the Welsh ambulance service trust is footing the bill for taxis to hospital? Your Government has said that it is committed to prudent healthcare. Is spending thousands of pounds ferrying 100 people to hospital truly value for money and enabling the ambulance trust to do its job?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. A wnewch chi esbonio felly, os ystyriwyd ei bod yn glinigol briodol ac nad oes angen ambiwlans ar unigolyn, pam mae ymddiriedolaeth gwasanaeth ambiwlans Cymru yn talu'r bil am dacsis i'r ysbyty? Mae eich Llywodraeth chi wedi dweud ei bod yn ymrwymedig i ofal iechyd doeth. A yw gwario miloedd o bunnoedd yn cludo 100 o bobl i'r ysbyty wir yn werth am arian ac yn galluogi'r ymddiriedolaeth ambiwlans i wneud ei gwaith?

Senedd.tv Fideo Video

13:41 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, the proportion of patients transported by taxi as part of the alternative transport initiative is approximately 0.1 per cent of the 450,000 calls that are made to the ambulance service. The cost of conveying a patient by emergency ambulance to A&E is approximately £183. Using a taxi, where appropriate, can be as little as £4. Now, the figure that she has mentioned and the figure that we've seen today on the news also includes money spent on the patient care service, so, for example, where a patient requires transport to an outpatient appointment and there's limited capacity available, and health courier services, so conveying laundry and test results and blood, where appropriate, and to transport staff back to a scene where they've had to leave a vehicle to support a patient, for example on a spinal board. So, that figure is not just about taxis. It's about a number of services that are offered by the ambulance service in a non-emergency context.

Wel, tua 0.1 y cant o'r 450,000 o alwadau sy'n cael eu gwneud i'r gwasanaeth ambiwlans yw cyfran y cleifion a gludir mewn tacsi yn rhan o'r fenter trafnidiaeth amgen. Tua £183 yw'r gost o gludo claf i adran damweiniau ac achosion brys mewn ambiwlans brys. Gall defnyddio tacsi, pan fo'n briodol, fod cyn lleied â £4. Nawr, mae'r ffigur y mae hi wedi ei grybwyll a'r ffigur yr ydym ni wedi ei weld heddiw ar y newyddion hefyd yn cynnwys arian a gaiff ei wario ar y gwasanaeth gofal cleifion, felly, er enghraifft, pan fo claf angen cludiant i apwyntiad cleifion allanol a bod y capasiti sydd ar gael yn gyfyngedig, a gwasanaethau negesydd iechyd, yn cludo dillad golchi a chanlyniadau profion a gwaed, pan fo'n briodol, ac i gludo staff yn ôl i fan lle bu'n rhaid iddyn nhw adael cerbyd er mwyn cynorthwyo claf, er enghraifft, ar fwrdd asgwrn y cefn. Felly, nid yw'r ffigur hwnnw'n ymwneud â thacsis yn unig. Mae'n ymwneud â nifer o wasanaethau a gynigir gan y gwasanaeth ambiwlans mewn cyd-destun lle nad oes brys.

13:42 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

First Minister, we said that we needed a clinically led ambulance service. If a decision has been made by a clinician that you do not need the care of a paramedic or an ambulance technician to convey you to hospital, it does beg the question why the ambulance service is then paying for taxis. It's been two years since Professor McClelland outlined her recommendations for the future of the ambulance service, and two years since she recommended that work should begin to transfer patient transport services out of the ambulance trust and into health boards so that we could have a better use of resources in conveying those patients who do indeed need to get to a hospital but don't need an ambulance to do so. In the latest update, last month, it appeared that little or no work had been carried out on this recommendation. When can we expect to see health boards take responsibility for patient transport so that the ambulance service is allowed to focus on getting to those people who need it the most as quickly as possible?

Brif Weinidog, fe wnaethom ni ddweud bod angen gwasanaeth ambiwlans dan arweiniad clinigol arnom. Os bydd clinigydd wedi gwneud penderfyniad nad oes angen gofal parafeddyg neu dechnegydd ambiwlans i'ch cludo chi i'r ysbyty, yna mae'n codi'r cwestiwn pam mae'r gwasanaeth ambiwlans yn talu am dacsis felly. Mae dwy flynedd ers i'r Athro McClelland amlinellu ei hargymhellion ar gyfer dyfodol y gwasanaeth ambiwlans, a dwy flynedd ers iddi argymell y dylai gwaith ddechrau i drosglwyddo gwasanaethau cludo cleifion allan o'r ymddiriedolaeth ambiwlans ac i mewn i fyrddau iechyd er mwyn i ni gael gwell defnydd o adnoddau i gludo'r cleifion hynny sydd wir angen cyrraedd yr ysbyty ond nad oes angen ambiwlans arnynt i wneud hynny. Yn y diweddariad diweddaraf, y mis diwethaf, roedd yn ymddangos mai prin oedd y gwaith oedd wedi ei wneud ar yr argymhelliad hwn heu nad oedd gwaith o gwbl wedi ei wneud. Pryd allwn ni ddisgwyl gweld byrddau iechyd yn cymryd cyfrifoldeb am gludo cleifion er mwyn caniatáu i'r gwasanaeth ambiwlans ganolbwyntio ar gyrraedd y bobl hynny sydd fwyaf ei angen cyn gynted â phosibl?

13:43 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
Fideo Video

Well, it's not correct to say that nothing's being done. There's a pilot scheme in Cardiff, which gave rise to the story that we saw this morning. That is to see how best to divert people away from using an ambulance in circumstances where they don't need to use an ambulance. But let's not pretend that this is an issue only for Wales. Between 2008 and 2011, England spent £30 million on taxi transport as part of transport within the health service, so it is something that is commonly used across the whole of the UK. And, of course, the pilot scheme will be there in order to assist evaluation of how to improve non-emergency patient care in the future.

Wel, nid yw'n gywir i ddweud nad oes dim wedi ei wneud. Mae cynllun arbrofol ar waith yng Nghaerdydd, a arweiniodd at y stori a welsom y bore yma. Mae hwnnw er mwyn canfod y ffordd orau o arallgyfeirio pobl oddi wrth ddefnyddio ambiwlans dan amgylchiadau lle nad oes angen iddyn nhw ddefnyddio ambiwlans. Ond gadewch i ni beidio ag esgus mai problem yng Nghymru yn unig yw hon. Gwariodd Lloegr £30 miliwn ar gludiant tacsi rhwng 2008 a 2011 yn rhan o gludiant o fewn y gwasanaeth iechyd, felly mae'n rhywbeth a ddefnyddir yn gyffredin ar draws y DU gyfan. Ac, wrth gwrs, bydd y cynllun arbrofol yno er mwyn cynorthwyo gwerthusiad o sut i wella gofal cleifion lle nad oes brys yn y dyfodol.

13:44 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

We now move to the leader of the opposition, Andrew R.T. Davies.

Symudwn nawr at arweinydd yr wrthblaid, Andrew R.T. Davies.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

*Arweinydd yr Wrthblaid / The Leader of the Opposition*

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. First Minister, what's your assessment of your Government's campaign, which was held last September, Support Your High Street?

Diolch i chi, Lywydd. Brif Weinidog, beth yw eich asesiad chi o ymgyrch eich Llywodraeth, a gynhaliwyd fis Medi diwethaf, Cefnogwch Eich Stryd Fawr?

13:44 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, we're looking, of course, at business rates to see how business rates can help those businesses that need further help. We have, for example, provided funds for towns to be refurbished and to be revitalised. We've done that, of course, through various schemes, and, of course, we've made sure that, by bringing investment into Wales and creating more jobs in Wales, people have more money to spend, and that will help small businesses.

Wel, rydym ni'n edrych, wrth gwrs, ar ardrethi busnes i weld sut all ardrethi busnes helpu'r busnesau hynny sydd angen mwy o gymorth. Rydym ni, er enghraifft, wedi darparu arian i ailwampio ac adfywio trefi. Rydym ni wedi gwneud hynny, wrth gwrs, trwy wahanol gynlluniau, ac, wrth gwrs, rydym wedi gwneud yn siŵr, trwy ddod â buddsoddiad i Gymru a chreu mwy o swyddi yng Nghymru, bod gan bobl fwy o arian i'w wario, a bydd hynny'n helpu busnesau bach.

13:44 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, that campaign was launched in September last year and, at its heart, it had a window-dressing campaign, a treasure hunt in Lampeter, and the great success was that 274,000 people had looked at Facebook and Twitter. Ultimately, First Minister, from the figures we saw yesterday, there is a huge pressure on our high streets. Eighteen months ago, we brought forward our document 'A vision for the Welsh high street'. At the moment, we are seeing, because of your Government's inaction, one shop every other day closing on our high streets. Now, you've talked about business rate relief, you've talked about planning and you've talked about various initiatives. We've had three different Ministers in your Government being responsible for the regeneration of our high streets since 2011, but, actually, we're not seeing anything really tangible delivered. We've got real pressure on the Welsh high streets and little coming from your Government. What can we expect over the next 12 months to actually reverse these declining numbers on the Welsh high street, which sees vacancy rates that are some of the worst in the UK?

Brif Weinidog, lansiwyd yr ymgyrch honno ym mis Medi y llynedd ac, yn ganolog iddi, roedd ymgyrch gwisgo ffenestr, helfa drysor yn Llanbedr Pont Steffan, a'r llwyddiant mawr oedd bod 274,000 o bobl wedi edrych ar Facebook a Twitter. Yn y pen draw, Brif Weinidog, o'r ffigurau a welsom ni ddoe, mae pwysau enfawr ar ein strydoedd mawr. Ddeunaw mis yn ôl, cyhoeddwyd ein dogfen 'Gweledigaeth ar gyfer y stryd fawr yng Nghymru'. Ar hyn o bryd, rydym ni'n gweld, oherwydd diffyg gweithredu gan eich Llywodraeth, un siop yn cau bob yn ail ddiwrnod ar ein strydoedd mawr. Nawr, rydych chi wedi siarad am ryddhad ardrethi busnes, rydych chi wedi siarad am gynllunio ac rydych chi wedi siarad am fentrau amrywiol. Rydym ni wedi cael tri gwahanol Weinidog yn eich Llywodraeth yn gyfrifol am adfywio ein strydoedd mawr ers 2011, ond, mewn gwirionedd, nid ydym ni'n gweld unrhyw beth pendant yn cael ei gyflawni. Mae gennym ni bwysau gwirioneddol ar strydoedd mawr Cymru ac ychydig iawn yn dod oddi wrth eich Llywodraeth. Beth allwn ni ei ddisgwyl yn ystod y 12 mis nesaf i wir wrthdroi'r niferoedd hyn sy'n lleihau ar y stryd fawr yng Nghymru, ac sy'n dangos cyfraddau siopau gwag sydd ymhlith rhai o'r gwaethaf yn y DU?

13:45 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, I did hear the Member for Ceredigion protest at the way that Lampeter was portrayed there. She will do it more effectively than I, given the fact that it's in her constituency. But, can I say that, in order for shops to prosper, they need customers? Customers. Now, we have done what we can to bring investment into Wales and to create jobs; we need the UK Government to do its part. The reason why so many shops are struggling is because of the policies of the UK Government not providing people with light at the end of the tunnel, not providing people with hope, and destroying people's disposable incomes. That's why shops haven't got customers—because of the inaction of the party opposite.

Wel, clywais yr Aelod dros Geredigion yn protestio am y ffordd y portreadwyd Llanbedr Pont Steffan yn y fan yna. Bydd hi'n gwneud hynny yn fwy effeithiol na mi, o ystyried y ffaith fod y dref yn ei hetholaeth. Ond, a gaf i ddweud, er mwyn i siopau ffynnu, bod angen cwsmeriaid arnynt? Cwsmeriaid. Nawr, rydym ni wedi gwneud yr hyn a allwn i ddod â buddsoddiad i Gymru ac i greu swyddi; rydym ni angen i Lywodraeth y DU chwarae ei rhan. Y rheswm pam mae cynifer o siopau mewn trafferthion yw gan nad yw polisïau Llywodraeth y DU yn cynnig golau ar ddiwedd y twnnel i bobl, nac yn cynnig gobaith i bobl, ac maent yn dinistrio incwm gwario pobl. Dyna pam nad oes gan siopau gwsmeriaid—oherwydd diffyg gweithredu gan y blaid gyferbyn.

13:46 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

What a ludicrous answer, First Minister. I mean, frankly, we've got an economy that is surging ahead of the rest of the western world. We've got greater employment now than we've ever had in our history, yet when it actually falls into your lap, you want to pass that blame. As I pointed out, you've had three Ministers responsible for regeneration here in Wales since the 2011 elections. We have some of the highest vacancy rates on our high street. You have failed to deliver a business rate relief scheme to the high street, which the Federation of Small Businesses and other operators have been calling for. Your planning system is overly bureaucratic and delays businesses being innovative and changing to meet the challenge of the internet. You've got so many tools at your disposal, yet your efforts are lamentable. What, over the next 12 months, can we actually see you delivering to reverse the figures that I've given you today, where one shop every other day is closing on our high street?

Dyna ateb chwerthinllyd, Brif Weinidog. Hynny yw, yn blwmp ac yn blaen, mae gennym ni economi sy'n symud ymhell o flaen gweddill y byd gorllewinol. Mae gennym ni fwy o gyflogaeth nawr na fu gennym ni erioed yn ein hanes, ac eto pan ei fod mewn gwirionedd yn dod i'ch rhan, rydych chi eisiau trosglwyddo'r bai hwnnw. Fel y dywedais, rydych chi wedi cael tri Gweinidog yn gyfrifol am adfywio yma yng Nghymru ers etholiadau 2011. Mae gennym ni rai o'r cyfraddau siopau gwag uchaf ar ein stryd fawr. Rydych chi wedi methu â chyflwyno cynllun rhyddhad ardrethi busnes i'r stryd fawr, y mae'r Ffederasiwn Busnesau Bach a gweithredwyr eraill wedi bod yn galw amdano. Mae eich system gynllunio yn rhy fiwrocrataidd ac yn oedi busnesau rhag bod yn arloesol a newid i ymateb i her y rhyngrwyd. Mae gennych chi gymaint o ddulliau ar gael i chi, ac eto mae eich ymdrechion yn druenus. Beth, dros y 12 mis nesaf, allwn ni eich gweld chi'n ei gyflwyno mewn gwirionedd i wrthdroi'r ffigurau yr wyf i wedi eu rhoi i chi heddiw, lle mae un siop yn cau ar ein stryd fawr bob yn ail ddiwrnod?

13:47 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I know he doesn't understand market principles, but those on his benches might try to help him. Businesses thrive because of demand for their products, and that demand is driven by people's disposable incomes. They do not have the disposable incomes they had five years ago—even five years ago, in 2010. That's what's happening to our businesses. Can I also say this to him: I mean, he sits there claiming that UK Government has no role in this at all, but, as I've mentioned before, he cannot escape responsibility for the squeeze that has occurred on people's incomes—but he is trying to do that? He cannot avoid responsibility either for his own party's plans, which is to cut the amount of money available to business—a 30 per cent cut in economic development funding and a 12 per cent cut in local government funding. Now, how is that meant to assist businesses in Wales? He asked the question—it's a fair question—of what we can expect over the next year. It's a fair question and I'll give him the answer: a Labour Government in May and then things will change for the better.

Rwy'n gwybod nad yw'n deall egwyddorion y farchnad, ond efallai y gallai'r rhai ar ei feinciau geisio ei helpu. Mae busnesau'n ffynnu oherwydd bod galw am eu cynnyrch, a chaiff y galw hwnnw ei sbarduno gan incwm gwario pobl. Nid yw'r incwm gwario yr oedd ganddyn nhw bum mlynedd ganddyn nhw erbyn hyn—hyd yn oed bum mlynedd yn ôl, yn 2010. Dyna sy'n digwydd i'n busnesau. A gaf i hefyd ddweud hyn wrtho: hynny yw, mae'n eistedd yn y fan yna yn honni nad oes gan Lywodraeth y DU unrhyw ran yn hyn o gwbl, ond, fel yr wyf wedi ei grybwyll o'r blaen, ni all ddianc rhag cyfrifoldeb am y wasgfa sydd wedi digwydd ar incymau pobl—ond mae'n ceisio gwneud hynny? Ni all osgoi cyfrifoldeb naill ai am gynlluniau ei blaid ei hun, sef torri faint o arian sydd ar gael i fusnesau—toriad o 30 y cant i gyllid datblygu economaidd a thoriad o 12 y cant i gyllid llywodraeth leol. Nawr, sut mae hynny i fod i gynorthwyo busnesau yng Nghymru? Gofynnodd y cwestiwn—mae'n gwestiwn teg—am yr hyn y gallwn ei ddisgwyl yn ystod y flwyddyn nesaf. Mae'n gwestiwn teg a rhoddaf yr ateb iddo: Llywodraeth Lafur ym mis Mai ac yna bydd pethau'n newid er gwell.

13:48 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move to Plaid Cymru, and the questions this afternoon will be asked by the deputy leader, Elin Jones.

Symudwn at Blaid Cymru nawr, a gofynnir y cwestiynau gan y dirprwy arweinydd, Elin Jones, y prynhawn yma.

13:48 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, yn y pedair blynedd ers cyfrifiad 2011, beth yw'r prif gam y mae'ch Llywodraeth chi wedi ei gymryd i atal dirywiad y Gymraeg fel iaith fyw yng nghymunedau'r gorllewin?

First Minister, in the four years since the 2011 census, what is the main step that your Government has taken to prevent the decline in the Welsh language as a living language in communities in west Wales?

13:48 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, y peth cyntaf y mae'n rhaid ei sicrhau yw cynyddiad yn y nifer. Yn siomedig y mae hynny wedi bod, ac roedd hynny'n wir pan oedd eich plaid chi yn y Llywodraeth hefyd. Mae'n her inni i gyd. Yr ail beth, wrth gwrs, yw sicrhau bod pobl yn defnyddio'r iaith. Rŷm ni wedi gwneud hynny wrth helpu'r mentrau iaith drwy'r rhaglen Bwrw Mlaen, a hefyd, wrth gwrs, drwy sicrhau bod yna arian cyllido ar gael i ganolfannau lle mae'r iaith Gymraeg yn gallu cael ei defnyddio fel iaith naturiol, yn enwedig mewn cymunedau lle mae'r iaith wedi gwanhau dros y degawdau.

Well, the first thing to ensure is an increase in the number. This has been disappointing, and this was also the case when your party was in Government. It is a challenge for us all. The second thing is to ensure that people use the language. We've done that by helping the 'mentrau iaith' through the Bwrw Mlaen programme, by ensuring that funding is available for centres where the Welsh language can be used as the natural language, especially in communities where the Welsh language has been in decline over the decades.

13:49 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Brif Weinidog, rwy'n gwybod beth sydd angen ei wneud. Rwyf eisiau gwybod sut ŷch chi'n mynd i gyflawni'r hyn sydd angen ei wneud. Un o'r meysydd mwyaf dylanwadol o ran cryfder y Gymraeg yw'r maes cynllunio, ac, er mwyn diogelu'r Gymraeg, mae angen gwneud y Gymraeg yn ystyriaeth berthnasol statudol a rhoi mwy o rym i awdurdodau lleol i bennu targedau tai eu hunain. Mae yna un cyfle deddfwriaethol gennych chi mewn Llywodraeth i gyflwyno hyn mewn deddfwriaeth, sef y Mesur cynllunio. A ydych chi'n bwriadu cymryd y cyfle yna neu anwybyddu'r cyfle?

First Minister, I know what needs to be done, but what I want to know is how you are going to achieve what needs to be done. One of the most influential areas in terms of the strength of the Welsh language is the area of planning and, in order to safeguard the Welsh language, we must make the Welsh language a statutory material consideration and provide more power for local authorities to set their own housing targets. There is one legislative opportunity available to you as a Government to introduce this in legislation, namely through the planning Bill. Do you intend to take that opportunity, or will you ignore it?

13:49 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, maen nhw'n gallu gwneud hynny'n awr, wrth gwrs. Maen nhw'n gallu cymryd yr iaith Gymraeg i ystyriaeth. Yn ail, wrth gwrs, maen nhw'n gallu sicrhau eu bod nhw'n cael targedau eu hunain ynglŷn â thai. Lle maen nhw'n anghytuno â beth mae'r Llywodraeth wedi'i ddweud—os oes yna dystiolaeth ganddynt i gefnogi targed arall—maent yn gallu gwneud hynny. Nid oes dim yn eu stopio rhag gwneud hynny yn awr.

Well, they can do that now, of course. They can take the Welsh language into account. Secondly, of course, they can ensure that they set their own targets on housing. Where they disagree with what the Government has said—if they have evidence to support another target—they can do that. There is nothing to stop them from doing that now.

13:50 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Na, nid ydyn nhw'n gallu gwneud hynny, a dyna pam mae'r cynghorau sir, wrth gwrs, wedi ysgrifennu atoch chi. Mae nifer ohonyn nhw, gan gynnwys rhai Llafur, wedi ysgrifennu atoch chi yn gofyn i chi gymryd cyfle deddfwriaethol y Mesur cynllunio i gryfhau eu gallu nhw i fedru cymryd penderfyniadau ar sail y Gymraeg mewn achosion cynllunio ac i wneud asesiadau o anghenion tai lleol yn unol â'r cymunedau lleol hynny. Felly, mae'r cynghorau sir yn anghytuno â'r hyn rydych chi newydd ei ddweud. A wnewch chi, felly, wrando arnyn nhw a gwrando ar nifer ohonom ni, fel gwrthbleidiau, sydd eisiau gweld y Mesur—yr unig gyfle deddfwriaethol sydd gennych chi'n weddill yn y Cynulliad yma—yn cael ei ddefnyddio i gryfhau gallu'r Gymraeg i oroesi yn y cymunedau Cymraeg?

No, they can't do that, and that's why the county councils, of course, have written to you. Many of them, including some Labour councils, have written to you asking you to take the legislative opportunity provided by the planning Bill to strengthen their hand in taking decisions on the basis of the Welsh language in planning cases, and also to carry out assessments of local housing needs in accordance with the needs of those local communities. So, the county councils disagree with what you just said. Will you therefore listen to them, and also listen to many of us, as opposition parties, who want to see the Bill—the only legislative opportunity that you have in the remainder of this Assembly—being used to strengthen the ability of the Welsh language to survive in the Welsh-speaking communities?

13:51 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, tri pheth: yn gyntaf, maen nhw'n gallu gwneud hynny os oes tystiolaeth ar gael. Yn ail, wrth gwrs, rydym ni wedi newid y Mesur er mwyn cryfhau'r Gymraeg, gan fod yn agored i unrhyw syniadau call ynglŷn â sut i symud ymlaen yn y dyfodol. Beth na allwn ni ei wneud yw cefnogi sefyllfa lle byddai pob cais yn gorfod cael rhyw fath o asesiad iaith. Nid wyf yn credu bod neb synhwyrol yn dweud hynny, ond y tric yn wastad yw gwybod ble i roi'r llinell. Pa fath o gynlluniau y dylent gael asesiad, pa fath na ddylent gael asesiad, ac ym mha ffordd yr ydych chi'n sicrhau nad yw rhywun yn mynd o'r naill linell i'r llall gan drial osgoi'r rheolau? Felly, mae gwaith wedi cael ei wneud lan i nawr, ac rydym ni'n ddigon parod i sicrhau bod y trafod yn parhau er mwyn ffeindio mwy o ffyrdd i warchod y Gymraeg yn y cymunedau Cymraeg yn y dyfodol.

Well, three things: first of all, they can do that if they have the evidence available. Secondly, of course, we have changed the Bill to strengthen the Welsh language component, and if there are any sensible ideas about how we can move forward, we are open to those. What we can't do is support a situation where all applications would have to have some sort of language assessment. I don't think that any sensible person is suggesting that, but the trick is to know where to draw the line. What kinds of schemes should have an assessment, what kinds shouldn't have an assessment and in what way do you ensure that somebody doesn't try to go from one line to another and try to avoid the rules? Therefore, work has been done thus far, and we are quite willing to ensure that discussions continue in order to find more ways to safeguard the Welsh language in Welsh-speaking communities in the future.

13:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We now move back to the questions on the paper. It's question 3, from Alun Ffred Jones.

Symudwn yn ôl at y cwestiynau ar y papur nawr. Cwestiwn 3, gan Alun Ffred Jones.

## Canolfannau Cymraeg i Oedolion

## Welsh-for-adults Centres

13:52 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*3. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ganolfannau Cymraeg i Oedolion? OAQ(4)2174(FM)*

*3. Will the First Minister make a statement on Welsh-for-adults centres? OAQ(4)2174(FM)*

13:52 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Rydym yn gwireddu argymhellion y grŵp adolygu Cymraeg i oedolion ac yn sefydlu'r hyn sy'n cael ei alw ar hyn o bryd yn endid cenedlaethol i arwain y maes yn strategol. Yn dilyn blwyddyn interim i ganiatáu i'r endid sefydlu, o 1 Awst 2016, bydd y canolfannau yn dod i ben a'r endid fydd yn gyfrifol am arwain y darparwyr.

We are implementing the recommendations of the Welsh-for-adults review group and establishing what's called a national entity to lead the sector strategically. Following an interim year to allow the entity to establish, from 1 August 2016, the centres will cease to exist and the entity will lead the providers.

13:52 **Alun Ffred Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr. Fel rydym ni'n gwybod, mae'r polisi o ddysgu ail iaith yn ein hysgolion ni wedi profi'n fethiant ac wedi cael ei feirniadu'n hael. Nid oes dim symud wedi bod am ddwy flynedd ers cyhoeddi'r adroddiad beirniadol hwnnw. O ran y canolfannau yma a'r broses rydych chi newydd ei disgrifio o greu'r endid cenedlaethol, fe fydd angen i'r corff hwnnw fod yn un credadwy gyda phrofiad ymarferol llwyddiannus. Ond proses fewnol ydy hi, fel rwy'n ei deall—y broses dendro. Mae'n broses gudd, ac, er tegwch â'r cyrff sydd wedi cyflwyno ceisiadau ac er sicrhau tryloywder, a wnewch chi benodi arfarnwr annibynnol i sicrhau tegwch a gwrthrychedd y broses yma?

Thank you very much. As we know, the policy of teaching a second language in our schools has proved to be a failure and has been harshly criticised. There's been no movement for two years since the publication of that critical report. In terms of these centres and the process that you've just described in creating this national entity, that body must be credible, with practical experience and a record of success. However, it's an internal process, as I understand it—this tendering process. It's a hidden process and, in fairness to those organisations that have submitted applications and in order to ensure transparency, will you appoint an independent adjudicator to ensure fairness and objectivity within this system?

13:53 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yn gyntaf, yn rheswm pam nad yw dim byd wedi newid ers i adroddiad Sioned Davies gael ei gyhoeddi yw'r ffaith bod yr Athro Donaldson wedi cyhoeddi adroddiad ar y cwricwlwm ei hun. Felly, roedd yn gwneud yn synnwyr i'r naill fwydo i mewn i'r llall, a dyna'n gwmws beth sydd wedi digwydd. Yn ail, wrth gwrs, nid wyf yn gweld bod unrhyw fath o broblem yn fan hyn ynglŷn ag annibyniaeth y system. Rydym ni'n ystyried y ceisiadau sydd wedi cael eu rhoi i mewn ar hyn o bryd. Nid wyf yn gweld unrhyw dystiolaeth i ddweud bod rhyw fath o broblem am degwch y system hynny.

First of all, the reason why nothing has changed since Sioned Davies's report was published is the fact that Professor Donaldson has published a report on the curriculum itself. So, it made sense for one to feed into the other, which is exactly what has happened. Second, of course, I don't see that there is any kind of problem here in terms of the independence of the system. We are considering the applications that have been put forward at present. I don't see any evidence to suggest that there is any problem about the fairness of that situation.

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Suzy Davies** Bywgraffiad Biography

Brif Weinidog, yn eich tystiolaeth i'r Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog yr wythnos diwethaf, fe ddywedoch chi eich bod chi wedi cyhoeddi canllawiau—'toolkit'—i asesu effeithiau penderfyniadau polisi ar yr iaith Gymraeg. Pe byddai'r canllawiau ar waith y llynedd, a ydych chi'n meddwl y byddech chi wedi cymryd yr un penderfyniad i gael gwared ar gyllid canolfannau Cymraeg i oedolion?

First Minister, in your evidence to the Committee for the Scrutiny of the First Minister last week you said that you had published guidelines—a toolkit—to assess the impacts of policy decisions on the Welsh language. Now, if that toolkit had been implemented last year, do you think that you would have taken the same decision to actually abolish the budget for Welsh-for-adults centres?

Senedd.tv Fideo Video

13:54 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Wel, wrth gofio'r sefyllfa ariannol, beth rŷm ni wedi trial ei wneud yw blaenoriaethu lle y dylai'r arian gael ei hala. Rŷm ni wedi gwneud hynny wrth sicrhau bod arian cyfalaf ar gael i'r canolfannau iaith, a thrwy sicrhau, wrth fwrw ymlaen, ei bod ni'n gweithio'n agos gyda phob corff sydd yn cefnogi'r iaith Gymraeg yn ein cymunedau. Lle mae sefyllfa o lai o arian, mae'n bwysig dros ben i flaenoriaethu lle mae'r arian yn mynd.

Well, bearing in mind the financial situation, what we've tried to do is prioritise where the funding should be spent. We've done so by ensuring that capital funding is available for the language centres, and by ensuring, in moving forward, that we work in close collaboration with every organisation that supports the Welsh language in our communities. Where there is a situation where there is less funding available, it is extremely important to prioritise where that funding goes.

Senedd.tv Fideo Video

### Hyrwyddo Ynni Adnewyddadwy

### Renewable Energy

13:55 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

*4. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisïau Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo ynni adnewyddadwy? OAQ(4)2187(FM)*

*4. Will the First Minister make a statement on Welsh Government policies for promoting renewable energy? OAQ(4)2187(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

We are committed to promoting and supporting renewable energy projects and maximising their economic and environmental benefits to Wales.

Rydym ni wedi ymrwymo i hyrwyddo a chefnogi prosiectau ynni adnewyddadwy a sicrhau bod eu manteision economaidd ac amgylcheddol cymaint â phosibl i Gymru.

Senedd.tv Fideo Video

13:55 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister. As you will be aware, four of the proposed new possible hydroelectric tidal lagoons have been earmarked off the Welsh coast—two of them in the Severn estuary. I appreciate this is early days, but the potential of these lagoons for future power generation is enormous, with the possibility of around 7 per cent of England and Wales's overall power generation. Do you agree with me that these lagoons represent a potential reliable power source, without some of the wider implications of a barrage or, indeed, visually intrusive windfarms? Will your Government be negotiating with the companies involved and with the UK Government to make sure that Wales does benefit more from tidal energy than we have in the past?

Diolch yn fawr, Brif Weinidog. Fel y gwyddoch, mae pedwar o'r morlynnoedd llanw trydan dŵr posibl newydd arfaethedig wedi eu clustnodi oddi ar arfordir Cymru—dau ohonyn nhw yn aber Afon Hafren. Rwy'n sylweddoli mai dyddiau cynnar yw'r rhain, ond mae potensial y morlynnoedd hyn ar gyfer cynhyrchu ynni yn y dyfodol yn enfawr, gyda'r posibilrwydd o tua 7 y cant o gyfanswm cynhyrchiant ynni Cymru a Lloegr. A ydych chi'n cytuno â mi bod y morlynnoedd hyn yn cynrychioli ffynhonnell bŵer ddibynadwy bosibl, heb rai o oblygiadau ehangach morglawdd neu, yn wir, ffermydd gwynt sy'n weledol ymwthiol? A fydd eich Llywodraeth yn trafod gyda'r cwmnïau dan sylw a chyda Llywodraeth y DU i sicrhau bod Cymru yn elwa mwy o ynni'r llanw nag yr ydym ni wedi ei wneud yn y gorffennol?

13:56 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Bear in mind, of course, that the problem is we have very little powers at the time being in terms of marine energy—1 MW, actually, is the limit. We know, of course, of the proposals that have been put forward as a result of the St David's Day process, which we welcome. That will give us more control and, more importantly, the ability to promote renewable energy in the way that we would want. The difficulty is, of course, that we don't control the ROCs—the renewables obligation certificates—as Scotland does, and that means we're not able to offer as much money as Scotland does, because of their control of their subsidy regime. That's why Scotland has done better than we have, despite the fact that circumstances are less promising. Because there has been more money, they've been able to put more money on the table, and they've been permitted to put more money on the table, in a way that we have not.

Cofiwch, wrth gwrs, mai'r broblem yw mai prin iawn yw'r pwerau sydd gennym ni ar hyn o bryd o ran ynni morol—1 MW yw'r terfyn a dweud y gwir. Rydym ni'n gwybod, wrth gwrs, am y cynigion a gyflwynwyd o ganlyniad i broses Dydd Gŵyl Dewi, a chroesawn hynny. Bydd hynny'n rhoi mwy o reolaeth i ni ac, yn bwysicach, y gallu i hybu ynni adnewyddadwy yn y ffordd y byddem ni'n dymuno. Yr anhawster, wrth gwrs, yw nad ydym yn rheoli'r ROCau—y tystysgrifau rhwymo i ynni adnewyddadwy—fel y mae'r Alban yn ei wneud, ac mae hynny'n golygu nad ydym yn gallu cynnig gymaint o arian ag y mae'r Alban yn ei wneud, oherwydd bod ganddynt reolaeth dros eu cyfundrefn cymorthdaliadau. Dyna pam mae'r Alban wedi gwneud yn well na ni, er gwaethaf y ffaith bod yr amgylchiadau'n llai addawol. Gan y bu mwy o arian, maen nhw wedi gallu rhoi mwy o arian ar y bwrdd, ac fe'u caniatawyd i roi mwy o arian ar y bwrdd, mewn ffordd na chaniatawyd i ni.

But, I take his point. I think that there's great potential for tidal energy in Wales. The key will be—and this is something that we have spent time evaluating—that there are jobs onshore as well. We believe, for example, that Port Talbot is in a very good position as a deep dock to act as a maintenance and manufacturing base, and potentially, as they go further west, Milford Haven as well.

Ond, rwy'n derbyn ei bwynt. Rwy'n credu bod potensial enfawr ar gyfer ynni'r llanw yng Nghymru. Yr hyn a fydd yn allweddol—ac mae hyn yn rhywbeth yr ydym ni wedi treulio amser yn ei werthuso—yw bod swyddi ar y tir hefyd. Rydym ni'n credu, er enghraifft, bod Port Talbot mewn sefyllfa dda iawn fel doc dwfn i weithredu fel canolfan cynnal a chadw a gweithgynhyrchu, ac o bosibl, wrth iddyn nhw fynd ymhellach i'r gorllewin, Aberdaugleddau hefyd.

13:57 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the reasons why renewable energy has been promoted by the UK Government is, of course, to provide energy security, as well as the environmental impacts. But, that is also one of the reasons why they're promoting fracking as a means of extracting additional energy sources. Given the Welsh Government's stance on fracking, which I wholly agree with, what attitude is the Government taking towards test drilling, which, of course, is the first stage towards fracking? Will you be able to give guidance on that as well?

Brif Weinidog, un o'r rhesymau pam mae ynni adnewyddadwy wedi cael ei hyrwyddo gan Lywodraeth y DU, wrth gwrs, yw er mwyn rhoi sicrwydd ynni, yn ogystal â'r effeithiau amgylcheddol. Ond, mae hwnnw hefyd yn un o'r rhesymau pam maen nhw'n hyrwyddo ffracio fel ffordd o echdynnu ffynonellau ynni ychwanegol. O ystyried safbwynt Llywodraeth Cymru ar ffracio, ac rwyf yn cytuno'n llwyr â hwnnw, pa agwedd mae'r Llywodraeth yn ei chymryd tuag at ddrilio prawf, sef, wrth gwrs, y cam cyntaf tuag at ffracio? A allwch chi gynnig canllawiau ar hynny hefyd?

13:57 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, as far as boreholes are concerned, that is a matter for local authorities to determine. The position we have taken is against fracking, against the obtaining of shale gas. That is, we believe, a strong message that is being sent to the industry as to the Government's view on the extraction of shale gas and, indeed, fracking.

Wel, cyn belled ag y mae tyllau turio yn y cwestiwn, mater i awdurdodau lleol benderfynu arno yw hynny. Mae ein safbwynt ni yn erbyn ffracio, yn erbyn echdynnu nwy siâl. Mae honno, yn ein barn ni, yn neges gref sy'n cael ei hanfon i'r diwydiant o ran barn y Llywodraeth ar echdynnu nwy siâl ac, yn wir, ffracio.

Energy security is absolutely crucial; the Member is right. But, that does not mean, of course, that we should try to obtain energy at any cost, and that, of course, is the reason why the Minister's taken the action that he has.

Mae sicrwydd ynni'n gwbl hanfodol; mae'r Aelod yn iawn. Ond, nid yw hynny'n golygu, wrth gwrs, y dylem ni geisio cael gafael ar ynni ar unrhyw gost, a dyna'r rheswm, wrth gwrs, pam mae'r Gweinidog wedi cymryd y camau y mae wedi eu cymryd.

### Safleoedd Amgueddfa Cymru

### National Museum Wales Sites

13:58 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*5. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru i ddarparu mynediad am ddim i safleoedd Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru? OAQ(4)2176(FM)*

*5. Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's current free entry policy to National Museum Wales sites? OAQ(4)2176(FM)*

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes, of course. The programme for government commits us to the policy of free entry to the seven museums run by Amgueddfa Cymru—National Museum Wales.

Gwnaf, wrth gwrs. Mae'r rhaglen lywodraethu yn ein hymrwymo i'r polisi o fynediad am ddim i'r saith amgueddfa a redir gan Amgueddfa Cymru—National Museum Wales.

13:58 **Lynne Neagle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, I know that you're aware of my opposition to charging for underground tours at Big Pit National Coal Museum, proposals that fly in the face of our free entry policy. I'm very grateful to the director of National Museum Wales for meeting with me to discuss this proposal and, while I do understand the huge savings that they have to make, I do believe that the underground tour is the very heart of Big Pit and brings to life our industrial heritage in a truly unique way. First Minister, will you take the opportunity today to rule out charges for the underground tour?

Brif Weinidog, gwn eich bod yn ymwybodol o fy ngwrthwynebiad i godi tâl am deithiau tanddaearol yn Big Pit Amgueddfa Lofaol Cymru, cynigion sy'n mynd yn groes i'n polisi mynediad am ddim. Rwy'n ddiolchgar iawn i gyfarwyddwr Amgueddfa Genedlaethol Cymru am gwrdd â mi i drafod y cynnig hwn ac, er fy mod i'n deall yr arbedion enfawr y mae'n rhaid iddyn nhw eu gwneud, rwy'n credu bod y daith danddaearol yn ganolog i Big Pit ac yn dod â'n treftadaeth ddiwydiannol yn fyw mewn ffordd wirioneddol unigryw. Brif Weinidog, a wnewch chi achub ar y cyfle heddiw i gadarnhau na chodir tâl am y daith danddaearol?

13:58 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for her interest—Big Pit, of course, being in her constituency. I can say to her there will be no charges for underground tours at Big Pit. That has been made clear to the national museum and the national museum understand, of course, that they are obliged to keep to the programme for government's commitments.

Diolch i'r Aelod am ei diddordeb—â Big Pit, wrth gwrs, yn ei hetholaeth hi. Gallaf ddweud wrthi na fydd unrhyw dâl am deithiau tanddaearol yn Big Pit. Gwnaed hynny'n eglur i'r amgueddfa genedlaethol ac mae'r amgueddfa genedlaethol yn deall, wrth gwrs, bod yn rhaid iddi gadw at ymrwymiadau'r rhaglen lywodraethu.

13:59

## William Graham [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I'm most grateful to the First Minister for his statement just now, and I'm sure it will reassure many people in the Blaenavon area. Free entry has seen an average of a 110 per cent increase in visitors to Big Pit, which is clearly to be encouraged, but only a 15 per cent increase to the Roman museum and baths and amphitheatre at Caerleon. Has your Government looked at the implications of this considerable difference in the increase between these attractions?

Rwy'n hynod ddiolchgar i'r Prif Weinidog am ei ddatganiad nawr, ac rwy'n siŵr y bydd yn tawelu meddyliau llawer o bobl yn ardal Blaenafon. Mae mynediad am ddim wedi arwain at gynnydd cyfartalog o 110 y cant i ymwelwyr â Big Pit, sydd i'w annog, yn amlwg, ond dim ond cynnydd o 15 y cant i'r amgueddfa a'r baddonau a'r amffitheatr Rufeinig yng Nghaerllion. A yw eich Llywodraeth wedi ystyried goblygiadau'r gwahaniaeth sylweddol hwn yn y cynnydd rhwng yr atyniadau hyn?

13:59

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Well, first of all, we must welcome the fact there has been an increase. It's right to say that Big Pit has had a particularly impressive increase. It is quite unique in that sense, as is, of course, Caerleon, with the amphitheatre there. But, of course, Big Pit began life as a paid-for attraction before it came into the national museum, and now we see more and more people understanding that the underground tour is free. That, of course, means that we have more and more visitors, and it's important for us to remember the rich heritage that the mining industry created in south Wales, but also in Pembrokeshire and in the north-east of Wales as well.

Wel, yn gyntaf oll, mae'n rhaid i ni groesawu'r ffaith y bu cynnydd. Mae'n iawn i ddweud y bu cynnydd arbennig o drawiadol yn Big Pit. Mae'n eithaf unigryw yn yr ystyr hwnnw, fel y mae Caerllion, wrth gwrs, gyda'r amffitheatr yno. Ond, wrth gwrs, dechreuodd Big Pit fel atyniad y talwyd amdano cyn iddo ddod yn rhan o'r amgueddfa genedlaethol, ac rydym ni'n gweld erbyn hyn mwy a mwy o bobl yn deall bod y daith danddaearol yn rhad ac am ddim. Mae hynny, wrth gwrs, yn golygu bod mwy a mwy o ymwelwyr, ac mae'n bwysig i ni gofio'r dreftadaeth gyfoethog a grëwyd gan y diwydiant mwyngloddio yn y de, ond hefyd yn Sir Benfro a'r gogledd-ddwyrain hefyd.

14:00

## Bethan Jenkins [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

First Minister, you will know that National Museums Wales have had in-year cuts on top of cuts already forced on them by the Welsh Government. I've spoken to the director general on numerous occasions, and they're now in the predicament of having to change staff working conditions, close specific sites or end free entry. So they're looking at changing terms and conditions, which, obviously, is very unpopular. I wonder what discussions your Government has had with them to try and seek an alternative to this particular predicament, because, of course, only the population of Wales will suffer if they have to pay for access to these most vital public attractions.

Brif Weinidog, byddwch yn gwybod bod Amgueddfeydd Cenedlaethol Cymru wedi dioddef toriadau yn ystod y flwyddyn ar ben y toriadau a orfodwyd arnynt eisoes gan Lywodraeth Cymru. Rwyf wedi siarad â'r cyfarwyddwr cyffredinol ar sawl achlysur, ac maen nhw yn y sefyllfa anodd nawr o orfod newid amodau gwaith y staff, cau safleoedd penodol neu roi terfyn ar fynediad am ddim. Felly, maen nhw'n ystyried newid telerau ac amodau, sydd, yn amlwg, yn amhoblogaidd iawn. Tybed pa drafodaethau mae eich Llywodraeth wedi'u cael gyda nhw i geisio dod o hyd i ddewis arall yn hytrach na'r sefyllfa anodd benodol hon, oherwydd, wrth gwrs, dim ond poblogaeth Cymru fydd yn dioddef os bydd rhaid iddyn nhw dalu am fynediad at yr atyniadau cyhoeddus cwbl hanfodol hyn.

14:01

## Carwyn Jones [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

I will say to the Member what I said some moments ago, namely, there will be no payment for entry into any of the national museum attractions. It's right to say, of course, that where there are exhibitions within the national museum particularly, as they have from time to time, they are paying attractions. But there will be no payment for the museum's ordinary offering and, particularly, no payment for the underground tour at Big Pit.

Rwyf am ddweud wrth yw Aelod yr hyn a ddywedais ychydig funudau'n ôl, sef, ni fydd unrhyw dâl am fynediad i unrhyw un o atyniadau'r amgueddfa genedlaethol. Mae'n gywir dweud, wrth gwrs, lle ceir arddangosfeydd yn yr amgueddfa genedlaethol yn arbennig, fel sydd ganddyn nhw o bryd i'w gilydd, eu bod nhw'n atyniadau talu. Ond ni fydd unrhyw dâl am gynnig arferol yr amgueddfa ac, yn benodol, dim tâl ar gyfer y daith danddaearol yn Big Pit.

14:01 **William Powell** Bywgraffiad Biography

First Minister, you may have received the news that, last week, the Brecon Beacons National Park planning authority gave the go-ahead to a multi-million pound redevelopment in the heart of Brecon, around the museum and gallery. It is being funded by the Heritage Lottery Fund and supported by Powys County Council, and it will incorporate a heritage and culture hub, which will greatly enrich experience in that area. First Minister, I hope you will join me in welcoming this good news, which goes back, I think, to the days of the partnership Government and was spearheaded very much in that early time by my colleague Baroness Jenny Randerson of Roath Park. Will you, First Minister, give a guarantee that the Welsh Government will look, in the future, to giving its support—financial and in other ways—to encouraging important developments of this kind?

Brif Weinidog, efallai eich bod wedi derbyn y newyddion, yr wythnos diwethaf, bod awdurdod cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi rhoi sêl bendith i ailddatblygiad gwerth miliynau o bunnoedd yng nghanol Aberhonddu, o gwmpas yr amgueddfa a'r oriel. Mae'n cael ei ariannu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri a'i gefnogi gan Gyngor Sir Powys, a bydd yn cynnwys canolfan treftadaeth a diwylliant, a fydd yn cyfoethogi profiad yn fawr yn yr ardal honno. Brif Weinidog, rwy'n gobeithio y byddwch chi'n ymuno â mi i groesawu'r newyddion da hyn, sy'n mynd yn ôl, rwy'n meddwl, i ddyddiau'r Llywodraeth bartneriaeth ac a arweiniwyd yn fawr iawn yn ystod y cyfnod cynnar hwnnw gan fy nghydweithiwr, y Farwnes Jenny Randerson Parc y Rhath. A wnewch chi, Brif Weinidog, sicrhau y gwnaiff Llywodraeth Cymru ystyried, yn y dyfodol, rhoi ei chefnogaeth—ariannol ac mewn ffyrdd eraill—i annog datblygiadau pwysig o'r math hwn?

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

I join the Member, of course, in welcoming the proposals. He tests my memory when he talks about the partnership Government, but nevertheless, I take his word on that point. From our point of view, we could not revenue-fund any new development—he will know that. But he will also know, of course, that capital assistance is available for good projects across Wales.

Rwy'n ymuno â'r Aelod, wrth gwrs, i groesawu'r cynigion. Mae'n rhoi prawf ar fy nghof pan ei fod yn sôn am y Llywodraeth bartneriaeth, ond serch hynny, rwy'n cymryd ei air ar y pwynt hwnnw. O'n safbwynt ni, ni allem refeniw ariannu unrhyw ddatblygiad newydd—bydd yn gwybod hynny. Ond bydd hefyd yn gwybod, wrth gwrs, bod cymorth cyfalaf ar gael ar gyfer prosiectau da ledled Cymru.

Senedd.tv Fideo Video

14:02 **Christine Chapman** Bywgraffiad Biography

I was delighted when the Cynon valley museum trust was established to take over the running of the museum in Aberdare when it faced closure last year. Importantly, the trustees have retained a policy of free entry for when the museum is open. First Minister, will you join me in congratulating the council, museum trustees and the local community for making this happen? What plans has the Welsh Government to support community groups such as this in the future?

Roeddwn i wrth fy modd pan sefydlwyd ymddiriedolaeth amgueddfa cwm Cynon i gymryd drosodd y gwaith o redeg yr amgueddfa yn Aberdâr pan roedd yn wynebu cael ei chau y llynedd. Yn bwysig, mae'r ymddiriedolwyr wedi cadw polisi o fynediad am ddim ar gyfer pan fydd yr amgueddfa'n agor. Brif Weinidog, a wnewch chi ymuno â mi i longyfarch y cyngor, ymddiriedolwyr yr amgueddfa a'r gymuned leol ar sicrhau bod hyn yn digwydd? Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gefnogi grwpiau cymunedol fel hyn yn y dyfodol?

Senedd.tv Fideo Video

14:03 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Yes. I thank the Member for the question. I've been impressed by the positive way the council, the trust and the local community are now collaborating to keep the local museum open. Of course, running a museum does require a long-term commitment; we understand that. I can say that CyMAL, which, of course, is a division of the Welsh Government, does provide specialist advice, support and training to any organisation that demonstrates a willingness to work to the national standards—in other words, to the accreditation scheme for museums and galleries in the United Kingdom. That assistance is available in order to make sure that museums reach the standard that I'm sure they would want to reach anyway.

Gwnaf. Diolch i'r Aelod am y cwestiwn. Mae'r ffordd gadarnhaol y mae'r cyngor, yr ymddiriedolaeth a'r gymuned leol yn cydweithio erbyn hyn i gadw'r amgueddfa leol ar agor wedi gwneud cryn argraff arnaf i. Wrth gwrs, mae rhedeg amgueddfa yn gofyn am ymrwymiad hirdymor; rydym ni'n deall hynny. Gallaf ddweud bod CyMAL, sydd, wrth gwrs, yn is-adran o Lywodraeth Cymru, yn darparu cyngor, cymorth a hyfforddiant arbenigol i unrhyw sefydliad sy'n dangos parodrwydd i weithio'n unol â'r safonau cenedlaethol—mewn geiriau eraill, yn unol â'r cynllun achredu ar gyfer amgueddfeydd ac orielau yn y Deyrnas Unedig. Mae'r cymorth hwnnw ar gael er mwyn gwneud yn siŵr bod amgueddfeydd yn bodloni'r safon yr wyf yn siŵr y bydden nhw'n dymuno ei bodloni beth bynnag.

Senedd.tv Fideo Video

## Economi Cymru

## The Welsh Economy

14:03 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*6. A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd sefydliadau addysg uwch o ran datblygu economi Cymru? OAQ(4)2175(FM)*

*6. Will the First Minister make a statement on the importance of Wales's higher education establishments in developing the Welsh economy? OAQ(4)2175(FM)*

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

They make a huge contribution to our economy. They are large local employers that generate highly skilled graduates, they attract investment, stimulate the growth of spin-out and start-up companies, and, of course—as demonstrated by Wales's great results in the recent research excellence framework—they conduct research with real social and economic impact.

Maen nhw'n gwneud cyfraniad enfawr i'n heconomi. Maen nhw'n gyflogwyr lleol mawr sy'n cynhyrchu graddedigion medrus iawn, maen nhw'n denu buddsoddiad, yn ysgogi twf cwmnïau deillio a newydd, ac, wrth gwrs—fel y dangoswyd gan ganlyniadau gwych Cymru yn y fframwaith rhagoriaeth ymchwil diweddar—maen nhw'n gwneud gwaith ymchwil ac iddo effaith gymdeithasol ac economaidd wirioneddol .

14:04 **Mike Hedges** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank you for that response. As you've just said, with the research being carried out at Welsh universities, especially Swansea and Cardiff, being amongst the best in the world, what more can be done to use that research expertise to develop the Welsh economy?

Diolchaf i chi am yr ymateb yna. Fel yr ydych chi newydd ei ddweud, gan fod y gwaith ymchwil sy'n cael ei wneud ym mhrifysgolion Cymru, yn enwedig Abertawe a Chaerdydd, ymhlith y gorau yn y byd, beth arall y gellir ei wneud i ddefnyddio'r arbenigedd ymchwil hwnnw i ddatblygu economi Cymru?

14:04 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, I think it's fair to say that universities have, in the past few years, understood better their role as economic drivers, and in particular, their role in working with businesses and potential entrepreneurs to roll out and commercialise the knowledge that the universities create. I dare say that, 10 years ago, that wasn't quite as clear as far as universities were concerned, but it's absolutely right to say—. I'll give you one example: the SMARTCymru innovation support programme. We are focused on driving research with a clear emphasis on larger, discrete strategic projects, but also, of course, making sure that we create research that has a social and economic benefit at the end of it. I very much welcome the fact that our universities have bought in to that idea, and we see now, of course, the spin-offs around Cardiff University, we see the spin-offs as a result of the Institute of Life Sciences in Swansea and, of course, the great work being done in other universities—in all our other universities in Wales—in terms of making sure that the knowledge they generate generates a benefit for the local community.

Wel, rwy'n meddwl ei bod yn deg i ddweud bod prifysgolion wedi deall yn well, yn y blynyddoedd diwethaf, eu swyddogaeth fel sbardunwyr economaidd, ac yn benodol, eu swyddogaeth yn gweithio gyda busnesau a darpar entrepreneuriaid i gyflwyno a masnacheiddio'r wybodaeth y mae'r prifysgolion yn ei chreu. Efallai, 10 mlynedd yn ôl, nad oedd hynny mor eglur cyn belled ag yr oedd prifysgolion yn y cwestiwn, ond mae'n gwbl gywir i ddweud—. Rhoddaf un enghraifft i chi: rhaglen cymorth arloesi SMARTCymru. Rydym ni'n canolbwyntio ar sbarduno ymchwil gyda phwyslais eglur ar brosiectau strategol, synhwyrol, mwy ond hefyd, wrth gwrs, ar wneud yn siŵr ein bod yn creu gwaith ymchwil sydd â budd cymdeithasol ac economaidd ar ei ddiwedd. Rwy'n croesawu'n fawr y ffaith bod ein prifysgolion wedi cytuno â'r syniad hwnnw, ac rydym yn gweld erbyn hyn, wrth gwrs, y cwmnïau deillio o gwmpas Prifysgol Caerdydd, rydym yn gweld y cwmnïau deillio o ganlyniad i'r Sefydliad Gwyddorau Bywyd yn Abertawe ac, wrth gwrs, y gwaith gwych sy'n cael ei wneud mewn prifysgolion eraill—ym mhob un o'n prifysgolion eraill yng Nghymru—o ran gwneud yn siŵr bod y wybodaeth maen nhw'n ei chynhyrchu yn creu budd i'r gymuned leol.

14:05 **Paul Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Prif Weinidog, fel rydych chi'n ymwybodol, mae Coleg Sir Benfro yn darparu cyrsiau addysg uwch i bobl leol, sydd yn bwysig i economi sir Benfro. Yn sgil purfa olew Murco yn cau, mae'n hollbwysig bod yna gyfleoedd addysg uwch yn yr ardal er mwyn datblygu sgiliau pobl ymhellach. Pa gefnogaeth ychwanegol ydych chi fel Llywodraeth wedi ei hystyried er mwyn sicrhau bod Coleg Sir Benfro yn gallu darparu cyrsiau addysg uwch ychwanegol er mwyn cefnogi'r economi leol?

First Minister, as you are aware, Pembrokeshire College provides higher education courses for local people, which is important for the Pembrokeshire economy. In light of the closure of the Murco refinery, it is crucially important that HE opportunities are available in the area to develop people's skills further. What additional support have you as a Government considered to ensure that Pembrokeshire College can provide additional higher education courses to support the local economy?

14:06 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Wel, mae hyn, wrth gwrs, yn rhywbeth sydd wedi digwydd mewn sawl coleg, gyda'r nod o sicrhau bod yna integreiddio yn digwydd rhwng colegau addysg bellach a phrifysgolion. Rwy'n croesawu hynny. Rwy'n credu ei fod yn rhoi cyfle i lawer o bobl ifanc nad oes ganddynt, efallai, yr hyder i symud bant o gartref, i sicrhau eu bod nhw'n gallu cael addysg uwch yn eu cymunedau eu hunain, ac efallai roi hyder iddyn nhw yn y dyfodol. Rydym ni yn barod, wrth gwrs, i weithio gyda'r colegau, a hefyd gyda'r prifysgolion, er mwyn sicrhau bod y broses yna yn parhau yn y dyfodol.

Well, this is, of course, something that has happened in several colleges, with the aim of ensuring that there is integration between further education colleges and universities. I welcome that; I think it provides opportunities for many young people who, perhaps, do not have the confidence to move away from home, ensuring that they can have a higher education in their own communities, and will, perhaps, provide them with confidence for the future. We are willing to work with the colleges and universities to ensure that that process does continue in future.

14:06 **Mick Antoniw** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, will you also, in the same vein, recognise the considerable achievements of places like Coleg y Cymoedd in Nantgarw in my constituency, built on the site of the former Nantgarw colliery, and the three students who've recently been accepted into Oxbridge universities through the educational programmes there, including one particular constituent of mine, Calum Haggett, from Tonyrefail, who captained Wales under-18s to victory last weekend? Would you be willing to write to those students to congratulate them on their achievement? Do you actually recognise the particular role that colleges like Coleg y Cymoedd play in educational excellence in Wales and the long-term benefits to the Welsh economy?

Brif Weinidog, a wnewch chi hefyd, yn yr un modd, gydnabod llwyddiannau sylweddol lleoedd fel Coleg y Cymoedd yn Nantgarw yn fy etholaeth i, a adeiladwyd ar safle hen lofa Nantgarw, a'r tri myfyriwr a dderbyniwyd yn ddiweddar i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt drwy'r rhaglenni addysgol yno, gan gynnwys un o'm hetholwr penodol i, Calum Haggett, o Donyrefail, sef capten tîm dan 18 oed Cymru yn y fuddugoliaeth y penwythnos diwethaf? A fyddech chi'n barod i ysgrifennu at y myfyrwyr hynny i'w llongyfarch ar eu llwyddiant? A ydych chi'n cydnabod mewn gwirionedd y swyddogaeth benodol y mae colegau fel Coleg y Cymoedd yn ei chyflawni mewn rhagoriaeth addysgol yng Nghymru a'r manteision hirdymor i economi Cymru?

14:07 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Well, your constituent sounds like a true polymath, in the sense of being one of those people who are good at sport and academically good as well—the sort of people we all knew in school. The important point is this: I would obviously offer my congratulations to these students, as I would offer my congratulations to all students who go forward to higher education and other forms of education in Wales. He mentions the Oxbridge process, and it's good to see youngsters making sure, or youngsters feeling, that they're able to apply to the Oxbridge universities in a way, perhaps, that wouldn't have occurred to them in years gone by. But it is an early indicator, of course, that the strategy as indicated to us by Paul Murphy, of encouraging more youngsters to apply for the Oxbridge universities, is beginning to bear fruit.

Wel, mae eich etholwr yn swnio fel polymath go iawn, yn yr ystyr o fod yn un o'r bobl hynny sy'n dda ym maes chwaraeon ac yn dda yn academaidd hefyd—y math o bobl yr oeddem ni i gyd yn eu hadnabod yn yr ysgol. Y pwynt pwysig yw hwn: byddwn yn amlwg yn cynnig fy llongyfarchiadau i'r myfyrwyr hyn, fel y byddwn yn cynnig fy llongyfarchiadau i bob myfyriwr sy'n mynd ymlaen i addysg uwch a mathau eraill o addysg yng Nghymru. Mae'n crybwyll y broses Rhydychen a Chaergrawnt, ac mae'n dda gweld pobl ifanc yn sicrhau, neu bobl ifanc yn teimlo, eu bod yn gallu gwneud cais i brifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt mewn modd, efallai, na fyddent wedi meddwl amdano yn y blynyddoedd a fu. Ond mae'n ddangosydd cynnar, wrth gwrs, bod y strategaeth fel y nodwyd i ni gan Paul Murphy, o annog mwy o bobl ifanc i wneud cais am le ym mhrifysgolion Rhydychen a Chaergrawnt, yn dechrau dwyn ffrwyth.

## Darpariaeth Gofal Plant

## Childcare Provision

14:08 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*7. Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gynyddu'r ddarpariaeth o ofal plant yng Nghymru? OAQ(4)2186(FM)*

*7. What plans does the Welsh Government have to increase childcare provision in Wales? OAQ(4)2186(FM)*

14:08 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Ensuring access to affordable, high-quality childcare for all children and families across Wales, especially the most disadvantaged, remains one of our top priorities. Of course, it's central to our tackling poverty agenda and the early years and childcare plan.

Mae sicrhau mynediad at ofal plant fforddiadwy, o ansawdd uchel i bob plentyn a theulu ledled Cymru, yn enwedig y rhai mwyaf difreintiedig, yn dal i fod yn un o'n prif flaenoriaethau. Wrth gwrs, mae'n ganolog i'n hagenda trechu tlodi a chynllun y blynyddoedd cynnar a gofal plant.

14:08 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, First Minister, for that response. I welcome Welsh Labour's commitment to double the amount of childcare available for three and four-year-olds to help working parents, because I think this is absolutely essential. Can the First Minister use his influence to try to persuade HMRC to continue to provide a lease for a workplace nursery at the Inland Revenue in Llanishen in my constituency of Cardiff North? The present nursery is due to close on August 29, and I think it is vital we keep all forms of childcare going.

Diolch i chi, Brif Weinidog, am yr ymateb yna. Rwy'n croesawu ymrwymiad Llafur Cymru i ddyblu faint o ofal plant sydd ar gael ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed i helpu rhieni sy'n gweithio, gan fy mod i'n credu bod hyn yn gwbl hanfodol. A wnaiff y Prif Weinidog ddefnyddio ei ddylanwad i geisio perswadio CThEM i barhau i ddarparu les ar gyfer meithrinfa yn y gweithle yn swyddfa Cyllid y Wlad yn Llanisien yn fy etholaeth i yng Ngogledd Caerdydd? Disgwylir i'r feithrinfa bresennol gau ar 29 Awst, ac rwy'n credu ei bod yn hanfodol ein bod yn cadw pob math o ofal plant i fynd.

14:09 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

Yes. I remember in 2012 the Member was particularly vociferous in the campaign to keep the provision at HMRC. As a result of the stance that she took, and perhaps a little in terms of the letter that I wrote in October 2012, the nursery contract was then renewed. Now, of course, it faces expiry, in terms of the present contract, by October this year. I will write once again to urge HMRC to continue this provision, because we know that it fulfils such an important duty in terms of enabling people to go to work. Those of us with children will have recognised that from years gone by, and those with children now. But I will write to HMRC along the same lines as I wrote in 2012, and I will once again make clear the strong views held by so many in her constituency and beyond, and in particular the campaign that she has led, both now and in years gone by.

Gwnaf. Rwy'n cofio yn 2012 bod yr Aelod yn arbennig o uchel ei chloch yn yr ymgyrch i gadw'r ddarpariaeth yn CThEM. O ganlyniad i'r safiad iddi ei gymryd, ac efallai rhywfaint oherwydd y llythyr a ysgrifennais i ym mis Hydref 2012, adnewyddwyd contract y feithrinfa wedi hynny. Nawr, wrth gwrs, mae ar fin dod i ben, o ran y contract presennol, erbyn mis Hydref eleni. Byddaf yn ysgrifennu unwaith eto i annog CThEM i barhau â'r ddarpariaeth hon, gan ein bod yn gwybod ei bod yn cyflawni dyletswydd mor bwysig o ran galluogi pobl i fynd i'r gwaith. Bydd y rhai ohonom sydd â phlant wedi cydnabod hynny o'r blynyddoedd a fu, a'r rhai sydd â phlant nawr. Ond byddaf yn ysgrifennu at CThEM mewn ffordd debyg i'r ffordd yr ysgrifennais yn 2012, a byddaf yn ei gwneud yn eglur unwaith eto y safbwynt cryf sydd gan gymaint o bobl yn ei hetholaeth hi a thu hwnt, ac yn arbennig yr ymgyrch y mae hi wedi ei arwain, yn awr ac yn y blynyddoedd a fu.

14:10 **Byron Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, a really good news story is the Westminster Government's increased childcare provision, and especially the introduction of tax-free childcare. This is creating true choice for parents about whether to return to work or stay at home. Will you, First Minister, join me in welcoming these improvements in childcare provision to date by the current UK Government and also outline how you are ensuring childcare provision is maximised in Wales?

Brif Weinidog, newyddion da iawn yw darpariaeth gofal plant gynyddol Llywodraeth San Steffan, ac yn enwedig ei bod wedi cyflwyno gofal plant di-dreth. Mae hyn yn creu dewis gwirioneddol i rieni ynghylch pa un a ddylent ddychwelyd i'r gwaith neu aros gartref. A wnewch chi, Brif Weinidog, ymuno â mi i groesawu'r gwelliannau hyn yn y ddarpariaeth gofal plant hyd yn hyn gan Lywodraeth bresennol y DU a hefyd amlinellu sut yr ydych chi'n sicrhau bod cymaint â phosibl o ddarpariaeth gofal plant yng Nghymru?

14:10 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Senedd.tv Fideo Video

We already have childcare provision, of course, that we have taken forward, but I hear what the Member says: he wishes to see childcare extended. I extend the invitation to him to welcome the commitment made by my party, both at a UK level and here in Wales.

Mae gennym ni ddarpariaeth gofal plant eisoes, wrth gwrs, yr ydym ni wedi ei datblygu, ond rwy'n clywed yr hyn y mae'r Aelod yn ei ddweud: mae'n dymuno gweld gofal plant yn cael ei ehangu. Hoffwn ei wahodd i groesawu'r ymrwymiad a wnaed gan fy mhlaid i, ar lefel y DU ac yma yng Nghymru.

14:10 **Eluned Parrott** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

One significant gap is wraparound care, particularly for working parents who want to take advantage of their free two-and-a-half hour nursery place but can't find a local childcare provider to deliver and collect a child for such a short placement. Authorities in England offer vouchers to working parents, which can be used as part-payment at a full-time nursery, and some also offer two-and-a-half full days a week, rather than five half-days a week, which working parents report as being hugely beneficial to them. I wonder what the Welsh Government can do to encourage flexibility from local authorities in the delivery of their statutory nursery provision.

Un bwlch sylweddol yw gofal cofleidiol, yn enwedig i rieni sy'n gweithio ac sydd eisiau manteisio ar eu lle meithrin dwy awr a hanner am ddim ond nad ydynt yn gallu canfod darparwr gofal plant lleol i ddanfon a chasglu plentyn ar gyfer lleoliad mor fyr. Mae awdurdodau yn Lloegr yn cynnig talebau i rieni sy'n gweithio, y gellir eu defnyddio fel rhandaliad mewn meithrinfa llawn amser, ac mae rhai hefyd yn cynnig dau ddiwrnod a hanner llawn yr wythnos, yn hytrach na phum hanner diwrnod yr wythnos, ac mae rhieni sy'n gweithio yn dweud bod hynny o fudd enfawr iddyn nhw. Tybed beth all Llywodraeth Cymru ei wneud i annog hyblygrwydd gan awdurdodau lleol wrth gyflwyno eu darpariaeth feithrin statudol.

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, she seems to advocate nursery vouchers, that I can see. Now, it's important, of course, that the flexibility is there, I understand that, but I would not want to see a system whereby existing provision is undermined by the use of vouchers. It is a matter for local authorities, of course, to consider how best to provide the childcare that they are obliged to provide. Of course, I'm sure they will study what happens in some authorities in England with interest.

Wel, mae'n ymddangos ei bod hi'n hyrwyddo talebau meithrin, gallaf weld hynny. Nawr, mae'n bwysig, wrth gwrs, bod yr hyblygrwydd ar gael, rwy'n deall hynny, ond ni fyddwn eisiau gweld system lle mae'r ddarpariaeth bresennol yn cael ei thanseilio gan y defnydd o dalebau. Mater i awdurdodau lleol, wrth gwrs, yw ystyried y ffordd orau o ddarparu'r gofal y mae'n rhaid iddyn nhw ei ddarparu. Wrth gwrs, rwy'n siŵr y byddant yn edrych yn fanwl ar yr hyn sy'n digwydd mewn rhai awdurdodau yn Lloegr gyda diddordeb.

## Cefnogaeth i Ofalwyr

## Support to Carers

14:11 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*8. A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gefnogaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i ofalwyr yng ngogledd-ddwyrain Cymru? OAQ(4)2181(FM)*

*8. Will the First Minister provide an update on the support the Welsh Government is giving to carers in north-east Wales? OAQ(4)2181(FM)*

14:11 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

The Carers Strategies (Wales) Measure 2010 and, of course, the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 clearly set out our commitment to carers. We have invested £238,400 to support carers in the north of Wales, including working with young adult carers and GPs.

Mae Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010 ac, wrth gwrs, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn nodi'n eglur ein hymrwymiad i ofalwyr. Rydym ni wedi buddsoddi £238,400 i gefnogi gofalwyr yn y gogledd, gan gynnwys gweithio gyda gofalwyr sy'n oedolion ifanc a gyda meddygon teulu.

14:12 **Sandy Mewies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you for that. I recently joined staff, volunteers and carers at an event that marked the future role of NEWCIS, the North East Wales Carers Information Service. I first worked with NEWCIS some 21 years ago, when it was the Carers Project. Then, 65 carers used their service; now, there are more than 8,600 and, rather sadly in some ways, it's going up all the time, but what would they do without them? This is an illustration of just how valuable the work of NEWCIS has become in north-east Wales in giving this support. Their success is an example of local agencies working together. So, can I ask you, First Minister, to join me in congratulating NEWCIS on the work they're doing? We know the money it saves the NHS, not just here in Wales, but also through the UK. Can I ask you to continue to help carers across Wales access the support and information they need to maintain their own health and wellbeing?

Diolch i chi am hynna. Ymunais â staff, gwirfoddolwyr a gofalwyr yn ddiweddar mewn digwyddiad a oedd yn nodi swyddogaeth NEWCIS, Gwasanaeth Gwybodaeth Gofalwyr Gogledd-ddwyrain Cymru, yn y dyfodol. Gweithiais gyda NEWCIS gyntaf tua 21 mlynedd yn ôl, pan y'i hadnabuwyd fel y Prosiect Gofalwyr. Bryd hynny, 65 o ofalwyr oedd yn defnyddio eu gwasanaeth; erbyn hyn, mae mwy na 8,600 yn ei ddefnyddio a, braidd yn drist mewn rhai ffyrdd, mae hynny'n cynyddu drwy'r amser, ond beth fydden nhw'n ei wneud hebddo? Mae hon yn enghraifft o ba mor werthfawr yw gwaith NEWCIS erbyn hyn yn y gogledd-ddwyrain o ran cynnig y cymorth hwn. Mae ei lwyddiant yn enghraifft o asiantaethau lleol yn cydweithio. Felly, a gaf i ofyn i chi, Brif Weinidog, ymuno â mi i longyfarch NEWCIS ar y gwaith y mae'n ei wneud? Rydym ni'n gwybod faint o arian y mae'n ei arbed i'r GIG, nid yn unig yma yng Nghymru, ond ledled y DU hefyd. A gaf i ofyn i chi barhau i helpu gofalwyr ledled Cymru i allu cael gafael ar y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain?

14:13 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Can I thank the Member for her comments and join with her in the sentiments that she has expressed? I think there are two things worth mentioning. Firstly, our carers strategy sets out our commitment to carers. A key theme within it is ensuring they have access to information and support—the support and information that they need in order for them to be able to undertake their caring role and to enable them, of course, to maintain their own health and wellbeing. Also, of course, the Social Services and Well-being (Wales) Act will replace the Measure, and that will strengthen our commitment to carers, giving them the same rights as the people they care for. I think the commitments that have been made, both in terms of legislation and in terms of the strategy, I hope, will show the value that the Welsh Government places on what carers deliver, not just for those they care for, but for society as a whole.

A gaf i ddiolch i'r Aelod am ei sylwadau ac ymuno â hi yn y teimladau a fynegwyd ganddi? Rwy'n credu bod dau beth sy'n werth eu crybwyll. Yn gyntaf, mae ein strategaeth ar gyfer gofalwyr yn nodi ein hymrwymiad i ofalwyr. Un o'i themâu allweddol yw sicrhau bod ganddynt fynediad at wybodaeth a chymorth—y cymorth a'r wybodaeth sydd eu hangen arnynt er mwyn iddyn nhw allu cyflawni eu swyddogaeth ofalu ac i'w galluogi, wrth gwrs, i gynnal eu hiechyd a'u lles eu hunain. Hefyd, wrth gwrs, bydd Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) yn disodli'r Mesur, a bydd hynny'n cryfhau ein hymrwymiad i ofalwyr, gan roi'r un hawliau iddyn nhw â'r bobl y maen nhw'n gofalu amdanynt. Rwy'n credu y bydd yr ymrwymiadau a wnaed, o ran deddfwriaeth ac o ran y strategaeth, rwy'n gobeithio, yn dangos y gwerth y mae Llywodraeth Cymru yn ei weld yn yr hyn y mae gofalwyr yn ei ddarparu, nid yn unig i'r rhai y maen nhw'n gofalu amdanynt, ond i gymdeithas yn ei chyfanrwydd.

14:14 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

First Minister, one of the things that carers regularly tell me is that they occasionally need some respite from their caring duties in order that they can recharge their batteries and, of course, to prevent burn-out. Given that those short periods of respite can often lead to them being able to undertake and continue their caring duties to a greater extent than they would be able to otherwise, do you think that it would be worthwhile introducing a right to respite for carers in the future, as was a commitment of the Welsh Conservatives in our manifesto in 2011?

Brif Weinidog, un o'r pethau y mae gofalwyr yn ei ddweud wrthyf yn gyson yw bod angen rhywfaint o seibiant o'u dyletswyddau gofalu arnynt yn achlysurol er mwyn magu nerth newydd ac, wrth gwrs, i'w hatal rhag blino'n llwyr. O gofio y gall y cyfnodau byr hynny o seibiant olygu'n aml y gallant gyflawni a pharhau â'u dyletswyddau gofalu i raddau mwy nag y gallent fel arall, a ydych chi'n credu y byddai'n werth chweil cyflwyno hawl i seibiant i ofalwyr yn y dyfodol, fel a oedd yn ymrwymiad gan Geidwadwyr Cymru yn ein maniffesto yn 2011?

14:14 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Well, all of us, I'm sure, would recognise the importance of respite for carers, that much is true. In terms of a right to respite, well, more work would need to be done in terms of what the costs would be, inevitably, but also in terms of how that would work on a practical basis. So, we could not give a commitment to introducing a right at this stage, although we all recognise of course the need for carers to have respite, and the strategy and, indeed, the legislation, we hope, will move forward in terms of being able to assist with the need for respite in the future.

Wel, byddai pob un ohonom, rwy'n siŵr, yn cydnabod pwysigrwydd seibiant i ofalwyr, mae cymaint â hynny'n wir. O ran yr hawl i seibiant, wel, byddai angen gwneud mwy o waith o ran beth fyddai'r costau, yn anochel, ond hefyd o ran sut y byddai hynny'n gweithio ar sail ymarferol. Felly, ni allem ni ymrwymo i gyflwyno hawl ar hyn o bryd, er ein bod i gyd yn cydnabod, wrth gwrs, yr angen i ofalwyr gael seibiant, a bydd y strategaeth ac, yn wir, y ddeddfwriaeth, gobeithio, yn symud ymlaen o ran gallu cynorthwyo â'r angen am seibiant yn y dyfodol.

Senedd.tv Fideo Video

## Meddygon Locwm

## Locums

14:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

*9. A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ddefnyddio meddygon locwm yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr? OAQ(4)2184(FM)*

*9. Will the First Minister make a statement on the use of locums in the Betsi Cadwaladr University Health Board area? OAQ(4)2184(FM)*

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Locum appointments provide essential flexibility in staffing numbers to manage patients safely during peaks in demand or problems with recruitment. It is the responsibility of local health boards and trusts to determine whether a locum needs to be appointed, or agency staff needed, having explored all other options.

Mae penodiadau locwm yn cynnig hyblygrwydd hanfodol i niferoedd staffio i reoli cleifion yn ddiogel yn ystod yr adegau prysuraf neu broblemau gyda recriwtio. Cyfrifoldeb byrddau iechyd lleol ac ymddiriedolaethau yw penderfynu a oes angen penodi locwm, neu a oes angen staff asiantaeth, ar ôl archwilio pob dewis arall.

Senedd.tv Fideo Video

14:15 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

I'm grateful for your statement, First Minister. An arbitrary reduction by the Betsi Cadwaladr health board from a 50% use of locums to a 25% target has led to services being considered unsustainable. How can you justify that when a neighbouring health board operates some of its services on a 75% locum basis, and considers that those services are both safe and sustainable?

Rwy'n ddiolchgar am eich datganiad, Brif Weinidog. Mae gostyngiad mympwyol gan fwrdd iechyd Betsi Cadwaladr o'r defnydd o staff locwm o 50% i darged o 25% wedi arwain at ystyried bod gwasanaethau'n anghynaliadwy. Sut allwch chi gyfiawnhau hynny pan fo bwrdd iechyd cyfagos yn gweithredu rhai o'i wasanaethau ar sail 75% o staff locwm, ac yn ystyried bod y gwasanaethau hynny yn ddiogel ac yn gynaliadwy?

Senedd.tv Fideo Video

14:16 **Carwyn Jones** Bywgraffiad Biography

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Any service that relies on non-permanent staff to deliver the majority of its services is not going to be as robust as one where permanent staff do deliver the majority of services. We know, for example, that at Ysbyty Glan Clwyd, at the obstetrics and gynaecology department there, there has been a strong reliance for some time on temporary staff, with all the difficulties that brings. I refer Members to the letter that all Members have seen—a short report from the deputy chief medical officer and the chief nursing officer—which outlines the difficulties that currently exist at Ysbyty Glan Clwyd, but they are difficulties that will need to be resolved. It will take work to resolve them, but as Members have heard me say many times, that department must be restored within 12 months, and, of course, the sub-regional neonatal intensive care centre for north Wales will be placed on a site at Glan Clwyd.

Nid yw unrhyw wasanaeth sy'n dibynnu ar staff nad ydynt yn barhaol i gyflenwi'r rhan fwyaf o'i wasanaethau yn mynd i fod mor gadarn ag un lle mae staff parhaol yn darparu'r rhan fwyaf o wasanaethau. Gwyddom, er enghraifft, y bu dibyniaeth gref ers cryn amser ar staff dros dro yn Ysbyty Glan Clwyd, yn yr adran obstetreg a gynaecoleg yno, gyda'r holl anawsterau sy'n dod gyda hynny. Cyfeiriaf yr Aelodau at y llythyr y mae'r holl Aelodau wedi ei weld—adroddiad cryno gan y dirprwy brif swyddog meddygol a'r prif swyddog nyrsio—sy'n amlinellu'r anawsterau sy'n bodoli ar hyn o bryd yn Ysbyty Glan Clwyd, ond maen nhw'n anawsterau y bydd angen eu datrys. Bydd angen gweithio i'w datrys, ond fel y mae'r Aelodau wedi fy nghlywed i'n dweud droeon, mae'n rhaid adfer yr adran honno o fewn 12 mis, ac, wrth gwrs, bydd y ganolfan is-ranbarthol ar gyfer gofal dwys i'r newydd-anedig ar gyfer y gogledd yn cael ei lleoli ar safle yng Nglan Clwyd.

Senedd.tv Fideo Video

14:17

## Llyr Gruffydd Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Mae rhai o'r doctoriaid dros dro yna—y locwms—wedi bod yn eu lle am hyd at dair blynedd mewn rhai achosion. Os nad yw'n dderbyniol nawr, pam oedd e'n dderbyniol dair blynedd yn ôl? Nid wyf yn gweld, a dweud y gwir, beth sydd wedi newid. Ond y gwir yw, wrth gwrs, fod Betsi Cadwaladr wedi gwario £14 miliwn ar ddoctoriaid locwm y llynedd. Maen nhw, fel rydym yn gwybod, yn honni bod prinder doctoriaid i gynnal rotas digonol, ond er hynny rydym hefyd yn gwybod bod 'registrars' yn adran mamolaeth ysbyty Wrecsam wedi bod yn gadael oherwydd beth maen nhw'n ei ddisgrifio fel 'diffyg cyfleon', tra bod yna ddiffygion yn y ddarpariaeth mewn llefydd eraill yn honedig. Felly, pa gamau mae'r Llywodraeth yn eu cymryd i sicrhau bod meddygon nid yn unig yn cael eu hyfforddi a'u recriwtio, ond hefyd yn cael eu cadw, er mwyn sicrhau bod yna lai o ddibyniaeth—ac, yn wir, felly, llai o wariant—ar ddoctoriaid locwm?

Some of those locums have been in place for over three years in some cases. If it's not acceptable now, why was it acceptable three years ago? I don't really see, truth be told, what's changed. The truth is, of course, that Betsi Cadwaladr has spent £14 million on locums last year and we know that they claim that there's a shortage of doctors to maintain adequate rotas, but we also know that registrars in the maternity unit in Wrexham have been leaving because of what they describe as a 'lack of opportunities', while there are deficiencies in the provision in other locations, it's claimed. So, what steps is the Government taking to ensure that doctors are not only trained and recruited, but also retained in order to ensure that there is less reliance—and less expenditure, therefore—on locum doctors?

14:17

## Carwyn Jones Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Prif Weinidog / The First Minister*

Nid oeddwn yn wybyddus o beth ddywedodd yr Aelod yn y fan yna ynglŷn â'r sefyllfa yn Wrecsam. Beth y gallaf ei ddweud yw hyn: mae bwrdd iechyd Betsi Cadwaladr wedi cymryd sawl cam er mwyn recriwtio doctoriaid parhaol. Maen nhw wedi mynd at 'headhunting agencies' a maen nhw wedi sicrhau eu bod nhw'n edrych dramor—maen nhw wedi gwneud lot far o bethau er mwyn trio recriwtio pobl. Rydym yn gwybod bod yna broblem gydag agwedd y proffesiwn tuag at yr adran ar hyn o bryd. Mae hynny'n gorfod newid; rydym i gyd yn derbyn hynny. Beth mae'n rhaid ei sicrhau yw bod yr agwedd yn newid a bod mwy a mwy o bobl eisiau mynd i'r adran hynny yng Nglan Clwyd yn barhaol, nid dim ond dros dro. Dyna'n gwmws beth rydym ni fel Llywodraeth eisiau ei wneud, dyna'n gwmws beth mae'r bwrdd iechyd eisiau ei wneud ac rwy'n siŵr dyna'n gwmws beth mae'r doctoriaid—yn enwedig yr arbenigwyr yn yr adran—eisiau ei wneud hefyd.

I wasn't aware of what the Member was saying about the situation in Wrexham. What I can say is this: Betsi Cadwaladr health board has taken several steps to recruit permanent doctors. They've gone to headhunting agencies, they've tried to ensure that they look abroad—they've done a great many things to try and recruit. We know that there's a problem with the attitude of the profession to the department at the moment. That has to change; we all accept that. What we need to ensure is that that attitude changes and that more and more people want to go to that department in Glan Clwyd permanently, not just on a temporary basis. That's exactly what we as a Government want to do, that's exactly what the health board wants to do and I'm sure that that's exactly what the doctors want to do too, especially the specialists.

14:18

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, First Minister.

Diolch yn fawr, Brif Weinidog.

14:18

# 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

# 2. Business Statement and Announcement

Senedd.tv
Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 2, which is the business statement. I call on Jane Hutt to make the statement. Jane Hutt.

Symudwn at eitem 2 nawr, sef y datganiad busnes. Galwaf ar Jane Hutt i wneud y datganiad. Jane Hutt.

14:18

## Jane Hutt Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth / The Minister for Finance and Government Business*

Llywydd, I have no changes to announce to this week's business, and business for the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers available to Members electronically.

Lywydd, nid oes gen i unrhyw newidiadau i'w cyhoeddi i fusnes yr wythnos hon, ac mae busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i dangosir ar y datganiad a chyhoeddiad busnes, y gellir ei weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau'n electronig.

14:19 **Andrew R.T. Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Leader of the house, could I seek two statements from the Minister for transport, one in relation to the improvements sought by the Government for Five Mile Lane? There have been extensive discussions, as I understand it, between the Welsh Government and Vale of Glamorgan Council, and I'm grateful to the Minister for responding to some of the written questions I've put down, but I'm led to believe that there is a potential shortfall in funding around this project, which the Vale council could ultimately be responsible for picking up. I'd be grateful, as I've been approached by some businesses that potentially could see an adverse effect on their business operations if this project does go ahead. So, to clear up all the loose ends, if the Minister could come forward with a statement to give the timelines, but, above all, to give reassurance over Welsh Government funding that might be available to this project, I think that will greatly clarify the situation and take some of the concern that people have raised with me out.

Arweinydd y tŷ, a gaf i ofyn am ddau ddatganiad gan y Gweinidog trafnidiaeth, un ar y gwelliannau y mae'r Llywodraeth eisiau eu gwneud i Five Mile Lane? Bu trafodaethau helaeth, yn ôl a ddeallaf, rhwng Llywodraeth Cymru a Chyngor Bro Morgannwg, ac rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ymateb i rai o'r cwestiynau ysgrifenedig yr wyf wedi eu gofyn, ond rwy'n deall bod diffyg cyllid posibl o ran y prosiect hwn, y gallai cyngor y Fro fod yn gyfrifol am ei dalu yn y pen draw. Byddwn yn ddiolchgar, gan fod rhai busnesau a allai o bosibl weld effaith andwyol ar eu gweithrediadau busnes pe byddai'r prosiect hwn yn mynd yn ei flaen, wedi cysylltu â mi. Felly, i gael y manylion yn glir, pe gallai'r Gweinidog gyflwyno datganiad i roi'r amserlenni, ond, yn anad dim, i roi sicrwydd ynghylch cyllid gan Lywodraeth Cymru a allai fod ar gael i'r prosiect hwn, rwy'n credu y byddai hynny'n egluro'r sefyllfa'n well o lawer ac yn cael gwared ar rywfaint o'r pryder y mae pobl wedi ei godi gyda mi.

The second statement I would seek is in relation to the works around the Cardiff west interchange. I appreciate I've raised this matter several times in the Chamber, and I appreciate that some of those works, eventually when they're put together, will allow traffic to flow far better than it currently does. But, for many drivers who endure the traffic jams that exist, east and west, and the log jam around the roundabout while the works are progressing, it really is, I don't think that nightmare is too strong a word to use, because it just seems as if it's constantly going on and on, the works around the improvements. If the Minister could bring a statement forward that would outline the timeline for the completion of the works and, in particular, what more can be done to alleviate some of the lane and road closures around this junction when these works are being progressed, I think that would greatly help inform the general public, and, in particular, Members of this institution who obviously are getting constant e-mails and barrages from irate constituents who were delayed on their way into work or when they were just going on a leisure journey.

Mae'r ail ddatganiad yr wyf yn gofyn amdano yn ymwneud â'r gwaith o amgylch cyfnewidfa gorllewin Caerdydd. Rwy'n gwerthfawrogi fy mod i wedi codi'r mater hwn sawl gwaith yn y Siambr, ac rwy'n gwerthfawrogi y bydd rhywfaint o'r gwaith hwn, pan y'i rhoddir at ei gilydd yn y pen draw, yn caniatáu i draffig lifo'n llawer gwell nag y mae ar hyn o bryd. Ond, i lawer o yrwyr sy'n ddioddef y tagfeydd traffig sy'n bodoli, i'r dwyrain a'r gorllewin, a'r dagfa o amgylch y gylchfan tra bod y gwaith yn mynd rhagddo, mae wir yn, nid wyf yn credu bod hunllef yn air rhy gryf i'w ddefnyddio, gan ei bod yn ymddangos fel pe byddai'n mynd ymlaen ac ymlaen yn gyson, y gwaith sy'n gysylltiedig â'r gwelliannau. Pe gallai'r Gweinidog gyflwyno datganiad a fyddai'n amlinellu'r amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith ac, yn benodol, beth arall y gellir ei wneud i leddfu rhai o'r achosion o gau lonydd a ffyrdd o gwmpas y gyffordd hon pan fo'r gwaith hwn yn cael ei wneud, rwy'n credu y byddai o gymorth mawr i hysbysu'r cyhoedd yn gyffredinol, ac, yn arbennig, Aelodau'r sefydliad hwn sy'n amlwg yn cael negeseuon e-bost a chwynion cyson gan etholwyr dig sy'n cael eu dal ar eu ffordd i mewn i'r gwaith neu pan fyddant yn mynd ar daith hamdden.

14:21 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Andrew R.T. Davies for those two questions. I know that the Welsh Government is working very closely with the Vale of Glamorgan council to secure those much needed improvements at Five Mile Lane, in terms of safety of access. The Minister will write an update on the situation, as she will do in terms of the timeline and traffic management, in terms of the works at the interchange, which, as you say, will be of great benefit when they are completed.

Diolchaf i Andrew R.T. Davies am y ddau gwestiwn yna. Gwn fod Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos iawn gyda chyngor Bro Morgannwg i sicrhau'r gwelliannau hyn y mae wir eu hangen yn Five Mile Lane, o ran diogelwch mynediad. Bydd y Gweinidog yn ysgrifennu diweddariad ar y sefyllfa, yn ogystal ag ar yr amserlen a rheoli traffig, o ran y gwaith yn y gyfnewidfa, a fydd, fel y dywedwch, o fudd mawr pan gaiff ei gwblhau.

14:21 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Weinidog, mae tlodi tanwydd yn fater o bryder i nifer ohonom ni, yn enwedig i'r cymunedau hynny yng Nghymru sydd heb gyflenwad nwy pibell ac sy'n gorfod dibynnu ar brynu i mewn olew neu nwy drwy dancer. A gaf i dynnu eich sylw chi felly at adroddiad National Energy Action Cymru, sydd wedi bod yn gweithio gyda chymunedau gwledig yng Nghymru i geisio gweld beth yw rôl cynghorau cymuned a thref i gefnogi ymdrechion yn erbyn tlodi tanwydd? Mae'r gwaith maes wedi cael ei wneud yn Abergwili, yn fy etholaeth i, ac mae wedi edrych ar sut y gall y cyngor cymuned lleol gydweithio â thrigolion lleol, er enghraifft, drwy sefydlu cynlluniau prynu mewn bwlc a thrwy gefnogi technoleg amgen megis paneli haul ac ati ar adeiladau cymunedol, a hefyd adeiladau trigolion. Mae llawer yn yr adroddiad yma, mae'n ymddangos i mi, sy'n dangos sut y mae ein cymunedau a'n cynghorau cymuned ni yn gallu bod yn fwy pwerus wrth fynd i'r afael â thlodi tanwydd. A oes modd, felly, i chi dynnu sylw i'r adroddiad gyda'r Gweinidog perthnasol , ac i'r Gweinidog edrych ar ba fath o ganllawiau y mae'r Llywodraeth yn gallu, efallai, eu cyhoeddi yn y cyd-destun yma, a dod yn ôl i'r Cynulliad wedyn gyda datganiad o'r gwaith rŷch chi wedi'i wneud i'r perwyl hwnnw?

Minister, fuel poverty is a cause of concern for many of us, particularly in those communities in Wales that don't have a grid gas connection and have to buy in gas or oil by tanker. Can I draw your attention, therefore, to the National Energy Action Cymru report, which has been working with rural communities in Wales to try and see what the role of town and community councils is in supporting efforts to combat fuel poverty? The field work has been done in Abergwili, in my own region, and it has looked at how the local community council can collaborate with local people, for example, by establishing bulk-buying schemes and supporting alternative technologies such as solar panels, and so on, on community buildings, and also on residential property. There is much in this report that it appears to me that shows how our communities and our community councils can be empowered in tackling fuel poverty. Would it be possible, therefore, for you to bring this report to the attention of the relevant Minister, and for the Minister to look at what sort of guidance the Government could, perhaps, publish in this context, and return to the Assembly then with a statement on the work that you have done to that end?

14:23 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank Simon Thomas for that question. Of course, tackling fuel poverty is one of our primary commitments, a key priority, and it is relevant to make the point that an independent evaluation report shows that advice and support has been provided to more than 61,000 householders to help them heat their homes more effectively. I think the example you give of a town and community council taking the initiative—Abergwili—is very valuable and I hope that you have, if not already, shared that with the Minister for Natural Resources. Also, it is of interest, I think, to the Minister for Public Services, and the Minister for Communities and Tackling Poverty, as a really good example of the role of a town and community council, which could be shared, and I'm sure it will be, amongst the town and community councils in Wales. But, a very useful contribution and question.

Diolchaf i Simon Thomas am y cwestiwn yna. Wrth gwrs, mae mynd i'r afael â thlodi tanwydd yn un o'n prif ymrwymiadau, yn flaenoriaeth allweddol, ac mae'n berthnasol i wneud y pwynt bod adroddiad gwerthuso annibynnol yn dangos y darparwyd cyngor a chefnogaeth i fwy na 61,000 o ddeiliaid tai i'w helpu i wresogi eu cartrefi'n fwy effeithiol. Rwy'n credu bod yr enghraifft a roesoch o gyngor tref a chymuned yn achub y blaen—Abergwili—yn werthfawr iawn ac rwy'n gobeithio eich bod chi, os nad ydych eisoes, wedi rhannu hynny gyda'r Gweinidog Cyfoeth Naturiol. Hefyd, mae o ddiddordeb, rwy'n credu, i'r Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, a'r Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi, fel enghraifft dda iawn o swyddogaeth cyngor tref a chymuned, y gellid ei rhannu, ac rwy'n siŵr a fydd yn cael ei rhannu, ymhlith y cynghorau tref a chymuned yng Nghymru. Ond, cyfraniad a chwestiwn defnyddiol iawn.

14:24 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, you may be aware of the announcement by Powys County Council yesterday that will result in the mass disruption of secondary education in Brecon and Radnorshire. Could the Minister for education provide a written statement on whether he regards it acceptable that some students in my constituency will have access to both college education post 16 and a traditional sixth form, but other parts of my constituency will not have that choice, with the proposals to close the sixth form at Maesydderwen in Ystradgynlais? Does the Welsh Minister have a concern that with the proposed closure of Gwernyfed High School, for many of my constituents, their nearest high school now will be in England, and their ability to access cwricwlwm Cymreig will be severely disadvantaged by this decision? And thirdly, does the Minister have a view on the decision to propose the closure of the Welsh-language unit at Brecon High School and the effect that that will have on the ability of children to study through the medium of Welsh between the ages of 11 and 18? I declare an interest, Presiding Officer: my children do find themselves caught up in this nightmare.

Weinidog, efallai y byddwch yn ymwybodol o'r cyhoeddiad gan Gyngor Sir Powys ddoe a fydd yn arwain at amharu torfol ar addysg uwchradd ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed. A allai'r Gweinidog addysg ddarparu datganiad ysgrifenedig ynghylch pa un a yw o'r farn ei bod yn dderbyniol y bydd gan rai myfyrwyr yn fy etholaeth i fynediad at addysg coleg ôl-16 a chweched dosbarth traddodiadol, ond na fydd gan rannau eraill o'm hetholaeth y dewis hwnnw, gyda'r cynigion i gau'r chweched dosbarth ym Maesydderwen yn Ystradgynlais? A oes gan Weinidog Cymru bryder, yn sgil cau arfaethedig Ysgol Uwchradd Gwernyfed, y bydd yr ysgol uwchradd agosaf i lawer o'm hetholwyr i yn Lloegr nawr, a bydd eu gallu i gael mynediad at y cwricwlwm Cymreig yn cael ei roi dan anfantais ddifrifol gan y penderfyniad hwn? Ac yn drydydd, a oes gan y Gweinidog farn ar y penderfyniad i gynnig cau'r uned iaith Gymraeg yn Ysgol Uwchradd Aberhonddu a'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar allu plant i astudio trwy gyfrwng y Gymraeg rhwng 11 a 18 oed? Rwy'n datgan buddiant, Lywydd: mae fy mhlant yn canfod eu hunain yn rhan o'r hunllef hwn.

Could I have a second statement? You'll be aware that I raised the issue last week of road safety on the A470 following the tragic incident at Storey Arms. There was some confusion, following the publication of a Transport Wales map, as to the Government's intention to reduce speed limits on that stretch. That has now been clarified and I'm grateful for that clarification, but in deciding the speed limits on the A470, was the transport Minister aware of the planning application to substantially increase parking at Storey Arms and the effect that that will have on cars leaving and accessing the A470 at that particular spot? If it wasn't taken into consideration, will the Minister review speed limits in that area in light of the now submitted planning application?

A gaf i ail ddatganiad? Byddwch yn gwybod imi godi mater o ddiogelwch ar y ffordd ar yr A470 yr wythnos diwethaf, yn dilyn y digwyddiad trasig yn Storey Arms. Bu rhywfaint o ddryswch, ar ôl cyhoeddi map Trafnidiaeth Cymru, ynghylch bwriad y Llywodraeth i ostwng terfynau cyflymder ar y rhan honno o'r ffordd. Eglurwyd hynny erbyn hyn ac rwy'n ddiolchgar am yr eglurhad hwnnw, ond wrth benderfynu ar y terfynau cyflymder ar yr A470, a oedd y Gweinidog trafnidiaeth yn ymwybodol o'r cais cynllunio i gynyddu nifer y mannau parcio yn sylweddol yn Storey Arms a'r effaith y bydd hynny'n ei chael ar geir yn gadael ac yn ymuno â'r A470 yn y man penodol hwnnw? Os na chafodd ei ystyried, a wnaiff y Gweinidog adolygu terfynau cyflymder yn yr ardal honno yng ngoleuni'r cais cynllunio sydd wedi'i gyflwyno erbyn hyn?

14:26 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you to the Member for Brecon and Radnor for those two very important points, which she raises on behalf of her constituents. Of course, on the first point, this is the start of what will be extensive consultation, and the Minister for Education and Skills has a role to play as and when necessary, if necessary. So, I think it's absolutely right that you use this opportunity to raise those concerns here. But, of course, you will engage fully, I know, as will your constituents and the young people of Powys, I'm sure, in response to that.

Diolch i'r Aelod dros Frycheiniog a Maesyfed am y ddau bwynt pwysig iawn yna, y mae hi'n eu codi ar ran ei hetholwyr. Wrth gwrs, ar y pwynt cyntaf, dyma ddechrau'r hyn a fydd yn ymgynghoriad helaeth, ac mae gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau swyddogaeth i'w chyflawni yn ôl yr angen, os bydd angen. Felly, rwy'n credu ei bod yn hollol gywir eich bod yn manteisio ar y cyfle hwn i godi'r pryderon hynny yma. Ond, wrth gwrs, gwn y byddwch yn ymgysylltu'n llawn, fel y bydd eich etholwyr a phobl ifanc Powys, rwy'n siŵr, mewn ymateb i hynny.

I think, on your second point, the Minister is aware of this planning application in terms of the impact it could have on speed limits and that particular spot, which, of course, has resulted in many tragedies including the ones that we recognised last week with great sadness. This is all part of the road safety strategy.

Rwy'n meddwl, ar eich ail bwynt, bod y Gweinidog yn ymwybodol o'r cais cynllunio hwn o ran yr effaith y gallai ei chael ar derfynau cyflymder a'r man penodol hwnnw, sydd, wrth gwrs, wedi arwain at nifer o drychinebau gan gynnwys y rhai i ni eu cydnabod wythnos diwethaf gyda thristwch mawr. Mae hyn i gyd yn rhan o'r strategaeth diogelwch ar y ffyrdd.

14:27 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Minister, can we have an update from the Welsh Government on funding of NHS reorganisation in south-east Wales? I was lucky enough yesterday to attend the public exhibition of the proposed new critical care centre in Llanfrechfa in Cwmbran. It was actually well attended and there was broad support for the new care centre from the public in that locality. But the opening of that facility in 2019, I think, is highly dependent on funding being released as soon as possible, and the scheme is already smaller and cheaper than was originally intended. Can we have that statement from the Welsh Government that this funding will be forthcoming, and that this vital piece of the NHS jigsaw in south-east Wales, in the Gwent area, can be put in place, so that other general hospitals in the Gwent area can then be upgraded, so that they better serve the needs of those people accessing NHS care in south-east Wales?

Weinidog, a allwn ni gael y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru ar ariannu ad-drefnu'r GIG yn y de-ddwyrain? Roeddwn i'n ddigon ffodus ddoe i fynd i arddangosfa gyhoeddus y ganolfan gofal critigol newydd arfaethedig yn Llanfrechfa yng Nghwmbrân. Roedd presenoldeb da yno a dweud y gwir ac roedd cefnogaeth eang i'r ganolfan gofal newydd gan y cyhoedd yn yr ardal honno. Ond mae agor y cyfleuster hwnnw yn 2019, rwy'n credu, yn ddibynnol iawn ar gyllid yn cael ei rhyddhau cyn gynted â phosibl, ac mae'r cynllun eisoes yn llai ac yn rhatach nag y bwriadwyd yn wreiddiol. A allwn ni gael datganiad gan Lywodraeth Cymru y bydd y cyllid hwn yn dod i law, ac y gellir rhoi'r darn hanfodol hwn o jig-so'r GIG yn y de-ddwyrain, yn ardal Gwent, yn ei le, fel y gellir uwchraddio ysbytai cyffredinol eraill yn ardal Gwent wedyn, fel eu bod yn diwallu anghenion y bobl hynny sy'n derbyn gofal gan y GIG yn y de-ddwyrain yn well?

14:28 **Jane Hutt** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, of course, Nick Ramsay is fully aware and, I'm sure, engaged in the extensive consultation that took place, leading up, as part of the south Wales plan in terms of future reconfiguration of the health service. Of course, the role of the critical care centre formed part of that plan in terms of consultation. I think the important point is that, as you will see, a step forward is being taken in terms of the exhibition and the commencement of consultation, which, of course, then will have to lead forward in terms of responses to the appropriate consideration of capital investment.

Wel, wrth gwrs, mae Nick Ramsay yn gwbl ymwybodol ac, rwy'n siŵr, yn cymryd rhan yn yr ymgynghoriad helaeth a gynhaliwyd, yn arwain, yn rhan o gynllun de Cymru o ran ad-drefnu'r gwasanaeth iechyd yn y dyfodol. Wrth gwrs, roedd swyddogaeth y ganolfan gofal critigol yn rhan o'r cynllun hwnnw o ran ymgynghori. Rwy'n meddwl mai'r pwynt pwysig, fel y gwelwch, yw bod cam ymlaen yn cael ei gymryd o ran yr arddangosfa a dechrau'r ymgynghoriad y bydd yn rhaid iddo wedyn, wrth gwrs, arwain ymlaen o ran ymatebion i'r ystyriaeth briodol o fuddsoddiad cyfalaf.

14:28 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Minister.

Diolch i chi, Weinidog.

14:28

Senedd.tv Fideo Video

## 3. Datganiad: Y Wybodaeth Ddiweddaraf ynghylch Mynediad at Gyllid

## 3. Statement: Update on Access to Finance

**Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

We now move to item 3, which is a statement by the Minister for the Economy, Science and Transport, an update on access to finance. I call on the Minister, Edwina Hart.

Symudwn yn awr at eitem 3, sef datganiad gan Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, y newyddion diweddaraf am y cyllid sydd ar gael. Galwaf ar y Gweinidog, Edwina Hart.

14:29 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth / The Minister for Economy, Science and Transport*

Last week, I issued a written statement making public the study into the feasibility of creating a development bank for Wales. This was to allow Members the opportunity to read the study in advance of this oral statement. I look forward to hearing their comments.

Yr wythnos diwethaf, cyhoeddais ddatganiad ysgrifenedig i gyhoeddi'r astudiaeth i ddichonoldeb creu banc datblygu i Gymru. Roedd hyn er mwyn rhoi cyfle i'r Aelodau ddarllen yr astudiaeth cyn y datganiad llafar hwn. Edrychaf ymlaen at glywed eu sylwadau.

Today, I would like to provide a further update on the exploratory work that has been undertaken to test the feasibility of creating a development bank and to publish the 'Lending Ready' review conducted by Robert Lloyd Griffiths and its associated action plan that has been prepared in conjunction with the Welsh Government.

Heddiw, hoffwn roi diweddariad pellach ar y gwaith archwiliadol a wnaethpwyd i brofi dichonoldeb creu banc datblygu ac i gyhoeddi'r adolygiad 'Parod i Fenthyca' a gynhaliwyd gan Robert Lloyd Griffiths a'r cynllun gweithredu cysylltiedig a gafodd ei baratoi ar y cyd gyda Llywodraeth Cymru.

I appointed Professor Dylan Jones-Evans to lead a task and finish group in June last year to produce a feasibility report on the possible form and function that a development bank for Wales could take, and to provide options and recommendations for consideration. This phase of the work is now finished and I very much welcome the finalisation of the study and its recommendations. The study contains contributions from the expert members of the task and finish group, who have also during the past seven months engaged extensively across the banking sector and with other financial institutions, intermediaries, academia and the wider business community.

Penodais yr Athro Dylan Jones-Evans i arwain grŵp gorchwyl a gorffen ym mis Mehefin y llynedd i lunio adroddiad dichonoldeb ar ffurf a swyddogaeth bosibl banc datblygu ar gyfer Cymru, ac i ddarparu dewisiadau ac argymhellion i'w hystyried. Mae'r cam hwn o'r gwaith wedi dod i ben erbyn hyn ac rwy'n croesawu cwblhau'r astudiaeth a'i hargymhellion yn fawr iawn. Mae'r astudiaeth yn cynnwys cyfraniadau gan aelodau arbenigol y grŵp gorchwyl a gorffen, sydd hefyd yn ystod y saith mis diwethaf wedi ymgysylltu'n helaeth ar draws y sector bancio ac â sefydliadau ariannol eraill, cyfryngwyr, y byd academaidd a'r gymuned fusnes ehangach.

Before turning to the content of the study, I would like to put on record my appreciation of Professor Jones-Evans's work, and thank all of the individuals and organisations who have participated and contributed to this work. My particular thanks go to all of those who served on the task and finish group. The group centred its attention on examining the provision of repayable finance to businesses, and, in so doing, also took into account how this is linked to the Welsh Government's provision of business support through Business Wales and grant support. They examined how to secure greater levels of private sector funding, potentially both debt and equity, to support businesses in Wales. In exploring the issues, the task and finish group considered that the solutions currently being provided are not sufficient to address the challenges facing small and medium-sized enterprises in Wales. They suggest that the funding gap for SMEs in Wales is in the region of £500 million per annum and, without intervention, this is projected to increase.

Cyn troi at gynnwys yr astudiaeth, hoffwn gofnodi fy ngwerthfawrogiad o waith yr Athro Jones-Evans, a diolch i bob un o'r unigolion a'r sefydliadau sydd wedi cymryd rhan a chyfrannu at y gwaith hwn. Hoffwn ddiolch yn arbennig i bawb a fu'n gwasanaethu ar y grŵp gorchwyl a gorffen. Roedd y grŵp yn canolbwyntio'n bennaf ar archwilio darpariaeth cyllid ad-daladwy i fusnesau, ac, wrth wneud hynny, gwnaethant ystyried hefyd y cysylltiad rhwng hyn a darpariaeth cymorth busnes gan Lywodraeth Cymru drwy gyfrwng Busnes Cymru a chymorth grant. Buont yn archwilio sut i sicrhau mwy o arian o'r sector preifat, o bosibl ar ffurf dyled ac ecwiti, i gefnogi busnesau yng Nghymru. Wrth archwilio'r materion, roedd y grŵp gorchwyl a gorffen o'r farn nad yw'r atebion a ddarperir ar hyn o bryd yn ddigonol i ymdrin â'r heriau sy'n wynebu busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Maent yn awgrymu bod y bwlch cyllido ar gyfer busnesau bach a chanolig yng Nghymru tua £500 miliwn y flwyddyn ac, heb ymyrraeth, rhagwelir y bydd hyn yn cynyddu.

The study considered a number of options to consider in regard to supporting the financial needs of SMEs. These ranged from no support, to enhancing Finance Wales, through to full in-house provision. Their recommendation is for an organisation that would continue to focus on the provision of finance to business, with an increased focus on microbusinesses, with the aim of boosting investment into high-growth and innovative firms to drive forward economic development. I am taken with their preferred option of this hybrid approach, with a primary focus on addressing market failure, working with partners to deliver a wider range of financial products to Welsh SMEs. The study points to the need to be more joined up in the way the Welsh Government and external organisations provide support to SMEs. It highlights a need to be more generally joined up in the way that, for example, Business Wales, Finance Wales, and external organisations, provide support to SMEs.

Ystyriodd yr astudiaeth nifer o ddewisiadau i'w hystyried o ran cefnogi anghenion ariannol busnesau bach a chanolig. Roedd y rhain yn amrywio o ddim cymorth, i wella Cyllid Cymru, hyd at ddarpariaeth fewnol lawn. Eu hargymhelliad yw sefydliad a fyddai'n parhau i ganolbwyntio ar ddarparu cyllid i fusnesau, gyda mwy o bwyslais ar ficrofusnesau, gyda'r nod o hybu buddsoddiad mewn cwmnïau arloesol twf uchel i sbarduno datblygiad economaidd. Rwyf yn hoff o'r dewis a ffefrir ganddynt sef yr ymagwedd hybrid hon, gyda phwyslais cychwynnol ar ymdrin â methiant y farchnad, gan weithio gyda phartneriaid i ddarparu ystod ehangach o gynhyrchion ariannol i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn nodi bod angen mwy o gydlyniad yn y ffordd y mae Llywodraeth Cymru a sefydliadau allanol yn rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig. Mae'n tynnu sylw at angen i fod yn fwy cydlynol yn gyffredinol yn y ffordd y mae, er enghraifft, Busnes Cymru, Cyllid Cymru, a sefydliadau allanol, yn rhoi cymorth i fusnesau bach a chanolig.

These recommendations closely complement the 'Lending Ready' review completed in parallel to this study, which I am publishing today. The 'Lending Ready' review, undertaken by Robert Lloyd Griffiths, has sought ways to better align Welsh Government non-financial and financial advisory support for SMEs to support effective access to finance solutions. I would also like to place on record my thanks to Robert Lloyd Griffiths for his detailed and considered work, which has focused on the funding requirements and the issues around investment and lending readiness for micro and SMEs. It makes 10 recommendations to strengthen the Business Wales service, as well as forging closer links with financial institutions and alternative finance providers. The 'Lending Ready' review and the associated action plan, developed in conjunction with my officials, will be published on the Business Wales website. Work is already under way to implement these recommendations and good progress is being made to better join up services. This work will support key elements of Professor Jones-Evans's study, particularly in regard to the principles that should underpin a development bank, the most important being that it should not displace the private sector, but address the market failure that prevents SMEs raising appropriate and affordable funding. Another central principle is that Government-supported funding for SMEs is to drive forward economic development. I agree with these principles and believe they should underpin all forms of Government-backed support, regardless of the form that that support takes.

Mae'r argymhellion hyn yn cyd-fynd yn agos â'r adolygiad 'Parod i Fenthyca' a gwblhawyd yn gyfochrog â'r astudiaeth hon, yr wyf yn ei chyhoeddi heddiw. Mae'r adolygiad 'Parod i Fenthyca', a gynhaliwyd gan Robert Lloyd Griffiths, wedi chwilio am ffyrdd gwell o gyfuno cymorth ymgynghorol anariannol ac ariannol Llywodraeth Cymru i fusnesau bach a chanolig i'w gwneud yn haws iddynt ddatrys problemau cyllid. Hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i Robert Lloyd Griffiths am ei waith manwl ac ystyriol, sydd wedi canolbwyntio ar y gofynion ariannu a'r materion yn ymwneud â buddsoddi a pharodrwydd busnesau micro a bach a chanolig i fenthyca. Mae'n gwneud 10 o argymhellion i gryfhau gwasanaeth Busnes Cymru, yn ogystal â meithrin cysylltiadau agosach â sefydliadau ariannol a darparwyr cyllid amgen. Caiff yr adolygiad 'Parod i Fenthyca' a'r cynllun gweithredu cysylltiedig, a ddatblygwyd ar y cyd â fy swyddogion, eu cyhoeddi ar wefan Busnes Cymru. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i weithredu'r argymhellion hyn ac mae cynnydd da'n cael ei wneud i uno gwasanaethau'n well. Bydd y gwaith hwn yn ategu elfennau allweddol ar astudiaeth yr Athro Jones-Evans, yn enwedig o ran yr egwyddorion a ddylai fod yn sail i fanc datblygu, a'r pwysicaf o'r rheini yw na ddylai ddisodli'r sector preifat, ond ymdrin â methiant y farchnad sy'n atal busnesau bach a chanolig rhag codi cyllid priodol a fforddiadwy. Egwyddor ganolog arall yw mai diben y cyllid hwnnw i fusnesau bach a chanolig a gefnogir gan y Llywodraeth yw sbarduno datblygiad economaidd. Rwyf yn cytuno â'r egwyddorion hyn ac yn credu y dylai pob math o gymorth a gefnogir gan y Llywodraeth fod yn seiliedig arnynt, ni waeth ar ba ffurf y mae'r gefnogaeth honno.

The recommendations of this study are far-reaching and will resonate with Members across the Chamber. Indeed, I was pleased to note during the recent economy debate that there is a good deal of support for the principle of creating a development bank, and I was particularly encouraged by the positive calls to create something where feasibility work that I have already commissioned was well advanced. However, I agree with the comments made in the Chamber that we need to be careful of the details as we proceed towards making a decision, and, whatever form it takes, get the governance right, with robust reporting and accountability mechanisms in place.

Mae argymhellion yr astudiaeth hon yn bellgyrhaeddol a byddant yn atseinio ag Aelodau ar draws y Siambr. Yn wir, roeddwn yn falch o nodi yn ystod y ddadl ddiweddar am yr economi fod cryn dipyn o gefnogaeth i egwyddor creu banc datblygu, a chefais fy nghalonogi'n arbennig gan y galwadau cadarnhaol i greu rhywbeth lle mae cryn dipyn o waith dichonoldeb yr wyf eisoes wedi'i gomisiynu wedi'i wneud. Fodd bynnag, cytunaf â'r sylwadau a wnaethpwyd yn y Siambr fod angen inni fod yn ofalus o'r manylion wrth inni symud ymlaen tuag at wneud penderfyniad, ac, ar ba ffurf bynnag y bydd hynny, ein bod yn cael y llywodraethu'n iawn, gan sicrhau bod mecanweithiau cadarn ar waith ar gyfer adrodd ac atebolrwydd.

In June 2014, the Finance Committee undertook a very helpful review into access to finance and Finance Wales in particular. Therefore, I have written to the Chair of the Finance Committee, providing a copy of the study, suggesting that it might be referred to the committee for comment. I have also written to the Chair of the Enterprise and Business Committee welcoming any comments on the content of the study. The findings of this study are far-reaching, and, in particular, there are potential impacts for Finance Wales, depending on the option selected. Therefore, I will be meeting the chair of Finance Wales to discuss the study, as we explore the recommendations in further depth and assess and work through the implications.

Ym mis Mehefin 2014, cynhaliodd y Pwyllgor Cyllid adolygiad defnyddiol iawn i fynediad at gyllid a Chyllid Cymru yn arbennig. Felly, rwyf wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid, gan ddarparu copi o'r astudiaeth, i awgrymu y gellid ei chyfeirio at y pwyllgor i gael eu sylwadau. Rwyf hefyd wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Menter a Busnes i groesawu unrhyw sylwadau am gynnwys yr astudiaeth. Mae canfyddiadau'r astudiaeth hon yn bellgyrhaeddol, ac, yn benodol, ceir effeithiau posibl ar Gyllid Cymru, gan ddibynnu pa opsiwn a ddewisir. Felly, byddaf yn cwrdd â chadeirydd Cyllid Cymru i drafod yr astudiaeth, wrth inni edrych ar yr argymhellion yn fanylach ac asesu a dadansoddi'r goblygiadau.

It is important we consider the issues carefully and I look forward to discussing this in more detail at the scrutiny session of the Enterprise and Business Committee in April. I will continue to keep Members updated on progress and I look forward to hearing views on the study today.

Mae'n bwysig ein bod yn ystyried y materion yn ofalus ac edrychaf ymlaen at drafod hyn yn fanylach yn sesiwn graffu'r Pwyllgor Menter a Busnes ym mis Ebrill. Byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am y cynnydd ac edrychaf ymlaen at glywed eu barn am yr astudiaeth heddiw.

14:35 **Nick Ramsay** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank the Minister for her statement this afternoon, and also add my thanks to Dylan Jones-Evans—Professor Jones-Evans—for the large amount of work he's put into this area over a considerable length of time?

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma, a hefyd ychwanegu fy niolch i Dylan Jones-Evans—yr Athro Jones-Evans—am y gwaith helaeth iawn y mae wedi'i wneud yn y maes hwn dros gyfnod sylweddol?

The Welsh Conservative group welcome the news of a development bank for Wales. You're right to say that we welcomed that progress in the recent economic debate of last week. As you will be aware, the Welsh Conservatives have long been calling for Finance Wales to be restructured and to be made more business-friendly, more public-facing, and more localised—more rooted in the local communities that it aims to serve. We brought forward our own plans of Invest Wales, and I think within your statement, Minister, and within your plans there are some recognised elements of Invest Wales, so we agree with you that these recommendations need to be achieved as quickly as possible.

Mae grŵp Ceidwadwyr Cymru'n croesawu'r newyddion am fanc datblygu ar gyfer Cymru. Rydych yn gywir i ddweud ein bod wedi croesawu'r cynnydd hwnnw yn y ddadl economaidd ddiweddar yr wythnos diwethaf. Fel y gwyddoch, mae Ceidwadwyr Cymru wedi galw ers amser maith am ailstrwythuro Cyllid Cymru i'w wneud yn fwy cyfeillgar i fusnesau, i'w gyfeirio'n fwy at y cyhoedd, ac i'w wneud yn fwy lleol—wedi'i wreiddio'n fwy yn y cymunedau lleol y mae'n bwriadu eu gwasanaethu. Gwnaethom gyflwyno ein cynlluniau eu hunain ar gyfer Buddsoddi Cymru, ac rwyf yn credu bod eich datganiad, Weinidog, a'ch cynlluniau yn cynnwys rhai elfennau cydnabyddedig ar Fuddsoddi Cymru, felly rydym yn cytuno â chi bod angen cyflawni'r argymhellion hyn cyn gynted â phosibl.

Minister, you've recognised and you've taken on board that the Finance Wales model was not fit for purpose—this was key to Professor Jones-Evans's findings, and should have been abandoned before now. How do you intend to ensure that the new development bank, which, as you say, has received broad support, doesn't actually fall back into some of the traps that Finance Wales did and that it has a better reputation both with the public and with the businesses it seeks to serve? I appreciate that this is the detail of what you are proposing, rather than the broad brush that we're getting at the moment, but we need to have that detail as quickly as possible so we can assess just how successful the new bank will be.

Weinidog, rydych wedi cydnabod ac rydych wedi derbyn nad oedd model Cyllid Cymru'n addas at ei ddiben—roedd hyn yn allweddol i ganfyddiadau'r Athro Jones-Evans, a dylid bod wedi cefnu arno cyn hyn. Sut yr ydych chi'n bwriadu sicrhau nad yw'r banc datblygu newydd, sydd, fel y dywedwch, wedi cael cefnogaeth eang, mewn gwirionedd yn syrthio'n ôl i rai o'r maglau y syrthiodd Cyllid Cymru iddynt a bod ganddo enw gwell gyda'r cyhoedd a gyda'r busnesau y mae'n ceisio eu gwasanaethu? Rwyf yn sylweddoli mai manylion eich cynnig yw hyn, yn hytrach na'r darlun bras yr ydym yn ei gael ar hyn o bryd, ond mae angen inni gael y manylion hynny cyn gynted â phosibl fel y gallwn asesu pa mor llwyddiannus y bydd y banc newydd.

You've said that the new bank will not be a replacement for retail banks, and on that we agree with you completely. You are right to say, as you've said in this Chamber on a number of occasions, that there has been confusion in the past over exactly what Finance Wales can support. Some businesses have thought that they can come to Finance Wales and that is a solution to all their problems. Of course, that can never be the case—funding doesn't allow that. You mentioned a hybrid model. How do you intend to ensure that the new development bank will be working in close co-operation with retail banks in the high street, taking on some of their best practice, and perhaps, hopefully, vice versa as well, in a way that would certainly meet up with our Invest Wales ideas, but in a way that doesn't undermine either the retail banking sector or indeed the way the development bank is supposed to operate?

Rydych wedi dweud na fydd y banc newydd yn cymryd lle banciau manwerthu, ac rydym yn cytuno i'r carn â chi am hynny. Rydych yn iawn i ddweud, fel yr ydych wedi'i ddweud yn y Siambr hon lawer gwaith, y bu dryswch yn y gorffennol dros beth yn union y gall Cyllid Cymru ei gefnogi. Mae rhai busnesau wedi meddwl y gallant ddod at Gyllid Cymru ac y bydd hynny'n ateb eu holl broblemau. Wrth gwrs, ni all hynny byth fod yn wir—nid yw cyllid yn caniatáu hynny. Soniasoch am fodel hybrid. Sut yr ydych yn bwriadu sicrhau y bydd y banc datblygu newydd yn gweithio mewn cydweithrediad agos â banciau manwerthu ar y stryd fawr, gan fabwysiadu rhai o'u harferion gorau, ac efallai, gobeithio, i'r gwrthwyneb hefyd, mewn ffordd a fyddai'n sicr yn cyd-fynd â'n syniadau Buddsoddi Cymru, ond mewn modd nad yw'n tanseilio naill ai'r sector bancio manwerthu nac yn wir y ffordd y dylai'r banc datblygu weithredu?

Admittedly, it's broad brush at the moment, but we need to move quickly to this new model. We've had many debates in this Chamber, many statements from yourself—and other Ministers, previously—on the need to better support business in Wales. Businesses need to move quickly. That has not always happened in the past. So, if you could give us some kind of timescale for when you think that all of this will eventually be coming to fruition and businesses will be able to access the new banking services, I think businesses would massively appreciate that.

Mae'n rhaid cyfaddef, bras yw'r sefyllfa ar hyn o bryd, ond mae angen inni symud yn gyflym i'r model newydd hwn. Rydym wedi cael llawer o ddadleuon yn y Siambr hon, llawer o ddatganiadau gennych chi—a Gweinidogion eraill, yn flaenorol—am yr angen i gefnogi busnesau'n well yng Nghymru. Mae angen i fusnesau symud yn gyflym. Nid yw hynny wedi digwydd bob amser yn y gorffennol. Felly, pe gallech roi rhyw fath o amserlen inni ar gyfer pryd y credwch y bydd hyn i gyd yn dwyn ffrwyth yn y pen draw ac y bydd y gwasanaethau bancio newydd ar gael i fusnesau, rwyf yn meddwl y byddai busnesau'n gwerthfawrogi hynny'n aruthrol.

At the end of the day, we are looking to achieve what is better access to finance—this is critical to the viability and future expansion of many small businesses and the economy in Wales. What you've brought forward today we are happy to support, but please can we have some more detail as quickly as possible?

Yn y pen draw , yr hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni yw gwell mynediad at gyllid—mae hyn yn hanfodol i hyfywedd llawer o fusnesau bach a'r economi yng Nghymru, a'u hehangu yn y dyfodol. Rydym yn hapus i gefnogi'r hyn yr ydych wedi'i gyflwyno heddiw, ond os gwelwch yn dda a gawn ni rywfaint mwy o fanylion cyn gynted ag y bo modd?

14:38

## Edwina Hart Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I thank the Member for his comments. If I can refer back to the Finance Committee, which undertook a review of Finance Wales and published a report in June last year, in its report, the committee concluded that:

Diolch i'r Aelod am ei sylwadau. Os caf gyfeirio'n ôl at y Pwyllgor Cyllid, a gynhaliodd adolygiad o Gyllid Cymru ac a gyhoeddodd adroddiad ym mis Mehefin y llynedd, yn ei adroddiad, casgliad y pwyllgor oedd:

'We found that Finance Wales, on the whole, was making a positive contribution to the Welsh economy, and that what was needed was a clarification of their role and remit rather than a full scale overhaul.'

'Cawsom fod Cyllid Cymru, ar y cyfan, yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at economi Cymru, ac mai'r hyn oedd ei angen oedd eglurhad o'u swyddogaeth a'u cylch gwaith yn hytrach na'u hailwampio'n llwyr.'

I accepted that recommendation of the committee, and was pleased to accept those recommendations. Of course, in terms of Finance Wales, it has played an essential role in providing much-needed investment for SMEs in Wales during a time of sustained economic difficulty, and it's enjoyed and has acknowledged success in the way that it's run the JEREMIE funds in recent years. It is right that we challenge the organisation, as the Finance Committee said, but we must also recognise that it has been pretty effective, and has actually been the envy of other parts of the UK in some of the work that it's undertaken.

Derbyniais yr argymhelliad hwnnw gan y pwyllgor, ac roeddwn yn falch o dderbyn yr argymhellion hynny. Wrth gwrs, o ran Cyllid Cymru, mae wedi chwarae rhan hanfodol o ran darparu buddsoddiad mawr ei angen i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn ystod cyfnod o anhawster economaidd parhaus, ac mae wedi mwynhau llwyddiant cydnabyddedig yn y ffordd y bu'n cynnal y cronfeydd JEREMIE yn y blynyddoedd diwethaf. Mae'n iawn ein bod yn herio'r sefydliad, fel y dywedodd y Pwyllgor Cyllid, ond mae'n rhaid i ni gydnabod hefyd ei fod wedi bod yn eithaf effeithiol, ac yn wir mae rhywfaint o'r gwaith y mae wedi'i wneud wedi bod yn destun eiddigedd mewn rhannau eraill o'r DU.

Can I say, in terms of it, we shouldn't lose sight of the significant achievements that it's made over the past 10 years, with investment over £350 million creating or safeguarding almost 40,000 jobs? However, this report does allow us the opportunity to look at what further we need done within the future. Can I say that your point on partnership is very important? We do have a partnership with the private sector, the banks and financial institutions; we'll work through that partnership now, in terms of what they do, what we can do, and where the intervention of Government should take place.

A gaf fi ddweud, o ran hynny, na ddylem golli golwg ar y llwyddiannau sylweddol y mae wedi'u cael dros y 10 mlynedd diwethaf, lle mae buddsoddiad o dros £350 miliwn wedi creu neu ddiogelu bron i 40,000 o swyddi? Fodd bynnag, mae'r adroddiad hwn yn rhoi cyfle i ni weld beth arall y mae angen inni ei wneud yn y dyfodol. A gaf fi ddweud bod eich pwynt ynghylch partneriaeth yn bwysig iawn? Mae gennym ni bartneriaeth â'r sector preifat, y banciau a sefydliadau ariannol; byddwn yn gweithio drwy'r bartneriaeth honno'n awr, o ran yr hyn maent yn ei wneud, yr hyn y gallwn ni ei wneud, a ble y dylai'r Llywodraeth ymyrryd.

In terms of the hybrid model, the work is starting on how this could be implemented, as it were, today, and, when I've had further discussions with the chair of Finance Wales, I will be delighted to update Members appropriately about a timetable.

O ran y model hybrid, mae'r gwaith yn dechrau ar sut y gellid rhoi hwn ar waith, fel petai, heddiw, a, pan fyddaf wedi cael trafodaethau pellach â chadeirydd Cyllid Cymru, byddaf yn falch iawn o ddiweddaru'r Aelodau'n ynglŷn ag amserlen.

14:40 **Rhun ap Iorwerth** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to thank the Minister for the statement today. Also, I'd like to place on the record our thanks to Professor Dylan Jones-Evans for his work on this report and previous reports over the past few years. The report, I think, reaffirms what Plaid Cymru has been arguing for some time. I believe it was the former Member of Parliament for Carmarthen East and Dinefwr who proposed a development bank of this kind that is being proposed now by Dylan Jones-Evans as a response to the recession back in 2009. But I think the series of reports, including this one in particular, now certainly adds to the weight of opinion, especially in being able, of course, to quantify the funding availability gap that is starving many businesses of the ability to invest for growth, and £0.5 billion a year is a significant sum of money. It proves the need to take action and to do so without delay, especially when Professor Dylan Jones-Evans concludes that that funding availability gap is likely to increase in years to come.

Hoffwn ddiolch i'r Gweinidog am y datganiad heddiw. Hefyd, hoffwn gofnodi ein diolch i'r Athro Dylan Jones-Evans am ei waith ar yr adroddiad hwn ac ar adroddiadau blaenorol dros y blynyddoedd diweddar. Mae'r adroddiad, rwyf yn credu, yn ailddatgan yr hyn y mae Plaid Cymru wedi bod yn ei ddadlau ers cryn amser. Rwyf yn credu mai cyn Aelod Seneddol Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr a gynigiodd fanc datblygu o'r math hwn sy'n cael ei gynnig nawr gan Dylan Jones-Evans mewn ymateb i'r dirwasgiad yn ôl yn 2009. Ond rwyf yn meddwl bod y gyfres o adroddiadau, gan gynnwys hwn yn benodol, nawr yn sicr yn ychwanegu at bwysau'r farn, yn enwedig, wrth gwrs, o ran gallu mesur y bwlch yn y cyllid sydd ar gael sy'n golygu na all llawer o fusnesau fuddsoddi ar gyfer twf, ac mae £0.5 biliwn y flwyddyn yn swm sylweddol o arian. Mae'n profi bod angen gweithredu a gwneud hynny yn ddi-oed, yn enwedig pan fo'r Athro Dylan Jones-Evans yn dod i'r casgliad bod y bwlch hwnnw yn y cyllid sydd ar gael yn debygol o gynyddu yn y blynyddoedd i ddod.

Now, where the new bank sits within the wider range of economic development initiatives is crucial. It's important to pin that down. We must of course avoid replication. We also need to see the strengthening of the advice services available that will signpost, hopefully, Welsh businesses to what the development bank will have to offer. I also thank Robert Lloyd Griffiths for the work that he's done in highlighting some of the 10 ways in which Business Wales can be strengthened. So, we too will continue to analyse and assess the contents of Professor Dylan Jones-Evans's report in detail. We will no doubt have further opportunities here in the Chamber and also in scrutiny sessions in the Enterprise and Business Committee to look at the best ways forward on the back of the proposals that are being made.

Nawr, mae safle'r banc newydd o fewn yr ystod ehangach o fentrau datblygu economaidd yn hanfodol. Mae'n bwysig cadarnhau hynny. Mae'n rhaid inni osgoi dyblygu, wrth gwrs. Mae angen inni hefyd weld cryfhau'r gwasanaethau cynghori sydd ar gael a fydd yn cyfeirio, gobeithio, busnesau Cymru at yr hyn a fydd gan y banc datblygu i'w gynnig. Hoffwn ddiolch hefyd i Robert Lloyd Griffiths am y gwaith y mae wedi'i wneud i amlygu rhai o'r 10 o ffyrdd y gellir cryfhau Busnes Cymru. Felly, byddwn ninnau hefyd yn parhau i ddadansoddi ac asesu cynnwys adroddiad yr Athro Dylan Jones-Evans yn fanwl. Mae'n siŵr y cawn gyfleoedd pellach yma yn y Siambr, a hefyd mewn sesiynau craffu yn y Pwyllgor Menter a Busnes, i edrych ar y ffyrdd gorau ymlaen ar gefn y cynigion sy'n cael eu gwneud.

But my one question relates to timescale, and I hear that you are planning to make an announcement about likely timescale soon. The one thing that I would ask though, on top of that, is that the next step is implementation. It has been the case with business rates, similarly, that we've been here welcoming a report from Government, welcoming signs that action is about to be taken, only to find ourselves with another review being undertaken. Whilst, of course, I understand the need to be totally scrupulous in how we look at the detail of any such proposals, can I just ask that the next stage in this particular case is implementation?

Ond mae fy un cwestiwn yn ymwneud ag amserlen, ac rwyf yn clywed eich bod yn bwriadu gwneud cyhoeddiad am amserlen debygol cyn bo hir. Yr un peth y byddwn yn ei ofyn fodd bynnag, ar ben hynny, yw mai'r cam nesaf yw gweithredu. Mae wedi bod yn wir gydag ardrethi busnes, yn yr un modd, ein bod wedi bod yma'n croesawu adroddiad gan y Llywodraeth, yn croesawu arwyddion bod camau ar fin cael eu cymryd, ond yna'n gweld bod adolygiad arall yn cael ei wneud. Er fy mod, wrth gwrs, yn deall bod angen inni edrych yn gwbl drwyadl ar fanylion unrhyw gynigion o'r fath, a gaf fi ofyn yn syml mai gweithredu fydd y cam nesaf yn yr achos penodol hwn?

14:43 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I say that the next stage in what we are doing is the work on the implementation strategy? Because this is purely within the gift of this Government in terms of how we can take this work forward, unlike business rates where I do feel constrained, with inquiries going on across my border and possible announcements again by the Chancellor tomorrow; I've got to be very careful in terms of business rates, with £1 billion's worth of money, what I'm going to do and how I'm going to get the best results on it. It's not my natural inclination, and if I was in charge of my own destiny I can assure you that you would have had some quite interesting recommendations around business rates.

A gaf fi ddweud mai'r cam nesaf yn yr hyn yr ydym yn ei wneud yw'r gwaith ar y strategaeth weithredu? Oherwydd mai penderfyniad y Llywodraeth hon yn unig yw sut y gallwn ddatblygu'r gwaith hwn, yn wahanol i ardrethi busnes lle'r wyf yn teimlo bod cyfyngiadau, ag ymholiadau'n digwydd ar draws fy ffin a chyhoeddiadau posibl unwaith eto gan y Canghellor yfory; mae'n rhaid imi fod yn ofalus iawn o ran ardrethi busnes, gyda gwerth £1 biliwn o arian, beth yr wyf yn mynd i'w wneud a sut yr wyf yn mynd i gael y canlyniadau gorau. Nid dyna yw fy awydd naturiol, a phe bawn yn gyfrifol am fy nhynged fy hun gallaf eich sicrhau y byddech wedi cael argymhellion eithaf diddorol ynglŷn ag ardrethi busnes.

Can I say that, obviously, I welcome your support for the development bank? Can I say that I don't regard this as a party-political issue because, in some ways, we're all looking at what we can do in terms of a development bank across all parties? Is there something different we can do? Is there something better? I think the important thing about this report—and it's why I was keen—was to have the funding gap so clearly quantified and laid out. Now, that's been very important. It's also been a lot of work for them to get to that identifiable position, which everybody says is the correct position on it. Also as well, I will have to be clear and pin down where the bank sits in terms of overall policy, and that is linked very closely to what we're doing with Business Wales, the 10 ways to improve by Robert Lloyd Griffiths, and how advice services come. But you can have my assurance in terms of this that what we're looking at now is the implementation strategy about how this can be done and dusted. I would very much hope that I'd have early indications of that before we go into recess in the summer, but, obviously, I do want to have my first lot of discussions with the chair of Finance Wales, and he will want to have discussions on his board about how we take these things forward. I will also be particularly interested in what arises from the committee and their discussions amongst the Members and any witnesses they might wish to call, in terms of how they see this strategically being taken forward.

A gaf fi ddweud fy mod, yn amlwg, yn croesawu eich cefnogaeth i'r banc datblygu? A gaf fi ddweud nad wyf yn ystyried bod hwn yn fater o bleidiau gwleidyddol oherwydd, mewn rhai ffyrdd, mae pob un ohonom yn edrych ar yr hyn y gallwn ei wneud o ran y banc datblygu ar draws yr holl bleidiau? A oes rhywbeth gwahanol y gallwn ei wneud? A oes rhywbeth gwell? Rwy'n meddwl mai'r peth pwysig am yr adroddiad hwn—a pham yr oeddwn yn awyddus—oedd bod y bwlch cyllido wedi'i fesur ac wedi'i amlinellu mor glir. Nawr, mae hynny wedi bod yn bwysig iawn. Mae hefyd wedi bod yn llawer o waith iddynt gyrraedd y safbwynt hwnnw y gellir ei adnabod—y safbwynt y mae pawb yn dweud yw'r safbwynt cywir arno. Hefyd, bydd yn rhaid imi fod yn glir a chadarnhau sefyllfa'r banc o ran polisi cyffredinol, ac mae cysylltiad agos iawn rhwng hynny a'r hyn yr ydym yn ei wneud gyda Busnes Cymru, y 10 ffordd o wella gan Robert Lloyd Griffiths, a sut y daw gwasanaethau cynghori. Ond cewch fy sicrwydd yn hyn o beth mai'r hyn yr ydym yn edrych arno nawr yw'r strategaeth weithredu ynghylch sut y gellir cwblhau hyn. Rwyf yn mawr obeithio y bydd gennyf arwyddion cynnar o hynny cyn inni fynd i mewn i doriad yr haf, ond, yn amlwg, hoffwn gael fy nghyfres gyntaf o drafodaethau â chadeirydd Cyllid Cymru, a bydd ef yn awyddus i gael trafodaethau â'i fwrdd ynglŷn â sut yr ydym yn bwrw ymlaen â'r pethau hyn. Bydd gennyf hefyd ddiddordeb arbennig yn yr hyn sy'n codi o'r pwyllgor a'u trafodaethau ymhlith yr Aelodau ac unrhyw dystion y dymunant alw arnynt, o ran sut y maent yn rhagweld y byddwn yn bwrw ymlaen â hyn yn strategol.

14:45

## Eluned Parrott Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'd like to add my thanks to Dylan Jones Evans and, of course, Robert Lloyd Griffiths and all of the contributors who have put their time into this piece of work. I think it provides us with a very helpful assessment of the strategic environment that we're working in right now, but also of some of the practical issues that we need to overcome.

Hoffwn ychwanegu fy niolch i Dylan Jones Evans ac, wrth gwrs, i Robert Lloyd Griffiths a phob un o'r cyfranwyr sydd wedi rhoi o'u hamser i'r darn hwn o waith. Rwy'n credu ei fod yn rhoi asesiad defnyddiol iawn inni o'r amgylchedd strategol yr ydym yn gweithio ynddo ar hyn o bryd, ond hefyd o rai o'r materion ymarferol y mae angen inni eu goresgyn.

The funding gap, as you mentioned, Minister, is truly shocking at £0.5 billion a year, or more than £150 for every single man, woman and child in Wales. That is an astonishing gap that we need to make up. So, it's right that the timescale should be brought forward as quickly as possible, but, of course, we need to make sure that, in moving forward, we're not repeating the mistakes of the past.

Mae'r bwlch ariannu, fel y soniasoch, Weinidog, o £0.5 biliwn y flwyddyn yn wirioneddol syfrdanol—mae'n fwy na £150 ar gyfer pob un dyn, menyw a phlentyn yng Nghymru. Mae hwnnw'n fwlch rhyfeddol y mae angen inni ei gau. Felly, mae'n iawn y dylid dwyn yr amserlen ymlaen cyn gynted ag y bo modd, ond, wrth gwrs, mae angen inni wneud yn siŵr nad ydym, wrth symud ymlaen, yn ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol.

I think this report today on the development bank for Wales is particularly helpful in telling us a little bit more clearly what exactly a development bank is, and what it is that we could expect it to do. We have to be clear that, whilst all of us in this Chamber at some point have welcomed the idea, and the thing that might be a development bank, we haven't necessarily all discussed in detail what it is and whether or not we agree on those points of detail.

Rwy'n credu bod yr adroddiad hwn heddiw am y banc datblygu ar gyfer Cymru yn arbennig o ddefnyddiol o ran dweud wrthym ychydig yn gliriach beth yn union yw banc datblygu, a beth y gallem ddisgwyl iddo ei wneud. Mae'n rhaid inni fod yn glir, er bod pob un ohonom yn y Siambr hon ar ryw adeg wedi croesawu'r syniad, a'r peth a allai fod yn fanc datblygu, nad ydym o reidrwydd i gyd wedi trafod yn fanwl beth ydyw a pha un a ydym yn cytuno ar y pwyntiau manylder hynny ai peidio.

On the hybrid model that has been recommended, I'd like to understand the Minister's feelings on this and whether this is, indeed, what she will go forward with. It's recommended as a compromise, essentially, and I'm delighted at the suggestion of aligning the finance available with support for businesses, as I've said many times before, but, of course, the question is how existing provision sits alongside the new in a co-ordinated fashion as we move forward. For example, if Finance Wales is to be merged into the new body, how would existing funds be managed within that body? Would those existing customers have their funds ring-fenced within the new structure, or would we seek to renegotiate with those customers? They will want to know those kinds of details.

O ran y model hybrid sydd wedi ei argymell, hoffwn ddeall teimladau'r Gweinidog amdano ac ai hwn, yn wir, yw'r model y bydd hi'n bwrw ymlaen ag ef. Mae'n cael ei argymell fel cyfaddawd, yn ei hanfod, ac rwyf wrth fy modd â'r awgrym o gyfuno'r cyllid sydd ar gael â chefnogaeth i fusnesau, fel yr wyf wedi'i ddweud sawl gwaith o'r blaen, ond, wrth gwrs, y cwestiwn yw sut y mae'r ddarpariaeth bresennol yn cyd-fynd â'r un newydd mewn modd cydgysylltiedig wrth inni symud ymlaen. Er enghraifft, os caiff Cyllid Cymru ei uno i mewn i'r corff newydd, sut y byddai'r corff hwnnw'n rheoli'r cronfeydd presennol? A gâi cronfeydd y cwsmeriaid presennol hynny eu neilltuo o fewn y strwythur newydd, ynteu a fyddem yn ceisio ail-drafod â'r cwsmeriaid hynny? Byddant yn dymuno cael gwybod y mathau hynny o fanylion.

Also, Finance Wales, obviously, has a higher rate of high-risk lending than many other banks and providers, and I'm wondering whether the development bank could or, indeed, should have a similar kind of risk profile, if it is what supports the strategic need.

Hefyd, mae gan Gyllid Cymru, yn amlwg, gyfradd uwch o fenthyca risg uchel na llawer o fanciau a darparwyr eraill, ac rwyf yn meddwl tybed a allai neu, yn wir, a ddylai, fod gan y banc datblygu fath tebyg o broffil risg, os mai dyna sy'n cefnogi'r angen strategol.

I think, also, we need to understand the interrelationship between these two reports, especially where the recommendations are not necessarily complementary to one another. Of course, they work in tandem, but we need to make sure that actually now we bring both of those pieces to work together to deliver a future.

Rwyf yn meddwl, hefyd, bod angen inni ddeall y gydberthynas rhwng y ddau adroddiad hyn, yn enwedig pan nad yw'r argymhellion o reidrwydd yn cyd-fynd â'i gilydd. Wrth gwrs, maent yn gweithio ar y cyd, ond mae angen inni wneud yn siŵr ein bod yn awr mewn gwirionedd yn dod â'r ddau ddarn hynny o waith at ei gilydd i sicrhau dyfodol.

It won't surprise you, Minister, to learn that I'm particularly interested in governance arrangements. The report suggests a board that is appointed by the shareholder on the basis of expertise, and that there should be one shareholder representative who is not a Government official, but, of course, if the board is appointed by the shareholder and the shareholder is the Welsh Government, the question in my mind is what role is there for the National Assembly for Wales in holding the development bank to account and in making those public appointments? We are seeing the First Minister, for example in the Committee for the Scrutiny of the First Minister on Friday, discussing ways in which we can make some public appointments involving the National Assembly more rather than the Welsh Government directly. I'd be interested in your views on that.

Ni fydd yn syndod i chi, Weinidog, i wybod bod gen i ddiddordeb arbennig mewn trefniadau llywodraethu. Mae'r adroddiad yn awgrymu bwrdd a benodir gan y rhanddeiliad ar sail arbenigedd, ac y dylid cael un cynrychiolydd rhanddeiliad nad yw'n un o swyddogion y Llywodraeth, ond, wrth gwrs, os penodir y bwrdd gan y rhanddeiliad ac mai'r rhanddeiliad yw Llywodraeth Cymru, y cwestiwn yn fy meddwl yw pa swyddogaeth a fydd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran dwyn y banc datblygu i gyfrif a gwneud y penodiadau cyhoeddus hynny? Rydym yn gweld y Prif Weinidog, er enghraifft yn y Pwyllgor Craffu ar Waith y Prif Weinidog ddydd Gwener, gan drafod ffyrdd y gallwn wneud rhai penodiadau cyhoeddus gan gynnwys y Cynulliad Cenedlaethol i raddau mwy helaeth yn hytrach na Llywodraeth Cymru'n uniongyrchol. Byddai gennyf ddiddordeb yn eich barn ar hynny.

Finally, in terms of targeting, the report's very clear that it's critical to avoid duplication, and that will mean a targeting of the finance available. I would suggest that, in previous financial strategies or economic strategies, for example the sectors strategy, we've seen mission creep, where we started with a very targeted strategy but we have listened to the voices of the lobby, who are suggesting that there may be other very worthy people who require support, as well. I'm wondering where you see the balance lying between the very targeted approach recommended in this report, and the needs of smaller businesses across Wales that are struggling with the day-to-day running of their world.

Yn olaf, o ran targedu, mae'r adroddiad yn glir iawn bod osgoi dyblygu'n hanfodol, a bydd hynny'n golygu targedu'r cyllid sydd ar gael. Byddwn yn awgrymu ein bod, mewn strategaethau ariannol neu strategaethau economaidd blaenorol, er enghraifft y strategaeth sectorau, wedi gweld ymgripiad cenhadaeth, lle'r ydym wedi dechrau â strategaeth wedi'i thargedu'n fanwl, ond yna rydym wedi gwrando ar leisiau'r lobi, sy'n awgrymu y gallai fod angen cymorth ar bobl deilwng iawn eraill, yn ogystal. Rydw i'n meddwl tybed ble yr ydych yn gweld y cydbwysedd rhwng y dull wedi'i dargedu'n fanwl a argymhellir yn yr adroddiad hwn, ac anghenion busnesau llai ledled Cymru sy'n cael trafferth i gynnal eu byd o ddydd i ddydd.

14:49 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I think Eluned Parrott's contribution indicated why we have to look at the practicabilities of how this will work out, how the two reports work together, and how we draw the line when there is a difference between the two, about the line and the structure that we're taking.

Rwyf yn meddwl bod cyfraniad Eluned Parrott wedi dangos pam mae'n rhaid inni edrych ar ymarferoldeb sut y bydd hyn yn gweithio, sut y mae'r ddau adroddiad yn gweithio gyda'i gilydd, a sut yr ydym yn tynnu'r llinell pan fo gwahaniaeth rhwng y ddau, ynglŷn â'r safbwynt a'r strwythur y byddwn yn eu defnyddio.

In terms of the development bank, I think she's quite right when she says that a development bank means something different to nearly every person around this room about its role and functioning. So, during this period when we're looking at implementation, it will be quite clear that we'll have to clarify what its role is. Some of the issues we will have to clarify will be about funds, about what will happen in the future and would they be ring-fenced, and I think those are the questions that we're going to have to answer in detail.

O ran y banc datblygu, rwyf yn meddwl ei bod hi'n hollol gywir pan ddywed bod banc datblygu'n golygu rhywbeth gwahanol i bron bob unigolyn o gwmpas yr ystafell hon o ran ei swyddogaeth a'i weithrediad. Felly, yn ystod y cyfnod hwn pan fyddwn yn edrych ar ei roi ar waith, bydd yn gwbl glir y bydd yn rhaid inni egluro beth yw ei swyddogaeth. Bydd rhai o'r materion y bydd yn rhaid inni eu hegluro yn ymwneud ag arian, ac am yr hyn a fydd yn digwydd yn y dyfodol ac a gaiff ei neilltuo, ac rwy'n credu mai dyna'r cwestiynau y bydd yn rhaid inni eu hateb yn fanwl.

Also as well, in terms of the high risk et cetera, I think there is a role for high risk, because there's a role for Government to take that high risk to make something very successful in terms of delivery. If we are looking for innovation and we are looking to support innovation, sometimes there will be an element of risk. But the relationships are very important.

Hefyd, o ran y risg uchel ac ati, rwyf yn credu bod lle i risg uchel, oherwydd mae lle i'r Llywodraeth gymryd y risg uchel hwnnw i wneud rhywbeth llwyddiannus iawn o ran cyflawni. Os ydym yn chwilio am arloesedd ac yn ceisio cefnogi arloesedd, weithiau bydd elfen o risg. Ond mae'r berthynas yn bwysig iawn.

Now, in terms of the governance model, obviously, with the Finance Wales board, we've never had any queries or concerns about the governance model there, and I'm very conscious of that.

Nawr, o ran y model llywodraethu, yn amlwg, gyda bwrdd Cyllid Cymru, nid ydym erioed wedi cael dim ymholiadau na phryderon am y model llywodraethu yno, ac rwy'n ymwybodol iawn o hynny.

Can I also say I'm quite keen on a targeted approach, if I'm honest? I acknowledge there has been an element of mission creep within certain areas, and I think that's an inevitability unless you keep a good grip on it. So, I think some of the questions that you've asked today are some of the questions that will come out now in the feasibility—how it's going to become a reality from where we are. But I think I will have to then give clear statements so that we all understand what the development bank really means. It isn't something that everybody has in their manifesto. It might be something that—how shall I put it?—is the bringing of all ideas together in some common idea.

A gaf fi hefyd ddweud fy mod yn eithaf awyddus i ddefnyddio dull wedi'i dargedu, os ydw i'n onest? Rwyf yn cydnabod y bu elfen o ymgripiad cenhadaeth mewn rhai meysydd, ac rwyf yn credu bod hynny'n anochel oni bai eich bod yn dal gafael da arno. Felly, rwyf yn credu mai rhai o'r cwestiynau yr ydych wedi'u gofyn heddiw fydd rhai o'r cwestiynau a ddaw i'r amlwg nawr yn yr astudiaeth o ddichonoldeb—sut y daw'n wirionedd o'r lle yr ydym ni ynddo nawr. Ond rwy'n credu y bydd yn rhaid imi wedyn roi datganiadau clir fel ein bod i gyd yn deall beth yw ystyr y banc datblygu mewn gwirionedd. Nid yw'n rhywbeth sydd ym maniffesto pawb. Gallai fod yn rhywbeth—sut y dylwn i ddweud hyn?—sy'n dod â'r holl syniadau at ei gilydd mewn rhyw syniad cyffredin.

14:51 **Julie Morgan** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I welcome the Minister's statement. I particularly welcome the work being done and being planned to bring different services together. I'm very pleased that the Finance Committee is going to have a look at access to finance and Finance Wales in particular, again, as part of moving this process forward. As the Minister has said in her statement, there are potential impacts for Finance Wales, dependent on which option is selected to move forward. Our look, on the Finance Committee, at Finance Wales did show how well regarded it was in the UK and internationally. One of our recommendations was that any changes to Finance Wales should build on its existing skills and infrastructure, and not damage the reputation it has developed. So, I'd like to ask the Minister if she could look at that recommendation in particular.

Rwyf yn croesawu datganiad y Gweinidog. Rwyf yn croesawu'n arbennig y gwaith sy'n cael ei wneud ac yn cael ei gynllunio i ddod â gwahanol wasanaethau at ei gilydd. Rwy'n falch iawn y bydd y Pwyllgor Cyllid yn edrych ar fynediad at gyllid a Chyllid Cymru yn arbennig, unwaith eto, wrth fwrw ymlaen â'r broses hon. Fel y mae'r Gweinidog wedi'i ddweud yn ei datganiad, gallai hyn effeithio ar Gyllid Cymru, gan ddibynnu pa opsiwn a ddewisir i symud ymlaen. Roedd ein golwg ni, yn y Pwyllgor Cyllid, ar Gyllid Cymru yn dangos pa mor uchel ei barch ydoedd yn y DU ac yn rhyngwladol. Un o'n hargymhellion oedd y dylai unrhyw newidiadau i Gyllid Cymru adeiladu ar y sgiliau a'r seilwaith sy'n bodoli yno eisoes, ac nid niweidio'r enw da y mae wedi'i ddatblygu. Felly, hoffwn ofyn i'r Gweinidog a wnaiff hi edrych ar yr argymhelliad hwnnw'n benodol.

14:52 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I say, obviously, I accepted the Finance Committee recommendations with regard to the report, and she is absolutely correct? Even though doubts are raised in this Chamber about Finance Wales, when you talk to other parts of the UK, they can't believe we're so lucky to have an organisation that has, effectively, done such good work. It's always very easy, I think, to pick out things that aren't right with an organisation, but then you have to look at the rest of it, which is all correct. I don't want any destabilisation in this. I see this almost as additionality in what we need to do for the future, because, sometimes, an organisation has its shelf life as it is, and we have to move on for the changing needs of the economy. But I think the Member's points are absolutely well made in the context of how I'm taking this discussion forward in Government.

A gaf fi ddweud, yn amlwg, fy mod wedi derbyn argymhellion y Pwyllgor Cyllid o ran yr adroddiad, a'i bod hi'n hollol gywir? Er bod amheuon yn cael eu codi yn y Siambr hon am Gyllid Cymru, pan siaradwch â rhannau eraill o'r DU, ni allant gredu ein bod mor ffodus â chael sefydliad sydd, mewn gwirionedd, wedi gwneud gwaith cystal. Mae bob amser yn hawdd iawn, rwyf yn credu, nodi pethau nad ydynt yn iawn mewn sefydliad, ond yna mae'n rhaid ichi edrych ar y gweddill ohono, sydd i gyd yn gywir. Dydw i ddim am weld unrhyw ansefydlogi yn hyn o beth. Rwy'n gweld hyn bron fel ychwanegedd yn yr hyn y mae angen inni ei wneud ar gyfer y dyfodol, oherwydd, weithiau, mae gan sefydliad ei oes silff fel y mae hi, ac mae'n rhaid inni symud ymlaen er budd anghenion newidiol yr economi. Ond rwy'n credu bod yr Aelod wedi gwneud pwyntiau da iawn yng nghyd-destun sut yr wyf yn bwrw ymlaen â'r drafodaeth hon yn y Llywodraeth.

14:52 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Finally, the Chair of Finance Committee, Jocelyn Davies.

Yn olaf, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid, Jocelyn Davies.

14:52 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Presiding Officer. Well, thank you, Minister, for writing to me about the professor's latest report, and we will certainly be undertaking a session with him to explore it in detail. I'm pleased that you mentioned that we as a committee did not feel that Finance Wales was unfit for its purpose, and its reputation is certainly very important to us. Do you feel that there is still widespread confusion over its purpose, and would you welcome further Assembly scrutiny of Finance Wales or whatever structure you might put in place in order that it can be assisted with its future role? Do you expect that the entire funding gap should be made up by the Assembly Government?

Diolch, Lywydd. Wel, diolch yn fawr, Weinidog, am ysgrifennu ataf am adroddiad diweddaraf yr athro, a byddwn yn sicr yn cynnal sesiwn gydag ef i'w archwilio'n fanwl. Rwy'n falch eich bod wedi dweud nad oeddem ni fel pwyllgor yn teimlo bod Cyllid Cymru'n anaddas i'w ddiben, ac mae ei enw da yn sicr yn bwysig iawn inni. A ydych chi'n teimlo bod dryswch eang yn dal i fodoli dros ei ddiben, ac a fyddech yn croesawu craffu pellach gan y Cynulliad ar Gyllid Cymru neu ba bynnag strwythur y gallech ei roi ar waith er mwyn ei gynorthwyo â'i swyddogaeth yn y dyfodol? A ydych yn disgwyl y dylai Llywodraeth y Cynulliad gau'r bwlch ariannu cyfan?

14:53 **Edwina Hart** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I thank very much the Chair of finance for that particular contribution? As I indicated, I think, when I responded to the committee's debate, further scrutiny would be a useful role for the Finance Committee in this area and is something I would like to explore. But I think she's absolutely right that people aren't clear about the purpose of Finance Wales, and I'm not sure how much clearer, sometimes, we can all make it, in terms of what their role and function is. So, I think we do have the opportunity, when you scrutinise this particular report from Dylan Jones-Evans and look at it: that is an issue that we can actually deal with, because if we have a new body that has the best of Finance Wales additionality in it, we need to be quite clear what the role and purpose of that body is. I would certainly welcome that.

A gaf fi ddiolch yn fawr iawn i'r Cadeirydd cyllid am y cyfraniad penodol yna? Fel y nodais, rwyf yn meddwl, wrth ymateb i ddadl y pwyllgor, y byddai craffu pellach yn swyddogaeth ddefnyddiol i'r Pwyllgor Cyllid yn y maes hwn ac mae'n rhywbeth yr hoffwn ei archwilio. Ond rwy'n credu ei bod hi'n hollol gywir wrth ddweud nad yw pobl yn glir am bwrpas Cyllid Cymru, ac nid wyf yn siŵr faint yn gliriach, weithiau, y gallwn i gyd ei wneud, o ran beth yw ei ddiben a'i swyddogaeth. Felly, rwyf yn credu bod gennym y cyfle, pan fyddwch yn craffu ar yr adroddiad penodol hwn gan Dylan Jones-Evans ac yn edrych arno: mae hwnnw'n fater y gallwn mewn gwirionedd ymdrin ag ef, oherwydd os oes gennym gorff newydd sydd â'r gorau o ychwanegedd Cyllid Cymru ynddo, mae angen inni fod yn gwbl glir beth yw swyddogaeth a phwrpas y corff hwnnw. Byddwn yn sicr yn croesawu hynny.

In terms of the funding gap, that is one of the big issues about who will deal with the funding gap. Will we have partners to help us to deal with the funding gap? That is something we have to explore.

O ran y bwlch cyllido, un o'r materion mawr yw pwy fydd yn ymdrin â'r bwlch cyllido. A fydd gennym bartneriaid i'n helpu i ymdrin â'r bwlch cyllido? Mae hynny'n rhywbeth y mae'n rhaid inni ei archwilio.

Can I also say, in the spirit of scrutiny, it might be quite helpful as well for Robert Lloyd Griffiths perhaps to attend the respective committees, because then he can bring out the points that are relevant with Professor Dylan Jones-Evans's report, about the linkage of the two strands.

A gaf fi hefyd ddweud, yn ysbryd craffu, y gallai fod yn eithaf defnyddiol hefyd i Robert Lloyd Griffiths efallai fynychu'r priod bwyllgorau, oherwydd gall ef wedyn godi'r pwyntiau sy'n berthnasol gydag adroddiad yr Athro Dylan Jones-Evans, am gysylltedd y ddwy elfen.

14:54

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you very much.

Diolch yn fawr iawn.

14:54

# 4. Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

# 4. The Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Consequential Provisions) Regulations 2015

Senedd.tv Fideo Video

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move to item 4, which is the Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Consequential Provisions) Regulations 2015, and I call on the Minister, Leighton Andrews.

Symudwn yn awr at eitem 4, sef Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015, a galwaf ar y Gweinidog, Leighton Andrews.

Cynnig NDM5724 Jane Hutt

Motion NDM5724 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 24 Chwefror 2015.

Approves that the draft The Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Consequential Provisions) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 24 February 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

14:54

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Diolch, Lywydd. Today, I am presenting to the Assembly for its approval the Welsh Government's Firefighters' Pension Scheme (Wales) (Consequential Provisions) Regulations 2015. The regulations modify how certain provisions of pensions and tax legislation apply to the new firefighters' pension scheme. The regulations are consequential on the Public Service Pensions Act 2013 and the Firefighters' Pension Scheme (Wales) Regulations 2015. They therefore cross-refer to those regulations, which have already been laid. Both sets of regulations are due to come into force on 1 April.

Diolch, Lywydd. Heddiw, rwyf yn cyflwyno Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Darpariaethau Canlyniadol) 2015 Llywodraeth Cymru i'r Cynulliad i'w gymeradwyo. Mae'r rheoliadau'n addasu sut y mae rhai o ddarpariaethau deddfwriaeth pensiynau a threth yn berthnasol i gynllun pensiwn newydd y diffoddwyr tân. Mae'r rheoliadau'n dilyn Deddf Pensiynau'r Gwasanaethau Cyhoeddus 2013 a Rheoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015. Maent felly yn croesgyfeirio at y rheoliadau hynny, sydd eisoes wedi eu gosod. Bydd y ddwy gyfres o reoliadau'n dod i rym ar 1 Ebrill.

The debate today, however, is not about the benefits and terms of the scheme itself. The main Firefighters' Pension Scheme (Wales) Regulations 2015 set those out. I've already made and laid those regulations, which of course follow the negative procedure. I consulted on a draft of these consequential regulations at the end of 2014. They ensure certain members of the current pension schemes can join the new pension scheme whilst retaining certain benefits in their existing schemes. These benefits include the existing contracting-out provisions and the early-leaver provisions of the Pension Schemes Act 1993, ensuring early-leaver provisions are not triggered when a transition member leaves the old scheme and remains active in the new scheme, and modifications to the Pension Schemes Act 1993 to ensure a deferred member of the new scheme should have a different pension age from an active member. Other Governments in the UK have made or will make similar regulations for all public service pension schemes across the UK. These will all be effective from 1 April.

Nid yw'r ddadl heddiw, fodd bynnag, yn ymwneud â manteision a thelerau'r cynllun ei hun. Roedd prif Reoliadau Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) 2015 yn amlinellu'r rheini. Rwyf eisoes wedi gwneud ac wedi gosod y rheoliadau hynny, sydd wrth gwrs yn dilyn y weithdrefn negyddol. Bûm yn ymgynghori ar ddrafft o'r rheoliadau canlyniadol hyn ar ddiwedd 2014. Maent yn sicrhau bod rhai aelodau penodol o'r cynlluniau pensiwn presennol yn cael ymuno â'r cynllun pensiwn newydd gan gadw rhai o fuddion eu cynlluniau presennol. Mae'r buddion hyn yn cynnwys darpariaethau contractio allan a darpariaethau gadael yn gynnar presennol y Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993, sy'n sicrhau na chaiff darpariaethau gadael yn gynnar eu sbarduno pan fydd aelod pontio'n gadael yr hen gynllun ac yn parhau i fod yn weithgar yn y cynllun newydd, a newidiadau i Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993 i sicrhau y dylai fod gan aelod gohiriedig o'r cynllun newydd oedran pensiwn gwahanol i aelod gweithredol. Mae Llywodraethau eraill yn y DU wedi gwneud, neu byddant yn gwneud, rheoliadau tebyg ar gyfer pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus ledled y DU. Bydd y rhain i gyd yn dod i rym ar 1 Ebrill.

Today's motion is to agree these regulations and, if approved, this will allow the regulations to come into force on 1 April, and I therefore urge Members to support this motion today.

Diben cynnig heddiw yw cytuno ar y rheoliadau hyn ac, os caiff ei gymeradwyo, bydd hyn yn caniatáu i'r rheoliadau ddod i rym ar 1 Ebrill, ac felly rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r cynnig hwn heddiw.

14:56

## Rhodri Glyn Thomas Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Lywydd, a gaf i groesawu y datganiad yma yn fawr iawn, a'r rheoliadau y mae'r Gweinidog wedi'u cyflwyno ger ein bron ni y prynhawn yma? Rwy'n croesawu hefyd y ffaith ei fod e wedi mynd i gyfeiriad gwahanol i'r hyn sydd yn digwydd yn Lloegr, ac rwy'n siŵr bod y gweithwyr o fewn y gwasanaeth tân yng Nghymru yn gwerthfawrogi hynny yn fawr iawn. Mae'r rhai hynny ohonom ni sy'n ddibynnol ar y gwasanaeth hwnnw hefyd yn gwerthfawrogi hynny.

Presiding Officer, may I welcome this statement very much as well as the regulations that the Minister has put forward before us this afternoon? I also welcome the fact that he has gone in a different direction to that which is happening in England, and I'm sure that the workforce within the fire service in Wales do appreciate that very much. Those of us who are dependent upon that service are also very appreciative of that.

Ond mae'n deg nodi hefyd fod y rheoliadau yma'n cael eu cyflwyno ar gefndir o doriadau posibl i gyllideb y gwasanaeth tân yng Nghymru, ac y mae'n rhaid inni gofio, wrth gwrs, y gall hynny gael effaith uniongyrchol ar y gwasanaeth rŷm ni wedi dod i ddibynnu cymaint arno—nid yn unig y gwasanaeth uniongyrchol yn ymwneud â thanau, ond y gwasanaeth cymunedol, addysgiadol y mae'r gweithlu o fewn y gwasanaeth tân yn ei gyflawni. Ond rwy'n croesawu'n fawr bod hyn yn rhoi sicrwydd i'r dyfodol i'r bobl hynny sy'n gweithio o fewn y gwasanaeth tân yng Nghymru.

However, it's also fair to note that these regulations are being presented against a backdrop of potential cuts to the budget of the fire service in Wales, and we have to bear in mind, of course, that that could have a direct impact on the service that we have come to rely upon so much—not only the direct service in relation to fires, but also the community and educational service that the workforce within the fire service provides. However, I welcome very much that this provides certainty for the future to those people who work within the fire service in Wales.

14:58

## Peter Black Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Can I start by welcoming the regulations that have been laid? I think it's important that the Welsh Government have gone in a slightly different direction to the UK for England. I think it shows that we can, in Wales, devise solutions that are relevant to Wales and will benefit Welsh firefighters specifically.

A gaf fi ddechrau drwy groesawu'r rheoliadau sydd wedi eu gosod? Rwy'n credu ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru wedi mynd i gyfeiriad ychydig yn wahanol i'r DU ar gyfer Lloegr. Rwy'n credu bod hynny'n dangos ein bod yn gallu, yng Nghymru, dyfeisio atebion sy'n berthnasol i Gymru ac a fydd o fudd i ddiffoddwyr tân yng Nghymru yn benodol.

The Minister will know, however, about my disappointment about the changes to the regulations: that he hasn't taken up my representation and the representations of other Members in this Chamber in relation to former armed forces personnel who have moved into the fire service and have effectively transferred their armed forces pension into their fire service pension. Currently, because the tapered protection for the fire service is based on an individual's age rather than length of service and age, as it is in Scotland, a number of those firefighters will lose out as a result. In the correspondence that I've had from the Minister, he points out that this will affect between 150 and 160 firefighters in Wales, and he identifies costs in the order of £6 million over the next seven years, which, of course, is less than £1 million a year. I understand the financial constraints that the Minister has been operating under, and I understand that he has to manage his budget appropriately, but I do feel that there is a very strong case that those former armed forces personnel who now serve their country in the fire service should not lose out because of their previous service in the armed forces, and because they were not able to start in the fire service earlier because of that. There should be some provision in these regulations—or certainly new regulations should be brought in—to assist those particular firefighters in ensuring that they're able to gain the benefit not only of their firefighter pension, but also the armed forces pension, which they transferred into it.

Bydd y Gweinidog yn gwybod, fodd bynnag, am fy siom ynglŷn â'r newidiadau i'r rheoliadau: nad yw wedi cyd-fynd â fy sylwadau i a sylwadau Aelodau eraill yn y Siambr hon ynglŷn â chyn bersonél y lluoedd arfog sydd wedi symud i mewn i'r gwasanaeth tân ac, i bob diben, wedi trosglwyddo eu pensiwn lluoedd arfog i'w pensiwn gwasanaeth tân. Ar hyn o bryd, oherwydd bod y diogeliad sy'n lleihau'n raddol ar gyfer y gwasanaeth tân yn seiliedig ar oedran yr unigolyn yn hytrach na hyd y gwasanaeth ac oedran, fel yn yr Alban, bydd nifer o'r diffoddwyr tân hynny ar eu colled o ganlyniad. Yn yr ohebiaeth yr wyf wedi'i chael gan y Gweinidog, mae ef yn nodi y bydd hyn yn effeithio ar rhwng 150 a 160 o ddiffoddwyr tân yng Nghymru, ac mae'n nodi y bydd y costau tua £6 miliwn dros y saith mlynedd nesaf, sydd, wrth gwrs, yn llai nag £1 filiwn y flwyddyn. Rwyf yn deall y cyfyngiadau ariannol sydd wedi bod ar y Gweinidog, ac rwyf yn deall bod yn rhaid iddo reoli ei gyllideb yn briodol, ond rwyf yn teimlo bod achos cryf iawn na ddylai cyn bersonél y lluoedd arfog sydd bellach yn gwasanaethu eu gwlad yn y gwasanaeth tân fod ar eu colled oherwydd eu gwasanaeth blaenorol yn y lluoedd arfog, ac nad oeddent yn gallu dechrau'n gynharach yn y gwasanaeth tân oherwydd hynny. Dylai'r rheoliadau hyn gynnwys rhywfaint o ddarpariaeth—neu yn sicr dylid cyflwyno rheoliadau newydd—i gynorthwyo'r diffoddwyr tân penodol hynny o ran sicrhau eu bod yn gallu cael budd nid yn unig o'u pensiwn diffoddwyr tân, ond hefyd o'u pensiwn lluoedd arfog y gwnaethant ei drosglwyddo i mewn iddo.

I would hope, therefore, that the Minister will continue to listen to representations from me and other Members and will consider bringing, at some future date, further amendments to these regulations to accommodate those armed forces personnel who are now in the fire service to ensure that some equity is brought for them as well and that the benefits that he's able to bring to firefighters in Wales, as compared with those in England, can also be extended to help armed forces personnel, who, of course, are not being helped in England either but are being assisted in Scotland. Maybe we could look again at these regulations, sometime in the near future, to try to get some parity with Scotland so as to assist those particular individuals. Thank you, Presiding Officer.

Byddwn yn gobeithio, felly, y gwnaiff y Gweinidog barhau i wrando ar sylwadau gennyf fi ac Aelodau eraill ac y gwnaiff ystyried cyflwyno, rywbryd yn y dyfodol, newidiadau pellach i'r rheoliadau hyn i ddarparu ar gyfer y personél lluoedd arfog hynny sydd nawr yn y gwasanaeth tân er mwyn sicrhau rhywfaint o degwch iddynt hwy hefyd ac y gellir ymestyn y buddion y mae'n gallu eu rhoi i ddiffoddwyr tân yng Nghymru, o'u cymharu â'r rhai yn Lloegr, hefyd i helpu personél y lluoedd arfog, nad ydynt, wrth gwrs, yn cael eu helpu yn Lloegr ychwaith ond sydd yn cael eu cynorthwyo yn yr Alban. Efallai y gallem edrych eto ar y rheoliadau hyn, rywbryd yn y dyfodol agos, i geisio cael rhywfaint o gydraddoldeb gyda'r Alban er mwyn helpu'r unigolion penodol hynny. Diolch, Lywydd.

15:00

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:00

## Leighton Andrews Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus / The Minister for Public Services*

Llywydd, I welcome the fact that Members have recognised that what is before the Assembly is a more generous scheme than what is available in England. But, I do think it is important that people understand the provisions in respect of the scheme and understand the detail in respect of members who may have joined the scheme from the armed forces.

Lywydd, rwyf yn croesawu'r ffaith bod Aelodau wedi cydnabod bod y cynllun sydd gerbron y Cynulliad yn un mwy hael na'r un sydd ar gael yn Lloegr. Ond, rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig bod pobl yn deall darpariaethau'r cynllun ac yn deall y manylion ynglŷn ag aelodau a allai fod wedi ymuno â'r cynllun o'r lluoedd arfog.

Firstly, there is no discrimination against ex-forces firefighters or, indeed, anyone else. All firefighters qualify for protection on the same terms. Career history in the forces or otherwise makes no difference at all. Secondly, nor will anyone lose the pension they've already accrued. Existing pension contributions remain exactly as they are. Some firefighters will transfer them into the new scheme. Others, those with protection, remain in their current scheme. Those without protection will find that they now have to work until 60, rather than 55, before they can claim their full pension. If they still want to retire at 55, their pension will not be worth as much as they might previously have expected. But, of course, this change is forced upon us by the Public Service Pensions Act 2013, which applies to all public sector pension schemes in Great Britain. We must implement it whether we like it or not.

Yn gyntaf, nid oes unrhyw wahaniaethu yn erbyn diffoddwyr tân sy'n gyn bersonél lluoedd nac, yn wir, unrhyw un arall. Mae'r holl ddiffoddwyr tân yn gymwys i gael eu diogelu ar yr un telerau. Nid yw hanes gyrfa yn y lluoedd nac fel arall yn gwneud unrhyw wahaniaeth o gwbl. Yn ail, ni fydd neb ychwaith yn colli'r pensiwn y maent eisoes wedi'i gronni. Mae cyfraniadau pensiwn presennol yn aros yn union fel ag y maent. Bydd rhai diffoddwyr tân yn eu trosglwyddo i'r cynllun newydd. Bydd eraill, y rhai sydd wedi'u diogelu, yn aros yn eu cynllun presennol. Bydd y rhai sydd heb eu diogelu yn gweld bod yn rhaid iddynt weithio tan eu bod yn 60 oed erbyn hyn, yn hytrach na 55, cyn y gallant hawlio eu pensiwn llawn. Os ydynt yn dal yn awyddus i ymddeol yn 55 oed, ni fydd eu pensiwn yn werth cymaint ag y gallent fod wedi'i ddisgwyl yn flaenorol. Ond, wrth gwrs, cafodd y newid hwn ei orfodi arnom gan Ddeddf Pensiynau Gwasanaethau Cyhoeddus 2013, sy'n berthnasol i bob cynllun pensiwn sector cyhoeddus ym Mhrydain Fawr. Mae'n rhaid inni ei weithredu pa un a ydym yn hoffi hynny ai peidio.

Of course, I have significantly reduced the reduction in my new scheme for firefighters, as Rhodri Glyn and Peter Black have recognised. Firefighters without protected rights remaining in their current scheme will be able to retire at 55 with only a modest pension reduction. Indeed, their monthly pensions will be around 14 per cent to 15 per cent higher than comparable ex-firefighters in England.

Wrth gwrs, rwyf wedi gostwng yn sylweddol y gostyngiad yn fy nghynllun newydd i ddiffoddwyr tân, fel y mae Rhodri Glyn a Peter Black wedi'i gydnabod. Bydd diffoddwyr tân heb hawliau wedi'u diogelu sy'n aros yn eu cynllun presennol yn gallu ymddeol yn 55 oed gyda dim ond gostyngiad bach i'w pensiwn. Yn wir, bydd eu pensiynau misol tua 14 y cant i 15 y cant yn uwch na chyn-ddiffoddwyr tân cymaradwy yn Lloegr.

It's true that serving members of the armed forces can currently retire on a full pension after 23 years' service, but they lose that right, of course, if they leave the forces for other employment. They then, obviously, have the pension rights of their new job. An ex-soldier who joins the fire service clearly cannot retire from that job, or any other employment, as though he or she were still a soldier. Anyone who joins the fire service from the armed forces has always had the option of transferring their military pension into the firefighters' scheme. If so, their length in military service and contributions are added to their firefighters' pension. If they choose not to, they receive a deferred military pension at the point they would have retired from the forces. This is their choice, but, either way, there is no question of military service not being honoured or not counting for pension purposes.

Mae'n wir bod aelodau sy'n gwasanaethu yn y lluoedd arfog ar hyn o bryd yn cael ymddeol ar bensiwn llawn ar ôl 23 mlynedd o wasanaeth, ond maent yn colli'r hawl hwnnw, wrth gwrs, os ydynt yn gadael y lluoedd i gymryd swydd arall. Yna, yn amlwg, bydd ganddynt hawliau pensiwn eu swydd newydd. Mae'n amlwg na all cyn-filwr sy'n ymuno â'r gwasanaeth tân ymddeol o'r swydd honno, nac o unrhyw swydd arall, fel pe byddai'n dal i fod yn filwr. Mae unrhyw un sy'n ymuno â'r gwasanaeth tân o'r lluoedd arfog wedi cael dewis trosglwyddo eu pensiwn milwrol i mewn i gynllun y diffoddwyr tân erioed. Os ydynt yn gwneud hynny, caiff cyfnod eu gwasanaeth milwrol a'u cyfraniadau eu hychwanegu at eu pensiwn diffoddwyr tân. Os ydynt yn dewis peidio, maent yn cael pensiwn milwrol gohiriedig ar yr adeg y byddent wedi ymddeol o'r lluoedd. Eu dewis hwy yw hyn, ond, y naill ffordd neu'r llall, nid oes awgrym o beidio ag anrhydeddu gwasanaeth milwrol, nac o beidio ei gyfrif at ddibenion pensiwn.

So, the issue of protection affects all firefighters, not just those with military experience. I understand why firefighters want to remain in their current schemes and have offered protection to all those nearing retirement age. I considered carefully whether to extend this to include length of service, too, but I cannot justify paying £6 million to benefit 150 retiring firefighters. And let me be absolutely clear: not all of those 150 retiring firefighters are from the armed forces. They may have come from a variety of different backgrounds.

Felly, mae'r mater o ddiogelu yn effeithio ar bob diffoddwr tân, nid dim ond y rhai sydd â phrofiad milwrol. Rwyf yn deall pam mae diffoddwyr tân yn awyddus i aros yn eu cynlluniau presennol ac rwyf wedi cynnig diogelu pawb sy'n agosáu at oedran ymddeol. Ystyriais yn ofalus pa un a ddylid ymestyn hyn i gynnwys hyd gwasanaeth, hefyd, ond ni allaf gyfiawnhau talu £6 miliwn er budd 150 o ddiffoddwyr tân sy'n ymddeol. A gadewch imi fod yn hollol glir: nid yw pob un o'r 150 o ddiffoddwyr tân hynny sy'n ymddeol wedi dod o'r lluoedd arfog. Gallant fod wedi dod o amrywiaeth o wahanol gefndiroedd.

Almost all other public sector pension schemes work the same way and offer protection based on age. This includes the new armed forces pension scheme. Indeed, the only exceptions are the schemes for police officers and the new scheme for firefighters in Scotland.

Mae bron bob cynllun pensiwn sector cyhoeddus arall yn gweithio yn yr un ffordd ac yn cynnig diogeliad ar sail oedran. Mae hyn yn cynnwys cynllun pensiwn newydd y lluoedd arfog. Yn wir, yr unig eithriadau yw cynlluniau plismyn a'r cynllun newydd ar gyfer diffoddwyr tân yn yr Alban.

So, we believe there are no grounds for treating ex-forces firefighters as a special case and offering length-of-service protection to them alone. First, there is no discrimination to remove and, second, this would mean valuing military service more highly than service as a firefighter. Someone with five years' service in the navy and 15 in the fire service would receive better terms than someone with 20 or even 25 years' experience as a firefighter alone. I do not think that that is reasonable for us to do. I also do not think it is reasonable for us to expect the public purse to pay that additional £6 million that we would have to cover.

Felly, nid ydym yn credu bod sail i drin diffoddwyr tân sy'n gyn-filwyr fel achos arbennig a chynnig eu diogelu hwy yn unig ar sail hyd gwasanaeth. Yn gyntaf, nid oes unrhyw wahaniaethu i gael gwared arno ac, yn ail, byddai hyn yn golygu rhoi gwerth uwch ar wasanaeth milwrol nag ar wasanaeth fel diffoddwr tân. Byddai rhywun â phum mlynedd o wasanaeth yn y llynges a 15 yn y gwasanaeth tân yn cael gwell telerau na rhywun ag 20 neu hyd yn oed 25 mlynedd o brofiad fel diffoddwr tân yn unig. Nid wyf yn credu bod hynny'n rhesymol inni ei wneud. Nid wyf ychwaith yn credu ei bod yn rhesymol inni ddisgwyl i'r pwrs cyhoeddus dalu'r £6 miliwn ychwanegol y byddai'n rhaid inni ei dalu.

15:04

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. The motion is therefore agreed in accordance with Standing in Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

15:04

# 5. Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015

# 5. The Environmental Permitting (Amendment) Regulations 2015

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

We now move to item 5, which is the Environmental Permitting (Amendment) Regulations 2015, and I call on the Minister, Carl Sargeant.

Symudwn yn awr at eitem 5, sef y Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Diwygio) 2015, a galwaf ar y Gweinidog, Carl Sargeant.

Cynnig NDM5723 Jane Hutt

Motion NDM5723 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

To propose that the National Assembly for Wales; in accordance with Standing Order 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 23 Chwefror 2015.

Approves that the draft The Environmental Permitting (England and Wales) (Amendment) Regulations 2015 is made in accordance with the draft laid in the Table Office on 23 February 2015.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:05

## Carl Sargeant [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I formally move.

Cynigiaf yn ffurfiol.

15:05

## Y Llywydd / The Presiding Officer [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Formally move. Llyr Gruffydd.

Cynnig yn ffurfiol. Llyr Gruffydd.

15:05 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch yn fawr, Lywydd. Roeddwn i'n awyddus i godi jest i ategu rhai o'r sylwadau a godwyd gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol mewn perthynas â'r eitem yma ar yr agenda, oherwydd mae gosod rheoliadau gwallus a dweud wedyn eu bod nhw'n mynd i gael eu cywiro ar ôl cael eu derbyn gan y Cynulliad, ond cyn eu bod nhw'n cael eu gweithredu, yn fy marn i yn arfer annerbyniol ac mae e'n gosod cynsail peryglus iawn ar gyfer y dyfodol. Hefyd, wrth gwrs, o wybod bod y rheoliadau yma am gael eu gosod o flaen y Cynulliad, mae e'n annerbyniol, yn fy marn i, nad ydyn nhw ar gael yn y Gymraeg. Mae'r ffaith eu bod nhw'n hwyr yn cael eu derbyn a'u gweithredu a bod y Llywodraeth wedi methu 'deadline' 5 Mehefin 2014 a osodwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn rhoi pwysau arnon ni fel Aelodau Cynulliad i'w cymeradwyo nhw. Mae'r rhain naw mis yn hwyr ac mae'r bygythiad o achos tor-ddyletswydd—'infraction proceedings'—yn rhoi pwysau annheg arnom ni i'w derbyn nhw fel ag y maen nhw. Nawr, wedi dweud hyn i gyd, mi fyddwn ni yn eu cefnogi nhw, ond ro'n i am wneud hynny o sylwadau oherwydd mae yna anfodlonrwydd, yn fy marn i, o ffeindio'n hunain yn y fath sefyllfa, ac mae yna hefyd reidrwydd i ddysgu gwersi o hyn a sicrhau ein bod ni'n osgoi'r fath sefyllfa yn y dyfodol.

Thank you very much, Presiding Officer. I was eager just to endorse some of the comments made by the Constitutional and Legislative Affairs Committee in relation to this particular agendum, because setting flawed regulations in place and saying that they will be corrected after they have been approved by the Assembly but before they are implemented is, in my view, unacceptable and it set a very dangerous precedent for the future. Also, knowing that these regulations are to be laid before the Assembly, it's unacceptable in my view that they are not available in the Welsh language also. The fact that they are late in being implemented and that the Government has missed the deadline of 5 June 2014, as set by the European Union, does put pressure on us as an Assembly to approve them. These are nine months late, and the threat of infraction proceedings does place unfortunate and unfair pressure on us to accept them as they are tabled. Now, having said all of that, we will be supporting them, but I did want to make those few comments because it isn't satisfactory in my view that we find ourselves in such a situation. Furthermore, we need to learn lessons from this in order to ensure that we avoid such a situation in the future.

15:06 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The Minister to reply.

Y Gweinidog i ymateb.

15:06 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

I thank the Member. His comments are noted. A number of errors in the statutory instruments as drafted by the UK Government were discovered by the Welsh Government after it had been laid in Parliament on 17 December 2014. I do understand that the First Minister has written to the Chair of the Constitutional and Legislative Affairs Committee on the matter of the competence of instruments and has agreed that Welsh Government officials meet Assembly Commission officials to discuss this matter further.

With regard to the Welsh language, the instrument that is being amended is in English only, and there is no Welsh text to be amended, and so the text of the amendments to be made to the instrument must also be in English only. I'm grateful for the Member's comments and they are taken seriously by the Government. We formally move.

Diolch i'r Aelod. Mae ei sylwadau wedi'u nodi. Canfu Llywodraeth Cymru nifer o gamgymeriadau yn yr offerynnau statudol fel y'u drafftiwyd gan Lywodraeth y DU ar ôl iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd ar 17 Rhagfyr 2014. Rwyf ar ddeall bod y Prif Weinidog wedi ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ynglŷn â chymhwysedd offerynnau ac wedi cytuno y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â swyddogion Comisiwn y Cynulliad i drafod y mater hwn ymhellach.

O ran yr iaith Gymraeg, dim ond yn Saesneg y mae'r offeryn sy'n cael ei ddiwygio ar gael, ac nid oes unrhyw destun Cymraeg i'w ddiwygio, felly mae'n rhaid i destun y diwygiadau sydd i'w gwneud i'r offeryn hefyd fod yn Saesneg yn unig. Rwy'n ddiolchgar am sylwadau'r Aelod ac mae'r Llywodraeth yn eu cymryd o ddifrif. Rydym yn cynnig yn ffurfiol.

15:07 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

So, the proposal is to agree the motion. Does anyone object? No objections, therefore it is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36*

Felly, y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw un yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad, felly caiff ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Amendment agreed in accordance with Standing Order 12.36*

15:07

## 6. Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar gyfer y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (Memorandwm Rhif 4): Diwygiad i Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 mewn perthynas â Diogelu Chwythwyr Chwiban yn y GIG

## 6. Supplementary Legislative Consent Motion on the Small Business Enterprise and Employment Bill (Memorandum No. 4): Amendment to the Employment Rights Act 1996 in relation to the Protection of Whistleblowers in the NHS

Y Senedd.tv
Fideo Video

### Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

We now move on to item 6, which is the supplementary legislative consent motion on the Small Business Enterprise and Employment Bill (Memorandum No. 4): Amendment to the Employment Rights Act 1996 in relation to the protection of whistleblowers in the national health service, and I call on the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Rydym nawr yn symud ymlaen at eitem 6, sef y cynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth (Memorandwm Rhif 4): Diwygio Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996 mewn cysylltiad â diogelu chwythwyr chwiban yn y gwasanaeth iechyd gwladol, a galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5722 Mark Drakeford

Motion NDM5722 Mark Drakeford

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth, sy'n ymwneud â gwahardd cyflogwr yn y GIG rhag gwahaniaethu yn erbyn ymgeisydd sydd wedi chwythu'r chwiban o'r blaen ac sy'n darparu rhwymedïau, gan gynnwys dyfarnu iawndal, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

To propose that the National Assembly for Wales, in accordance with Standing Order 29.6, agrees that provisions in the Small Business, Enterprise and Employment Bill, relating to prohibiting a NHS employer from discriminating against an applicant who has previously whistle-blown and which provide remedies, including the award of compensation, in so far as they fall within the legislative competence of the National Assembly for Wales, should be considered by the UK Parliament.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:07

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Thank you, Presiding Officer, for the opportunity to explain the background to this legislative consent motion in relation to the Small Business, Enterprise and Employment Bill.

Diolch, Lywydd, am y cyfle i esbonio cefndir y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn sy’n ymwneud â'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

This LCM is required because of a late amendment to the Bill, which, in the view of the Welsh Government, falls within the legislative competence of the National Assembly. The amendment aims to afford those who have previously made protected disclosures protection from being discriminated against when later applying for jobs in the NHS.

Mae angen y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn oherwydd gwelliant hwyr i'r Bil, sydd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol. Bwriad y diwygiad yw diogelu pobl sydd yn flaenorol wedi gwneud datgeliadau gwarchodedig rhag gwahaniaethu yn eu herbyn wrth iddynt ymgeisio am swyddi yn y GIG yn ddiweddarach.

While it is the Welsh Government's view that, as a matter that falls upon a wholly devolved service, this brings it within the purview of the National Assembly, I have to explain that this is not the view of the Government at Westminster. Their Ministers continue to argue that there is no part for the National Assembly to play in consideration of this matter, and that, no doubt, partly explains the very late nature of the amendment tabled in Parliament on 4 March. This LCM was brought forward as quickly as possible, being laid on 6 March. The Third Reading will take place today in the House of Lords, and I very much regret that this timetable means that the LCM will not have had the benefit of scrutiny by a National Assembly committee.

Er bod Llywodraeth Cymru o'r farn bod hwn, fel mater sy'n digwydd mewn gwasanaeth cwbl ddatganoledig, yn dod o fewn maes y Cynulliad Cenedlaethol, mae'n rhaid imi egluro nad dyna yw barn y Llywodraeth yn San Steffan. Mae eu Gweinidogion yn parhau i ddadlau nad oes rhan i'r Cynulliad Cenedlaethol ei chwarae wrth ystyried y mater hwn, ac mae hynny, yn ddiau, yn esbonio'n rhannol natur hwyr iawn y gwelliant a gyflwynwyd yn y Senedd ar 4 Mawrth. Cyflwynwyd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn cyn gynted â phosibl, ar 6 Mawrth. Bydd y Trydydd Darlleniad yn digwydd heddiw yn Nhŷ'r Arglwyddi, ac rwyf yn gresynu'n fawr fod yr amserlen hon yn golygu na fydd y cynnig cydsyniad deddfwriaethol wedi elwa o graffu gan un o bwyllgorau'r Cynulliad Cenedlaethol.

Given that the amendment was tabled at such a late stage in the progress of the Bill, I have made representations to the UK Government in particular that Welsh Ministers should have regulation-making powers relating to the application of the amendment to the NHS in Wales. I have also made it clear that any powers to be exercised by the Secretary of State that have an impact on the Welsh NHS should be made with the consent of, rather than simply in discussion with Welsh Ministers. I'm not in a position to report any replies to those requests this afternoon.

O ystyried bod y gwelliant wedi'i gyflwyno mor hwyr yn hynt y Bil, rwyf wedi gwneud sylwadau i Lywodraeth y DU yn benodol y dylai Gweinidogion Cymru gael pwerau gwneud rheoliadau i ymwneud â defnyddio'r diwygiad ar gyfer y GIG yng Nghymru. Rwyf hefyd wedi ei gwneud yn glir y dylai unrhyw bwerau a arferir gan yr Ysgrifennydd Gwladol sy'n effeithio ar y GIG yng Nghymru gael eu gwneud gyda chydsyniad Gweinidogion Cymru, nid dim ond mewn trafodaeth â hwy. Nid wyf mewn sefyllfa i roi gwybod am unrhyw ymatebion i'r ceisiadau hynny y prynhawn yma.

Having made those important points about process, I should however be clear that I have no quarrel with the aims of the amendment.  It seeks to protect whistleblowers who apply for NHS jobs from discrimination by prospective NHS employers. It will close a loophole in existing legislation that does not provide a mechanism for prospective workers to make a claim to an employment tribunal if they have been discriminated against by a potential employer because they made a prior protected disclosure.

Ar ôl gwneud y pwyntiau pwysig hynny am y broses, dylwn serch hynny fod yn glir nad oes gennyf gweryl ag amcanion y gwelliant. Mae'n ceisio diogelu chwythwyr chwiban sy'n ymgeisio am swyddi yn y GIG rhag gwahaniaethu gan ddarpar gyflogwyr y GIG. Bydd yn cau bwlch yn y ddeddfwriaeth bresennol nad yw'n darparu mecanwaith i ddarpar weithwyr wneud cais i dribiwnlys cyflogaeth os ydynt wedi dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn gan ddarpar gyflogwr am eu bod wedi gwneud datgeliad gwarchodedig yn flaenorol.

Here in Wales, we want to foster a culture in our health service where people feel safe and supported when voicing their concerns. Insofar as the amendment supports that ambition, we would wish to see it apply in Wales and, for that reason, I ask members to support the LCM this afternoon. In that way, the same protection to prospective applicants to NHS employers in Wales will be offered as to those in England and Scotland, and to the same timescales. Realistically, were we to seek to take legislation on this issue through the National Assembly, that would not now take place until the next Assembly term.

Yma yng Nghymru, rydym yn awyddus i feithrin diwylliant yn ein gwasanaeth iechyd lle mae pobl yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi wrth leisio eu pryderon. I'r graddau y mae'r diwygiad yn ategu'r uchelgais hwnnw, hoffem ei weld yn berthnasol yng Nghymru ac, am y rheswm hwnnw, gofynnaf i aelodau gefnogi'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol y prynhawn yma. Yn y modd hwnnw, cynigir yr un diogeliad i ddarpar ymgeiswyr i gyflogwyr y GIG yng Nghymru ag i'r rhai yn Lloegr a'r Alban, ac i'r un amserlenni. Yn realistig, pe byddem yn ceisio mynd â deddfwriaeth ar y mater hwn drwy'r Cynulliad Cenedlaethol, ni fyddai hynny bellach yn digwydd tan y tymor Cynulliad nesaf.

Llywydd, there is no place for discrimination in the Welsh NHS, and individuals who have previously raised a concern in the workplace should not be at a disadvantage when applying for a new job within NHS Wales. On that basis, I move the motion and ask Members to support it.

Lywydd, nid oes lle i wahaniaethu yn y GIG yng Nghymru, ac ni ddylai unigolion sydd wedi codi pryder yn y gweithle'n flaenorol fod dan anfantais wrth ymgeisio am swydd newydd o fewn GIG Cymru. Ar y sail honno, cynigiaf y cynnig a gofynnaf i'r Aelodau ei gefnogi.

15:11 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Can I welcome the support of the Minister for the legislative consent motion? Notwithstanding the concerns that he has raised, quite legitimately, regarding the process by which this is before us as an Assembly today, I do think that it is important for the UK Government to work as closely as possible with the Welsh Government, and on as early a basis as possible, when legislation that may affect those devolved areas is before the House of Commons, and, indeed, the House of Lords.

A gaf fi groesawu cefnogaeth y Gweinidog i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol? Er gwaethaf y pryderon y mae wedi'u codi, yn ddigon teg, ynghylch y broses a roddodd hyn ger ein bron heddiw fel Cynulliad, rwyf yn credu ei bod yn bwysig bod Llywodraeth y DU yn cydweithio mor agos â phosibl â Llywodraeth Cymru, a chyn gynted ag y bo modd, pan fydd deddfwriaeth a allai effeithio ar y meysydd datganoledig hynny gerbron Tŷ'r Cyffredin, ac, yn wir, Tŷ'r Arglwyddi.

I, too, want to support very much the principle behind this legislative consent motion. I think it is very important that we send a strong message to NHS employers that they should not discriminate against those individuals who have, as a result of professional concerns, raised those, be it in a public arena or elsewhere, because of the very nature of those concerns. We've all seen what has happened in Mid Staffs and, indeed, elsewhere, in Wales, such as at the Princess of Wales Hospital. I think that we need a very clear protection in place for individuals who need to blow the whistle on concerns that they might have, particularly when it comes to matters of life and death, as so often, unfortunately, they are in our national health service.

Hoffwn innau hefyd fynegi cefnogaeth gref i'r egwyddor y tu ôl i'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig iawn ein bod yn anfon neges gref i gyflogwyr y GIG na ddylent wahaniaethu yn erbyn yr unigolion hynny sydd, o ganlyniad i bryderon proffesiynol, wedi mynegi'r rheini, boed hynny mewn arena gyhoeddus neu mewn man arall, oherwydd union natur y pryderon hynny. Rydym i gyd wedi gweld beth sydd wedi digwydd yng Nghanol Swydd Stafford ac, yn wir, mewn mannau eraill, yng Nghymru, megis yn Ysbyty Tywysoges Cymru. Credaf fod arnom angen proses glir iawn o ddiogelu unigolion sydd ag angen chwythu'r chwiban ar bryderon a allai fod ganddynt, yn enwedig o ran materion o fywyd a marwolaeth, fel y maent, yn anffodus, mor aml yn ein gwasanaeth iechyd gwladol .

I think that this also very much sends a strong message to those employers across the NHS about not gagging their staff when controversial matters come up. We know that there's an ongoing discussion taking place about the configuration of maternity services, for example, in north Wales, and, like many Assembly Members in that region, I have received e-mails from members of staff who have made it quite clear that they have been told not to raise concerns in the public domain, and they fear repercussions for doing so. It should come as no surprise to the Minister that, in recent Royal College of Nursing surveys, a quarter of nursing staff across the UK, not just in Wales, have said that they've been discouraged—actively discouraged—from blowing the whistle on issues in the workplace by management in the NHS, and have been told that there may well be repercussions for them if they do actually blow the whistle.

Rwy'n credu bod hyn hefyd yn bendant yn anfon neges gref i'r cyflogwyr hynny ar draws y GIG am beidio â chau cegau eu staff pan gyfyd materion dadleuol. Rydym yn gwybod bod trafodaeth barhaus yn digwydd ynghylch cyfluniad gwasanaethau mamolaeth, er enghraifft, yn y gogledd, ac, fel llawer o Aelodau'r Cynulliad yn y rhanbarth hwnnw, rwyf wedi cael negeseuon e-bost gan aelodau staff sydd wedi ei gwneud yn gwbl glir y dywedwyd wrthynt am beidio â mynegi pryderon yn gyhoeddus, a'u bod yn ofni dial am wneud hynny. Ni ddylai fod yn syndod i'r Gweinidog bod arolygon diweddar y Coleg Nyrsio Brenhinol yn nodi bod chwarter y staff nyrsio ledled y DU, nid dim ond yng Nghymru, wedi dweud bod rheolwyr yn y GIG wedi eu hannog i beidio—wedi mynd ati i'w hannog i beidio—â chwythu'r chwiban ar faterion yn y gweithle, ac wedi dweud wrthynt y gallai chwythu'r chwiban achosi dial arnynt.

So, it's important that we have people who speak out when there are legitimate concerns to be raised. I believe that this is an appropriate vehicle by which to deliver this important change in the law to protect employees and ensure that they're not discriminated against when applying for jobs in the national health service. But, I would appreciate it if the Minister could make clear that he does want to see people have the ability to raise legitimate concerns, even with ongoing issues, in our national health service before this legislation completes its passage through the Houses of Parliament.

Felly, mae'n bwysig bod gennym bobl sy'n dweud eu dweud pan fo pryderon dilys i'w codi. Rwy'n credu bod hwn yn fodd addas o gyflawni'r newid pwysig hwn i'r gyfraith i ddiogelu gweithwyr a sicrhau nad ydynt yn dioddef gwahaniaethu yn eu herbyn wrth ymgeisio am swyddi yn y gwasanaeth iechyd gwladol. Ond, byddwn yn gwerthfawrogi pe gallai'r Gweinidog ei gwneud yn glir y byddai'n dymuno gweld pobl yn gallu codi pryderon dilys, hyd yn oed gyda materion parhaus, yn ein gwasanaeth iechyd gwladol cyn i'r ddeddfwriaeth hon gwblhau ei thaith drwy'r Senedd.

15:14 **Elin Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Lywydd, mae'n amlwg nad dyma'r ffordd fwyaf delfrydol i ddeddfu i warchod chwythwyr chwiban yn yr NHS, fel y mae'r Gweinidog wedi'i amlinellu. Mae hwn yn gynnig cydsyniad atodol sy'n deillio o welliant hwyr i Fesur San Steffan yn nyddiau olaf y Llywodraeth hynny, heb gyfle am sgrwtini priodol gan bwyllgor yn y Cynulliad yma, ac ar faes hefyd sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad yma. Rwy'n cytuno gyda safbwynt y Llywodraeth heddiw ar y cynnig yma, a gobeithio y bydd Llywodraeth San Steffan yn ymateb yn bositif i gais y Gweinidog am bwerau i Weinidogion Cymru fedru creu rheoliadau yn y maes yma. Ond, fel mae eraill wedi dweud, mae'r maes yma yn bwysig ac mae hawliau gweithwyr yr NHS yn bwysig, ac mae'n amlwg bod angen yr un hawliau ar yr un pryd ar weithwyr o fewn yr NHS a chwythwyr chwiban yn yr NHS yng Nghymru ag mewn gwledydd eraill ym Mhrydain. Rydym yn gwybod o brofiad bod angen amddiffyn y gweithwyr yma, ac rydym eisiau gweld grymuso'r gweithwyr yma i fedru amlygu gofal sy'n peryglu iechyd eu cleifion heb ofni peryglu gweddill eu gyrfaoedd nhw.

Presiding Officer, it is clear that this is not the ideal way of legislating to protect whistleblowers in the NHS, as the Minister has outlines. This is a supplementary consent motion that stems from a late amendment to a Westminster Bill in the last days of that Government, without an opportunity for appropriate scrutiny by a committee in this Assembly, and in an area that is within the competence of the Assembly. I agree with the Government's position today on this proposal, and I hope that the Westminster Government will respond positively to the Minister's request for Welsh Ministers powers to be able to create regulations in this area. But, as others have said, this topic is important and workers rights within the NHS are important, and it is clear that we need the same rights at the same time for employees within the NHS and for whistleblowers in the NHS in Wales as elsewhere in Britain. We know from experience that workers here need protection, and we want to empower workers here to be able to highlight care that endangers the health of their patients without fear of jeopardising the rest of their careers.

Mae'r un peth, wrth gwrs, yn wir am holl weithwyr y gwasanaethau cyhoeddus, pa un ai yn y sector addysg, yn ein hysgolion ni, neu o fewn gwasanaethau cymdeithasol. Nid wyf yn gwybod a oes gan chwythwyr chwiban yn y meysydd hynny yr un math o ddiogelwch eisoes, ynteu a oes 'loophole' yn eu cyd-destun nhw hefyd, ond y prynhawn yma, bydd Plaid Cymru yn cefnogi'r hawl i weithwyr yn yr NHS, o leiaf, gael yr hawliau priodol yma.

The same applies, of course, for all public service employees, whether in the education sector, in our schools, or in social services. I do not know whether whistleblowers in those areas already have this safeguard, or whether the same loophole exists for them, but Plaid Cymru will this afternoon support the right of workers in the NHS, at least, to get these appropriate rights.

15:16 **Kirsty Williams** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Could I thank the Minister for his opening statement on this item? I appreciate that the Welsh Government has been frustrated by the processes involved that have led us to this point today. One wonders whether it'll ever be fixed, given that a legislature in another place can being forward late amendments and can change their legislative proposals in this manner. One wonders whether that could ever be avoided. But, the other issue is the example of how the lack of clarity over the devolution settlement continues to lead to these issues arising. One does hope—although sometimes I'm less than convinced—that the reserved powers model will actually bring the clarity that we need, but it should certainly help.

A gaf fi ddiolch i'r Gweinidog am ei ddatganiad agoriadol ar yr eitem hon? Rwyf yn sylweddoli bod y prosesau dan sylw sydd wedi ein harwain at y pwynt hwn heddiw wedi peri rhwystredigaeth i Lywodraeth Cymru. Mae rhywun yn meddwl tybed a gaiff hyn byth ei ddatrys, o ystyried y gall deddfwrfa mewn man arall gyflwyno diwygiadau hwyr a newid eu cynigion deddfwriaethol yn y modd hwn. Mae rhywun yn meddwl tybed a ellir byth osgoi hynny. Ond, y mater arall yw'r enghraifft o sut y mae'r diffyg eglurder ynghylch y setliad datganoli'n parhau i achosi i'r materion hyn godi. Mae rhywun yn gobeithio—er nad wyf yn gwbl argyhoeddedig weithiau—y bydd y model cadw pwerau mewn gwirionedd yn rhoi'r eglurder sydd ei angen arnom, ond yn sicr dylai fod o gymorth.

Whilst, of course, those are important constitutional issues and right for both the Minister and Members of the National Assembly to consider, I don't think the staff of the NHS would be particularly impressed if we were not to act because we have found the process less than satisfactory or frustrating. I think it is important that we use this opportunity to ensure that the rights of those working in the NHS in Wales mirror, or keep pace with, the rights that will be afforded to NHS staff in England with regard to giving them confidence to come forward and raise concerns without fear that that would then be held against them at a later date when they look to pursue their careers within the Welsh NHS.

Er bod y rheini, wrth gwrs, yn faterion cyfansoddiadol pwysig a'i bod yn iawn i'r Gweinidog ac Aelodau'r Cynulliad Cenedlaethol eu hystyried, nid wyf yn credu y byddai staff y GIG yn arbennig o hapus pe na fyddem yn gweithredu gan ein bod wedi gweld y broses yn anfoddhaol neu ei bod yn peri rhwystredigaeth inni. Rwy'n credu ei bod yn bwysig i ni ddefnyddio'r cyfle hwn i sicrhau bod hawliau pobl sy'n gweithio yn y GIG yng Nghymru yn cyfateb i, neu'n cadw i fyny â, yr hawliau a roddir i staff y GIG yn Lloegr o ran rhoi hyder iddynt i gamu ymlaen a mynegi pryderon heb ofni y byddai hynny wedyn yn cael ei ddal yn eu herbyn yn nes ymlaen pan fyddant yn ceisio datblygu eu gyrfaoedd o fewn y GIG yng Nghymru.

We need to move to a culture where whistleblowing and raising concerns are seen as core clinical duties and core professional duties, whoever you are within the NHS. They should not be seen as being disloyal to your organisation or disloyal to your colleagues, but as a core duty that you have as an NHS professional to raise concerns when you see it. But, perhaps it is the nature of human beings that, when you are concerned about the repurcussions for yourself and your family if you raise those concerns, sometimes people, perhaps, don't make the right decisions. Of course, we know that when you don't raise it the first time you see something happening, it's very difficult to subsequently return to that issue and raise it when you see it happening again and again, because you know that you should have raised it the first time and then you begin to feel implicated, perhaps, in those scenarios. So, any steps—whether it be via a flawed LCM process or whether it be here in the Assembly—. We need to move on the culture of the NHS and to give people the greatest confidence that we can that, in coming forward and raising concerns, they will not be jeopardising their progessional careers or their livelihoods.

Mae angen inni symud i ddiwylliant lle yr ystyrir bod chwythu'r chwiban a mynegi pryderon yn ddyletswyddau clinigol craidd ac yn ddyletswyddau proffesiynol craidd, pwy bynnag ydych chi o fewn y GIG. Ni ddylid eu hystyried yn annheyrngar i'ch sefydliad nac yn annheyrngar i'ch cydweithwyr, ond yn un o'ch dyletswyddau craidd fel gweithiwr proffesiynol yn y GIG i fynegi pryderon pan fyddwch yn eu gweld. Ond, efallai mai natur bodau dynol yw, pan fyddwch yn pryderu am yr ôl-effeithiau i chi eich hun a'ch teulu os ydych yn mynegi'r pryderon hynny, weithiau bydd pobl, efallai, yn gwneud y penderfyniadau anghywir. Wrth gwrs, rydym yn gwybod os nad ydych yn ei fynegi y tro cyntaf ichi weld rhywbeth yn digwydd, ei bod yn anodd iawn wedyn dychwelyd at y mater hwnnw a'i fynegi pan welwch ef yn digwydd dro ar ôl tro, oherwydd eich bod yn gwybod y dylech fod wedi ei fynegi y tro cyntaf, ac yna byddwch yn dechrau teimlo y byddwch yn rhan o'r bai, efallai, am y sefyllfaoedd hynny. Felly, mae unrhyw gamau a gymerir—boed hynny drwy broses ddiffygiol cynnig cydsyniad deddfwriaethol neu yma yn y Cynulliad—. Mae angen inni symud ymlaen o ran diwylliant y GIG a rhoi cymaint o hyder ag y gallwn i bobl na fyddant, wrth gamu ymlaen a mynegi pryderon, yn peryglu dilyniant eu gyrfaoedd na'u bywoliaeth.

15:19

## Y Llywydd / The Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on the Minister to reply to the debate.

Galwaf ar y Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

15:19

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch, Lywydd. Thanks to all Members who have taken part. I think Darren Millar made an important point when he opened his comments that, had we had some earlier insight into the amendments that were being moved at Westminster, it might well have been possible to have resolved some of the finer points of process that have, in the end, frustrated the ability of the National Assembly to give this matter its full consideration. I'm sure Elin Jones is right that that's partly because of dealing with a Government that is in its dying days, and in a hurry to get some things done, but also as Kirsty Williams has pointed out, there is something intrinsic in the current devolution settlement that means we're always likely to bump up against this sort of change.

Diolch, Lywydd. Diolch i bob Aelod sydd wedi cymryd rhan. Rwyf yn meddwl bod Darren Millar wedi gwneud pwynt pwysig pan agorodd ei sylwadau, sef pe byddai gennym fewnwelediad cynharach i mewn i'r diwygiadau a oedd yn cael eu cynnig yn San Steffan, y gallai fod wedi bod yn bosibl datrys rhai o bwyntiau manylaf y broses honno sydd, yn y diwedd, wedi rhwystro'r Cynulliad Cenedlaethol rhag ystyried y mater hwn yn llawn. Rwy'n siŵr bod Elin Jones yn iawn bod hynny'n rhannol oherwydd ein bod yn ymdrin â Llywodraeth sydd ar fin marw, ac ar frys i wneud rhai pethau, ond hefyd fel y nododd Kirsty Williams, mae rhywbeth cynhenid yn y setliad datganoli presennol sy'n golygu ein bod bob amser yn debygol o wynebu'r math hwn o newid.

I think there's been a very broad level of unanimity across the Chamber, however, about the purpose of the amendment. Darren Millar will be well aware that the most recent events at Ysbyty Glan Clwyd began with a whistleblower, and we would not want that person's future career to be jeopardised because of the actions they took, despite the very considerable public upheaval that's flowed from it.

Rwy'n meddwl y bu lefel eang iawn o unfrydedd ar draws y Siambr, fodd bynnag, ynglŷn â diben y gwelliant. Bydd Darren Millar yn ymwybodol iawn bod y digwyddiadau diweddaraf yn Ysbyty Glan Clwyd wedi dechrau drwy chwythwr chwiban, ac ni hoffem weld gyrfa'r unigolyn hwnnw yn y dyfodol yn cael ei pheryglu oherwydd y camau a gymerodd, er gwaethaf y cynnwrf cyhoeddus sylweddol iawn sydd wedi deillio ohonynt.

15:21

## Darren Millar Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you take an intervention?

A wnewch chi dderbyn ymyriad?

15:21

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely.

Gwnaf, wrth gwrs.

15:21 **Darren Millar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will you join me, then, in condemning the decision of the board to gag current staff who are raising legitimate professional concerns about the potential harm that may come to patients and their babies, as a result of the proposals that are now on the table?

A wnewch chi ymuno â mi, felly, i gondemnio penderfyniad y bwrdd i dawelu staff presennol sy'n mynegi pryderon proffesiynol dilys am y niwed posibl y gellid ei achosi i gleifion a'u babanod, o ganlyniad i'r cynigion sydd bellach ar y bwrdd?

15:21 **Mark Drakeford** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I've no evidence of any gagging by the health board; indeed, my postbag is very full indeed of letters from members of staff at Ysbyty Glan Clwyd who don't appear to me to be gagged in the least.

Nid oes gennyf unrhyw dystiolaeth fod y bwrdd iechyd wedi tawelu neb; yn wir, mae fy mag post yn wirioneddol llawn o lythyrau gan aelodau o staff Ysbyty Glan Clwyd ac nid yw'n ymddangos i mi eu bod wedi cael eu tawelu o gwbl.

I think Kirsty Williams, though, made the most significant point when she said that we tend to speak about whistleblowing as though it's an easy thing to do, and the obvious right course of action to take. Actually, we know that being a whistleblower is a difficult thing—that if you don't do it the first time you see something, you feel compromised in trying to do it the second time you see something go wrong. We need to make sure that the law is as supportive to people in that very difficult set of circumstances as possible. That's what the LCM does today, and I hope Members will support it.

Rwyf yn meddwl, fodd bynnag, mai Kirsty Williams a wnaeth y pwynt mwyaf arwyddocaol pan ddywedodd ein bod yn tueddu i sôn am chwythu'r chwiban fel pe byddai'n beth hawdd i'w wneud, ac yn amlwg y peth cywir i'w wneud. Mewn gwirionedd, rydym yn gwybod bod chwythu'r chwiban yn beth anodd i'w wneud—os nad ydych yn ei wneud y tro cyntaf ichi weld rhywbeth, byddwch yn teimlo ei bod yn beryglus gwneud hynny'r ail dro ichi weld rhywbeth yn mynd o'i le. Mae angen inni wneud yn siŵr bod y gyfraith mor gefnogol â phosibl tuag at bobl sy'n wynebu'r amgylchiadau anodd iawn hynny. Dyna beth mae'r cynnig cydsyniad deddfwriaethol yn ei wneud heddiw, ac rwyf yn gobeithio y gwnaiff yr Aelodau ei gefnogi.

15:22 **Y Llywydd / The Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? No objections. Therefore the motion is agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Nid oes gwrthwynebiad. Felly, caiff y cynnig ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 15:22.*

*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 15:22.*

15:22

## 7. Dadl Cyfnod 4 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

## 7. Stage 4 Debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill

Y

Senedd.tv Fideo Video

**Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Item 7 is the Stage 4 debate on the Well-Being of Future Generations (Wales) Bill. I call on the Minister for Natural Resources to move the motion—Carl Sargeant.

Eitem 7 yw'r ddadl Cyfnod 4 ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Galwaf ar y Gweinidog Cyfoeth Naturiol i gynnig y cynnig—Carl Sargeant.

Cynnig NDM5725 Carl Sargeant

Motion NDM5725 Carl Sargeant

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.47:

To propose that the National Assembly for Wales in accordance with Standing Order 26.47:

Yn cymeradwyo Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

Approves the Well-being of Future Generations (Wales) Bill.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:22 **Carl Sargeant** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Senedd.tv
Fideo Video

I formally move the motion today. It marks an important milestone in the journey of this internationally pioneering Bill. Our sustainable development journey started back in 1999 with the creation of this Assembly. I'd like to thank Members across the Chamber for contributing to the scrutiny of the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. I'm grateful to Alun Ffred Jones, his predecessor, Lord Elis-Thomas, members of the Environment and Sustainability Committee, David Melding and members of the Constitutional and Legislative Affairs Committee for their thorough scrutiny, reports and findings.

I'd also like to thank stakeholders who've engaged with the committee scrutiny of this Bill, and have worked with us to build a better Bill fit for future generations. I'd also like to thank my predecessors, John Griffiths, Huw Lewis and Jeff Cuthbert, for their contribution and work on the development of the Bill. Along with my officials and those of the Assembly Commission, my Bill team have worked incredibly hard to develop this Bill structure, and today should be that landmark day that they've been hoping for too.

I'd also like to thank particularly Peter Davies for leading the pilot of the national conversation, 'The Wales We Want', and, of course, the 7,000 people around Wales who have taken part in that to date. The pilot of the national conversation, 'The Wales We Want', clearly shows us that it's possible for us to have meaningful engagement and involve people in the legislative process. With 11 local authorities and three national park authorities volunteering to be early adopters of the Bill, it shows that many see the benefits that this legislation can bring to their communities. These public bodies are pressing ahead with these changes, because they know it's the right thing to do.

Cynigiaf y cynnig yn ffurfiol heddiw. Mae'n garreg filltir bwysig yn nhaith y Bil hwn sy'n rhyngwladol arloesol. Dechreuodd ein taith datblygu cynaliadwy yn ôl yn 1999 gyda chreu'r Cynulliad hwn. Hoffwn ddiolch i'r Aelodau ar draws y Siambr am gyfrannu at graffu ar Fil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Rwyf yn ddiolchgar i Alun Ffred Jones, ei ragflaenydd, yr Arglwydd Elis-Thomas, aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd, David Melding ac aelodau'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol am eu craffu trylwyr, eu hadroddiadau a'u canfyddiadau.

Hoffwn hefyd ddiolch i randdeiliaid sydd wedi ymgysylltu â gwaith craffu'r pwyllgor ar y Bil hwn, ac wedi gweithio gyda ni i adeiladu Bil gwell sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Hoffwn hefyd ddiolch i'm rhagflaenwyr, John Griffiths, Huw Lewis a Jeff Cuthbert, am eu cyfraniad a'u gwaith i ddatblygu'r Bil. Ynghyd â'm swyddogion a rhai Comisiwn y Cynulliad, mae tîm y Bil wedi gweithio'n anhygoel o galed i ddatblygu strwythur y Bil hwn, a dylem heddiw weld y diwrnod nodedig hwnnw y maent hwythau wedi bod yn gobeithio amdano.

Hoffwn hefyd ddiolch yn arbennig i Peter Davies am arwain cynllun peilot y sgwrs genedlaethol, 'Y Gymru a Garem', ac, wrth gwrs, y 7,000 o bobl ar hyd a lled Cymru sydd wedi cymryd rhan yn hynny hyd yma. Mae cynllun peilot y sgwrs genedlaethol, 'Y Gymru a Garem', yn dangos yn glir inni ei bod yn bosibl inni ymgysylltu'n ystyrlon a chynnwys pobl yn y broses ddeddfwriaethol. Mae 11 o awdurdodau lleol a thri awdurdod parc cenedlaethol wedi gwirfoddoli i fabwysiadu'r Bil yn gynnar, ac mae hynny'n dangos bod llawer un yn gweld budd posibl y ddeddfwriaeth hon i'w cymunedau. Mae'r cyrff cyhoeddus hyn yn bwrw ymlaen â'r newidiadau hyn, oherwydd eu bod yn gwybod mai dyna'r peth iawn i'w wneud.

I'm pleased that Members were able to agree the important amendments last week, and we've included a stronger, clearer Bill as a result, which includes a definition of sustainable development for Wales, a strong wellbeing duty that makes it clear that sustainable development must be at the heart of public bodies' work, and seven wellbeing goals for Wales—the key changes emphasising climate change, living within the global environmental limits, and the importance of decent work. There's a new wellbeing goal of a globally responsible Wales, a sustainable development principle that puts diversity at the core of its involvement—an approach public bodies will need to take—and a clear expression of the importance of the economic, social, environmental and cultural wellbeing of communities. There's also the addition of milestones to help us see where we are making progress towards our indicators, strengthened accountability arrangements—including a new duty on the Auditor General for Wales to examine the extent to which public bodies have acted in accordance with the sustainable development principles—and a power for the commissioner to conduct a review into the extent to which a public body is safeguarding the interests of future generations. I know, of course, that there are some Members who have raised concerns on the merits of public services boards, but I agree wholeheartedly with William Powell's comments at Stage 3, where he said that PSBs:

Rwyf yn falch bod yr Aelodau wedi gallu derbyn y gwelliannau pwysig yr wythnos diwethaf, ac rydym wedi cynnwys Bil cliriach a chryfach o ganlyniad, sy'n cynnwys diffiniad o ddatblygu cynaliadwy i Gymru, dyletswydd llesiant gref sy'n ei gwneud yn glir fod yn rhaid i ddatblygu cynaliadwy fod yn ganolog i waith cyrff cyhoeddus, a saith nod llesiant ar gyfer Cymru—y newidiadau allweddol yn pwysleisio newid yn yr hinsawdd, byw o fewn terfynau'r amgylchedd byd-eang a phwysigrwydd gwaith addas. Bellach mae nod llesiant newydd, sef Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n gwneud amrywiaeth yn ganolog i'w chyfranogiad—ymagwedd y bydd angen i gyrff cyhoeddus ei harfer—a mynegiant clir o bwysigrwydd llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol cymunedau. Hefyd, mae cerrig milltir wedi eu hychwanegu i'n helpu i weld ble'r ydym yn gwneud cynnydd tuag at ein dangosyddion, trefniadau atebolrwydd cryfach—gan gynnwys dyletswydd newydd ar Archwilydd Cyffredinol Cymru i archwilio i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus wedi gweithredu'n unol ag egwyddorion datblygu cynaliadwy—a grym i'r comisiynydd i adolygu i ba raddau y mae corff cyhoeddus yn diogelu buddiannau cenedlaethau'r dyfodol. Gwn, wrth gwrs, fod rhai Aelodau wedi mynegi pryderon am rinweddau byrddau gwasanaethau cyhoeddus, ond cytunaf yn llwyr â sylwadau William Powell yng Nghyfnod 3, lle y dywedodd fod byrddau gwasanaethau cyhoeddus:

'are central to the effective running of this new legislation'.

'yn rhan ganolog o weithredu'r ddeddfwriaeth newydd hon yn effeithiol'.

I believe that the Bill is the most ambitious and far-reaching piece of legislation that this Government has ever attempted. This is an important year for sustainable development, internationally as well as in Wales. The United Nations are creating their goals for The World We Want, and we should be agreed on this in September of this year.

Credaf mai'r Bil hwn yw'r darn mwyaf uchelgeisiol a phellgyrhaeddol o ddeddfwriaeth y mae'r Llywodraeth hon wedi'i cheisio erioed. Mae hon yn flwyddyn bwysig o safbwynt datblygu cynaliadwy, yn rhyngwladol yn ogystal ag yng Nghymru. Mae'r Cenhedloedd Unedig yn creu eu nodau ar gyfer y Byd a Garem, a dylem fod yn gytûn ar hyn ym mis Medi eleni.

This Assembly will be the first in the world to have a law with a reference to the UN sustainable development goals. We should be proud of that. Yet again, Wales is leading the way. I think there's an opportunity here for Wales to be ahead of the game across the whole of the globe. We can, and will, make a global impact. I urge Members to support this Bill today.

Y Cynulliad hwn fydd y cyntaf yn y byd i fod â chyfraith sy'n cyfeirio at nodau datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig. Dylem fod yn falch o hynny. Unwaith eto, mae Cymru'n arwain y ffordd. Credaf fod cyfle yma i Gymru i fod ar flaen y gad yn fyd-eang. Gallwn gael effaith yn fyd-eang, ac fe wnawn hynny. Rwyf yn annog yr Aelodau i gefnogi'r Bil hwn heddiw.

15:27 **Antoinette Sandbach** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I certainly agree that Wales will have reference to the UN goals, and that was largely due to the amendments that were tabled by the opposition parties to this Bill, and that were carried last week, and, in particular, the definition around 'sustainable development'.

Wel, rwyf yn sicr yn cytuno y bydd Cymru'n cyfeirio at nodau'r Cenhedloedd Unedig, ac roedd hynny'n bennaf oherwydd y gwelliannau a gyflwynwyd gan y gwrthbleidiau i'r Bil hwn, a gafodd eu derbyn yr wythnos diwethaf, ac, yn benodol, ddiffiniad 'datblygu cynaliadwy '.

The Welsh Conservatives are committed to sustainable development. We supported those amendments last week because we believe that sustainable development is an important principle to adopt going forward. However, Minister, we continue to have very grave reservations about the Bill. You have rightly pointed out that it is the first time that legislation of this type is taking place in the world, therefore, we don't have the kind of learning that we can learn, perhaps, from other countries, and we retain our concern.

Mae'r Ceidwadwyr Cymreig wedi ymrwymo i ddatblygu cynaliadwy. Roeddem yn cefnogi'r gwelliannau hynny'r wythnos diwethaf, oherwydd ein bod o'r farn bod datblygu cynaliadwy'n egwyddor bwysig i'w mabwysiadu wrth symud ymlaen. Fodd bynnag, Weinidog, mae gennym amheuon difrifol iawn o hyd ynglŷn â'r Bil. Rydych wedi dweud mai dyma'r tro cyntaf i ddeddfwriaeth o'r math hwn ddigwydd yn y byd, ac rydych yn llygad eich lle, felly nid oes gennym y math o ddysgu lle y gallwn ddysgu, efallai, oddi wrth wledydd eraill, ac rydym yn dal i fod yn bryderus.

We support sustainable development, we support the wellbeing goals, we would have really supported very strong statistics—independent statistics from the statistics board—but, of course, one of the principles of sustainable development is good governance, and that is where we feel that this Bill falls down. I think it's going to be very hard to explain to members of the public why an additional £9.5 million-worth of costs is going to arise out of establishing public services boards as statutory bodies. In fact, seven of the public bodies, out of the 11 that responded to your revised explanatory memorandum, raised concerns that the costs in relation to PSBs may be underestimated. We think that the amendments we tabled in respect of PSBs were sensible, particularly in light of the Williams commission report and the impact that that may have on local communities going forward, particularly around the future local authority map of Wales. I think there is a very real concern that it's going to create an unnecessary bureaucracy that is going to be unaccountable, and will remove decision making from local decision makers.

Rydym yn cefnogi datblygu cynaliadwy, rydym yn cefnogi'r nodau llesiant, ac a dweud y gwir byddem wedi cefnogi ystadegau cryf iawn—ystadegau annibynnol gan y bwrdd ystadegau—ond, wrth gwrs, un o egwyddorion datblygu cynaliadwy yw llywodraethu da, a dyna lle y teimlwn fod y Bil hwn yn methu. Credaf y bydd yn anodd iawn esbonio i aelodau'r cyhoedd pam y mae gwerth £9.5 miliwn o gostau ychwanegol yn mynd i godi o sefydlu byrddau gwasanaethau cyhoeddus fel cyrff statudol. Yn wir, roedd saith o'r cyrff cyhoeddus, o'r 11 a ymatebodd i'ch memorandwm esboniadol diwygiedig, yn codi pryderon y gallai'r costau mewn perthynas â byrddau gwasanaethau cyhoeddus fod wedi eu tanamcangyfrif. Rydym o'r farn bod y gwelliannau a gyflwynasom mewn perthynas â byrddau gwasanaethau cyhoeddus yn synhwyrol, yn enwedig yng ngoleuni adroddiad comisiwn Williams a'r effaith y gallai hynny ei chael ar gymunedau lleol wrth symud ymlaen, yn enwedig o ran map awdurdodau lleol Cymru yn y dyfodol. Credaf fod pryder gwirioneddol y bydd yn creu biwrocratiaeth ddiangen na fydd yn atebol, ac y bydd yn mynd â phenderfyniadau oddi ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau'n lleol.

In terms of the amendments we tabled to give greater powers to the National Assembly—to give a greater buy-in, a cross-party buy-in, across this Chamber—hardwired into the Bill, again, it was regrettable that those amendments were not adopted. It seems to me that the Welsh Government has deliberately politicised this Bill, which is a mistake, but if you want to look after the interests of future generations, you need to do so with consensus and work across different political standpoints and viewpoints. There are numerous sections—and I'm not going to list them—that hand regulatory powers into the hands of Welsh Government. I accept that some of them are now under an affirmative procedure, but many of them not.

O ran y gwelliannau a gyflwynasom i gynnwys rhoi mwy o bwerau i'r Cynulliad Cenedlaethol—i roi mwy o ymrwymiad, ymrwymiad trawsbleidiol, ar draws y Siambr hon—yn rhan annatod o'r Bil, unwaith eto, roedd yn anffodus na chafodd y gwelliannau hynny eu mabwysiadu. Mae'n ymddangos i mi fod Llywodraeth Cymru wedi gwleidyddoli'r Bil hwn yn fwriadol, sy'n gamgymeriad, ond os ydych am ofalu am fuddiannau cenedlaethau'r dyfodol, mae angen ichi wneud hynny ar sail consensws a gweithio ar draws gwahanol safbwyntiau a syniadau gwleidyddol. Mae nifer o adrannau—ac nid wyf am eu rhestru—sy'n rhoi pwerau rheoleiddio yn nwylo Llywodraeth Cymru. Derbyniaf fod rhai ohonynt yn awr o dan weithdrefn gadarnhaol, ond mae llawer nad ydynt.

Finally, our final concerns relate to the commissioner. We are delighted that the amendment that was tabled earlier in the process, at Stage 2, was carried, which allows an Assembly committee to have an input into the appointment of the commissioner. But there are concerns around the appointment of the panel of the commissioner, particularly the number of people that will be appointed by Welsh Government onto the commissioner's panel. We think the commissioner should have had the independence and the freedom to appoint his own panel, or her own panel, to choose who serves on that panel, and we think that would have given the commissioner good governance and independence from Welsh Government, which, after all, they are going to be responsible for scrutinising. By not giving that independence to the panel, and by effectively creating a load of Welsh Government appointees on that panel, we think that directly undermines the likely impact of this legislation. The Welsh Conservatives have not easily reached the decision to vote against the Bill today, but we will be voting against it. We do, as I said at the start of my submission, support the idea of sustainable development and we think the principles of the wellbeing goals are important. We voted to strengthen this Bill, but unfortunately the defects it still contains within it mean that we cannot support it going forward.

Yn olaf, mae ein pryderon olaf yn ymwneud â'r comisiynydd. Rydym wrth ein bodd bod y gwelliant a gyflwynwyd yn gynharach yn y broses, yn ystod Cyfnod 2, wedi'i dderbyn, sy'n caniatáu mewnbwn i un o bwyllgorau'r Cynulliad yn y broses o benodi'r comisiynydd. Ond mae pryderon ynghylch penodi panel y comisiynydd, yn enwedig nifer y bobl a fydd yn cael eu penodi gan Lywodraeth Cymru ar banel y comisiynydd. Credwn y dylai'r comisiynydd fod wedi cael annibyniaeth a rhyddid i benodi ei banel ei hun, neu ei phanel ei hun, i ddewis pwy sy'n gwasanaethu ar y panel, ac rydym yn meddwl y byddai hynny wedi rhoi trefn lywodraethu dda ac annibyniaeth i'r comisiynydd oddi wrth Lywodraeth Cymru, oherwydd, wedi'r cyfan, bydd yn gyfrifol am graffu arni. Drwy beidio â rhoi'r annibyniaeth honno i'r panel, a thrwy roi llwyth o benodiadau Llywodraeth Cymru ar y panel i bob pwrpas, credwn fod hynny'n tanseilio'n uniongyrchol effaith debygol y ddeddfwriaeth hon. Nid yw'r Ceidwadwyr Cymreig wedi penderfynu pleidleisio yn erbyn y Bil heddiw yn ysgafn, ond byddwn yn pleidleisio yn ei erbyn. Fel y dywedais ar ddechrau fy nghyflwyniad, rydym yn cefnogi syniad datblygu cynaliadwy a chredwn fod egwyddorion y nodau llesiant yn bwysig. Gwnaethom bleidleisio i gryfhau'r Bil hwn, ond yn anffodus mae'r diffygion sydd yn dal i fod ynddo'n golygu na allwn ei gefnogi wrth symud ymlaen.

15:32 **Llyr Gruffydd** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Rwy'n dechrau fel rwyf wedi dechrau cyfraniadau fel hyn nifer o weithiau dros y misoedd diwethaf drwy danlinellu'r ffaith bod Plaid Cymru wedi cefnogi bwriad polisi'r Bil yma o'r cychwyn cyntaf, sef sicrhau bod datblygu cynaliadwy yn egwyddor drefniadol ganolog i'r sector gyhoeddus yng Nghymru. Wrth gwrs, mae'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi hynny ar waith mewn deddfwriaeth, drwy'r Bil datblygu cynaliadwy, fel yr oedd yn wreiddiol, ond Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) fel y mae'n cael ei adnabod erbyn hyn, efallai wedi bod yn llai positif.

I start as I've stared many such contributions over the past few months, by highlighting the fact that Plaid Cymru has supported the policy aims of this Bill from the very outset, namely ensuring that sustainable development is central organising principle for the public sector in Wales. Of course, the way that the Welsh Government have put that in place in legislation, through the sustainable development Bill as it was initially, but the Well-being of Future Generations (Wales) Bill as it is now known, has been less positive perhaps.

Mae'r modd y mae'r cyfrifoldeb dros ddatblygu cynaliadwy wedi cael ei basio o gwmpas y Cabinet—rwy'n meddwl ei fod ar ei bedwerydd Gweinidog erbyn hyn mewn pedair blynedd—yn llai na delfrydol, a'r Bil yn cael ei basio yn ei sgil e fel taten dwym. Ond mae'n deg dweud bod llawer ohonom ni wedi bod yn siomedig iawn â'r Bil gwreiddiol pan y'i gyflwynwyd e, ac roedd hi'n amlwg bod llawer o waith angen ei wneud i gryfhau'r dyletswyddau a'r ieithwedd oedd yn y Bil yn gyffredinol. Ac mi lwyddwyd. Mi lwyddwyd i gael diffiniad cliriach o ddatblygu cynaliadwy ar wyneb y Bil. Mi lwyddwyd i sicrhau dyletswydd cryfach i fyw o fewn ein terfynau amgylcheddol. Mi lwyddwyd i roi mwy o bwyslais ar ein impact ni y tu hwnt i Gymru. Mi lwyddwyd i gael ffocws cryfach ar newid hinsawdd. Mi lwyddwyd i gynnwys diwylliant fel un o bileri datblygu cynaliadwy yma yng Nghymru, i adlewyrchu 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned' ac, wrth gwrs, diffiniadau rhyngwladol. Mi lwyddwyd i gryfhau rôl y comisiynydd ac ymwneud y Cynulliad â'r broses o benodi'r comisiynydd, ymhlith nifer o bethau eraill.

The way in which responsibility for sustainable development has been passed around the Cabinet—I think it's on its fourth Minister now in just four years—is less than ideal, and the Bill, as a result, is passed like a hot potato between those Minister. But, it's fair to say that many of us have been very disappointed with the original Bill, as introduced, and it was clear that much work needed to be done to strengthen the duties and the language in the Bill more generally. And we succeeded in doing that. We succeeded in getting a clearer definition of sustainable development on the face of the Bill. We succeeded in ensuring a stronger duty to live within our environmental means. We succeeded in putting more emphasis on our impact beyond Wales. We succeeded in getting a stronger focus on climate change. We succeeded in including culture as one of the pillars of sustainable development here in Wales, to reflect 'One Wales: One Planet', and, of course, international definitions. We succeeded in strengthening the role of the commissioner and the Assembly's engagement in the appointment of the commissioner, in addition to a number of other successes.

Ni fyddai dim o hyn wedi digwydd heb fod Plaid Cymru a'r gwrthbleidiau eraill wedi gwneud i hynny ddigwydd. Ni fyddem wedi dewis, fel y gwnaethom ni, ddileu adrannau cyfan o'r Bil yng Nghyfnod 2, ond roedd y modd y gwnaeth y Llywodraeth ddelio â'r broses, mae'n rhaid i mi ddweud, ar y cyfan, yn siomedig. Fe'n gorfodwyd ni i atgoffa'r Llywodraeth mai Llywodraeth leiafrifol yw hi a bod yn rhaid iddi gymryd safbwyntiau'r gwrthbleidiau yn fwy o ddifrif wrth i'r Bil deithio drwy'r Cynulliad. Rwy'n gobeithio bod y wers honno wedi'i dysgu, ac fe gawn ni weld, mae'n bosib, i ba raddau y mae wedi cael ei dysgu wrth i ni drafod gwelliannau Cyfnod 2 y Bil cynllunio yn y Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd bore fory.

None of this would have happened unless Plaid Cymru and the other opposition parties had forced that to happen. We wouldn't have chosen to delete whole sections of the Bill at Stage 2, but the way in which the Government dealt with this process, I have to say, was generally speaking disappointing. We were forced to remind the Government that they are a minority Government and that they do have to take the views of opposition parties more seriously as the Bill proceeds through this Assembly. I hope that that lesson has now been learnt and we will see to what extent that has been the case as we discuss Stage 2 amendments to the planning Bill in the Environment and Sustainability Committee tomorrow morning.

Mae agweddau o'r Bil llesiant cenedlaethau'r dyfodol lle mae gennym ni amheuon yn dal i fod, ac mae'n rhaid i ni fod yn onest ynglŷn â hynny. Maent yn bennaf o gwmpas creu'r rhwydwaith o fyrddau gwasanaethau cyhoeddus—22 o fyrddau yn cynnal 22 asesiad i greu 22 cynllun llesiant lleol, 22 adroddiad blynyddol, ac yn y blaen. Mwy o faich biwrocrataidd ar sector gyhoeddus sydd eisoes yn wynebu gwasgfa aruthrol. Mwy o ddisgwyliadau o gyfeiriad Llywodraeth Cymru a llai o adnoddau o gyfeiriad Llywodraeth Cymru i gyflawni'r dyletswyddau hynny. Byddai'n well gennym ni, wrth gwrs, fod wedi prif lifo rhai o'r dyletswyddau yna i mewn i strwythurau eraill. Ond, ar falans, serch hynny, mae'r Bil wedi'i gryfhau yn ddigonol i ni i'w gefnogi y prynhawn yma.

There are aspects of the well-being of future generations Bill where we still have concerns and we do have to be honest about that. They mainly surround the creation of a network of public service boards—22 boards undertaking 22 assessments to create 22 local wellbeing plans, 22 annual reports, and so on and so forth. More bureaucratic burden on the public sector that is already facing huge pressures. More expectations from the direction of Welsh Government and fewer resources from that very same direction to achieve those responsibilities and duties. We would, of course, have preferred to have mainstreamed some of those duties into other structures, but, on balance, however, the Bill has been strengthened sufficiently for us to support it this afternoon.

Mae yna gwestiynau ehangach wedi codi yn fy meddwl i am y broses ddeddfwriaethol fan hyn. Roedd cymaint wedi ei ddileu o'r Bil yma yng Nghyfnod 2, roedd Llywodraeth Cymru bron iawn wedi ailysgrifennu rhannau helaeth o'r Bil trwy welliannau yng Nghyfnod 3. Nawr, mae yna gwestiwn am yr angen, efallai, am gyfnod ychwanegol pan fod newidiadau mor sylweddol yn cael eu cyflwyno yn y broses ddeddfwriaethol fan hyn.

There are broader questions that have arisen in my mind on the legislative process here. So much had been deleted from the Bill at Stage 2 that the Welsh Government had virtually rewritten large parts of the Bill through amendments at Stage 3. Now, there is a question on the need for an additional stage when such significant changes are introduced in the legislative process.

Ta waeth am hynny, y prawf i'r Bil yma fydd pa wahaniaeth y mae e'n ei wneud ar lawr gwlad, a pha effaith y mae e'n ei gael ar y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud gan Lywodraeth Cymru, a'r sector gyhoeddus ehangach, a'r modd y mae'r sector gyhoeddus yn gweithredu fan hyn yng Nghymru. Os na fydd y Bil, er enghraifft, yn arwain at newid yn y ffordd y mae penderfyniadau fel yr un ar yr M4 yng Nghasnewydd yn cael eu gwneud, yna mae yna gwestiwn sylfaenol am bwrpas ac effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y ddeddfwriaeth yma.

But, never mind about that, the test for this Bill is the difference it will make on the ground and what impact it will have on the decisions taken by the Welsh Government and the wider public sector, and the way the public sector acts here in Wales. If this Bill, for example, doesn't lead to a change in the way that decisions such as the one on the M4 in Newport are made, then there is a fundamental question regarding the purpose and effectiveness of this legislation.

Rwyf i am ategu'r diolchiadau, yn amlwg, i'r Cadeirydd, a chyn-Gadeirydd y pwyllgor, ac i glercod a staff y pwyllgor hefyd, sydd wedi bod yn gymorth aruthrol i fi, a nifer o'm cyd-aelodau ar y pwyllgor, a hefyd ddiolch i nifer o randdeiliaid allanol sydd wedi cynorthwyo pob un ohonom ni ar hyd y daith yma. Gall hi ddim o hyn ymlaen fod yn fusnes fel arfer. Os yw'r Bil yma i gyflawni ei bwrpas, mae'n rhaid i bethau newid, ac, yn ganolog i hynny, mi fydd yn rhaid i'r Llywodraeth ddangos arweiniad ac esiampl gref a digyfaddawd. Bydd Plaid Cymru yn disgwyl dim llai, ac rwy'n siŵr nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn haeddu dim llai chwaith. Diolch yn fawr iawn.

I want to endorse the thanks given to the Chair and former Chair of the committee, and to the clerks and staff of the committee, who have been of great assistance to me and many of my fellow members of the committee. Also, I'd like to thank the many stakeholders who have assisted each and every one of us along this journey. It can't now be business as usual. If this Bill is to achieve its purpose, then things do have to change and, at the heart of that, the Government will have to show leadership and a strong uncompromising example. Plaid Cymru will expect no less and I'm sure that the generations of the future deserve no less either. Thank you very much.

15:36 **Alun Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I'd like to start by also thanking all of those who've worked so hard to bring this Bill to the point where we are today: to John Griffiths, to Huw Lewis, and to Jeff Cuthbert, as Ministers, who guided this process forward; but also, as the Minister himself pointed out, to Peter Davies, who's fulfilled an absolutely essential role in ensuring that this is a Bill that quite uniquely, I think, both here and elsewhere, has had a significant input from the community of Wales, and has had a significant input that has affected the Bill that we see today. Llyr Huws Gruffydd, in his contribution, is absolutely right that this is not the Bill that was introduced; it's a Bill that's been significantly improved, but it's been improved both by the parliamentary process here, but also by the active participation of communities up and down Wales, and we should always remember that and be grateful for that contribution.

Hoffwn innau ddechrau drwy ddiolch i bawb sydd wedi gweithio mor galed i ddod â'r Bil hwn i'r fan lle'r ydym heddiw: i John Griffiths, i Huw Lewis, ac i Jeff Cuthbert, y Gweinidogion sydd wedi tywys y broses hon yn ei blaen; ond hefyd, fel y mae'r Gweinidog ei hun wedi nodi, i Peter Davies, sydd wedi cyflawni swyddogaeth gwbl hanfodol o ran sicrhau bod y Bil hwn, yn unigryw, rwyf yn credu, yma ac mewn mannau eraill, yn cynnwys mewnbwn sylweddol gan y gymuned yng Nghymru, a chafwyd mewnbwn sylweddol sydd wedi effeithio ar y Bil a welwn heddiw. Mae Llyr Huws Gruffydd, yn ei gyfraniad, yn llygad ei lle nad dyma'r Bil a gyflwynwyd; mae'n Fil sydd wedi'i wella'n sylweddol, ac mae wedi ei wella drwy'r broses seneddol yma, ond hefyd drwy gyfranogiad gweithredol cymunedau ar hyd a lled Cymru, a dylem gofio hynny bob amser a bod yn ddiolchgar am y cyfraniad hwnnw.

The Bill in front of us today is a much improved Bill. The Bill, as introduced, did have some deficiencies—I think everybody will accept that. The strengthening of the Bill, particularly the definitions that have been inserted into the Bill, means that this Bill really is a landmark piece of legislation. The Minister, in his introduction, outlined the importance of decisions being taken across the globe this year, in terms of climate change. This will be an essential part of Wales's contribution to that wider debate, demonstrating that, not only does this country take seriously its responsibilities to future generations, by participating in the international processes that will themselves lead to agreements, decisions, treaties, and agreements to take forward actions that will have a profound effect on the future of this planet, but that we also ensure that we take those decisions here at home as well—not the liberal abroad and the conservative at home approach, but a radical at home and a radical abroad. That is something that we can all, I hope, be very grateful for, and very proud of.

Mae'r Bil sydd ger ein bron heddiw yn Fil gwell o lawer. Roedd yn y Bil, fel y'i cyflwynwyd, rai diffygion—credaf y bydd pawb yn derbyn hynny. Mae cryfhau'r Bil, yn arbennig y diffiniadau sydd wedi eu mewnosod yn y Bil, yn golygu bod y Bil hwn yn ddarn gwirioneddol nodedig o ddeddfwriaeth. Amlinellodd y Gweinidog, yn ei gyflwyniad, bwysigrwydd penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ledled y byd eleni, o ran newid yn yr hinsawdd. Bydd hyn yn rhan hanfodol o gyfraniad Cymru at y ddadl ehangach, gan ddangos bod y wlad hon nid yn unig yn cymryd ei chyfrifoldebau tuag at genedlaethau'r dyfodol o ddifrif, drwy gymryd rhan yn y prosesau rhyngwladol a fydd hwythau'n arwain at gytundebau, penderfyniadau, cytuniadau, a chytundebau i fwrw ymlaen â chamau a fydd yn cael effaith fawr ar ddyfodol y blaned hon, ond ein bod hefyd yn sicrhau ein bod yn gwneud y penderfyniadau hynny yma gartref yn ogystal—nid yr ymagwedd rhyddfrydol dramor a cheidwadol gartref, ond radical gartref a radical dramor. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn i gyd, rwyf yn gobeithio, fod yn ddiolchgar iawn amdano, ac yn falch iawn ohono.

Can I say that I'm also grateful that the Minister's taken time, in his contributions on this piece of legislation, to ensure that there is a clear and understood relationship between this piece of legislation, the environment Bill, and the Planning (Wales) Bill? They're essential parts of a jigsaw coming together to ensure that, in Wales, we can manage our natural resources for future generations, we can also manage investment in the green economy, and we can also manage investment in the future of our communities; and to ensure that we do have sustainability hard-wired into what our decisions are for the future.

A gaf fi ddweud fy mod hefyd yn ddiolchgar fod y Gweinidog wedi cymryd amser, yn ei gyfraniadau ar y darn hwn o ddeddfwriaeth, i sicrhau bod perthynas glir ac eglur rhwng y darn hwn o ddeddfwriaeth, Bil yr amgylchedd, a Bil Cynllunio (Cymru)? Maent yn rhannau hanfodol o jig-so sy'n dod at ei gilydd i sicrhau y gallwn ni, yng Nghymru, reoli ein hadnoddau naturiol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, y gallwn hefyd reoli buddsoddi yn yr economi werdd, ac y gallwn hefyd reoli buddsoddi yn nyfodol ein cymunedau; ac i sicrhau bod cynaliadwyedd yn rhan annatod o'n penderfyniadau ar gyfer y dyfodol.

I hope that this is a Bill that will lead to far-reaching change, that it won't simply inform future decisions taken by the Welsh Government, but also by public bodies and authorities across the face of the country, that the pillars of sustainability—the economy, community and environment—are all considered when decisions are taken by public bodies and public authorities across the whole of Wales. I hope the Minister will agree with me that those pillars will have a different meaning and a different balance at different times and that that will lead to different decisions. But all of those decisions must be rooted in a concern to ensure the wellbeing of future generations, whether that is the economy, the community or the environment. It is the wellbeing of future generations that will inform his decisions and that he expects will inform decisions taken across Wales.

Rwyf yn gobeithio bod hwn yn Fil a fydd yn arwain at newid pellgyrhaeddol, na fydd yn llywio penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth Cymru yn unig yn y dyfodol, ond hefyd rai a wneir gan gyrff cyhoeddus ac awdurdodau ar hyd a lled y wlad, bod pileri cynaliadwyedd—yr economi, y gymuned a'r amgylchedd—i gyd yn cael eu hystyried pan fydd penderfyniadau'n cael eu gwneud gan gyrff cyhoeddus ac awdurdodau cyhoeddus ledled Cymru gyfan. Rwyf yn gobeithio y bydd y Gweinidog yn cytuno â mi y bydd gan y pileri hynny ystyr wahanol a chydbwysedd gwahanol ar wahanol adegau ac y bydd hynny'n arwain at benderfyniadau gwahanol. Ond mae'n rhaid i bob un o'r penderfyniadau hynny fod wedi eu gwreiddio mewn awydd i sicrhau llesiant cenedlaethau'r dyfodol, boed hynny o safbwynt yr economi, y gymuned neu'r amgylchedd. Llesiant cenedlaethau'r dyfodol fydd yn llywio ei benderfyniadau ac mae'n disgwyl y bydd hynny'n llywio penderfyniadau a wneir ledled Cymru.

Deputy Presiding Officer, I am very pleased to be supporting the Bill this afternoon. This is a landmark piece of legislation that can not only contribute to changing future decisions taken in this country, but demonstrate leadership from this country as well. I think that all of us should join together in supporting that. Thank you very much.

Ddirprwy Lywydd, rwyf yn falch iawn o gefnogi'r Bil y prynhawn yma. Mae hwn yn ddarn nodedig o ddeddfwriaeth a all nid yn unig gyfrannu at newid penderfyniadau a wneir yn y wlad hon yn y dyfodol, ond a all hefyd ddangos arweinyddiaeth gan y wlad hon. Credaf y dylai pob un ohonom ddod ynghyd i gefnogi hynny. Diolch yn fawr iawn.

15:41 **William Powell** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

The former Minister and indeed the current Minister for Natural Resources have quite rightly put on record thanks to all those who have contributed to the wider national conversation that has led to the significant improvements in this Bill. It's hardly a secret that the Bill didn't get off to the best of starts, and I think that the opposition parties have played a very important and constructive role in that. But I'd also put on record my thanks to the Minister for the way in which he has latterly approached these matters after the hardball tactics that were necessary at an earlier stage. I believe that, overall, we have been successful in achieving these key aims, and we now have a Bill that puts a clear duty on public bodies to carry out their functions in such a way that promotes sustainable development and pays due regard to the wellbeing of future generations. I think, in fact, that if the public service boards are properly managed, rather than being the bureaucratic nightmare that some would have us think, we are actually looking at a mechanism where there will be nowhere for such public authorities to hide. This is absolutely essential if these duties are to be delivered and delivered successfully.

Mae'r cyn Weinidog ac yn wir y Gweinidog Cyfoeth Naturiol presennol yn briodol iawn wedi diolch ar gofnod i bawb sydd wedi cyfrannu at y sgwrs genedlaethol ehangach a arweiniodd at y gwelliannau sylweddol yn y Bil hwn. Nid yw'n gyfrinach na chafodd y Bil hwn y dechrau gorau, a chredaf fod y gwrthbleidiau wedi chwarae rhan bwysig ac adeiladol iawn yn hynny o beth. Ond hoffwn hefyd gofnodi fy niolch i'r Gweinidog am y ffordd y mae ef yn ddiweddar wedi ymdrin â'r materion hyn ar ôl y tactegau caled a oedd yn angenrheidiol yn gynharach. Credaf, ar y cyfan, ein bod wedi llwyddo i gyflawni'r nodau allweddol hyn, ac mae gennym yn awr Fil sy'n rhoi dyletswydd glir ar gyrff cyhoeddus i gyflawni eu swyddogaethau mewn modd sy'n hybu datblygu cynaliadwy ac yn rhoi sylw priodol i lesiant cenedlaethau'r dyfodol. Credaf, mewn gwirionedd, os caiff y byrddau gwasanaethau cyhoeddus eu rheoli'n briodol, mai'r hyn a gawn, yn hytrach na'r hunllef fiwrocrataidd y mae rhai am inni gredu y cawn, yw system lle na fydd unman i'r fath awdurdodau cyhoeddus guddio. Mae hyn yn gwbl hanfodol os yw'r dyletswyddau hyn i'w cyflawni a'u cyflawni'n llwyddiannus.

I'd also like to take this opportunity to highlight a few of the key aspects in which the Bill has made significant progress and ways in which my own group has played some part in delivering that improvement. Firstly, we have consistently maintained throughout discussions on the Bill that, if the wellbeing goals are to be seen as credible enough to be on the face of the Bill, it is essential that there is no mechanism for Welsh Government Ministers to change them on a whim or without due consideration and, indeed, appropriate consultation. The fact that this has been removed is a key step forward and a key guarantee, and I was delighted that this was supported last week with the support of all parties in this Chamber. Similarly, the true independence from Welsh Government of the future generations commissioner is absolutely essential, and I believe that the amendment that I was able to bring forward to secure a fixed term of appointment of seven years for that commissioner will make the commissioner, whoever is eventually appointed, safeguarded from the accusation of being in any way a prisoner of this or indeed a future Welsh Government.

Hoffwn hefyd gymryd y cyfle hwn i dynnu sylw at rai o'r agweddau allweddol lle mae'r Bil wedi gwneud cynnydd sylweddol a'r ffyrdd y mae fy ngrŵp innau wedi chwarae rhyw ran i sicrhau'r gwelliant hwnnw. Yn gyntaf, rydym wedi mynnu'n gyson trwy gydol y trafodaethau ar y Bil ei bod yn hanfodol, er mwyn i'r amcanion llesiant gael eu hystyried yn ddigon credadwy i fod ar wyneb y Bil, nad oes yr un mecanwaith i Weinidogion Llywodraeth Cymru eu newid ar fympwy neu heb ystyriaeth ddyledus ac, yn wir, ymgynghori priodol. Mae'r ffaith bod hyn wedi cael ei ddileu yn gam allweddol ymlaen ac yn warant allweddol, ac roeddwn wrth fy modd fod hyn wedi cael cefnogaeth pob plaid yn y Siambr hon yr wythnos diwethaf. Yn yr un modd, mae gwir annibyniaeth comisiynydd cenedlaethau'r dyfodol oddi wrth Lywodraeth Cymru'n gwbl hanfodol, a chredaf fod y gwelliant y llwyddais i'w gyflwyno i sicrhau cyfnod penodol o saith mlynedd i'r comisiynydd yn diogelu'r comisiynydd, pwy bynnag a benodir yn y pen draw, rhag cyhuddiad o fod mewn rhyw ffordd yn garcharor i'r Llywodraeth hon neu yn wir i Lywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Finally, one of the most important things for us to achieve with this Bill and the discussions around it was to have a way of measuring the progress towards achieving the wellbeing goals, particularly in relation to that most important challenge of all—the challenge of climate change. Following the amendments in this regard that we tabled at Stage 2, I was delighted that the Minister committed to an inclusion of statutory targets within the environment Bill, and we should be looking out for that and looking at that in the detail. In terms of safeguarding the welfare of future generations, in which this is groundbreaking legislation, I recall the words of the late German environmentalist Petra Kelly, who said in her native tongue:

Yn olaf, un o'r pethau pwysicaf inni ei gyflawni â'r Bil hwn a'r trafodaethau yn ei gylch oedd sicrhau ffordd o fesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, yn enwedig mewn perthynas â'r her bwysicaf oll—her newid yn yr hinsawdd. Yn dilyn y gwelliannau yn hynny o beth a gyflwynwyd gennym yng Nghyfnod 2, roeddwn wrth fy modd fod y Gweinidog wedi ymrwymo i gynnwys targedau statudol ym Mil yr amgylchedd, a dylem fod yn chwilio am hynny ac yn edrych am hynny yn y manylion. O ran diogelu lles cenedlaethau'r dyfodol, lle y mae hon yn ddeddfwriaeth sy'n torri tir newydd, rwyf yn dwyn i gof eiriau'r ddiweddar amgylcheddwraig o'r Almaen Petra Kelly, a ddywedodd yn ei mamiaith:

'Wir haben die Erde von unseren kindern nur geborgt.'

'Wir haben die Erde von unseren kindern nur geborgt.'

'We have only borrowed the Earth from our children.'

Dim ond wedi benthyg y Ddaear gan ein plant yr ydym.

That is very much the sentiment with which we should, as a whole Assembly, be uniting in support of this legislation today. It is absolutely essential that these matters are taken seriously and I look forward very much to the Minister's response to the issues that we've raised today. Diolch yn fawr.

Ar sail yr ymdeimlad hwnnw y dylem ninnau, fel Cynulliad cyfan, uno i gefnogi'r ddeddfwriaeth hon heddiw. Mae'n gwbl hanfodol cymryd y materion hyn o ddifrif ac edrychaf ymlaen yn fawr at ymateb y Gweinidog i'r materion yr ydym wedi'u codi heddiw. Diolch yn fawr.

15:45

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply in English or Welsh. [Laughter.]

A'r Gweinidog i ymateb yn Gymraeg neu yn Saesneg. [Chwerthin.]

15:45

## Carl Sargeant Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol / The Minister for Natural Resources*

Diolch yn fawr. Thank you, Presiding Officer. I'm very grateful for the broad, welcoming support from colleagues. I think what we've managed to do with the Bill—. It would be fair to say that it was a challenging process going through committee scrutiny and understanding how we could bring like-minded views together. I welcome the interventions from political parties and third sector organisations to shape, for the better, the Bill.

Diolch yn fawr. Diolch ichi, Lywydd. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y gefnogaeth gyffredinol a'r croeso gan fy nghydweithwyr. Credaf mai'r hyn yr ydym wedi llwyddo i'w wneud gyda'r Bil hwn—. Byddai'n deg dweud ei bod wedi bod yn broses heriol mynd drwy graffu'r pwyllgorau a deall sut y gallem ddod â safbwyntiau cyffelyb at ei gilydd. Rwyf yn croesawu'r ymyriadau gan bleidiau gwleidyddol a sefydliadau'r trydydd sector i lunio'r Bil, er gwell.

In terms of Llyr's reference to the significant amendments at Stage 2, well, of course we did that, because that's what the committee asked for, so we brought that back. But, notwithstanding, we do need to ensure that we get full and proper scrutiny for the Bill as we move forward. Alun Davies's comments were very welcome and I thank the Member for that. He's absolutely right that the pillars of sustainability, of course, will be subject to challenge and waiting at different times for different occasions, but what I do expect is, if we have to respect those challenges, then also other agencies are expected to meet them too in their interpretation of sustainable development.

O ran cyfeiriad Llyr at y gwelliannau sylweddol yng Nghyfnod 2, wel, wrth gwrs gwnaethom hynny, oherwydd dyna'r hyn y gofynnodd y pwyllgor amdano, felly daethom â hynny yn ôl. Ond, serch hynny, mae angen inni sicrhau craffu llawn a phriodol ar y Bil wrth inni symud ymlaen. Roeddwn yn croesawu sylwadau Alun Davies yn fawr iawn ac rwyf yn diolch i'r Aelod am hynny. Mae yn llygad ei le y bydd y pileri cynaliadwyedd, wrth gwrs, yn destun herio ac aros ar adegau gwahanol am wahanol achlysuron, ond yr hyn yr wyf yn ei ddisgwyl yw hyn: os oes yn rhaid inni barchu'r heriau hynny, yna mae disgwyl hefyd i asiantaethau eraill eu bodloni wrth ddehongli datblygu cynaliadwy.

This is a trailblazing Bill, Presiding Officer, and not just for this Assembly; this is the first law of its kind internationally, and we should be incredibly proud of that. There is an air of disappointment where the Conservatives have indicated that they will not be supporting this Bill today. They can't have it both ways; they can't be the champions of sustainable development and then vote against a groundbreaking Bill today. Actions clearly speak louder than words and I would ask them to reconsider their position, so that we can have a collective voice from this Assembly on this groundbreaking Bill today. I formally move.

Mae hwn yn Fil arloesol, Lywydd, ac nid yn unig i'r Cynulliad hwn; dyma'r gyfraith gyntaf o'i bath yn y byd, a dylem fod yn hynod falch o hynny. Mae teimlad o siom fod y Ceidwadwyr wedi dweud na fyddant yn cefnogi'r Bil hwn heddiw. Ni allant ei chael hi bob ffordd; ni allant fod yn hyrwyddwyr datblygu cynaliadwy ac yna bleidleisio yn erbyn Bil arloesol heddiw. Mae gweithredu yn amlwg yn dweud mwy na geiriau a byddwn yn gofyn iddynt ailystyried eu safbwynt, fel y gallwn gael llais cyfunol gan y Cynulliad hwn ar y Bil arloesol hwn heddiw. Cynigaf yn ffurfiol.

15:47

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion. Does any Member object? [Objection.] I will defer voting under this item until voting time.

Y cynnig yw derbyn y cynnig. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? [Gwrthwynebiad.] Gohiriaf y pleidleisio ar yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*

*Voting deferred until voting time.*

## 8. Dadl ar Adroddiad Blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru 2013-2014

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Paul Davies, a gwelliant 4 yn enw Elin Jones.*

## 8. Debate on the Care and Social Service Inspectorate Wales (CSSIW) Annual Report 2013-2014

*The following amendments have been selected: amendments 1, 2 and 3 in the name of Paul Davies, and amendment 4 in the name of Elin Jones.*

15:47

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 8 is a debate on the Care and Social Service Inspectorate Wales's annual report, and I call the Minister for Health and Social Services to move the motion—Mark Drakeford.

Dadl yw eitem 8 ar adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, a galwaf ar y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i gynnig y cynnig—Mark Drakeford.

Cynnig NDM5720 Jane Hutt

Motion NDM5720 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn nodi adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-14.

Notes the Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW) annual report for 2013-14.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

15:47

### Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Three weeks ago, the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill was introduced on the floor of the National Assembly, and because that Bill will now make its way through our processes, I was especially keen to bring the latest annual report of the CSSIW inspectorate to the attention of Members.

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd. Dair wythnos yn ôl, cyflwynwyd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) ar lawr y Cynulliad Cenedlaethol, ac oherwydd y bydd y Bil hwnnw'n awr yn gwneud ei ffordd drwy ein prosesau, roeddwn yn arbennig o awyddus i ddod ag adroddiad blynyddol diweddaraf arolygiaeth AGGCC i sylw'r Aelodau.

Published on 4 March, the report discharges the inspectorate's statutory duties to report on local authorities' social services performance, regulated social care for adult and children's services, regulated childcare—which, of course, is the responsibility of the Minister for Communities and Tackling Poverty—CSSIW's own performance as a regulator and inspectorate, and its performance in the discharge of its functions to assure the quality and safety of childcare.

Cyhoeddwyd yr adroddiad ar 4 Mawrth, ac mae'n cyflawni dyletswyddau statudol yr arolygiaeth i adrodd ar berfformiad gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gofal cymdeithasol a reoleiddir ar gyfer gwasanaethau oedolion a phlant, gofal plant a reoleiddir—sydd, wrth gwrs, yn gyfrifoldeb ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi—perfformiad AGGCC hithau fel rheoleiddiwr ac arolygiaeth, a'i pherfformiad wrth gyflawni ei swyddogaethau i sicrhau ansawdd a diogelwch gofal plant.

Dirprwy Lywydd, the report provides a full account of CSSIW's work and the contribution it makes to assure and improve the quality and safety of childcare, social care and social services in Wales.

Ddirprwy Lywydd, mae'r adroddiad yn rhoi disgrifiad llawn o waith AGGCC a'r cyfraniad y mae'n ei wneud i sicrhau a gwella ansawdd a diogelwch gofal plant, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

Now, it seems to me that the first thing that would strike a new reader of the report would be simply the scale of the regulator's operation. As of the end of March of last year, the CSSIW register showed 6,275 services providing places for over 105,000 people. During the year that led to the end of March of last year, the regulator registered 466 new services and closed or deregistered a further 501. It's responsible for the regulation of 266 children's services, which provide 2,182 places, 1,603 adult services, which involve 26,240 places, and 4,446 childcare settings, which provide 76,590 childcare places across Wales.

Yn awr, mae'n ymddangos i mi mai'r peth cyntaf a fyddai'n taro rhywun sy'n darllen yr adroddiad am y tro cyntaf yw graddfa gwaith y rheoleiddiwr. Ddiwedd mis Mawrth y llynedd, roedd cofrestr AGGCC yn dangos bod 6,275 o wasanaethau'n darparu lleoedd ar gyfer dros 105,000 o bobl. Yn ystod y flwyddyn hyd at ddiwedd mis Mawrth y llynedd, cofrestrodd y rheoleiddiwr 466 o wasanaethau newydd a chau neu ddadgofrestru 501 yn rhagor. Mae'n gyfrifol am reoleiddio 266 o wasanaethau i blant, sy'n darparu 2,182 o leoedd, 1,603 o wasanaethau i oedolion, sy'n cynnwys 26,240 o leoedd, a 4,446 o leoliadau gofal plant, sy'n darparu 76,590 o leoedd gofal plant ar hyd a lled Cymru.

If scale is the first thing that the reader would notice, then scope, I think, is likely to be the second. CSSIW provides oversight of domiciliary care agencies, care homes for older and younger people, adult placement agencies and nursing agencies, sessional day care, full day care, out-of-school care, open-access play provision, child minders and crèches, further education colleges, boarding schools and residential special schools, children's homes, adoption services, fostering services and residential family centres.

Os mai'r raddfa yw'r peth cyntaf y byddai'r darllenydd yn sylwi arno, yna mae'n debyg mai'r cwmpas fyddai'r ail. Mae AGGCC yn darparu trosolwg ar asiantaethau gofal cartref, cartrefi gofal i bobl hŷn ac iau, asiantaethau lleoli oedolion ac asiantaethau nyrsio, gofal dydd sesiynol, gofal dydd llawn, gofal y tu allan i'r ysgol, darpariaeth chwarae mynediad agored, gwarchodwyr plant a meithrinfeydd, colegau addysg bellach, ysgolion preswyl ac ysgolion arbennig preswyl, cartrefi plant, gwasanaethau mabwysiadu, gwasanaethau maethu a chanolfannau preswyl i deuluoedd.

Dirprwy Lywydd, I set them out in that way because I think the sheer reach of CSSIW would be a surprise to almost anyone not directly involved in its spheres of activity. With scale and scope has to come a sense of reliable and proportionate judgment. It's heartening to see that the report finds that most people experienced good care that contributed to their quality of wellbeing. That was true of 96 per cent of children's day care and child minders who were inspected during the year of this report, 86 per cent of adult care homes and domiciliary care agencies, and 94 per cent of residential care, fostering and adoption agencies.

Dirprwy Lywydd, rwyf yn eu rhestru yn y ffordd honno oherwydd credaf y byddai cwmpas AGGCC yn peri syndod i bawb bron nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â'i meysydd gweithgarwch. Law yn llaw â graddfa a chwmpas, mae'n rhaid wrth ymdeimlad o grebwyll dibynadwy a chymesur. Mae'n galonogol gweld bod yr adroddiad yn canfod bod y rhan fwyaf o bobl yn profi gofal da sy'n cyfrannu at ansawdd eu llesiant. Roedd hynny'n wir am 96 y cant o ofal dydd i blant a gwarchodwyr plant a gafodd eu harolygu yn ystod blwyddyn yr adroddiad hwn, 86 y cant o gartrefi gofal i oedolion ac asiantaethau gofal cartref, a 94 y cant o asiantaethau gofal preswyl, maethu a mabwysiadu.

Out of all the settings that CSSIW inspected, 343 services were found to be in need of improvement. Sixty-eight per cent of that number were able to achieve that improvement successfully through discussions with the provider and through the process of re-inspection. That demonstrates, I believe, the validity of what the chief inspector says in her foreword to this, her fourth annual report, that CSSIW is now focused on driving improvement in care rather than simply ensuring compliance, and of the effectiveness of using the four key themes of quality of life, quality of staff, quality of leadership and management, and quality of environment, in driving that process of improvement.

O'r holl leoliadau a arolygwyd gan AGGCC, canfuwyd bod angen gwella 343 o wasanaethau. Roedd chwe deg wyth y cant o'r nifer hwnnw'n gallu sicrhau'r gwelliant hwnnw'n llwyddiannus drwy drafodaethau â'r darparwr a thrwy'r broses ailarolygu. Mae hynny'n dangos, yn fy marn i, ddilysrwydd yr hyn y mae'r prif arolygydd yn ei ddweud yn ei rhagair i hwn, ei phedwerydd adroddiad blynyddol, sef bod AGGCC yn awr yn canolbwyntio ar ysgogi gwelliant mewn gofal yn hytrach na dim ond sicrhau cydymffurfiaeth, ac effeithiolrwydd defnyddio'r pedair thema allweddol, sef ansawdd bywyd, ansawdd y staff, ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, ac ansawdd yr amgylchedd, i sbarduno'r broses honno o wella.

Of the remainder, those services that were not able to be brought to an acceptable standard through the process of discussion and re-inspection, and in those exceptional circumstances where providers have placed people at risk and systematically failed to improve, CSSIW took robust action and cancelled the registration of 49 different services.

O ran y gweddill, y gwasanaethau hynny nad oedd yn bosib dod â hwy i safon dderbyniol drwy drafod ac ailarolygu, ac yn yr amgylchiadau eithriadol hynny lle y mae darparwyr wedi rhoi pobl mewn perygl ac yn methu'n systematig â gwella, cymerodd AGGCC gamau gweithredu cadarn a chanslo cofrestriad 49 o wasanaethau gwahanol.

Indeed, and in preparation for the new powers that the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill will bring for swifter action where care cannot be brought to an acceptable level, the report we have in front of us shows increasing examples where the regulator has cancelled registration for poor care and taken action to uphold the rights of children where the provider has failed in their duty of care.

Yn wir, ac er mwyn paratoi ar gyfer y pwerau newydd y bydd Bil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) yn eu rhoi ar gyfer gweithredu cynt lle na ellir dod â gofal i lefel dderbyniol, mae'r adroddiad sydd ger ein bron yn dangos enghreifftiau cynyddol lle y mae'r rheoleiddiwr wedi canslo cofrestriad oherwydd gofal gwael ac wedi cymryd camau i gynnal hawliau plant lle y mae'r darparwr wedi methu yn ei ddyletswydd gofal.

In a further shift towards the post regulation and inspection Bill landscape, the report demonstrates the increasing importance that the report demonstrates in the regulator's investment in direct response to concerns raised by the public and by professional workers. In the year covered by this annual report, the chief inspector responded to 2,170 such concerns and acted promptly on them to identify risks, which, in turn, triggered a further 284 inspections.

Gan symud yn nes eto at y tirlun ar ôl y Bil rheoleiddio ac arolygu, mae'r adroddiad yn dangos y pwys cynyddol y mae'r adroddiad yn ei roi ar fuddsoddiad y rheoleiddiwr mewn ymateb uniongyrchol i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chan weithwyr proffesiynol. Yn y flwyddyn y mae'r adroddiad blynyddol hwn yn ei chwmpasu, ymatebodd y prif arolygydd i 2,170 o bryderon o'r fath a gweithredu arnynt yn brydlon i nodi risgiau, a sbardunodd hynny, yn ei dro, 284 o arolygiadau eraill.

Dirprwy Lywydd, let me turn now to the amendments, all of which the Government intends to accept. I have just referred to the way in which CSSIW has moved to provide greater involvement of the public in shaping its work. Placing the user at the centre of our social services was a keystone of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014, with its architecture of a national citizens panel reflected in local panels at each regional partnership. The amendment in Paul Davies's name, which draws attention to the importance of service user feedback, is entirely consistent with that approach. The Government is pleased to accept it.

Ddirprwy Lywydd, gadewch imi droi yn awr at y gwelliannau, y mae'r Llywodraeth yn bwriadu derbyn pob un ohonynt. Rwyf newydd gyfeirio at y ffordd y mae AGGCC wedi cymryd camau i roi mwy o ran i'r cyhoedd wrth lunio ei gwaith. Roedd sicrhau bod defnyddwyr yn ganolog i'n gwasanaethau cymdeithasol yn un o gonglfeini Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, gyda phensaernïaeth panel dinasyddion cenedlaethol yn cael ei hadlewyrchu mewn paneli lleol ym mhob partneriaeth ranbarthol. Mae'r gwelliant yn enw Paul Davies, sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd adborth defnyddwyr gwasanaethau, yn gwbl gyson â'r ymagwedd honno. Mae'r Llywodraeth yn falch o'i dderbyn.

There are, indeed, recruitment challenges in the sector. Best employers are best placed to address them and, as a Government, we certainly want to work with the sector, as the first amendment on today's order paper suggests, in addressing those challenges.

Oes, mae heriau recriwtio yn y sector. Y cyflogwyr gorau sydd yn y sefyllfa orau i ymdrin â hwy ac rydym ni yn y Llywodraeth yn sicr am weithio gyda'r sector, fel y mae'r gwelliant cyntaf ar y papur trefn heddiw'n awgrymu, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau hynny.

The second Conservative Party amendment points to variability in local authority performance. That is an inescapable conclusion in reading the chief inspector's report. Now, local circumstances do require local services and variation, by itself, is not necessarily a matter for concern. However, excessive variation certainly is. It is not acceptable to me, for example, that the rate at which children are removed from their families in Wales varies from 50 per 10,000 young people under the age of 18 in one local authority in Wales to 168 at the other end of the spectrum. It's in response to that unacceptable variation that we will accept that amendment.

Mae ail welliant y Blaid Geidwadol yn tynnu sylw at amrywioldeb perfformiad yr awdurdodau lleol. Mae hynny'n gasgliad anochel wrth ddarllen adroddiad y prif arolygydd. Yn awr, mae amgylchiadau lleol yn gofyn am wasanaethau lleol ac nid yw amrywioldeb, ar ei ben ei hun, o reidrwydd yn destun pryder. Fodd bynnag, mae amrywioldeb gormodol yn sicr yn destun pryder. Nid yw'n dderbyniol i mi, er enghraifft, fod cyfradd tynnu plant oddi wrth eu teuluoedd yng Nghymru'n amrywio o 50 o bob 10,000 o bobl ifanc o dan 18 oed mewn un awdurdod lleol yng Nghymru i 168 ym mhen arall y sbectrwm. Mewn ymateb i'r amrywioldeb annerbyniol hwnnw y byddwn yn derbyn y gwelliant hwnnw.

Let me turn now to the amendment put down by Plaid Cymru this afternoon. The annual report draws attention to evidence of improved multi-agency approaches, of greater emphasis on prevention and early intervention, and a reduction in the number of delayed transfers of care. It also acknowledges, however, that there is scope for further improvement in this area. Improved care pathways that support older people in care homes whose health is deteriorating, could, indeed, lead to a reduced number of unplanned admissions to hospital. I'm therefore happy to accept the amendment and will ensure that CSSIW works with local health boards to examine how unnecessary admissions to hospital from care homes can be prevented.

Gadewch imi droi yn awr at y gwelliant a gyflwynwyd gan Blaid Cymru y prynhawn yma. Mae'r adroddiad blynyddol yn tynnu sylw at dystiolaeth o well dulliau amlasiantaeth, o roi mwy o bwyslais ar atal ac ymyrryd yn gynnar, a gostyngiad yn nifer yr achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal. Mae hefyd yn cydnabod, fodd bynnag, fod lle i wella ymhellach yn y maes hwn. Gallai llwybrau gofal gwell sy'n cefnogi pobl hŷn mewn cartrefi gofal y mae eu hiechyd yn dirywio, yn wir, arwain at lai o dderbyniadau heb eu cynllunio i'r ysbyty. Rwyf felly'n hapus i dderbyn y gwelliant a byddaf yn sicrhau bod AGGCC yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i weld sut y gellir atal derbyniadau diangen i'r ysbyty o gartrefi gofal.

Dirprwy Lywydd, I've touched on only some of the major themes of the chief inspector's annual report for 2013-14. I have not yet mentioned the chapter that records the inspection of local authority performance, the creation of a new national advisory board, the analysis of services for looked-after children, the in-depth look at adult services, the actions taken to make improvements to the inspectorate's Welsh language services, nor the identification of the inspectorate's priorities for 2015 and 2016. Much, then, for Members to address in the hour ahead, and I look forward very much to listening to and responding to the debate.

Ddirprwy Lywydd, rwyf wedi crybwyll rhai o'r prif themâu yn unig yn adroddiad blynyddol y prif arolygydd ar gyfer 2013-14. Nid wyf wedi crybwyll eto y bennod sy'n cofnodi arolygu perfformiad awdurdodau lleol, creu bwrdd cynghori cenedlaethol newydd, dadansoddi'r gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, yr olwg fanwl ar y gwasanaethau i oedolion, y camau a gymerwyd i wneud gwelliannau i wasanaethau Cymraeg yr arolygiaeth, na nodi blaenoriaethau'r arolygiaeth ar gyfer 2015 a 2016. Mae llawer, felly, i'r Aelodau roi sylw iddo yn yr awr nesaf, ac edrychaf ymlaen yn fawr iawn at wrando ar y ddadl ac ymateb iddi.

15:57

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I have selected the four amendments to the motion. I call on Darren Millar to move amendments 1, 2 and 3 tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y pedwar gwelliant i'r cynnig. Galwaf ar Darren Millar i gynnig gwelliannau 1, 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi'r heriau recriwtio sy'n wynebu'r sector gofal ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector a chymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn.*

*Notes the recruitment challenges facing the care sector and calls upon the Welsh Government to work with the sector and take action to address these challenges.*

*Gwelliant 2—Paul Davies*

*Amendment 2—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn mynegi pryder ynglŷn ag amrywioldeb perfformiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru.*

*Expresses concern regarding the variability of the performance of local authority social service departments across Wales.*

*Gwelliant 3—Paul Davies*

*Amendment 3—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn nodi pwysigrwydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i wella safonau gwasanaethau gofal cymdeithasol.*

*Notes the importance of service user feedback in helping to improve standards of social care services.*

*Cynigiwyd gwelliannau 1, 2 a 3.*

*Amendments 1, 2 and 3 moved.*

15:57

## Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv
[Fideo](#) [Video](#)

Thank you, Deputy Presiding Officer. I do move the amendments on the order paper in the name of Paul Davies, and I welcome the opportunity to participate in this important debate. There's no doubt that the Care and Social Service Inspectorate Wales, CSSIW, plays an enormously important role in ensuring high-quality care provision for those people, many of whom are very vulnerable in our society. I want to pay tribute to them for their work across Wales and, indeed, in my own constituency, in ensuring that people are getting access to the care and support that they actually need. The Minister pointed out the scale of their operations and the breadth of their work, and I think it is important to just re-emphasise that. As I understand it, they undertook over 5,500 visits as part of their inspection regime in the year that we're looking at, finishing in March 2014, and I think, you know, the work that they do should not be unrecognised—go unrecognised, I should say, rather—by this Assembly.

Diolch ichi, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn cynnig y gwelliannau ar y papur trefn yn enw Paul Davies, a chroesawaf y cyfle i gymryd rhan yn y ddadl bwysig hon. Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, AGGCC, yn sicr yn chwarae rhan hynod bwysig o ran sicrhau darpariaeth gofal o ansawdd uchel i'r bobl hynny, y mae llawer ohonynt yn agored iawn i niwed yn ein cymdeithas. Hoffwn dalu teyrnged iddi am ei gwaith ledled Cymru ac, yn wir, yn fy etholaeth innau, er mwyn sicrhau bod y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen ar gael i bobl. Cyfeiriodd y Gweinidog at raddfa ei gweithrediadau ac ehangder ei gwaith, a chredaf ei bod yn bwysig pwysleisio hynny o'r newydd. Yn ôl a ddeallaf, cynhaliodd dros 5,500 o ymweliadau fel rhan o'i threfn arolygu yn ystod y flwyddyn yr ydym yn edrych arni, sy'n gorffen ym mis Mawrth 2014, a chredaf, wyddoch chi, na ddylai'r gwaith y mae'n ei wneud beidio â chael ei gydnabod gan y Cynulliad hwn.

I know that the Minister referred to some of the work that they do with regard to looked-after children in his opening contribution, and I understand, Minister, that there was an all-Wales summit that took place last week. It would be good, I think, if you could put on record just some of the outcomes from that summit, perhaps, in closing the debate today.

Gwn i'r Gweinidog sôn am rywfaint o'r gwaith y mae'n ei wneud mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal yn ei gyfraniad agoriadol, ac rwyf yn deall, Weinidog, fod uwchgynhadledd Cymru gyfan wedi'i chynnal yr wythnos diwethaf. Byddai'n dda, yn fy marn i, pe gallech gofnodi rhai o ganlyniadau'r uwchgynhadledd honno, efallai, wrth gloi'r ddadl heddiw.

As well, I was very pleased to hear the Minister referring to the fact, in his opening remarks, that there is an increasing focus not just on compliance with the regulations and the law, but also on improvement of quality of care in the four areas that the inspectorate look at. Increasingly, I know, as well, that the inspectorate are looking to co-ordinate their work and to share good practice as an inspectorate with the other inspectorates that we have in Wales, particularly Healthcare Inspectorate Wales, but, indeed, the Wales Audit Office too. I welcome their continuing furtherance of those relationships. We do have a changing landscape, as well, I think it's fair to say, in the social care world with the advent of the new Act, and, obviously, the new Bill that's being progressed through the Assembly at the moment, or that is to be progressed through the Assembly, will, again, potentially change the shape of the inspectorate, and I look forward to scrutinising that.

Roeddwn yn falch iawn hefyd o glywed y Gweinidog yn cyfeirio, yn ei sylwadau agoriadol, at y ffaith bod pwyslais cynyddol nid yn unig ar gydymffurfio â'r rheoliadau a'r gyfraith, ond hefyd ar wella ansawdd gofal yn y pedwar maes y mae'r arolygiaeth yn edrych arnynt. Gwn fod yr arolygiaeth hefyd yn awyddus i gydlynu ei gwaith ac i rannu arfer da fel arolygiaeth â'r arolygiaethau eraill sydd gennym yng Nghymru, yn arbennig Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, ond, yn wir, Swyddfa Archwilio Cymru hefyd. Rwyf yn croesawu'r ffaith eu bod yn parhau i feithrin y cysylltiadau hynny. Mae ein tirlun yn newid, hefyd, credaf ei bod yn deg dweud, ym myd gofal cymdeithasol gyda dyfodiad y Ddeddf newydd, ac, wrth gwrs, bydd y Bil newydd sy'n mynd drwy'r Cynulliad ar hyn o bryd, neu a fydd yn mynd drwy'r Cynulliad, unwaith eto, o bosibl yn newid ffurf yr arolygiaeth, ac edrychaf ymlaen at graffu ar hynny.

We have tabled three amendments, of course. The first deals with the recruitment challenges, which are, unfortunately, all too commonplace in the social care world. I noted in the summary briefing that was provided by CSSIW that the biggest area of non-compliance, actually, was around quality of leadership and management, which I think should be a concern to us all. There were 554 cases across the piece in the year that we're talking about. I, for one, am very concerned about that, and I think it is important that the Government does all it can to work with the inspectorate to support the industry to bring through a whole new crop of good, high-quality leaders who are equipped to be able to meet the social care needs of Wales in the future. I know that there was a report, which was done, commissioned by CSSIW, on the recruitment and retention of managers in care homes in particular, and I want to see the recommendations in that report fully implemented so that we can have some confidence that the recruitment challenges of the future will be met.

Rydym wedi cyflwyno tri gwelliant, wrth gwrs. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r heriau recriwtio, sydd, yn anffodus, yn rhy gyffredin o lawer yn y byd gofal cymdeithasol. Nodais yn y wybodaeth gryno a ddarparwyd gan AGGCC mai'r maes lle y ceir y diffyg cydymffurfio mwyaf, a dweud y gwir, yw ansawdd yr arweinyddiaeth a'r rheolaeth, a chredaf y dylai hynny fod yn bryder inni i gyd. Roedd 554 o achosion drwyddi draw yn y flwyddyn yr ydym yn sôn amdani. Rwyf fi yn bryderus iawn am hynny, ac rwyf yn meddwl ei bod yn bwysig fod y Llywodraeth yn gwneud ei gorau glas i weithio gyda'r arolygiaeth i gynorthwyo'r diwydiant i gyflwyno cnwd newydd o arweinwyr da, o safon uchel sydd wedi'u paratoi i allu diwallu anghenion gofal cymdeithasol Cymru yn y dyfodol. Gwn fod adroddiad a gomisiynwyd gan AGGCC wedi'i baratoi ar recriwtio a chadw rheolwyr mewn cartrefi gofal yn benodol, ac rwyf am weld argymhellion yr adroddiad hwnnw'n cael eu rhoi ar waith yn llawn er mwyn rhoi rhywfaint o hyder inni y bydd heriau recriwtio yn y dyfodol yn cael eu diwallu.

The variability of performance across Wales is also a matter of concern. I appreciate, Minister, that there will be some variations sometimes because of innovation and because people want to learn from practice elsewhere. That is a very sensible thing to do sometimes, but the wide variation across the piece is not acceptable. We need to raise the bar and we need to have a more consistent bar across the country. I do hope that the framework that the Social Services and Well-being (Wales) Act has put in place will help to do just that in the future across Wales.

Mae amrywioldeb perfformiad ledled Cymru hefyd yn destun pryder. Gwn, Weinidog, y bydd rhai amrywiadau weithiau oherwydd arloesi ac am fod pobl yn awyddus i ddysgu o arferion mewn mannau eraill. Mae hynny'n beth synhwyrol iawn i'w wneud weithiau, ond nid yw'r amrywioldeb eang drwyddi draw yn dderbyniol. Mae angen inni godi'r safon ac mae angen inni sicrhau safon fwy cyson ledled y wlad. Rwyf yn gobeithio y bydd y fframwaith y mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) wedi'i roi ar waith yn helpu i wneud hynny yn y dyfodol ledled Cymru.

Finally, in the brief time that I have left, just the importance of service-user feedback. Again, I'm very pleased to see an increasing focus on listening to service users in the annual report. I know that there's some innovative work taking place with the 'Think About Me: Good Care Guide' that Aneurin Bevan Local Health Board is doing—the TripAdvisor-style feedback; all very welcome innovations. I think it is important that that good practice, once it's evaluated, is shared across the piece. There are lessons there as well, not just for the social care sector but also for the healthcare sector in Wales. So, let's see more service-user feedback, let's listen to the issues that they raise, and let's try to raise the bar across Wales in a consistent way. Thank you.

Yn olaf, yn yr amser byr sydd gennyf ar ôl, rwyf am sôn am bwysigrwydd adborth defnyddwyr gwasanaethau. Unwaith eto, rwyf yn falch iawn o weld pwyslais cynyddol ar wrando ar ddefnyddwyr gwasanaethau yn yr adroddiad blynyddol. Gwn fod rhywfaint o waith arloesol yn digwydd gyda 'Think About Me: Good Care Guide' y mae Bwrdd Iechyd Lleol Aneurin Bevan yn ei wneud—yr adborth ar batrwm TripAdvisor; pob un yn ddatblygiadau arloesol i'w groesawu'n fawr. Credaf ei bod yn bwysig fod arfer da, unwaith y caiff ei werthuso, yn cael ei rannu drwyddi draw. Mae gwersi yno hefyd, nid yn unig i'r sector gofal cymdeithasol, ond hefyd i'r sector gofal iechyd yng Nghymru. Felly, gadewch inni weld mwy o adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau, gadewch inni wrando ar y materion y maent yn eu codi, a gadewch inni geisio codi'r safon ledled Cymru mewn modd cyson. Diolch yn fawr.

16:02 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I call on Lindsay Whittle to move amendment 4 tabled in the name of Elin Jones.

Galwaf ar Lindsay Whittle i gynnig gwelliant 4 a gyflwynwyd yn enw Elin Jones.

*Gwelliant 4—Elin Jones*

*Amendment 4—Elin Jones*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn edrych ar sut y mae cartrefi gofal yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i atal derbyniadau diangen i ysbytai.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that CSSIW examines how care homes work with local health boards to prevent unnecessary admissions to hospital.*

*Cynigiwyd gwelliant 4.*

*Amendment 4 moved.*

16:02 **Lindsay Whittle** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Diolch, Ddirprwy Lywydd. I am pleased to move amendment 4, tabled in the name of Elin Jones, which calls on the Welsh Government to ensure that CSSIW examines how care homes work with local health boards to prevent unnecessary admission to hospital. We also support the three amendments tabled in the name of Paul Davies.

Diolch, Ddirprwy Lywydd. Rwyf yn falch o gynnig gwelliant 4, a gyflwynwyd yn enw Elin Jones, sy'n galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod AGGCC yn edrych ar sut y mae cartrefi gofal yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i atal derbyniadau diangen i ysbytai. Rydym hefyd yn cefnogi'r tri gwelliant a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

This is a very useful report. It’s clearly set out and provides us with a good deal of information about the present state of social care in Wales—both good and not so good. So, what is this report telling us? Well, first of all, it’s heartening to know that, overall, the standard of services being provided is generally very good or at least satisfactory. On the good side, there seems to be improved collaboration between local authorities and health boards, which would, of course, have been even better if they were combined into one unified organisation, which is Plaid’s policy. But what about the not-so-good? Well, in some parts of Wales, there is a limited amount of high-quality care. Quite frankly I’m getting a bit tired of hearing the same old story that people in one part of the country are receiving poorer quality of care than those elsewhere. It is up to the Welsh Government to make sure that the situation does not continue. Well, we now have a new Act that lays down clear principles and practices to make sure that the health, safety and wellbeing of everyone in need of care or support are assured wherever they may live in Wales.

Mae hwn yn adroddiad defnyddiol iawn. Mae wedi’i osod allan yn glir ac mae’n rhoi cryn dipyn o wybodaeth inni am gyflwr gofal cymdeithasol yng Nghymru ar hyn o bryd—y gofal da a’r gofal nad yw cystal. Felly, beth y mae’r adroddiad hwn yn ei ddweud wrthym? Wel, yn gyntaf oll, mae'n galonogol gwybod, ar y cyfan, fod safon y gwasanaethau a ddarperir yn gyffredinol yn dda iawn neu o leiaf yn foddhaol. Ar yr ochr dda, ymddengys fod cydweithio gwell rhwng yr awdurdodau lleol a’r byrddau iechyd, a fyddai, wrth gwrs, wedi bod hyd yn oed yn well pe baent wedi eu cyfuno’n un sefydliad unedig, sef polisi Plaid Cymru. Ond beth am y gofal nad yw cystal? Wel, mewn rhai rhannau o Gymru, cyfyngedig yw’r gofal o safon uchel. A dweud y gwir rwyf yn dechrau blino ar glywed yr un hen stori fod pobl mewn un rhan o'r wlad yn derbyn gofal o ansawdd gwaeth na phobl mewn mannau eraill. Mater i Lywodraeth Cymru yw gwneud yn siŵr nad yw'r sefyllfa’n parhau. Wel, mae gennym yn awr Ddeddf newydd sy'n pennu egwyddorion ac arferion clir i sicrhau bod iechyd, diogelwch a llesiant pawb y mae angen gofal neu gefnogaeth arnynt yn cael eu gwarantu ble bynnag y maent yn byw yng Nghymru.

On the good side, as we learn from the report, there’s a very welcome development of reablement services that should enable particularly older people to remain in the community, but there is also cause for concern that largely centres on care and support for children. The report tells us there is a need to improve corporate parenting, which, of course, is the responsibility of the Welsh Government and local authorities. We are told that the transition from children to adult services for younger people with a disability is also lacking.

Ar yr ochr dda, fel y dywed yr adroddiad, mae gwasanaethau ailalluogi yn cael eu datblygu a ddylai alluogi pobl hŷn yn arbennig i aros yn y gymuned, ac mae hynny i’w groesawu, ond mae pryder hefyd i raddau helaeth am ofal a chymorth i blant. Mae'r adroddiad yn dweud wrthym fod angen gwella rhianta corfforaethol, sydd, wrth gwrs, yn gyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Dywedir wrthym fod y cyfnod pontio o wasanaethau i blant i wasanaethau i oedolion i bobl iau ag anabledd hefyd yn ddiffygiol.

In Wales, we're not alone in this within the UK. We seem to be letting children down through making it difficult for them to get help from the child and adolescent mental health services. Part of the problem, as we'll see in the debate tomorrow, has to do with the high levels of child poverty, especially in certain parts of Wales. There is nothing more likely to bring on mental health problems than feeling that you are at the bottom of the heap, with little prospect of climbing out of poverty.

Yng Nghymru, nid ydym ar ein pen ein hunain yn hyn o beth yn y DU. Mae'n debyg ein bod yn gwneud cam â phlant trwy ei gwneud yn anodd iddynt gael help gan y gwasanaethau iechyd meddwl i blant a'r glasoed. Mae rhan o'r broblem, fel y byddwn yn gweld yn y ddadl yfory, yn ymwneud â lefelau uchel o dlodi plant, yn enwedig mewn rhai rhannau o Gymru. Nid oes dim yn fwy tebygol o beri problemau iechyd meddwl na theimlo eich bod ar waelod y domen, heb fawr o obaith cael dringo allan o dlodi.

One of the items that I missed from the report was an in-depth review of services for individuals suffering from a learning disability, but I'm pleased to note that CSSIW acknowledged this and stated they'll be undertaking a review with Healthcare Inspectorate Wales of support and services for people with learning disabilities, which is an extremely important part of social care provision.

Un o'r eitemau a oedd ar goll o'r adroddiad o'm safbwynt i oedd adolygiad manwl o wasanaethau i unigolion sy'n dioddef o anabledd dysgu, ond rwyf yn falch o nodi bod AGGCC yn cydnabod hyn ac wedi dweud y bydd yn cynnal adolygiad gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o gymorth a gwasanaethau i bobl ag anableddau dysgu, sy'n rhan eithriadol bwysig o ddarpariaeth gofal cymdeithasol.

Another encouraging sign for the future is that CSSIW will be providing Welsh-language services upfront, rather than waiting for people to ask for them.

Arwydd calonogol arall ar gyfer y dyfodol yw y bydd AGGCC yn darparu gwasanaethau Cymraeg fel mater o drefn, yn hytrach nag aros i bobl ofyn amdanynt.

Dirprwy Lywydd, there are two major areas of health and social care challenges that will be facing us over the next decade or more—the one I've already referred to, and that's the increasing numbers of people suffering from mental health problems, and the other is dementia. How can we prevent or at least delay the onset of this very worrying condition amongst older, but not exclusively old, people? This is not covered in this report and I shall expect the next report to provide us with the results of a comprehensive review of dementia services.

Ddirprwy Lywydd, mae dau faes pwysig o ran heriau iechyd a gofal cymdeithasol a fydd yn ein hwynebu dros y degawd nesaf neu fwy—yr un yr wyf eisoes wedi cyfeirio ato, sef nifer cynyddol y bobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl, a'r llall yw dementia. Sut y gallwn ni atal neu o leiaf arafu dechrau'r cyflwr pryderus iawn hwn ymhlith pobl hŷn, ond nid dim ond pobl sy'n hen? Nid yw'r adroddiad hwn yn ymdrin â hynny a byddaf yn disgwyl i'r adroddiad nesaf roi inni ganlyniadau adolygiad cynhwysfawr o wasanaethau dementia.

16:06

## Lynne Neagle [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I'm pleased to be able to contribute to this debate, not least as these CSSIW annual reports provide an important opportunity. On the one hand, they're a chance to take stock of the current state of social care, childcare and social services in Wales, but, crucially, they also act as a window into the regulatory regime we have in place to ensure standards are being met. That's particularly true at this time, given the wider context that is the background to this year's report.

Rwyf yn falch o allu cyfrannu at y ddadl hon, yn enwedig gan fod adroddiadau blynyddol AGGCC yn darparu cyfle pwysig. Ar y naill law, maent yn gyfle i bwyso a mesur y sefyllfa bresennol o ran gofal cymdeithasol, gofal plant a gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru, ond, yn hanfodol, maent hefyd yn ffenestr ar y gyfundrefn reoleiddio sydd ar waith i sicrhau bod safonau'n cael eu cyrraedd. Mae hynny'n arbennig o wir ar hyn o bryd, o ystyried y cyd-destun ehangach sy'n gefndir i'r adroddiad eleni.

Just to pick out a few examples, we've seen the publication of a landmark report from the Commissioner for Older People in Wales into residential care. We have the regulation and inspection Bill on the horizon, which will radically reshape the model of service regulation we operate here in Wales. We're also witnessing the fallout from the investigation into sexual abuse in Rotherham and other English towns and cities and, closer to home, we've been forced to learn painful lessons from the tragedy that took place in Cwmbran, in my constituency, when three generations of one family were brutally murdered and where a series of reports has identified a number of serious failings that need to be addressed.

A dewis dim ond ychydig o enghreifftiau, rydym wedi gweld cyhoeddi adroddiad sy'n nodi carreg filltir gan y Comisiynydd Pobl Hŷn yng Nghymru ar ofal preswyl. Mae'r Bil rheoleiddio ac arolygu ar y gorwel, a fydd yn ail-lunio'n sylweddol y model rheoleiddio gwasanaethau yr ydym yn ei weithredu yma yng Nghymru. Rydym hefyd yn gweld canlyniadau'r ymchwiliad i gam-drin rhywiol yn Rotherham a threfi a dinasoedd eraill yn Lloegr ac, yn nes at gartref, rydym wedi gorfod dysgu gwersi poenus o'r drychineb a ddigwyddodd yng Nghwmbrân, yn fy etholaeth i, pan gafodd tair cenhedlaeth o'r un teulu eu llofruddio'n greulon a ble mae cyfres o adroddiadau wedi nodi nifer o fethiannau difrifol y mae angen rhoi sylw iddynt.

In fact, I think it could easily be argued that there's never been a greater focus, from the public, politicians and the press alike, on the areas CSSIW are responsible for regulating, and all this at a time when we know that there are huge pressures on public spending.

Yn wir, credaf y gallai fod yn hawdd dadlau na fu erioed fwy o bwyslais, gan y cyhoedd, gwleidyddion a'r wasg fel ei gilydd, ar y meysydd y mae AGGCC yn gyfrifol am eu rheoleiddio, a hyn i gyd ar adeg pan wyddom fod pwysau aruthrol ar wariant cyhoeddus.

In terms of the report itself, CSSIW are clearly an organisation in transition and it's good to see 40 new inspectors and analysts have been recruited to respond to increasing demands. I do still have concerns, however, when it comes to capacity. Given there are only 150 front-line inspectors, they carried out nearly 5,000 inspections last year. Meanwhile, the fact that just 279 of those inspections took place outside normal office hours, or at weekends, also stood out to me, given that we're all well aware that it is precisely at these times when problems are more likely to occur.

O ran yr adroddiad ei hun, mae AGGCC wrth gwrs yn sefydliad sydd mewn cyfnod o newid ac mae'n dda gweld bod 40 o arolygwyr a dadansoddwyr newydd wedi eu recriwtio i ymateb i alw cynyddol. Mae gennyf bryderon o hyd, fodd bynnag, ynghylch capasiti. O ystyried mai dim ond 150 o arolygwyr rheng flaen sydd, cynhaliwyd bron i 5,000 o arolygiadau ganddynt y llynedd. Yn y cyfamser, fe'm trawyd hefyd gan y ffaith mai dim ond 279 o'r arolygiadau hynny oedd wedi digwydd y tu allan i oriau swyddfa arferol, neu ar benwythnosau, o ystyried ein bod i gyd yn ymwybodol mai dyma'r union adegau pan fo problemau'n fwy tebygol o ddigwydd.

Having said that, the work that's been undertaken to strengthen the national advisory board is welcome and it's reassuring to see CSSIW embarking on a much wider programme of reform: the new quality judgment framework for childcare services, for example; the new framework for local authority inspections; the quality review of inspection reports; as well as the independent visitor pilot for children's homes, where I know they've been working closely with Voices from Care, which I very much welcome.

Wedi dweud hynny, mae'r gwaith sydd wedi ei wneud i gryfhau'r bwrdd cynghori cenedlaethol i'w groesawu ac mae'n galonogol gweld AGGCC yn dechrau ar raglen ehangach o lawer o ddiwygio: y fframwaith dyfarnu ansawdd newydd ar gyfer gwasanaethau gofal plant, er enghraifft; y fframwaith newydd ar gyfer arolygiadau awdurdodau lleol; yr adolygiad ansawdd o adroddiadau arolygu; yn ogystal â chynllun peilot ymwelydd annibynnol ar gyfer cartrefi plant, lle y gwn eu bod wedi bod yn gweithio'n agos gyda Voices from Care, ac rwyf yn croesawu hynny'n fawr iawn.

But, in terms of the findings contained within the report, although CSSIW are clearly right to say that the vast majority of settings they inspected did not require enforcement action—and that's very welcome—it's noticeable that, when it comes to adult services, 14 per cent did require substantial improvement, and that's considerably higher than the figure for childcare or children's services. What's more, if you drill down into that detail, nearly a quarter of all residential care homes for adults were found to require significant improvement after inspection, which is clearly concerning and very much chimes with the findings of the older people's commissioner's report into the sector.

Ond, o ran canfyddiadau'r adroddiad, er bod AGGCC yn iawn, wrth gwrs, pan ddywedodd nad oedd angen camau gorfodi yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau a arolygwyd ganddi—ac mae hynny i'w groesawu—mae'n eich taro, o safbwynt gwasanaethau oedolion, fod angen i 14 y cant wella'n sylweddol, ac mae hynny'n sylweddol uwch na'r ffigur ar gyfer gofal plant neu wasanaethau plant. Hefyd, os edrychwch ar y manylion, canfuwyd bod angen i bron i chwarter yr holl gartrefi gofal preswyl i oedolion wella'n sylweddol ar ôl eu harolygu, sy'n amlwg yn destun pryder ac sy'n cyd-fynd i raddau helaeth iawn â chanfyddiadau adroddiad y comisiynydd pobl hŷn ar y sector.

Indeed, anyone who has read that report won't be surprised to see that it is issues like quality of life that were identified most often by CSSIW, and the fact that they received 1,440 complaints about care homes is worrying in itself. While I recognise that some of these will be multiple complaints from the same individual about the same institution, it is still concerning, given that we know that, for every person who does complain, there will be many others who don't want to kick up a fuss or simply can't complain because they're suffering from conditions like dementia.

Yn wir, ni fydd neb sydd wedi darllen yr adroddiad hwnnw'n synnu o weld mai materion megis ansawdd bywyd a nodwyd amlaf gan AGGCC, ac mae'r ffaith iddi dderbyn 1,440 o gwynion am gartrefi gofal yn peri pryder ynddo'i hun. Er fy mod yn cydnabod y bydd rhai o'r rhain yn gwynion lluosog gan yr un unigolyn am yr un sefydliad, mae'n dal yn destun pryder, o gofio ein bod yn gwybod, am bob un sy'n cwyno, y bydd llawer o rai eraill nad ydynt am greu ffwdan neu na allant gwyno am eu bod yn dioddef o gyflyrau megis dementia.

I also think that this report again underlines the need for a coherent national plan for residential care that was one of the key recommendations of the older people's commissioner's report. While I know that the health Minister is alive to this issue, I thought that the maps setting out care home places per head of population were really helpful in terms of highlighting the inequity and inconsistency of provision that currently exists in Wales, and the projection for 2025 clearly shows that this is a problem that is set to become even more acute without concerted action and effective planning at national level.

Rwyf hefyd o'r farn bod yr adroddiad hwn unwaith eto'n tanlinellu'r angen am gynllun cenedlaethol cydlynol ar gyfer gofal preswyl, sef un o argymhellion allweddol adroddiad y comisiynydd pobl hŷn. Er fy mod yn gwybod bod y Gweinidog Iechyd yn ymwybodol o'r mater hwn, rwyf yn meddwl bod y mapiau sy'n nodi lleoedd mewn cartrefi gofal fesul pen o'r boblogaeth yn ddefnyddiol iawn o ran tynnu sylw at annhegwch ac anghysondeb yn y ddarpariaeth sy'n bodoli ar hyn o bryd yng Nghymru, ac mae'r amcanestyniad ar gyfer 2025 yn dangos yn glir fod hyn yn broblem a fydd hyd yn oed yn fwy difrifol heb weithredu ar y cyd a chynllunio effeithiol ar lefel genedlaethol.

Finally, I'm sure Members will have seen the coverage on the BBC last week of MiHomecare and what appears to be an attempt on their part to avoid paying their staff the minimum wage. While I couldn't possibly hope to do justice to an area as complex as the domiciliary care sector within the time I have left, I just think that this is symptomatic of much wider issues in this sector, and that we simply can't afford to keep burying our heads in the sand when it comes to the pay, conditions and, indeed, training for staff who deliver this essential care in our communities.

Yn olaf, rwyf yn siŵr y bydd yr Aelodau wedi gweld y sylw a roddwyd ar y BBC yr wythnos diwethaf i MiHomecare a'r hyn sy'n ymddangos fel petai'n ymgais ganddynt i osgoi talu isafswm cyflog i'w staff. Er na allwn yn fy myw obeithio gwneud cyfiawnder â maes mor gymhleth â'r sector gofal cartref yn yr amser sydd gennyf ar ôl, rwyf yn meddwl bod hyn yn arwydd o broblemau ehangach o lawer yn y sector hwn, ac na allwn fforddio parhau i gladdu ein pennau yn y tywod ynghylch tâl, amodau ac, yn wir, hyfforddiant i staff sy'n darparu'r gofal hanfodol hwn yn ein cymunedau.

16:11

## Kirsty Williams Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I would like to start by thanking the Minister for finding time in the Government's allotted time to debate this very important report, and to state for the record that the Welsh Liberal Democrat group will support the amendments as tabled here today, and the motion.

Hoffwn ddechrau drwy ddiolch i'r Gweinidog am ddod o hyd i amser yn amser penodedig y Llywodraeth i drafod yr adroddiad pwysig iawn hwn, a datgan ar gofnod y bydd grŵp Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn cefnogi'r gwelliannau fel y'u cyflwynwyd yma heddiw, ynghyd â'r cynnig.

I'm afraid to say, I've had more dealings with the chief inspector in the last 12 months than in the first 15 years of my career as the Assembly Member for Brecon and Radnorshire, arising out of some of the very difficult circumstances that my constituents have found themselves in. That is reflected in the overall report here, with grave concerns about the adequacy of care for older people and, in my particular circumstances, concerns with regard to domiciliary care. I'm very glad that page 24 of the report states the chief inspector's desire to use concerns—concerns raised by individual care recipients, their families, professionals or indeed, anybody that has a concern—as a focus on where to shine the spotlight.

Mae'n ddrwg gennyf ddweud fy mod wedi cael mwy o gysylltiad â'r prif arolygydd yn ystod y 12 mis diwethaf nag ym 15 mlynedd cyntaf fy ngyrfa fel Aelod Cynulliad dros Frycheiniog a Sir Faesyfed, sy'n deillio o rai o amgylchiadau anodd iawn fy etholwyr. Adlewyrchir hynny yn yr adroddiad cyffredinol yma, lle ceir pryderon difrifol ynghylch digonolrwydd y gofal i bobl hŷn, ac yn fy amgylchiadau penodol innau, pryderon o ran gofal yn y cartref. Rwyf yn falch iawn fod tudalen 24 yr adroddiad yn nodi dymuniad y prif arolygydd i ddefnyddio pryderon—pryderon a godwyd gan unigolion sy'n derbyn gofal, eu teuluoedd, pobl broffesiynol neu, yn wir, unrhyw un sydd â phryder—i ganolbwyntio ei sylw arnynt.

Only yesterday, I had confirmation from the chief inspector that they had brought forward an inspection into a domiciliary care agency in my own constituency as a result of my constant bombardment of them with cases of poor care. I was very concerned to note that, yesterday, six non-compliance notices were issued to that company. I hope that that company will do what the vast majority of people do, it seems from this report, when those non-compliance notices are issued: that there is an improvement.

Dim ond ddoe ddiwethaf, cefais gadarnhad gan y prif arolygydd eu bod wedi dwyn ymlaen arolygiad i asiantaeth gofal cartref yn fy etholaeth i wedi imi eu plagio'n gyson ag achosion o ofal gwael. Roeddwn yn bryderus iawn o nodi, ddoe, y cafodd chwe hysbysiad diffyg cydymffurfio eu rhoi i'r cwmni hwnnw. Rwyf yn gobeithio y bydd y cwmni hwnnw'n gwneud yr hyn y mae'r mwyafrif helaeth o bobl yn ei wneud, mae'n ymddangos o'r adroddiad hwn, pan fydd yr hysbysiadau diffyg cydymffurfio hynny'n cael eu cyhoeddi, sef gwella.

I think delivering care in an individual's home is certainly a direction of travel that the Government wants to go in, and I would share that and support that. We have to make sure, though, that domiciliary care is of good quality and consistent quality. I note the work that CSSIW are doing in relation to the performance of local authorities, but I'm just shocked, really, by the difference in the way local authorities look at issues around quality of care in domiciliary care. Given my own experiences, I didn't want to be accused of simply picking on Powys, so I FOI'd all local authorities in Wales, just to get a picture as to what was happening and the disparity is amazing. We asked the question: did the local authority keep a record of the number of missed calls that have taken place? Many did, but Torfaen does not keep a record of missed domiciliary care calls, neither does the Vale of Glamorgan, neither does Anglesey, neither does Neath Port Talbot. One wonders why, if you're paying good money to commission a domiciliary care service, you're not interested in whether those calls are carried out.

Credaf mai darparu gofal yng nghartref yr unigolyn yn sicr yw'r cyfeiriad y mae'r Llywodraeth am fynd iddo, a byddwn yn rhannu hynny ac yn cefnogi hynny. Mae'n rhaid inni wneud yn siŵr, fodd bynnag, fod ansawdd gofal cartref yn dda ac yn gyson. Nodaf y gwaith y mae AGGCC yn ei wneud mewn perthynas â pherfformiad awdurdodau lleol, ond rwyf yn synnu, mewn gwirionedd, at y gwahaniaeth yn y ffordd y mae awdurdodau lleol yn edrych ar faterion yn ymwneud ag ansawdd y gofal mewn gofal cartref. O ystyried fy mhrofiadau fy hun, nid oeddwn am gael fy nghyhuddo o bigo ar Bowys, felly defnyddiais y drefn rhyddid gwybodaeth ar bob awdurdod lleol yng Nghymru, dim ond er mwyn cael syniad o'r hyn sy'n digwydd, ac mae'r gwahaniaeth yn syfrdanol. Dyma a ofynnwyd: a oedd yr awdurdod lleol yn cadw cofnod o nifer y galwadau a fethwyd? Roedd llawer yn gwneud hynny, ond nid yw Torfaen yn cadw cofnod o alwadau gofal cartref a fethwyd, nac ychwaith Fro Morgannwg, nac Ynys Môn, nac ychwaith Gastell-nedd Port Talbot. Tybed pam, a chithau'n talu arian da i gomisiynu gwasanaeth gofal cartref, nad oes gennych ddiddordeb mewn cael gwybod p'un a yw'r galwadau hynny'n digwydd?

The definition of a late call, again, varied hugely from council to council. Some regarded a late call as 30 minutes after the allotted time; some, 90 minutes; others, 15 minutes. Again, a huge inconsistency around quality and performance of local authorities, of the contracts that they give out to primarily private sector companies. I hope that this is something that we can look at as we move forward with a quality and inspection regime, to try and get some national standards and some national expectations of what we expect local authorities to do. After all, they're paying not inconsiderable amounts of taxpayers' money to commission these services, and we need to know that those services are being delivered, are being delivered to a high standard and that local authorities are keeping an eye on that.

Roedd diffiniad galwad hwyr, unwaith eto, yn amrywio'n aruthrol o gyngor i gyngor. Roedd rhai'n ystyried bod galwad 30 munud ar ôl yr amser penodedig yn hwyr; rhai, 90 munud; eraill, 15 munud. Unwaith eto, mae anghysondeb aruthrol ynghylch ansawdd a pherfformiad awdurdodau lleol, a'r contractau y maent yn eu rhoi i gwmnïau yn y sector preifat yn bennaf. Rwyf yn gobeithio bod hyn yn rhywbeth y gallwn edrych arno wrth inni symud ymlaen â chyfundrefn ansawdd ac arolygu, i geisio cael rhai safonau cenedlaethol a rhai disgwyliadau cenedlaethol o ran yr hyn yr ydym yn disgwyl i awdurdodau lleol ei wneud. Wedi'r cyfan, maent yn talu symiau nid ansylweddol o arian y trethdalwyr i gomisiynu'r gwasanaethau hyn, ac mae angen inni wybod bod y gwasanaethau hynny'n cael eu darparu, yn cael eu cyflwyno at safon uchel a bod awdurdodau lleol yn cadw llygad ar hynny.

If I could turn to page 51 of the report, I think there is a very stark message for all of us in this Chamber in that. We spend a lot of time, Presiding Officer, talking about the number of beds in hospitals. Do we have enough? Do we not? Is the number rising? Is the number falling? The message from the inspector is very clear, and I quote:

Os caf droi at dudalen 51 o'r adroddiad, credaf fod neges glir iawn i bob un ohonom yn y Siambr hon yn hynny o beth. Rydym yn treulio llawer o amser, Lywydd, yn siarad am nifer y gwelyau mewn ysbytai. A oes gennym ddigon? Onid oes? A yw'r nifer yn codi? A yw'r nifer yn gostwng? Mae neges yr arolygydd yn glir iawn, ac rwyf yn dyfynnu:

'What was striking was that the rate of beds per local authority varied considerably, as does the proportion of which were nursing or residential beds. Looking at the current projections for the rise in the numbers of older people, based on the current provision there won't be enough beds by 2025'.

'Yr hyn a oedd yn nodweddiadol oedd bod cyfradd y gwelyau i bob awdurdod lleol yn amrywio'n sylweddol, yn ogystal â chyfradd y rhai a oedd yn welyau nyrsio neu breswyl. Wrth edrych ar y rhagamcanion ar gyfer y cynnydd yn nifer y bobl hŷn, yn seiliedig ar y ddarpariaeth bresennol, ni fydd digon o welyau erbyn 2025'.Mae'r neges yn glir iawn: ni fydd digon o welyau i ddarparu ar gyfer anghenion pobl hŷn yng Nghymru. Hyd yn oed o ystyried, meddai, 'lleoliadau traws ffiniol a lleoliadau wedi eu cyllido'n breifat, mae'r patrymau hyn yn dueddol o awgrymu bod lefel y ddarpariaeth o ran cartrefi gofal i bobl hŷn yn seiliedig ar ddata hanesyddol ac arferion cwsmeriaid lleol wrth leoli, yn hytrach na gwaith cynllunio gan gomisiynwyr.'

The message is very clear: there will not be enough beds to cater for older people's needs in Wales. Even accounting, it says,

Mae'r neges yn glir iawn: ni fydd digon o welyau i ddarparu ar gyfer anghenion pobl hŷn yng Nghymru. Hyd yn oed o ystyried, meddai,

'for cross border and privately funded placement, these patterns would tend to suggest the level of provision of older people's care homes was based on historical data and local customer practice in making placements, rather than by planning by commissioners.'

lleoliadau traws ffiniol a lleoliadau wedi eu cyllido'n breifat, mae'r patrymau hyn yn dueddol o awgrymu bod lefel y ddarpariaeth o ran cartrefi gofal i bobl hŷn yn seiliedig ar ddata hanesyddol ac arferion cwsmeriaid lleol wrth leoli, yn hytrach na gwaith cynllunio gan gomisiynwyr.'

We need, in a short space of time, to transform how we're commissioning these services. Otherwise, we will have a bed crisis of a different kind that we have never witnessed here in Wales, and it will be devastating to older people and their families.

Mewn cyfnod byr, mae angen inni drawsnewid y ffordd yr ydym yn comisiynu'r gwasanaethau hyn. Fel arall, bydd gennym argyfwng gwelyau o fath gwahanol, na welwyd mo'i debyg o'r blaen yma yng Nghymru, a bydd yn andwyol i bobl hŷn a'u teuluoedd.

16:16 **Gwenda Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yr wyf wedi darllen yr adroddiad hwn gyda diddordeb mawr. Mae'n rhoi digon o dystiolaeth o waith amhrisiadwy yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i wella'r gofal a dderbynnir gan y plant a'r oedolion sydd angen cymorth gwasanaethau cymdeithasol. Cymeradwyaf yr arolygiaeth am ei hymdrechion ac edrychaf ymlaen at ddarllen yn adroddiadau'r dyfodol am barhad gwelliannau i'n system gofal cymdeithasol.

I have read this report with great interest. It provides plenty of evidence of the invaluable work of Care and Social Services Inspectorate Wales to improve the care received by children and adults who need support from social services. I commend the inspectorate on its efforts and I look forward to reading in future reports about the continuing improvements to our social care system.

Mae nifer o agweddau o'r adroddiad hwn sy'n werth eu trafod. Gyda golwg ar yr amser sydd gennyf, byddaf yn cyfyngu fy hun i un mater y credaf y bydd yn peri pryder mawr i lawer ohonom.

There are many aspects of this report that deserve attention. With a view to the time available to me, I will restrict myself to one issue that I believe will cause great concern to many of us.

Rotherham, Rochdale, Oxford: in the popular consciousness, these names are now irrevocably associated with the sexual abuse of children on a horrific scale. As the report before us notes, these cases remind us of just how vulnerable children and young people in this care system can be, and just how appalling the consequences can be when the system designed to safeguard them fails. When the first of these cases came to public attention, I asked myself a question, a question that I suspect every Member in this Chamber will also have asked themselves: is this sort of systematic sexual abuse happening in my constituency? All child sexual abuse is loathsome, a terrible crime. That is true whether there is one victim or many, but what was particularly shocking, what was utterly reprehensible about the cases that have come to light in recent years, was that the systematic and organised abuse of children was taking place under the noses of the public authorities.

Rotherham, Rochdale, Rhydychen: yn yr ymwybod poblogaidd, mae'r enwau hyn yn awr yn gysylltiedig am byth â cham-drin plant yn rhywiol ar raddfa arswydus. Fel y mae'r adroddiad sydd ger ein bron yn ei nodi, mae'r achosion hyn yn ein hatgoffa o ba mor agored i niwed y mae plant a phobl ifanc sydd yn y system ofal yn gallu bod, a pha mor echrydus y gall y canlyniadau fod pan fydd y system a ddylai fod wedi eu diogelu yn methu. Pan ddaeth y cyntaf o'r achosion hyn i sylw'r cyhoedd, gofynnais gwestiwn imi fy hun, cwestiwn yr wyf yn amau y bydd pob Aelod yn y Siambr hon hefyd wedi ei ofyn iddynt hwy eu hunain: a yw'r math hwn o gam-drin rhywiol systematig yn digwydd yn fy etholaeth i? Mae cam-drin plant yn rhywiol o bob math yn ffiaidd, yn drosedd ofnadwy. Mae hynny'n wir p'un a oes un dioddefwr neu lawer, ond yr hyn a oedd yn arbennig o frawychus, yr hyn a oedd yn gwbl resynus am yr achosion sydd wedi dod i'r amlwg dros y blynyddoedd diwethaf, oedd bod y cam-drin systematig a chyfundrefnol ar blant yn digwydd o dan drwynau'r awdurdodau cyhoeddus.

How can we make sure that this is not now happening in Wales? Part of the answer to that question lies, I believe, in a CSSIW inspection referenced in this report, conducted last year: the inspectorate's 'National inspection of safeguarding and care planning of Looked after Children and Care leavers who exhibit vulnerable or risky behaviours'. I believe it might have been referred to earlier. I give the rather lengthy, full title for those who may wish to locate the report after this debate. It was published this January. The inspection compiled nationwide data on vulnerable or risky behaviours among children involved in the care system, and assessed the effectiveness of safeguarding in all local authorities in Wales. Unfortunately, one of its findings was that few councils

Sut y gallwn wneud yn siŵr nad yw hyn yn digwydd yn awr yng Nghymru? Mae rhan o'r ateb i'r cwestiwn hwnnw, yn fy marn i, mewn arolygiad AGGCC y cyfeirir ato yn yr adroddiad hwn, a gynhaliwyd y llynedd: yr 'arolygiad o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg'. Credaf y gellid bod wedi cyfeirio ato'n gynharach. Rwyf yn rhoi'r teitl llawn, sydd braidd yn hir er mwyn y rhai a allai fod am ddod o hyd i'r adroddiad ar ôl y ddadl hon. Fe'i cyhoeddwyd y mis Ionawr hwn. Roedd yr arolygiad yn crynhoi data cenedlaethol ar ymddygiad sy'n agored i niwed neu risg ymysg plant sy'n ymwneud â'r system gofal, ac yn asesu effeithiolrwydd diogelu ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. Yn anffodus, un o'i ganfyddiadau oedd mai ychydig o gynghorau

'could point to a detailed thematic picture regarding vulnerability and risk.'

'a allai gyfeirio at ddarlun thematig manwl o natur agored i niwed a risg.'

I believe that this sort of mapping at a national level, of the data that could indicate widespread and systematic sexual abuse, must be part of our response to the terrible events in England. If CSSIW can centrally gather from councils, police forces, health boards and other partners datasets such as the number of children absconding from care, the number of allegations of abuse, and the number of looked-after children who display sexually harmful activity, it makes it far more likely, I believe, that we will identify these sorts of crimes at an incipient stage, rather than after they have been going on for many years.

Credaf fod y math hwn o fapio ar lefel genedlaethol, o'r data a allai awgrymu cam-drin rhywiol eang a systematig, fod yn rhan o'n hymateb i'r digwyddiadau ofnadwy yn Lloegr. Os gall AGGCC gasglu'n ganolog oddi wrth gynghorau, heddluoedd, byrddau iechyd a phartneriaid eraill setiau data megis nifer y plant sy'n dianc o ofal, nifer yr honiadau o gam-drin, a nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n dangos gweithgarwch rhywiol niweidiol, mae'n fwy tebygol o lawer, yn fy marn i, y byddwn yn dod o hyd i'r mathau hyn o droseddau'n gynnar, yn hytrach na phan fyddant fod wedi bod yn digwydd am flynyddoedd lawer.

16:20

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

And the Minister to reply to the debate.

A'r Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

16:20

## Mark Drakeford Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

*Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol / The Minister for Health and Social Services*

Diolch yn fawr, Ddirprwy Lywydd.

Thanks very much, Deputy Presiding Officer.

Thanks to all those Members who have contributed to the debate and for the positive things that have been said about CSSIW itself. I entirely associate myself with the things that Darren Millar said, in wanting to thank the chief inspector and the very hard-working staff of CSSIW for the work that they do in helping us to make sure that vulnerable people are protected and that services provided to them are of the necessary standard, and also with what Lindsay Whittle had to say about the quality of the report itself: clear, informative and unambiguous in its judgments, prepared to say where things have improved but prepared to say where things were not as good as we would like them to be either.

Diolch i bob Aelod sydd wedi cyfrannu at y ddadl ac am y pethau cadarnhaol sydd wedi eu dweud am AGGCC. Rwyf yn cyd-fynd yn llwyr â'r hyn a ddywedodd Darren Millar, sef ei fod am ddiolch i'r prif arolygydd a staff diwyd iawn AGGCC am y gwaith y maent yn ei wneud i'n helpu i sicrhau bod pobl agored i niwed yn cael eu hamddiffyn a bod y gwasanaethau a ddarperir iddynt o'r safon angenrheidiol, a hefyd â'r hyn a oedd gan Lindsay Whittle i'w ddweud am ansawdd yr adroddiad ei hun: mae'n glir, yn llawn gwybodaeth ac yn ddiamwys ei farn, yn barod i ddweud ymhle y mae pethau wedi gwella, ond yn barod i ddweud ble nad yw pethau cystal ag yr hoffem iddynt fod chwaith.

We've heard, I think, things this afternoon about children's services, care homes and domiciliary care—the great areas in which CSSIW is most at work—and I wanted just to very briefly say something about each one.

Rydym wedi clywed pethau y prynhawn yma am wasanaethau plant, cartrefi gofal a gofal cartref—y meysydd mawr lle y mae AGGCC yn gweithio fwyaf—ac roeddwn am ddweud rhywbeth yn fyr iawn am bob un.

A gaf i ddechrau drwy ddweud gair o ddiolch i Gwenda Thomas am beth ddywedodd hi am wasanaethau i amddiffyn plant? Wrth gwrs, rydym yn dibynnu ar y gwaith a wnaeth hi ar y Ddeddf newydd sydd gennym ni, lle rydym ni wedi rhoi system newydd ar waith i amddiffyn plant ac i warchod plant rhag y problemau yr oedd hi'n eu codi.

May I start by saying a word of thanks to Gwenda Thomas about what she said about services to safeguard children? Of course, we rely on the work that she did on the new Act that we have, where we have implemented a new system to safeguard children from the problems that she raised.

It would be wonderful to be able to stand here and give a guarantee that the awful things that we've seen in other places couldn't happen here in Wales, but we all know that that would not be the right thing to do. What we have to do instead is make sure that the systems we have in place are as strong as they can be to prevent that from happening.

Byddai'n wych gallu sefyll yma a rhoi gwarant na allai'r pethau ofnadwy yr ydym wedi'u gweld mewn mannau eraill ddigwydd yma yng Nghymru, ond rydym i gyd yn gwybod nad dyna'r peth iawn i'w wneud. Yr hyn y mae'n rhaid inni ei wneud yn hytrach yw gwneud yn siŵr bod y systemau sydd gennym ar waith mor gryf ag y gallant fod er mwyn atal hynny rhag digwydd.

There's another big theme in what we've heard this afternoon, which, I think, gives us the strongest grounds for optimism in that area, and that is the greater involvement of members of the public in the way that services we provide for vulnerable people are open to inspection, not just, as Lynne Neagle said, during the hours of the working week. Members of the public are in and out of all of these settings around the clock, and we need to capture their ability to see something with fresh eyes—sometimes to draw attention to things that others have stopped realising are going on—and CSSIW is, in many ways, leading the way already in making sure that lay voices are powerful in what they do.

Mae thema fawr arall yn yr hyn yr ydym wedi'i glywed y prynhawn yma, sydd, yn fy marn i, yn rhoi'r sail gryfaf dros fod yn optimistaidd yn y maes hwnnw, sef cyfranogiad uwch gan aelodau o'r cyhoedd yn y ffordd y mae gwasanaethau a ddarparwn i bobl sy'n agored i niwed yn agored i'w harolygu, nid dim ond, fel y dywedodd Lynne Neagle, yn ystod oriau'r wythnos waith. Mae aelodau'r cyhoedd i mewn ac allan o bob un o'r lleoliadau hyn bob awr o'r dydd, ac mae angen inni fanteisio ar eu gallu i weld rhywbeth â llygaid newydd—weithiau er mwyn tynnu sylw at bethau y mae eraill wedi peidio â sylweddoli eu bod yn digwydd—ac mae AGGCC, mewn sawl ffordd, yn arwain y ffordd eisoes o ran sicrhau bod lleisiau lleyg yn bwerus yn yr hyn y maent yn ei wneud.

Darren Millar invited me to say something about the looked-after children's summit, and I could spend a lot of time this afternoon setting out my own views on this topic. We have a genuine issue we have to think about in Wales because of the increasing rate at which we take children away from their families, and an accelerating rate, as well, in England. Sixty children are taken away for every 10,000 young people under the age of 18, and, in Wales, the figure is 91. That gap has widened over the last 20 years. It has a grain of disadvantage, in a way that Lindsay Whittle pointed to in terms of poverty, and it is getting in the way of local authorities' ability to provide those preventative services that can help families to stay together during tough and difficult times in their lives, but where we know that, in the end, outcomes for children are best.

Gwahoddodd Darren Millar fi i ddweud gair am yr uwchgynhadledd ar blant sy'n derbyn gofal, a gallwn dreulio llawer o amser y prynhawn yma yn nodi fy marn fy hun ar y pwnc hwn. Mae gennym broblem wirioneddol y mae'n rhaid inni feddwl amdani yng Nghymru oherwydd cyfradd gynyddol yr achosion o fynd â phlant oddi wrth eu teuluoedd, a chyfradd sydd ar gynnydd, yn ogystal, yn Lloegr. Mae chwe deg o blant yn cael eu cymryd o bob 10,000 o bobl ifanc o dan 18 oed, ac, yng Nghymru, mae'r ffigur yn 91. Mae'r bwlch hwnnw wedi tyfu dros yr 20 mlynedd diwethaf. Mae yno ronyn o anfantais, mewn ffordd y tynnodd Lindsay Whittle sylw ati o ran tlodi, ac mae'n amharu ar allu awdurdodau lleol i ddarparu'r gwasanaethau ataliol hynny a all helpu teuluoedd i aros gyda'i gilydd yn ystod adegau caled ac anodd yn eu bywydau, ond ble y gwyddom y bydd y canlyniadau gorau i'r plant yn y pen draw.

16:24

## Darren Millar [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

Do you welcome, then, in that case, Minister, the work of Safe Families for Children and other organisations that are seeking to expand their work in Wales in order to bring about those short-term interventions that can have such dramatic outcomes for children and their families?

A ydych yn croesawu, felly, Weinidog, waith Safe Families for Children a sefydliadau eraill sy'n ceisio ehangu eu gwaith yng Nghymru er mwyn sicrhau'r ymyriadau tymor byr a all greu canlyniadau dramatig o'r fath i blant a'u teuluoedd?

16:24

## Mark Drakeford [Bywgraffiad](#) [Biography](#)

Senedd.tv [Fideo](#) [Video](#)

I was very pleased to meet that organisation, and I am grateful to the Member for putting me in touch with them. Their work is very much aligned with the way I think we need to develop our children's services in the future: bringing children who are looked after outside Wales back to Wales, children who are looked after outside their communities back to their communities, and children who are looked after away from their families back to their families, so that we then release the resource that local authorities have into the preventative agenda that will help to keep families together in the future.

Roeddwn yn falch iawn o gwrdd â'r sefydliad hwnnw, ac rwyf yn ddiolchgar i'r Aelod am fy rhoi mewn cysylltiad ag ef. Mae ei waith yn cyd-fynd i raddau helaeth iawn â'r ffordd yr wyf yn credu bod angen inni ddatblygu ein gwasanaethau plant yn y dyfodol: dod â phlant sy'n derbyn gofal y tu allan i Gymru yn ôl i Gymru, plant sy'n derbyn gofal y tu allan i'w cymunedau yn ôl i'w cymunedau, a phlant sy'n derbyn gofal i ffwrdd oddi wrth eu teuluoedd yn ôl at eu teuluoedd, er mwyn inni wedyn allu rhyddhau'r adnoddau sydd gan awdurdodau lleol i'r agenda ataliol a fydd yn helpu i gadw teuluoedd gyda'i gilydd yn y dyfodol.

We heard a great deal about domiciliary care, quite rightly, as well. I've met the chief executive and the leader of Powys County Council. There is a real challenge for them in demonstrating that the course of action that they have embarked on is one that can deliver a reliable and effective service for elderly people in that area. CSSIW is working hard to make sure that they are right on top of everything that is happening and giving us the assurance that things are going in the way that we would like to see them go.

Clywsom lawer am ofal yn y cartref, yn gwbl briodol, hefyd. Rwyf wedi cwrdd â phrif weithredwr ac arweinydd Cyngor Sir Powys. Mae her wirioneddol iddynt o ran dangos bod y llwybr gweithredu y maent wedi cychwyn arno yn un a all ddarparu gwasanaeth dibynadwy ac effeithiol i bobl oedrannus yn yr ardal honno. Mae AGGCC yn gweithio'n galed i wneud yn siŵr ei bod yn cadw golwg ar bopeth sy'n digwydd ac yn rhoi sicrwydd inni fod pethau'n mynd y ffordd y byddem yn hoffi eu gweld yn mynd.

Lots of what we've heard this afternoon, Dirprwy Lywydd, will be taken up in the Regulation and Inspection of Social Care (Wales) Bill. It will strengthen the hand of the regulator; it will introduce new national standards; it will confirm the position of the national commissioning board; and it will produce market stability position papers, which will allow us to plan more effectively for the future. It will reallocate responsibilities in the sector so that the work of the care home manager is underpinned, but also supported, by the responsible individual at board level, too. I know that CSSIW is working hard to put itself in a position where it will be able to take on these new responsibilities, and I think this afternoon's report gives us confidence that they will be effective in doing so.

Bydd llawer o'r hyn yr ydym wedi'i glywed y prynhawn yma, Ddirprwy Lywydd, yn cael ei drafod ym Mil Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru). Bydd yn cryfhau sefyllfa'r rheoleiddiwr; bydd yn cyflwyno safonau cenedlaethol newydd; bydd yn cadarnhau sefyllfa'r bwrdd comisiynu cenedlaethol; a bydd yn cynhyrchu papurau safbwynt ar sefydlogrwydd y farchnad, a fydd yn ein galluogi i gynllunio'n fwy effeithiol at y dyfodol. Bydd yn ailddyrannu cyfrifoldebau yn y sector fel bod gwaith rheolwyr cartrefi gofal yn cael ei danategu, ond hefyd yn cael ei gefnogi, gan yr unigolyn cyfrifol ar lefel y bwrdd. Gwn fod AGGCC yn gweithio'n galed i fod mewn sefyllfa lle y bydd yn gallu ysgwyddo'r cyfrifoldebau newydd hyn, ac rwyf yn credu bod yr adroddiad y prynhawn yma yn rhoi hyder inni y bydd yn gwneud hynny'n effeithiol.

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 1 wedi ei dderbyn felly yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? Then amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly, mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? Amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? Amendment 4 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 4 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 4 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 4 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

16:26

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion as amended.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig wedi'i ddiwygio.

Cynnig NDM5720 fel y'i diwygiwyd

Motion NDM5720 as amended

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn nodi adroddiad blynyddol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 2013-14.

1. Notes the Care and Social Services Inspectorate Wales (CSSIW) annual report for 2013-14.

2. Yn nodi'r heriau recriwtio sy'n wynebu'r sector gofal ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gyda'r sector a chymryd camau i fynd i'r afael â'r heriau hyn.

2. Notes the recruitment challenges facing the care sector and calls upon the Welsh Government to work with the sector and take action to address these challenges.

3. Yn mynegi pryder ynglŷn ag amrywioldeb perfformiad adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol ledled Cymru.

3. Expresses concern regarding the variability of the performance of local authority social service departments across Wales.

4. Yn nodi pwysigrwydd adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn helpu i wella safonau gwasanaethau gofal cymdeithasol.

4. Notes the importance of service user feedback in helping to improve standards of social care services.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru yn edrych ar sut y mae cartrefi gofal yn gweithio gyda byrddau iechyd lleol i atal derbyniadau diangen i ysbytai.

5. Calls on the Welsh Government to ensure that CSSIW examines how care homes work with local health boards to prevent unnecessary admissions to hospital.

16:27

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does any Member object? Then the motion as amended is agreed.

A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae'r cynnig wedi'i ddiwygio wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd cynnig NDM5720 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion NDM5720 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

## 9. Dadl ar Gyflog Cyfartal

## 9. Debate on Equal Pay

*Detholwyd y gwelliannau canlynol: gwelliant 1 yn enw Paul Davies, a gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts.*

*The following amendments have been selected: amendment 1 in the name of Paul Davies, and amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts.*

16:27

### Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Item 9 is the debate on equal pay, and I call on the Minister for Communities and Tackling Poverty to move the motion—Lesley Griffiths.

Eitem 9 yw'r ddadl ar gyflog cyfartal, a galwaf ar y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi i gynnig y cynnig—Lesley Griffiths.

Cynnig NDM5721 Jane Hutt

Motion NDM5721 Jane Hutt

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

Yn cydnabod gwerth hyrwyddo Cyflog Cyfartal fel prif flaenoriaeth ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhywiol ac yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn wrth ymdrin ag achosion anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau.

Recognises the value of promoting Equal Pay as a key priority for achieving gender equality and notes the Welsh Government's progress to date in addressing the causes of gender pay inequality.

*Cynigiwyd y cynnig.*

*Motion moved.*

16:27 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I welcome the opportunity to set out the Welsh Government's commitment to addressing the causes of the pay inequality experienced by women and to achieving equal pay. Our programme for government and our strategic equality plan outline our determination to make Wales a more equal society and contain the actions we are taking to address gender inequality, which include tackling gender stereotyping, addressing occupational segregation and equal pay, and providing support to enable women to access the careers of their choice.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Rwy'n croesawu'r cyfle i amlinellu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael ag achosion o'r anghydraddoldeb cyflog a brofir gan fenywod ac i gyflawni cyflog cyfartal. Mae ein rhaglen ar gyfer llywodraethu a'n cynllun cydraddoldeb strategol yn amlinellu ein penderfyniad i wneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal ac yn cynnwys y camau gweithredu yr ydym yn eu cymryd i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhwng y rhywiau, sy'n cynnwys mynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw, mynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol a chyflog cyfartal, a darparu cefnogaeth i alluogi menywod i gael mynediad at yrfaoedd o'u dewis.

Pay inequality has a direct impact on poverty levels in Wales and, as a Government, we are committed to tackling this. There are strong links between our strategic equality plan and our tackling poverty action plan to ensure equality issues, such as tackling gender and disability pay gaps, are embedded in our thinking about poverty and vice versa. With many women experiencing poverty due to their position in the workplace and at home, we are also committed to tackling poverty as a gender-specific issue, as it affects men and women in different ways.

Mae anghydraddoldeb tâl yn cael effaith uniongyrchol ar lefelau tlodi yng Nghymru ac, fel Llywodraeth, rydym wedi ymrwymo i fynd i'r afael â hyn. Mae cysylltiadau cryf rhwng ein cynllun cydraddoldeb strategol a'n cynllun gweithredu trechu tlodi i sicrhau bod materion cydraddoldeb, megis mynd i'r afael â bylchau mewn cyflog rhwng y rhywiau ac i bobl anabl, yn cael eu hymgorffori yn ein ffordd o feddwl am dlodi ac i'r gwrthwyneb. Gan fod llawer o fenywod yn profi tlodi oherwydd eu sefyllfa yn y gweithle ac yn y cartref, rydym hefyd wedi ymrwymo i drechu tlodi fel mater rhyw benodol, gan ei fod yn effeithio ar ddynion a menywod mewn ffyrdd gwahanol.

We know in-work poverty is increasing in Wales, and I am committed to using all available policy levers to address the issue. This includes supporting people into full-time employment, part-time to work more hours, and supporting second earners into work, providing accessible and affordable childcare, and increasing skills, as I firmly believe work is the best route out of poverty.

Rydym yn gwybod bod tlodi mewn gwaith yn cynyddu yng Nghymru, ac rwyf wedi ymrwymo i ddefnyddio pob sbardun polisi sydd ar gael i fynd i'r afael â'r mater. Mae hyn yn cynnwys cefnogi pobl i mewn i gyflogaeth llawn amser, rhan-amser i weithio mwy o oriau, a chefnogi ail enillwyr i mewn i waith, gan ddarparu gofal plant hygyrch a fforddiadwy, a chynyddu sgiliau, gan fy mod i'n credu'n gryf mai gwaith yw'r llwybr gorau allan o dlodi.

When women get equal pay, their families' incomes rise and the whole family benefits. In 2011, we introduced a robust public sector equality duty, which requires public sector employers to address pay and employment differences and, specifically, gender pay differences. Public authorities that identify a pay difference must either set an equality objective to address the causes, or explain publicly why they have not. In addition, all public sector employers in Wales with more than 150 employees are required to report annually, not just on gender pay gaps, but on the gender disparities in grade, occupation and different working patterns between men and women.

Pan fo menywod yn cael cyflog cyfartal, mae incwm eu teuluoedd yn codi ac mae'r teulu cyfan yn elwa. Yn 2011, cyflwynwyd dyletswydd cydraddoldeb gadarn yn y sector cyhoeddus, sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr yn y sector cyhoeddus fynd i'r afael â gwahaniaethau cyflog a chyflogaeth ac, yn benodol, gwahaniaethau mewn cyflog rhwng y rhywiau. Mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus sy'n nodi gwahaniaeth tâl naill ai osod amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael â'r achosion, neu esbonio yn gyhoeddus pam nad ydynt wedi gwneud hynny. Yn ogystal, mae'n ofynnol i bob cyflogwr sector cyhoeddus yng Nghymru sydd â mwy na 150 o weithwyr adrodd yn flynyddol, nid dim ond ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau, ond ar y gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn gradd, galwedigaeth a'r gwahanol batrymau gwaith rhwng dynion a menywod.

However, many women in employment in Wales still earn less than men. This is because many traditionally female career paths are lower paid than traditionally male career paths, and because women are more likely to work part-time than men due to their caring responsibilities. This is why Welsh Government actions are focused on addressing the causes of pay differences, which will help ensure a level playing field for all.

Fodd bynnag, mae llawer o fenywod mewn cyflogaeth yng Nghymru yn dal i ennill llai na dynion. Mae hyn oherwydd bod llawer o lwybrau gyrfa benywaidd traddodiadol yn talu'n is na llwybrau gyrfa traddodiadol dynion, ac oherwydd bod menywod yn fwy tebygol o weithio'n rhan-amser na dynion oherwydd eu cyfrifoldebau gofalu. Dyma pam y mae camau gweithredu Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar fynd i'r afael ag achosion gwahaniaethau cyflog, a fydd yn helpu i sicrhau chwarae teg i bawb.

We want to tackle gender segregation, which is often at the root of pay inequalities. Women tend to be concentrated in sectors and occupations associated with low pay, low hours and, all too often, casual or zero-hours contracts. As a result, both the minimum wage and the living wage are of particular benefit to women, but we need to tackle the structural imbalance. We are pleased to support projects such as Women Adding Value to the Economy, funded by European social funds through Welsh Government, which seek to tackle the underlying issues that contribute to gender pay inequalities and institutional discrimination. The primary focus of the WAVE project is to better understand and tackle the ways in which gender pay inequalities are reproduced through factors such as occupational segregation and part-time and contract work. Their equal pay barometer is an excellent tool, which can be used to show girls and women the types of jobs they may like to do and the associated rates of pay. This can highlight where gender pay gaps exist and encourage women to consider less traditional career paths.

Rydym eisiau mynd i'r afael â gwahanu ar sail rhyw, sydd yn aml wrth wraidd anghydraddoldebau cyflog. Mae menywod yn tueddu i gael eu crynhoi mewn sectorau a galwedigaethau sy'n gysylltiedig â chyflog isel, oriau isel ac, yn rhy aml o lawer, contractau achlysurol neu ddim oriau. O ganlyniad, mae’r isafswm cyflog a’r cyflog byw o fudd arbennig i fenywod, ond mae angen i ni fynd i'r afael â'r anghydbwysedd strwythurol. Rydym yn falch o gefnogi prosiectau megis Menywod yn Ychwanegu Gwerth at yr Economi, a ariennir gan gronfeydd cymdeithasol Ewropeaidd trwy Lywodraeth Cymru, sy'n ceisio mynd i'r afael â'r materion sylfaenol sy'n cyfrannu at anghydraddoldebau cyflog rhwng y ddau ryw a gwahaniaethu sefydliadol. Prif bwyslais y prosiect Cymru: Economi yn Ffynnu yw deall yn well a mynd i'r afael â'r ffyrdd y mae anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau yn cael ei atgynhyrchu trwy ffactorau fel gwahanu galwedigaethol a gwaith rhan-amser a chontract. Mae ei faromedr cyflog cyfartal yn arf ardderchog, y gellir ei ddefnyddio i ddangos i ferched a menywod y mathau o swyddi efallai yr hoffent eu gwneud a'r cyfraddau cyflog cysylltiedig. Gall hyn amlygu lle mae bylchau cyflog rhwng y rhywiau yn bodoli ac annog menywod i ystyried llwybrau gyrfa llai traddodiadol.

We will continue to challenge gender stereotyping at every opportunity, as this limits the range of education and employment opportunities the majority of girls and women consider. We are committed to helping young people keep their options open and inspiring them to know that no career is off-limits because of their gender, race or background. As part of last week’s International Women’s Day events, I was pleased to meet with members of the Wales women’s rugby team and Wrexham Ladies Football Club. Today’s debate is an opportunity for us to stress that girls and women can participate in sports that have traditionally been seen as off-limits or where perceptions may also be putting them off. We also need to do our utmost to challenge these outdated stereotypes, which unfortunately still persist in sport, education and employment.

Byddwn yn parhau i herio stereoteipio ar sail rhyw ar bob cyfle, gan fod hyn yn cyfyngu ar yr ystod o gyfleoedd addysg a chyflogaeth y mae’r rhan fwyaf o ferched a menywod yn eu hystyried. Rydym wedi ymrwymo i helpu pobl ifanc i gadw eu dewisiadau yn agored a’u hysbrydoli i wybod nad oes unrhyw yrfa yn waharddedig oherwydd eu rhyw, hil na chefndir. Yn rhan o ddigwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol y Menywod yr wythnos diwethaf, roeddwn yn falch o gyfarfod ag aelodau o dîm rygbi merched Cymru a Chlwb Pêl-droed Merched Wrecsam. Mae dadl heddiw yn gyfle i ni bwysleisio y gall merched a menywod gymryd rhan mewn chwaraeon sydd yn draddodiadol wedi cael eu gweld fel rhai gwaharddedig neu lle y gall eu canfyddiadau hefyd wneud iddynt golli diddordeb. Mae angen hefyd inni wneud ein gorau glas i herio'r stereoteipiau hyn sy’n hen ffasiwn, ond sydd yn anffodus yn dal i fodoli mewn chwaraeon, addysg a chyflogaeth.

I was pleased to speak at our Girls Make a Difference conference last September, where over 100 girls from across south Wales had the opportunity to hear from fantastic role models, such as Jessica Leigh Jones, UK young engineer of the year 2012, and Professor Laura McAllister, the chair of Sport Wales. The aim of this conference was to showcase career paths that are considered less traditional for women and to encourage girls to aspire to achieve in these areas, and we’ll be holding a second conference in north Wales in May this year. We are determined to support girls and women into education and the workplace and to support their progression. We will also continue to tackle the lack of gender balance at senior and decision-making levels and support women into these roles. This is why Welsh Government is supporting the 50/50 by 2020 campaign and aims to achieve a gender balance of 50% women in the senior civil service in the Welsh Government by the year 2020.

Roeddwn yn falch o siarad yn ein cynhadledd Merched yn Gwneud Gwahaniaeth fis Medi diwethaf, lle cafodd dros 100 o ferched o bob rhan o’r de gyfle i glywed gan rai sy’n gosod esiampl wych, megis Jessica Leigh Jones, peiriannydd ifanc y flwyddyn y DU 2012, a'r Athro Laura McAllister, cadeirydd Chwaraeon Cymru. Nod y gynhadledd hon oedd arddangos llwybrau gyrfa sy'n cael eu hystyried yn llai traddodiadol i fenywod ac i annog merched i gael uchelgais o gyflawni yn y meysydd hyn, a byddwn yn cynnal ail gynhadledd yn y gogledd ym mis Mai eleni. Rydym yn benderfynol o gefnogi merched a menywod i mewn i addysg a'r gweithle ac i gefnogi eu cynnydd. Byddwn hefyd yn parhau i fynd i'r afael â'r diffyg cydbwysedd rhyw ar lefelau uwch a lefel gwneud penderfyniadau ac yn cefnogi menywod i mewn i’r swyddogaethau hyn. Dyma pam y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r ymgyrch 50/50 erbyn 2020 gyda’r nod o sicrhau cydbwysedd rhwng y rhywiau o 50% o ferched yn yr uwch wasanaeth sifil yn Llywodraeth Cymru erbyn y flwyddyn 2020.

We are listening to women who are telling us that their caring responsibilities, either for children or parents, are affecting their chances of working or progression in the workplace. Our revised child poverty strategy reaffirms our commitment to this. We are addressing and removing the barriers that are preventing women from participating fully in the workplace and making full use of their skills. Part-time work can help to balance home and work responsibilities. However, all too often, where part-time work is available, it is in low-paid positions and can create a significant barrier to women's career progression. I believe our economy is strongest when everyone has the chance to contribute. Improving access to high-quality affordable childcare is a key priority of this Government. It enables parents to work or to access training and supports our drive to increase economic growth, tackle poverty and reduce inequalities.

Rydym yn gwrando ar fenywod sy'n dweud wrthym bod eu cyfrifoldebau gofalu, naill ai am blant neu rieni, yn effeithio ar eu siawns o weithio neu o ddatblygu yn y gweithle. Mae ein strategaeth tlodi plant ddiwygiedig yn ailddatgan ein hymrwymiad i hyn. Rydym yn mynd i'r afael ac yn cael gwared ar y rhwystrau sy'n atal menywod rhag cymryd rhan lawn yn y gweithle a gwneud defnydd llawn o'u sgiliau. Gall gwaith rhan-amser helpu i sicrhau cydbwysedd rhwng y cartref a chyfrifoldebau gwaith. Fodd bynnag, yn rhy aml, pan fo gwaith rhan-amser ar gael, mae mewn swyddi cyflog isel a gall hynny greu rhwystr sylweddol i ddatblygiad gyrfa menywod. Credaf fod ein heconomi gryfaf pan fo gan bawb gyfle i gyfrannu. Mae gwella mynediad at ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel yn flaenoriaeth allweddol i'r Llywodraeth hon. Mae'n galluogi rhieni i weithio neu i gael mynediad at hyfforddiant ac mae'n cefnogi ein hymgyrch i gynyddu twf economaidd, trechu tlodi a lleihau anghydraddoldebau.

We've seen improvements in Wales in terms of addressing gender pay inequality. However, there is always more to be done, and we are committed to taking a stand and to taking action. We recognise and value the contribution of women to Welsh working life, and we will continue to do all we can to ensure equal pay so women can achieve and prosper in Wales. We want to ensure that Wales is a country where we have a diverse workforce and where those in positions of power and influence are not predominantly men. There are many challenges ahead facing women both within and outside the labour market. The evidence we continue to gather will help to inform policy across Welsh Government as we seek to address the causes of gender differences in employment and pay. I look forward to Members' contributions.

Rydym wedi gweld gwelliannau yng Nghymru o ran mynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, mae bob amser mwy i'w wneud, ac rydym wedi ymrwymo i gymryd safiad ac i gymryd camau. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad menywod i fywyd gwaith Cymru, a byddwn yn parhau i wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau cyflog cyfartal fel y gall menywod gyflawni a ffynnu yng Nghymru. Rydym eisiau sicrhau bod Cymru yn wlad lle mae gennym weithlu amrywiol a lle nad yw'r rhai sydd mewn sefyllfa o bŵer a dylanwad yn ddynion yn bennaf. Mae llawer o heriau o'n blaenau sy'n wynebu menywod oddi mewn a'r tu allan i'r farchnad lafur. Bydd y dystiolaeth y byddwn yn parhau i'w chasglu yn helpu i lywio polisi ar draws Llywodraeth Cymru wrth i ni geisio mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn cyflogaeth a chyflog. Edrychaf ymlaen at gyfraniadau'r Aelodau.

16:34

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer

Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

I have selected the three amendments to the motion, and I call on Mohammad Asghar to move amendment 1 tabled in the name of Paul Davies.

Rwyf wedi dethol y tri gwelliant i'r cynnig, a galwaf ar Mohammad Asghar i gynnig gwelliant 1 a gyflwynwyd yn enw Paul Davies.

*Gwelliant 1—Paul Davies*

*Amendment 1—Paul Davies*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed.*

*Welcomes figures from the Office of National Statistics in November 2014 showing that the gender pay gap in the UK is at its lowest ever level.*

*Cynigiwyd gwelliant 1.*

*Amendment 1 moved.*

16:35 **Mohammad Asghar** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. I move the amendment in the name of Paul Davies. Equal pay legislation has been in force in the United Kingdom for the last 40 years. It aims to ensure that men and women in the same employment doing equal work are entitled to receive equal pay and other terms of their employment. Everyone should be entitled to equality of opportunity at work, and have access to a fair and flexible labour market that draws on an individual's talents, skills and experience. To make sure this principle becomes a reality, and to promote economic growth, we must maximise the contribution of women to the economy.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Cynigiaf y gwelliant yn enw Paul Davies. Mae deddfwriaeth cyflog cyfartal wedi bod mewn grym yn y Deyrnas Unedig am y 40 mlynedd diwethaf. Ei nod yw sicrhau bod gan ddynion a menywod yn yr un gyflogaeth sy'n gwneud gwaith cyfartal yr un hawl i gael cyflog cyfartal a thelerau eraill eu cyflogaeth. Dylai pawb gael yr hawl i gyfle cyfartal yn y gwaith, ac i gael mynediad at farchnad lafur deg a hyblyg sy'n elwa ar dalentau, sgiliau a phrofiad unigolyn. I wneud yn siŵr bod yr egwyddor hon yn cael ei gwireddu, ac i hyrwyddo twf economaidd, mae'n rhaid i ni gael cyfraniad cymaint â phosib gan fenywod i'r economi.

This can only be achieved by tackling the persistent barriers that women encounter in the workplace. One of these barriers is the continuing problem of some women earning less than their male counterparts for doing equal and the same work. Tackling the gender pay gap is essential for attracting, recruiting and retaining talented women and ensuring equal opportunity in the workplace. Progress has been made in this regard, Deputy Presiding Officer. In November of last year, figures from the Office for National Statistics showed that the gender pay gap was at its lowest ever. They revealed that the pay gap was 9.4 per cent, compared with a gap of 17.4 per cent in 1997. This is vitally important. In Britain today, there are nearly 14.5 million women in employment, more than ever before. Today, 711,000 more women are employed than in May 2010. So, while the gender pay gap figures are a sign of progress in the fight for equal pay, there is more to do in this regard in Wales.

Gellir cyflawni hyn dim ond trwy fynd i'r afael â'r rhwystrau parhaus y mae menywod yn eu hwynebu yn y gweithle. Un o'r rhwystrau hyn yw'r broblem barhaus o rai menywod yn ennill llai na'u cymheiriaid gwrywaidd am wneud gwaith cyfartal a'r un gwaith. Mae mynd i'r afael â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn hanfodol ar gyfer denu, recriwtio a chadw menywod dawnus a sicrhau cyfle cyfartal yn y gweithle. Mae cynnydd wedi ei wneud yn hyn o beth, Ddirprwy Lywydd. Ym mis Tachwedd y llynedd, roedd ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed. Roeddent yn dangos bod y bwlch cyflog yn 9.4 y cant, o'i gymharu â bwlch o 17.4 y cant ym 1997. Mae hyn yn hanfodol bwysig. Ym Mhrydain heddiw, mae bron i 14.5 miliwn o fenywod mewn cyflogaeth, mwy nag erioed o'r blaen. Heddiw, mae 711,000 yn fwy o fenywod mewn cyflogaeth nag ym mis Mai 2010. Felly, er bod y ffigurau bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn arwydd o gynnydd yn y frwydr dros gyflog cyfartal, mae mwy i'w wneud yn hyn o beth yng Nghymru.

Transparent workplace policies are fundamental to ensuring equal pay between men and women. The UK Government has proposed a combination of regulatory and voluntary measures to ensure that employers examine their pay structures to determine if men and women within their workforce are being paid the same for carrying out equal work, and to take action where unlawful disparities are identified.

Mae polisïau gweithle tryloyw yn hanfodol ar gyfer sicrhau cyflog cyfartal rhwng dynion a menywod. Mae Llywodraeth y DU wedi cynnig cyfuniad o fesurau rheoleiddiol a gwirfoddol i sicrhau bod cyflogwyr yn edrych ar eu strwythurau tâl i benderfynu os yw dynion a menywod o fewn eu gweithlu yn cael eu talu'r un faint am wneud gwaith cyfartal, ac i gymryd camau pan fo gwahaniaethau anghyfreithlon yn cael eu nodi.

The Think, Act, Report initiative was launched in 2011. It provides a simple step-by-step framework to assist employers in considering gender equality in the workplace. It covers issues such as recruitment, retention, promotion and pay packages. Over 250,000 organisations have signed up to this initiative, covering around 2.5 million employees in the United Kingdom. Many of these organisations signed up to this initiative are already carrying out voluntary equal pay audits. Equal pay audits are not intended by themselves to be a solution to the gender pay gap. However, taking action to tackle unlawful inequality of pay between men and women who do equal work will contribute to reducing the gender pay gap, and provide employers with an opportunity for further transparency. From October last year, employment tribunals have the power to order any employer that loses an equal pay case to carry out an equal pay audit.

Cafodd y fenter Think, Act, Report ei lansio yn 2011. Mae'n darparu fframwaith syml gam wrth gam i gynorthwyo cyflogwyr wrth ystyried cydraddoldeb rhywiol yn y gweithle. Mae'n cwmpasu materion megis recriwtio, cadw, hyrwyddo a phecynnau cyflog. Mae dros 250,000 o sefydliadau wedi ymrwymo i'r fenter hon, sy'n cwmpasu tua 2.5 miliwn o weithwyr yn y Deyrnas Unedig. Mae llawer o'r sefydliadau hyn sydd wedi ymrwymo i'r fenter hon eisoes yn cynnal archwiliadau cyflog cyfartal gwirfoddol. Nid yw archwiliadau cyflog cyfartal wedi'u bwriadu ynddynt eu hunain i fod yn ateb i'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Fodd bynnag, bydd cymryd camau i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb cyflog anghyfreithlon rhwng dynion a menywod sy'n gwneud gwaith cyfartal yn cyfrannu at leihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, ac yn darparu cyflogwyr gyda chyfle ar gyfer tryloywder pellach. O fis Hydref y llynedd ymlaen, mae gan dribiwnlysoedd cyflogaeth y pŵer i orchymyn unrhyw gyflogwr sy'n colli achos cyflog cyfartal i gynnal archwiliad cyflog cyfartal.

Deputy Presiding Officer, there are now more women in work and more women running their own businesses than ever before. Ensuring that people are paid the same money for doing the same job is as important a component of equality and diversity as preventing discrimination and harassment. We are breaking down the barriers holding women back in businesses, and improving transparency over pay to ensure equality in the workplace is here in Wales. Thank you very much.

Ddirprwy Lywydd, erbyn hyn mae mwy o fenywod mewn gwaith a mwy o fenywod sy'n rhedeg eu busnesau eu hunain nag erioed o'r blaen. Mae sicrhau bod pobl yn cael eu talu'r un arian am wneud yr un swydd yn elfen yr un mor bwysig o gydraddoldeb ac amrywiaeth ag yw atal gwahaniaethu ac aflonyddu. Rydym yn chwalu'r rhwystrau sy'n dal menywod yn ôl mewn busnesau, ac mae gwella tryloywder ynglŷn â chyflogau i sicrhau cydraddoldeb yn y gweithle yma yng Nghymru. Diolch yn fawr iawn.

16:39 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And I call on Peter Black to move amendments 2 and 3 tabled in the name of Aled Roberts.

A galwaf ar Peter Black i gynnig gwelliannau 2 a 3 a gyflwynwyd yn enw Aled Roberts.

*Gwelliant 2—Aled Roberts*

*Amendment 2—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu'r ffaith bod y ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y bwlch cyflog llawn amser rhwng dynion a menywod yn fwy cul nag y mae wedi bod ers dechrau casglu cofnodion cymharol ym 1997.*

*Welcomes that the latest figures from the ONS show that the full-time pay gap between men and women is at its narrowest since comparative records began in 1997.*

*Gwelliant 3—Aled Roberts*

*Amendment 3—Aled Roberts*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn croesawu gwaith Gweinidog Cydraddoldebau Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd angen i gwmnïau sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr gyhoeddi'r cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, neu wynebu dirwy o hyd at £5,000.*

*Welcomes the UK Government Equalities Minister's work to ensure that firms with more than 250 employees will be required to publish the average pay for male and female workers, or face a fine of up to £5,000.*

*Cynigiwyd gwelliannau 2 a 3.*

*Amendments 2 and 3 moved.*

16:39 **Peter Black** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Thank you, Deputy Presiding Officer. Can I move amendments 2 and 3 in the name of Aled Roberts, and start by saying that we believe that large employers have to lead by example to ensure equal pay? Our amendment 3:

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. A gaf i gynnig gwelliannau 2 a 3 yn enw Aled Roberts, a dechrau drwy ddweud ein bod yn credu bod yn rhaid i gyflogwyr mawr arwain drwy esiampl i sicrhau cyflog cyfartal? Mae ein gwelliant 3:

'Welcomes the UK Government Equalities Minister's work to ensure that firms with more than 250 employees will be required to publish the average pay for male and female workers, or face a fine of up to £5,000.'

yn croesawu gwaith Gweinidog Cydraddoldebau Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd yn ofynnol i gwmnïau sydd â mwy na 250 o weithwyr gyhoeddi'r cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, neu wynebu dirwy o hyd at £ 5,000.

Nearly a century on since women had the right to vote, and more than 40 years on from the Equal Pay Act 1970, it seems extraordinary that our labour market is still stacked against women. A woman is still paid, on average, 20 per cent less than a man, and is less likely to be in a leadership role. The average woman in the UK gets paid £10.33 an hour, compared to almost £12.86 per hour for a man.

Bron i ganrif ymlaen ers pryd y cafodd menywod yr hawl i bleidleisio, a mwy na 40 mlynedd ymlaen o Ddeddf Cyflog Cyfartal 1970, mae'n ymddangos yn anhygoel bod ein marchnad lafur yn dal i fod yn annheg i fenywod. Mae menyw yn dal i gael ei thalu, ar gyfartaledd, 20 y cant yn llai na dyn, ac yn llai tebygol o fod mewn swyddogaeth arwain. Mae'r fenyw gyfartalog yn y DU yn cael ei thalu £10.33 yr awr, o'i gymharu â bron i £12.86 yr awr i ddyn.

Liberal Democrats in coalition in Westminster have already made great strides in promoting and providing a flexible, more accessible workplace. For example, we have extended the right to request flexible working to all employees and are introducing shared parental leave from April 2015. Our Think, Act, Report initiative asks employers to address the causes of the pay gap and to share information on progress, but this has not been enough. Voluntarily, only five companies have published their gender pay gap information. Liberal Democrats in Westminster have now successfully amended the Small Business, Enterprise and Employment Bill, fast-tracking the Liberal Democrat manifesto plans for gender pay transparency within the next 12 months. The work of Jenny Willott and Jo Swinson, as the UK Government's equalities Minister, means that firms of more than 250 employees will be required to publish the average pay for male and female workers or face a fine of up to £5,000. That will increase pressure on large companies to pay all their employees a fair wage—essential in our society in the twenty-first century.

Mae Democratiaid Rhyddfrydol yn y glymblaid yn San Steffan eisoes wedi cymryd camau breision o ran hyrwyddo a darparu gweithle hyblyg, mwy hygyrch. Er enghraifft, rydym wedi ymestyn yr hawl i ofyn am weithio hyblyg i bob gweithiwr ac rydym yn cyflwyno absenoldeb rhiant ar y cyd o fis Ebrill 2015. Mae ein menter Think, Act, Report yn gofyn i gyflogwyr fynd i'r afael ag achosion y bwlch cyflog ac i rannu gwybodaeth am gynnydd, ond nid yw hyn wedi bod yn ddigon. Yn wirfoddol, dim ond pum cwmni sydd wedi cyhoeddi eu gwybodaeth bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Mae Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan bellach wedi llwyddo i ddiwygio'r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth, sy'n rhoi cynlluniau maniffesto'r Democratiaid Rhyddfrydol ar y llwybr cyflym ar gyfer tryloywder cyflogau'r ddau ryw o fewn y 12 mis nesaf. Mae gwaith Jenny Willott a Jo Swinson, fel Gweinidog cydraddoldebau Llywodraeth y DU, yn golygu y bydd yn ofynnol i gwmnïau o fwy na 250 o weithwyr gyhoeddi'r cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd neu wynebu dirwy o hyd at £5,000. Bydd hynny'n cynyddu'r pwysau ar gwmnïau mawr i dalu cyflog teg i'w holl weithwyr—hanfodol yn ein cymdeithas ni yn yr unfed ganrif ar hugain.

Of course, the statistics tell the truth: the gender pay gap is at its lowest level, and our amendment 2:

Wrth gwrs, mae'r ystadegau yn dweud y gwir: mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf, ac mae ein gwelliant 2:

'Welcomes that the latest figures from the ONS show that the full-time pay gap between men and women is at its narrowest since comparative records began in 1997.'

yn croesawu'r ffaith fod y ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y bwlch cyflog llawn amser rhwng dynion a menywod ar ei gulaf ers i gofnodion cymharol ddechrau ym 1997.

That's why we'll be supporting all amendments. It's a very easy decision for us to do that, because the Conservative amendment repeats our own amendment 2. But I think that both the coalition parties can be pleased with what we've achieved towards gender equality and equal pay. The Liberal Democrats, particularly, should be proud of the achievements, because we fought against efforts to block the proposals for mandatory pay transparency, and women workers will reap the benefits as a result of us. Another example, I think, of how working in coalition in Westminster has had positive impacts for the women of Wales.

Dyna pam y byddwn yn cefnogi'r holl welliannau. Mae'n benderfyniad hawdd iawn i ni i wneud hynny, oherwydd bod gwelliant y Ceidwadwyr yn ailadrodd ein gwelliant 2 ein hunain. Ond credaf y gall dwy blaid y glymblaid fod yn falch â'r hyn yr ydym wedi'i gyflawni tuag at gydraddoldeb rhyw a chyflog cyfartal. Dylai'r Democratiaid Rhyddfrydol, yn arbennig, fod yn falch o'r cyflawniadau, oherwydd ein bod wedi brwydro yn erbyn ymdrechion i atal y cynigion ar gyfer tryloywder cyflog gorfodol, a bydd gweithwyr benywaidd yn elwa o ganlyniad i ni. Enghraifft arall, rwy'n credu, o sut mae gweithio mewn clymblaid yn San Steffan wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfer menywod Cymru.

The Welsh Labour Government is failing to address the cause of gender pay inequality, in my view, and I'll give the reasons for that. As it's British Science Week, I want to applaud the work of the Government in trying to encourage more women to choose science, technology, engineering and mathematics subjects, and the opportunities that provides, eventually resulting in better-paid jobs for women. But the Welsh Labour Government have had the strategic equality plan objectives, and one of the eight of those is to:

Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn methu â mynd i'r afael ag achos anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau, yn fy marn i, a byddaf yn rhoi'r rhesymau dros hynny. Gan ei bod yn Wythnos Wyddoniaeth Prydain, rwyf am ganmol gwaith y Llywodraeth wrth geisio annog mwy o fenywod i ddewis pynciau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, a'r cyfleoedd y mae hynny'n eu darparu, sydd yn y pen draw yn arwain at swyddi â mwy o gyflog ar gyfer menywod. Ond mae Llywodraeth Lafur Cymru wedi bod â'r amcanion cynllun cydraddoldeb strategol, ac un o'r wyth o'r rheini yw:

'Work with partners to identify and address the causes of the gender, ethnicity and disability pay and employment differences.'

Gweithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael ag achosion y gwahaniaethau mewn cyflog a chyflogaeth oherwydd rhyw, ethnigrwydd ac anabledd.

Progress has been made to date in the public sector, and I appreciate, of course, that the National Assembly for Wales does have limitations, because of the devolution settlement. But, of course, Ministers, in the 2014 report on equality, discussed here in this Chamber three months ago, report on research by Cardiff University highlighting occupational segregation and the dominance of women in part-time, low-paid sectors. Last year, we had the option to ban zero-hours contracts in the care sector—a part-time, low-paid sector dominated by women—but the Government opposed that. We're working hard to address occupational segregation in Westminster by promoting and providing a flexible, more accessible workplace, but, where it exists, we should be doing all we can to deal with pay inequality. The strategic equality plan objectives I've just referred to place an obligation on public authorities to collect equality information, but what happens to that information? What is the Government doing with it? The annual report notes where progress has been made, but also where it has been lacking. We're good at identifying the causes of gender pay differences, but I want to see some action from the Welsh Labour Government to address the issue dealing with those identified causes.

Gwnaed cynnydd hyd yn hyn yn y sector cyhoeddus, ac rwy'n gwerthfawrogi, wrth gwrs, fod gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfyngiadau, oherwydd y setliad datganoli. Ond, wrth gwrs, mae Gweinidogion, yn adroddiad 2014 ar gydraddoldeb, a drafodwyd yma yn y Siambr hon dri mis yn ôl, yn adrodd ar ymchwil gan Brifysgol Caerdydd yn tynnu sylw at arwahanu galwedigaethol a'r ffaith mai menywod yn bennaf sy'n gweithio mewn sectorau rhan-amser, cyflog isel. Y llynedd, roedd gennym ddewis o wahardd contractau dim oriau yn y sector gofal—sector rhan-amser, cyflog isel a ddominyddir gan fenywod—ond gwrthwynebwyd hynny gan y Llywodraeth. Rydym yn gweithio'n galed i fynd i'r afael â gwahanu galwedigaethol yn San Steffan drwy hyrwyddo a darparu gweithle hyblyg, mwy hygyrch, ond, lle mae'n bodoli, dylem fod yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ymdrin ag anghydraddoldeb cyflog. Mae amcanion y cynllun cydraddoldeb strategol yr wyf newydd gyfeirio ato yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i gasglu gwybodaeth cydraddoldeb, ond beth sy'n digwydd i'r wybodaeth honno? Beth mae'r Llywodraeth yn ei wneud â hi? Mae'r adroddiad blynyddol yn nodi lle mae cynnydd wedi ei wneud, ond hefyd lle y mae wedi bod yn ddiffygiol. Rydym yn dda am adnabod yr hyn sy'n achosi gwahaniaethau cyflog rhwng y rhywiau, ond hoffwn weld rhywfaint o weithredu gan Lywodraeth Lafur Cymru i fynd i'r afael â'r mater gan ymdrin â'r achosion hynny a nodwyd.

Three years ago, during an International Women's Day statement, my colleague Eluned Parrott asked what lessons have been learned from the success and failures within the strategic equality plan and objectives. We've still not seen any evidence of that evaluation, and I think we do need to see how successes are being shared, but, more importantly, how failures are being addressed. I think, Deputy Presiding Officer, a lot is being done, actually, in Westminster, and some good work in Wales as well, but a lot more can still be done to deal with this particular issue. I think, although we've made a good start, we need to do a great deal more.

Dair blynedd yn ôl, yn ystod datganiad Diwrnod Rhyngwladol y Menywod, gofynnodd fy nghydweithiwr Eluned Parrott pa wersi a ddysgwyd gan lwyddiant a methiannau yn y cynllun a'r amcanion cydraddoldeb strategol. Rydym yn dal heb weld unrhyw dystiolaeth o'r gwerthuso hwnnw, ac rwy'n meddwl bod angen i ni weld sut y mae llwyddiannau yn cael eu rhannu, ond, yn bwysicach, sut y mae methiannau yn cael sylw. Rwy'n meddwl, Ddirprwy Lywydd, bod llawer yn cael ei wneud, mewn gwirionedd, yn San Steffan, a rhywfaint o waith da yng Nghymru hefyd, ond mae llawer mwy o hyd y gellir ei wneud i ymdrin â'r mater penodol hwn. Rwy'n credu, er ein bod wedi gwneud dechrau da, bod angen i ni wneud llawer iawn mwy.

16:44

## Sandy Mewies Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Well, I'm very pleased to take part in the debate, because, of course, while there has been some success to reduce the gender pay gap, it still needs to be taken out of our lives altogether, and I thought that the Minister laid out very clearly the many areas of life in which women are still disadvantaged. I think we should be looking at the Women In Development Europe model, as well as the gender pay gap. In 2014, we saw the pay gap widen for the first time in five years, and although the latest figures from the end of 2014 saw a narrowing in the gender pay gap, the reason for this was primarily because of men's pay falling, in real terms, much quicker than women's, rather than a true closing of the gender pay gap and improvements in workers' pay.

Wel, rwy'n falch iawn o gymryd rhan yn y ddadl, oherwydd, wrth gwrs, er y cafwyd rhywfaint o lwyddiant o ran lleihau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau, mae angen o hyd i'w gymryd allan o'n bywydau yn gyfan gwbl, ac rwy'n meddwl bod y Gweinidog wedi nodi'n glir iawn bod nifer o feysydd mewn bywyd lle mae menywod yn parhau i fod dan anfantais. Rwy'n credu y dylem fod yn edrych ar y model Women in Development Europe, yn ogystal â'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau. Yn 2014, gwelsom y bwlch cyflog yn ehangu am y tro cyntaf mewn pum mlynedd, ac er bod y ffigurau diweddaraf o ddiwedd 2014 wedi gweld culhau yn y bwlch cyflog rhwng y rhywiau, y rheswm pennaf am hyn yw oherwydd bod cyflogau dynion yn gostwng, mewn termau real, yn llawer cyflymach na rhai menywod, yn hytrach na bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau a gwelliannau o ran cyflogau gweithwyr yn gwella mewn gwirionedd.

So, the pay gap between men and women still remains high, particularly in older age groups. A recent survey indicated that women working part-time receive 36 per cent less than men. We really do have to ask why the gap is still persisting. I think that what we'll hear in this debate is a lot of consensus throughout this Chamber, because I think there is a lot of agreement on what's been done and what needs to be done in future.

Felly, mae'r bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yn dal i fod yn uchel, yn enwedig mewn grwpiau oedran hŷn. Dangosodd arolwg diweddar fod menywod sy'n gweithio'n rhan-amser yn derbyn 36 y cant yn llai na dynion. Mae'n rhaid i ni ofyn mewn gwirionedd pam mae'r bwlch yn dal i barhau. Rwy'n credu mai'r hyn y byddwn yn ei glywed yn y ddadl hon yw llawer o gonsensws ar draws y Siambr hon, oherwydd credaf fod llawer o gytundeb ar yr hyn sydd wedi ei wneud a'r hyn y mae angen ei wneud yn y dyfodol.

We know that large companies now do have equality champions and equality policies, but what we need is not fine words spoken about gender equality and opportunities for women; what we need is action. Unfortunately, all the evidence points to women still seen as having to be the primary carer in a household, and they dominate in low-paid or part-time work. Women are more likely to work in jobs associated with low pay, as the Minister's already outlined, in the care industry, in retail and in hair and beauty: valuable jobs. Men hold nearly two thirds—64 per cent—of all the available full-time jobs in Wales, while women hold four fifths—80 per cent—of all the available part-time jobs in Wales. Part-time work is excellent for many women at times in their lives; none of us would deny that. But, we must see that the opportunities they have are not just part-time, and if they are part-time, that they're well-paid and that they can move through a real hierarchy into full-time work if that's what they wish.

Rydym yn gwybod bod gan gwmnïau mawr hyrwyddwyr cydraddoldeb a pholisïau cydraddoldeb erbyn hyn, ond yr hyn yr ydym ei angen yw nid geiriau teg wedi'u llefaru am gydraddoldeb rhyw a chyfleoedd i fenywod; yr hyn yr ydym ei angen yw gweithredu. Yn anffodus, mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod menywod yn dal i gael eu gweld fel gorfod bod y prif ofalwyr yn y cartref, ac maent yn dominyddu mewn gwaith cyflog isel neu ran-amser. Mae menywod yn fwy tebygol o weithio mewn swyddi sy'n gysylltiedig â chyflog isel, fel y mae'r Gweinidog wedi'i nodi eisoes, yn y diwydiant gofal, mewn manwerthu ac mewn trin gwallt a harddwch: swyddi gwerthfawr. Dynion sy'n dal bron i ddwy ran o dair—64 y cant—o'r holl swyddi llawn amser sydd ar gael yng Nghymru, tra bod menywod yn dal pedair rhan o bump—80 y cant—o'r holl swyddi rhan-amser sydd ar gael yng Nghymru. Mae gwaith rhan-amser yn wych i lawer o fenywod ar rai adegau yn eu bywydau; ni fyddai neb ohonom yn gwadu hynny. Ond, mae'n rhaid i ni sicrhau nad yw'r cyfleoedd sydd ganddynt yn rhan-amser yn unig, ac os ydynt yn rhan-amser, eu bod yn talu'n dda a'u bod yn gallu symud drwy hierarchaeth wirioneddol i mewn i waith llawn amser os mai dyna beth y maent yn ei ddymuno.

Welfare reform is also a factor in women's lives. They've been hit hardest by welfare reform with, according to Chwarae Teg, 74 per cent of savings coming from the purses of women as a result. That situation could get worse if further cuts are introduced. As it is, the introduction of universal credit is helping to push women into part-time work and that could deepen the problem.

Mae diwygio lles hefyd yn ffactor ym mywydau menywod. Nhw sydd wedi eu taro galetaf gan ddiwygio lles gyda, yn ôl Chwarae Teg, 74 y cant o arbedion yn dod o byrsiau menywod o ganlyniad. Gallai'r sefyllfa honno waethygu os bydd toriadau pellach yn cael eu cyflwyno. Fel y mae hi ar hyn o bryd, mae cyflwyno credyd cynhwysol yn helpu i wthio menywod i waith rhan-amser a gallai hynny ddyfnhau'r broblem.

Action is needed. It needs to be taken to end the perceptions about a woman's role in the workplace. Strangely enough, I was thinking about this myself the other day. I went into what was, for a long time, traditionally a man's world, in journalism, and I was an indentured apprentice—one of the few people who can remember being an indentured apprentice—with my father having to sign the indentures so that I could go to work. He took me into the office and the editor said, 'Well, you sign here and she'll be in at 9 o'clock on Monday'. But, it's different now.

Mae angen gweithredu. Mae angen i hynny ddigwydd i roi diwedd ar y canfyddiadau am swyddogaeth menyw yn y gweithle. Yn rhyfedd iawn, roeddwn i'n meddwl am hyn fy hun y diwrnod o'r blaen. Es i i mewn i'r hyn a oedd, am gyfnod hir, yn draddodiadol yn fyd i ddynion, sef newyddiaduraeth, ac roeddwn yn brentis indentur—un o'r ychydig bobl sy'n gallu cofio bod yn brentis indentur—gyda fy nhad yn gorfod llofnodi'r cytundebau er mwyn i mi gael mynd i'r gwaith. Aeth â fi i mewn i'r swyddfa a dywedodd y golygydd, 'Wel, byddwch chi'n llofnodi yma a bydd hi i mewn am 9 o'r gloch ddydd Llun'. Ond, mae'n wahanol erbyn hyn.

What struck me about 10 years ago was, yes, there were lots of women coming into the profession—there had been for a long time—but, do you know, even 10 years ago, women photographers were a strange thing to see? When I first came here, I would see women photographers and I'd think, 'By gum, they're doing well', but of course, they were doing what they should be doing; they were doing the job as well or, perhaps, better in some cases than the men. So, I've seen changes in my life and I think we all have.

Yr hyn a wnaeth fy nharo i tua 10 mlynedd yn ôl oedd, oedd, roedd llawer o fenywod yn dod i mewn i'r proffesiwn—roedd hynny wedi bod yn digwydd ers cryn amser—ond, a wyddoch chi, hyd yn oed 10 mlynedd yn ôl, roedd ffotograffwyr benywaidd yn beth rhyfedd i'w weld? Pan ddes i yma gyntaf, byddwn yn gweld ffotograffwyr a oedd yn fenywod ac mi fyddwn i'n meddwl, 'Diawch, maen nhw'n gwneud yn dda', ond wrth gwrs, roeddent yn gwneud yr hyn y dylent fod yn ei wneud; roeddent yn gwneud y gwaith cystal neu, efallai, yn well mewn rhai achosion na'r dynion. Felly, rwyf wedi gweld newidiadau yn ystod fy mywyd ac rwy'n credu ein bod i gyd wedi gweld hynny.

I think Peter Black talked about encouraging women to fulfil their potential in any area, particularly entering the STEM sectors, and entering boardrooms across Wales. Here in the National Assembly, much work is already being done by the Welsh Government in this area and through initiatives to encourage women to realise their potential, led by our own Presiding Officer. But women remain largely absent at senior management levels. Only 22.8 per cent of the FTSE 100 board members are women and 36 per cent of third sector chief executives in Wales are women.

Rwy'n credu bod Peter Black wedi siarad am annog menywod i gyflawni eu potensial mewn unrhyw faes, yn enwedig mynd i mewn i'r sectorau STEM, a mynd i mewn i ystafelloedd bwrdd ar draws Cymru. Yma yn y Cynulliad Cenedlaethol, mae llawer o waith eisoes yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru yn y maes hwn a thrwy fentrau i annog menywod i gyflawni eu potensial, o dan arweiniad ein Llywydd ein hunain. Ond mae menywod yn parhau i fod yn absennol i raddau helaeth ar lefelau uwch reolwyr. Dim ond 22.8 y cant o aelodau'r bwrdd FTSE 100 sy'n fenywod a 36 y cant o brif weithredwyr y trydydd sector yng Nghymru sy'n fenywod.

There's lots more I could say about affordable childcare and about women working below their potential, and it is good to see the actions that are being taken. But it's 40 years since the Equal Pay Act and the gender pay gap still persists. How much longer must women wait? After all this time, surely, it's not sufficient to say that the gap has narrowed. After all, 47 per cent of the working population in Wales are women and they deserve better.

Mae llawer mwy y gallwn i ddweud am ofal plant fforddiadwy ac am fenywod sy'n gweithio islaw eu potensial, ac mae'n dda gweld y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd. Ond mae 40 mlynedd ers y Ddeddf Cyflog Cyfartal ac mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn dal yn parhau. Faint mwy o amser y mae'n rhaid i fenywod aros? Ar ôl yr holl amser, siawns nad yw'n ddigon i ddweud bod y bwlch wedi culhau. Wedi'r cyfan, mae 47 y cant o'r boblogaeth sy'n gweithio yng Nghymru yn fenywod ac maent yn haeddu gwell.

16:50 **Jocelyn Davies** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

Equal pay is both a cause, I think, and a symptom of the gap of gender inequality. As long as women are subjected to deeply rooted discrimination and inequality, the pay gap between men and women will remain. As long as women are paid less than men on average, gender equality is impossible.

Mae cyflog cyfartal yn achos, rwy'n meddwl, ac yn symptom o'r bwlch anghydraddoldeb rhwng y rhywiau. Cyn belled â bod menywod yn dioddef gwahaniaethu ac anghydraddoldeb sydd wedi'u gwreiddio'n ddwfn, bydd y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yn parhau. Cyhyd â bod menywod yn cael eu talu llai na dynion ar gyfartaledd, mae cydraddoldeb rhwng y rhywiau yn amhosibl.

We have made huge strides in closing the gap between men and women, and it's important to acknowledge that, but about 100 years ago, in 1913, Gwyneth Bebb took legal action against the Law Society after her application to become a solicitor was denied because of her gender. The law allowed people with a required qualification to become lawyers. She argued she should be considered a person under the law. She failed. The court rejected the argument and, in fact, found that women were not people. It was held that women were under a general disability to become lawyers. That disability was their gender. I know we are all shocked—there were no riots on the streets at this finding, I have to say—but it wasn't until 1919 that the Sex Disqualification (Removal) Act was passed and women were allowed to become lawyers in the UK.

Rydym wedi cymryd camau enfawr o ran cau'r bwlch rhwng dynion a menywod, ac mae'n bwysig cydnabod hynny, ond tua 100 mlynedd yn ôl, ym 1913, cymerodd Gwyneth Bebb gamau cyfreithiol yn erbyn Cymdeithas y Gyfraith ar ôl i'w chais i fod yn gyfreithwraig gael ei wrthod oherwydd ei rhyw. Roedd y gyfraith yn caniatáu i bobl â chymhwyster gofynnol i ddod yn gyfreithwyr. Dadleuodd hi y dylai gael ei hystyried yn berson o dan y gyfraith. Methodd hi. Gwrthododd y llys y ddadl ac, mewn gwirionedd, penderfynu nad oedd menywod yn bobl. Ystyriwyd bod menywod dan anabledd cyffredinol i fod yn gyfreithwyr. Yr anabledd hwnnw oedd eu rhyw. Rwy'n gwybod ein bod i gyd wedi ein syfrdanu—nid oedd unrhyw derfysgoedd ar y strydoedd oherwydd y canfyddiad hwn, mae'n rhaid i mi ddweud—ond ni chafodd y Ddeddf Anghymhwyso Rhyw (Dileu) ei phasio tan 1919 gan ganiatáu i fenywod fod yn gyfreithwyr yn y DU .

Now, of course, the number of women entering the legal profession rivals the number of men, but women remain under-represented at the top, of course: 25 per cent of judges are women and, if you look at the top law firms, women only represent about 15 per cent. So, there is a 100 years of progress with the law on your side, but, of course, you had sexism against you, and sexism is a very formidable enemy indeed. So, I know we mustn't be too congratulatory about the progress we've made; just remember it's been slow and hard, and we have a long way to go.

Erbyn hyn, wrth gwrs, mae nifer y menywod sy'n ymuno â'r proffesiwn cyfreithiol yn cystadlu â nifer y dynion, ond mae menywod yn parhau i fod heb gynrychiolaeth ddigonol ar y brig, wrth gwrs: mae 25 y cant o farnwyr yn fenywod ac, os edrychwch chi ar y prif gwmnïau cyfreithiol, nid yw menywod ond yn cynrychioli tua 15 y cant. Felly, mae 100 mlynedd o gynnydd gyda'r gyfraith ar eich ochr, ond, wrth gwrs, roedd gennych rywiaeth yn eich erbyn, ac mae rhywiaeth yn elyn arswydus iawn yn wir. Felly, rwy'n gwybod bod yn rhaid i ni beidio â bod yn rhy llongyfarchiadol am y cynnydd yr ydym wedi'i wneud; cofiwch ei fod wedi bod yn araf ac yn galed, ac mae gennym ffordd bell i fynd.

Even though these legal protections are there, like the Equal Pay Act, they've been in place for many years, but, of course, there are institutional barriers that women have to overcome. None of this is context free, is it? So, those stereotypes and gender roles inform the choices we make and affect the opportunities we have.

Er bod yr amddiffyniadau cyfreithiol hyn ar gael, fel y Ddeddf Cyflog Cyfartal, maen nhw wedi bod ar waith ers blynyddoedd lawer, ond, wrth gwrs, ceir rhwystrau sefydliadol y mae'n rhaid i fenywod eu goresgyn. Nid oes dim o hyn heb gyd-destun, nac oes? Felly, mae'r stereoteipiau a'r swyddogaethau rhywiau hynny yn llywio'r dewisiadau a wnawn ac yn effeithio ar y cyfleoedd sydd gennym.

There are, of course, many things intersecting that need addressing: better childcare provision, support for those with caring responsibilities, flexi working and so on. These issues, of course, must be addressed, but they are also an indication of women's position in society that they are the things that are stopping us getting to the top.

Mae, wrth gwrs, lawer o bethau yn croestorri y mae angen mynd i'r afael â nhw: gwell darpariaeth gofal plant, cymorth i'r rhai sydd â chyfrifoldebau gofalu, gweithio hyblyg ac yn y blaen. Mae'n rhaid rhoi sylw i'r materion hyn, wrth gwrs, ond maent hefyd yn arwydd o sefyllfa menywod mewn cymdeithas mai dyma'r pethau sy'n ein rhwystro rhag cyrraedd y brig.

This afternoon I'd like to focus on the type of careers women choose. There is significant gender segregation in the workplace. Eighty per cent of workplaces are dominated by one gender—I don't have to tell you who that is. Women are over-represented in careers that are characterised by underemployment and low pay. So, those key areas of growth in the Welsh economy tend to be dominated by men. That's not men's fault, I have to say; it's society's fault, I think, as a whole.

Y prynhawn yma, hoffwn ganolbwyntio ar y math o yrfaoedd y mae menywod yn eu dewis. Mae gwahanu sylweddol rhwng y rhywiau yn y gweithle. Mae wyth deg y cant o weithleoedd yn cael eu dominyddu gan un rhyw—nid oes raid i mi ddweud wrthych pwy yw'r rheini. Mae menywod wedi eu gorgynrychioli mewn gyrfaoedd sy'n cael eu nodweddu gan dangyflogaeth a chyflog isel. Felly, mae'r meysydd allweddol hynny o dwf yn economi Cymru yn tueddu i gael eu dominyddu gan ddynion. Nid bai dynion yw hynny, mae'n rhaid i mi ddweud; bai cymdeithas ydyw, rwy'n credu, yn ei chyfanrwydd.

It was mentioned earlier about science, technology, engineering, maths—those STEM businesses. Only 13 per cent of jobs in those fields are carried out by women. Engineering UK claim that, if more women were able to take up employment in STEM fields, we could contribute an extra £2 billion to the UK economy. I think that's important.

Soniwyd yn gynharach am wyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg—y busnesau STEM hynny. Dim ond 13 y cant o swyddi yn y meysydd hynny sy'n cael eu cyflawni gan fenywod. Mae Engineering UK yn honni, pe byddai mwy o fenywod yn cael ymgymryd â chyflogaeth mewn meysydd STEM, gallem gyfrannu £2 biliwn yn ychwanegol i economi'r DU. Credaf fod hynny'n bwysig.

This week, I think, is National Apprenticeship Week. If you look at apprenticeships, there is a stark difference there for women: 3 per cent of engineering, 1 per cent of construction and 7 per cent of the electro-technical apprenticeships are granted to women. But, in other areas, of course, women are over-represented—hairdressing, early years apprentices, and 89 per cent of teacher-support apprentices are women. I'm not criticising those careers, because I think they are highly important, but they are not valued enough to attract high pay.

Yr wythnos hon, rwy'n credu, yw Wythnos Prentisiaethau Cenedlaethol. Os edrychwch chi ar brentisiaethau, mae gwahaniaeth amlwg yn hynny o beth i fenywod: mae 3 y cant o brentisiaethau peirianneg, 1 y cant o brentisiaethau adeiladu a 7 y cant o'r prentisiaethau electro-dechnegol yn cael eu dyfarnu i fenywod. Ond, mewn meysydd eraill, wrth gwrs, mae menywod wedi eu gorgynrychioli—trin gwallt, prentisiaid y blynyddoedd cynnar, ac mae 89 y cant o brentisiaid cymorth i athrawon yn fenywod. Dydw i ddim yn beirniadu'r gyrfaoedd hynny, oherwydd rwy'n meddwl eu bod yn bwysig iawn, ond nid ydynt yn cael eu gwerthfawrogi ddigon i ddenu cyflog uchel.

So, at the very start of women's careers, they are choosing paths that are more likely to trap them in lower pay. As I've heard Joy Kent of Chwarae Teg say on many occasions, you can't be what you can't see; I think we need to remember that. It's not easy to challenge those gender stereotypes, because it runs right through our culture. We need to start from a very early age, teaching girls and boys they should be free to pursue any career that they want, backing them in that message and supporting them to do so. This is something that I hope that the introduction of the whole-school approach to teaching young people about healthy relationships will help to achieve, because it will challenge those stereotypes. If they learn those values of equality, tolerance and respect and so on, I think that could be a powerful counter-message to the gender stereotypes that shape our thinking.

Felly, ar gychwyn cyntaf gyrfaoedd menywod, maent yn dewis llwybrau sy'n fwy tebygol o'u dal mewn cyflog is. Fel yr wyf wedi clywed Joy Kent o Chwarae Teg yn ei ddweud lawer gwaith, ni allwch fod yr hyn na allwch ei weld; Rwy'n credu bod angen i ni gofio hynny. Nid yw'n hawdd herio'r ystrydebau rhyw hynny, gan eu bod yn rhedeg drwy ein holl ddiwylliant. Mae angen i ni ddechrau o oedran cynnar iawn, gan addysgu merched a bechgyn y dylent fod yn rhydd i ddilyn unrhyw yrfa y maent yn dymuno, gan eu cefnogi yn y neges honno a'u cynorthwyo i wneud hynny. Mae hyn yn rhywbeth yr wyf yn gobeithio y bydd cyflwyno'r agwedd ysgol gyfan tuag at addysgu pobl ifanc am berthnasoedd iach yn helpu i'w gyflawni, gan y bydd yn herio'r stereoteipiau hynny. Os ydynt yn dysgu'r gwerthoedd hynny o gyfartaledd, goddefgarwch a pharch ac yn y blaen, rwy'n credu y gallai hynny fod yn wrth-neges bwerus i'r stereoteipiau rhyw sy'n llunio ein ffordd o feddwl.

So, of course, gender is not the only cause of the pay gap: race, disability, sexuality and gender identity all impact on that. But tackling the root causes of inequality must be part of our strategy to achieve equal pay.

Felly, wrth gwrs, nid rhyw yw unig achos y bwlch cyflog: mae hil, anabledd, rhywioldeb a hunaniaeth o ran rhywedd i gyd yn effeithio ar hynny. Ond mae'n rhaid bod mynd i'r afael ag achosion sylfaenol anghydraddoldeb yn rhan o'n strategaeth i sicrhau cyflog cyfartal.

16:55 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Like many other speakers before me, I say I welcome the opportunity to debate this again, but I am getting a little bit tired of debating the same things. As people have said, it is 40 years since the Equal Pay Act was introduced and, at that time, I think we thought the battle was won—there we are—and here we are today, still fighting the same battles.

Fel nifer o siaradwyr eraill o fy mlaen, rwy'n dweud fy mod yn croesawu'r cyfle i drafod hyn eto, ond rwy'n dechrau blino braidd ar drafod yr un pethau. Fel y mae pobl wedi'i ddweud, mae 40 mlynedd ers cyflwyno'r Ddeddf Cyflog Cyfartal ac, ar y pryd, rwy'n meddwl ein bod yn credu bod y frwydr wedi'i hennill—dyna ni—a dyma ni heddiw, yn dal i ymladd yr un brwydrau.

It is true to say, of course, that we have come a long way, and, just over the next couple of months, I'm sure that many of us will face questions on the doorstep as to why people would want to be bothered to vote. So, I just want to take a minute to look at what five years of Tory rule have done for women. It will only take me a minute, because, of course, they haven't done an awful lot. But, it's clear that a change of course at Westminster is much needed at a time when—

Mae'n wir i ddweud, wrth gwrs, ein bod wedi dod yn bell iawn, a, dros y misoedd nesaf, rwy'n siŵr y bydd llawer ohonom yn wynebu cwestiynau ar garreg y drws o ran pam y byddai pobl eisiau trafferthu i bleidleisio. Felly, rwyf eisiau cymryd munud i edrych ar beth y mae pum mlynedd o reolaeth y Torïaid wedi ei wneud i fenywod. Ni fydd ond yn cymryd munud imi, oherwydd, wrth gwrs, nid ydynt wedi gwneud llawer iawn. Ond, mae'n amlwg bod gwir angen newid cwrs yn San Steffan ar adeg pan—

16:56 **Janet Finch-Saunders** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The first female Prime Minister.

Y Prif Weinidog benywaidd cyntaf.

16:56 **Ann Jones** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

We'll forget that, as well, because what she did was tie women to the kitchen sink.

Anghofiwn ni hynny, hefyd, oherwydd yr hyn a wnaeth hi oedd clymu menywod i sinc y gegin.

At a time when women and their families have never had it so tough or challenging, this present UK Government has hit women the hardest. A sum of £22 billion out of a total revenue £26 billion—that's 85% of the Tory-led Government's cash that this Parliament's had—has come from changes to direct taxes and benefits that have come from women's pockets. So, on behalf of all those women out there, 'Thank you, George,' but what for I don't know.

Ar adeg pan nad yw menywod a'u teuluoedd erioed wedi ei chael hi mor anodd na heriol, mae Llywodraeth bresennol y DU wedi taro menywod galetaf. Mae swm o £22 biliwn allan o gyfanswm refeniw o £26 biliwn—mae hynny'n 85% o arian y Llywodraeth dan arweiniad y Torïaid y mae'r Senedd hon wedi'i gael—wedi dod o newidiadau i drethi a budd-daliadau uniongyrchol sydd wedi dod o bocedi menywod. Felly, ar ran yr holl fenywod hynny sydd allan yna, 'Diolch, George,' ond am beth wn i ddim.

Women's real wages have fallen year on year under the present Tory Government. Women still earn just 81 per cent for every £1 than their male colleagues will earn. Last year, 7 November was Equal Pay Day, which meant that from 8 November until 31 December, women, effectively, worked for nothing alongside their male colleagues, who had that extra money. That had moved from 20 November the year before, and that shows me why we have to have a Labour Government back in at Westminster so that we can move that date from 7 November to as close to 31 December every year as we can. Now, that's not going to be easy, and we've tried in opposition, but, unfortunately, the coalition Government has not listened to some of the things that the Labour MPs want to do and, time and time again, with the support of the Liberal Democrats, they've been outvoted.

Mae cyflogau gwirioneddol menywod wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn dan y Llywodraeth Dorïaidd bresennol. Mae menywod yn dal i ennill dim ond 81 y cant ar gyfer pob £1 y bydd eu cydweithwyr gwrywaidd yn ei ennill. Y llynedd, roedd 7 Tachwedd yn Ddiwrnod Cyflog Cyfartal, a oedd yn golygu o 8 Tachwedd tan 31 Rhagfyr, bod menywod, mewn gwirionedd, yn gweithio am ddim ochr yn ochr â'u cydweithwyr gwrywaidd, a gafodd yr arian ychwanegol hwnnw. Roedd hynny wedi symud o 20 Tachwedd y flwyddyn flaenorol, ac mae hynny'n dangos i mi pam y mae'n rhaid i ni gael Llywodraeth Lafur yn ôl yn San Steffan fel y gallwn symud y dyddiad hwnnw o 7 Tachwedd i mor agos at 31 Rhagfyr bob blwyddyn ag y gallwn. Nawr, nid yw hynny'n mynd i fod yn hawdd, ac rydym wedi gwneud ymdrech fel gwrthblaid, ond, yn anffodus, nid yw'r Llywodraeth glymblaid wedi gwrando ar rai o'r pethau y mae'r ASau Llafur eisiau ei wneud a, dro ar ôl tro, gyda chefnogaeth y Democratiaid Rhyddfrydol, maen nhw wedi colli'r bleidlais.

A quarter of all women working now earn less than the living wage, and women make up the majority of workers on zero-hours contracts and minimum wage jobs, yet the Government has taken no action to make work pay for the millions of low-paid women in our country. The UK Government's own figures estimate the bedroom tax is hitting 400,000 women, not only financially, but cruelly affecting women whose houses have been secured against former perpetrators of domestic violence.

Mae chwarter yr holl fenywod sy'n gweithio bellach yn ennill llai na'r cyflog byw, a menywod yw mwyafrif y gweithwyr ar gontractau dim oriau a swyddi isafswm cyflog, ac eto nid yw'r Llywodraeth wedi cymryd unrhyw gamau i wneud i waith dalu i'r miliynau o fenywod cyflog isel yn ein gwlad. Mae ffigurau Llywodraeth y DU ei hun yn amcangyfrif bod y dreth ystafell wely yn taro 400,000 o fenywod, nid yn unig yn ariannol, ond yn effeithio'n greulon ar fenywod y mae eu tai wedi eu diogelu yn erbyn cyn gyflawnwyr trais yn y cartref.

That's enough about that, and I'm going to move on to the difference that Labour made when Labour were in Government. The last Labour Government achieved so very much for women. We introduced a working tax credit and child tax credits in 2003 to help low-income working households through extra support for the youngest children. We legislated against maternity and sex discrimination in the workplace and put in place powers to require large firms, as has been said, to be transparent about their gender pay. The last Labour Government did manage to close the gender pay gap by a third, and I know it's not as much, and I know that there was still a lot more to do, but I think we acknowledge that we were, as a Labour Government, pushing that gender inequality down.

Dyna ddigon am hynna, ac rwyf am symud ymlaen at y gwahaniaeth a wnaeth Llafur pan oedd Llafur mewn Llywodraeth. Cyflawnodd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf gymaint dros fenywod. Cyflwynwyd credyd treth gweithio a chredydau treth plant yn 2003 er mwyn helpu teuluoedd sy'n gweithio ar incwm isel trwy gymorth ychwanegol ar gyfer y plant ieuengaf. Gwnaethom ddeddfu yn erbyn gwahaniaethu ar sail mamolaeth a rhyw yn y gweithle a sefydlu pwerau i fynnu bod cwmnïau mawr, fel y dywedwyd, yn dryloyw ynghylch eu cyflog i'r rhywiau. Llwyddodd y Llywodraeth Lafur ddiwethaf i gau'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau gan draean, ac rwy'n gwybod nad yw gymaint, a gwn fod llawer mwy yr oedd angen ei wneud o hyd, ond rwy'n meddwl ein bod yn cydnabod ein bod, fel Llywodraeth Lafur, yn gwthio'r anghydraddoldeb hwnnw rhwng y rhywiau i lawr.

So, in the couple of minutes that I have left, what I want to do is make sure—. I wanted to pick up on what Jocelyn was saying about how we actually now treat our young people and how we tell them that any career they desire is one that they should have. I came through a service—like Sandy Mewies there—that was very male-dominated, a trade union in the fire service, but I'm pleased to say that we had an equality position in the fire service that said we were all equal, but we were all different. I think we have to remember that, but we have to move forward as well. So, I pay tribute to this Labour Government here in the Assembly for what they have done to make sure that women do feel as if we are treated as equal citizens across our country.

Felly, yn ystod yr ychydig funudau sydd gennyf ar ôl, yr hyn yr wyf eisiau ei wneud yw gwneud yn siŵr—. Roeddwn eisiau ymateb i'r hyn yr oedd Jocelyn yn ei ddweud am y ffordd yr ydym mewn gwirionedd yn trin ein pobl ifanc yn awr a sut yr ydym yn dweud wrthynt y dylai unrhyw yrfa y maent yn ei dymuno fod yn un y dylai fod ganddynt. Fe ddes i drwy wasanaeth— yn debyg i Sandy Mewies yn y fan yna—a oedd yn un a oedd wedi ei ddominyddu'n helaeth gan ddynion, undeb llafur yn y gwasanaeth tân, ond rwy'n falch o ddweud bod gennym sefyllfa cydraddoldeb yn y gwasanaeth tân a oedd yn dweud ein bod i gyd yn gyfartal, ond ein bod i gyd yn wahanol. Rwy'n credu bod yn rhaid i ni gofio hynny, ond mae'n rhaid i ni symud ymlaen hefyd. Felly, talaf deyrnged i'r Llywodraeth Lafur hon yma yn y Cynulliad am yr hyn y mae wedi'i wneud i sicrhau bod menywod yn teimlo fel pe byddem yn cael ein trin fel dinasyddion cyfartal ym mhob rhan o'n gwlad.

17:00 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

And the Minister to reply to the debate.

A'r Gweinidog i ymateb i'r ddadl.

17:00 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

*Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi / The Minister for Communities and Tackling Poverty*

Thank you, Deputy Presiding Officer. I certainly listened with interest to Members' contributions and their views around this very important issue. There is clearly some consensus across the Chamber.

Diolch i chi, Ddirprwy Lywydd. Gwrandewais yn sicr â diddordeb ar gyfraniadau Aelodau a'u barn ynghylch y mater pwysig iawn hwn. Mae'n amlwg bod rhywfaint o gonsensws ar draws y Siambr.

I'll just turn to the amendments first. We will be supporting amendment 1 in the name of the Welsh Conservatives, and amendment 2 in the name of the Welsh Liberal Democrats respectively. We very much welcome the figures from the Office for National Statistics in November 2014, which showed that the gender pay gap in the UK has narrowed. It's good to see that the trend set by the work of the last UK Labour Government from 1997 onwards has been maintained. However, although we welcome this we still have work to do to ensure all women working both part-time and full-time receive equal pay for the work they do, as has been mentioned. We know that women tend to choose less well-paid careers than men and they don't rise up the career ladder as high or as quickly as men. For some women, this of course is a personal choice. For others, it can be the result of poor careers advice and outdated workplace practices. So, we will continue to tackle gender stereotyping through education and through work with the third and private sectors to help challenge and change young people's aspirations in education, training and employment.

Rwyf am droi at y gwelliannau yn gyntaf. Byddwn yn cefnogi gwelliant 1 yn enw'r Ceidwadwyr Cymreig, a gwelliant 2 yn enw Democratiaid Rhyddfrydol Cymru yn y drefn honno. Rydym yn croesawu'n fawr y ffigurau gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014, a oedd yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU wedi culhau. Mae'n dda gweld bod y duedd a osodwyd gan waith Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU o 1997 ymlaen wedi ei chynnal. Fodd bynnag, er ein bod yn croesawu hyn mae gennym waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod yr holl fenywod sy'n gweithio yn rhan-amser a llawn amser yn derbyn cyflog cyfartal am y gwaith y maent yn ei wneud, fel y soniwyd. Gwyddom fod menywod yn tueddu i ddewis gyrfaoedd sy'n talu llai na dynion ac nad ydynt yn dringo'r ysgol yrfa mor uchel neu mor gyflym â dynion. I rai menywod, wrth gwrs, dewis personol yw hyn. I eraill, gall fod yn ganlyniad cyngor gyrfaol gwael ac arferion hen ffasiwn yn y gweithle. Felly, byddwn yn parhau i fynd i'r afael â stereoteipio ar sail rhyw drwy addysg a thrwy waith gyda'r trydydd sector a'r sector preifat i helpu i herio a newid dyheadau pobl ifanc mewn addysg, hyfforddiant a chyflogaeth.

17:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Will the Minister give way?

A wnaiff y Gweinidog ildio?

17:01 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes.

Gwnaf.

17:01 **Simon Thomas** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

I'm grateful to the Minister. She may also be grateful for a glass of water. Just on the education aspect, I was very impressed with Chwarae Teg's Fair Foundations programme, which has been going into schools and looking at the whole-school approach to breaking down some of these gender stereotypes for girls, and boys indeed. Is that something that she's had a chance to look at, because I understand the programme is unsure of future funding? It would be good to see the Welsh Government look at that and how it can be rolled out throughout Wales.

Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog. Efallai y bydd hithau hefyd yn ddiolchgar am wydraid o ddŵr. Dim ond ar yr agwedd addysg, roeddwn yn llawn edmygedd o raglen Sylfeini Teg Chwarae Teg, sydd wedi bod yn mynd i mewn i ysgolion ac edrych ar yr agwedd ysgol gyfan tuag at chwalu rhai o'r stereoteipiau rhyw i ferched, a bechgyn yn wir. A yw hynny'n rhywbeth y mae hi wedi cael cyfle i edrych arno, gan fy mod yn deall bod y rhaglen yn ansicr o ran ariannu yn y dyfodol? Byddai'n dda gweld Llywodraeth Cymru yn edrych ar hynny a sut y gellir cyflwyno'r rhaglen ledled Cymru.

17:02 **Lesley Griffiths** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Yes, absolutely. That's something that we can look at. I have met with Chwarae Teg, but it's something that we can certainly have a look at as we go into the next financial year.

Ie, yn bendant. Mae hynny'n rhywbeth y gallwn edrych arno. Rwyf wedi cyfarfod â Chwarae Teg, ond mae'n rhywbeth y gallwn yn sicr edrych arno wrth i ni fynd i mewn i'r flwyddyn ariannol nesaf.

As we've heard today, one of the more entrenched causes of the pay gap between men and women is occupational segregation, with women still found in jobs related to women's traditional roles in the family, such as caring and cleaning. Unfortunately, women do still face many inequalities in the workplace. But I don't think anyone can doubt our proven commitment to tackling the underlying issues, which do create gender pay inequality.

Fel yr ydym wedi clywed heddiw, un o'r achosion sydd wedi ymwreiddio fwyaf o ran y bwlch cyflog rhwng dynion a menywod yw gwahanu galwedigaethol, gyda menywod yn dal i fod yn y swyddi sy'n gysylltiedig â swyddogaethau traddodiadol menywod yn y teulu, megis gofalu a glanhau. Yn anffodus, mae menywod yn dal i wynebu nifer o anghydraddoldebau yn y gweithle. Ond nid wyf yn meddwl y gall unrhyw un amau ein hymrwymiad profedig i fynd i'r afael â'r materion sylfaenol, sy'n creu anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau.

We'll also support amendment 3. I'm very happy to welcome the UK Government's announcements that firms with more than 250 employees will be required to publish the average pay for male and female workers or face a fine of up to £5,000. Converts are always welcome, however late in the day. What the amendment omits to mention, however, is that the previous Labour UK Government included powers to introduce this as part of its Equality Act 2010, but the incoming Conservative-Liberal Democrat coalition shelved it. After months of resisting a Labour campaign for a change, they announced a u-turn the day before they faced defeat on a Labour amendment with substantial cross-party support in the House of Lords. But, as I say, better late than never. So, we will be supporting that.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliant 3. Rwy'n hapus iawn i groesawu cyhoeddiadau Llywodraeth y DU y bydd yn ofynnol i gwmnïau gyda mwy na 250 o weithwyr gyhoeddi'r cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd neu wynebu dirwy o hyd at £5,000. Mae rhai sydd wedi cael tröedigaeth bob amser i'w croesawu, waeth pa mor ddiweddar. Yr hyn nad yw'r gwelliant yn sôn amdano, fodd bynnag, yw bod Llywodraeth Lafur flaenorol y DU wedi cynnwys pwerau i gyflwyno hyn fel rhan o'i Deddf Cydraddoldeb 2010, ond rhoddwyd honno o'r neilltu gan y glymblaid Ceidwadwyr-Democratiaid Rhyddfrydol a ddaeth i mewn. Ar ôl misoedd o wrthsefyll ymgyrch y Blaid Lafur am newid, cyhoeddwyd tro pedol y diwrnod cyn iddynt wynebu cael eu trechu ar welliant Llafur gyda chefnogaeth drawsbleidiol sylweddol yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ond, fel y dywedais, gwell hwyr na hwyrach. Felly, byddwn yn cefnogi hynny.

In Wales, our mandatory approach to reporting via the public sector pay duty requires all public sector employers in Wales with more than 150 employees to report annually on gender pay gaps and on the gender disparities in grade, occupation and working patterns. Clearly, the voluntary approach adopted by the UK Government for businesses is not enough and we support any measures to strengthen reporting on gender inequality in the workplace. Reporting on gender pay gaps is essential and it sends out a strong message to employers about workplace gender equality.

Yng Nghymru, mae ein hymagwedd orfodol i adrodd drwy ddyletswydd cyflog y sector cyhoeddus yn gofyn i bob cyflogwr sector cyhoeddus yng Nghymru gyda mwy na 150 o weithwyr adrodd yn flynyddol am fylchau cyflog rhwng y rhywiau ac ar y gwahaniaethau rhwng y rhywiau mewn gradd, galwedigaeth a phatrymau gwaith. Yn amlwg, nid yw'r dull gwirfoddol a fabwysiadwyd gan Lywodraeth y DU ar gyfer busnesau yn ddigon ac rydym yn cefnogi unrhyw fesurau i gryfhau adrodd am anghydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle. Mae adrodd ar fylchau cyflog rhwng y rhywiau yn hanfodol ac mae'n anfon neges gref i gyflogwyr am gydraddoldeb rhwng y rhywiau yn y gweithle.

If I can just turn to some of the Members' contributions, Peter Black talked about getting more women into STEM jobs. I think that's highly important, and it's an area of work that's been taken forward by this Government. One of the reasons that the gender gap does remain is because men hold more jobs in the STEM area. So, as we say, we have done a lot, but of course, as Peter said, there is more to be done.

Os caf fi droi at rai o gyfraniadau'r Aelodau, soniodd Peter Black am gael mwy o fenywod i swyddi STEM. Rwy'n credu bod hynny'n bwysig iawn, ac mae'n faes gwaith sydd wedi cael ei ddatblygu gan y Llywodraeth hon. Un o'r rhesymau pam mae'r bwlch rhwng y rhywiau yn parhau i fodoli yw oherwydd bod dynion yn dal mwy o swyddi yn y maes STEM. Felly, fel yr ydym yn dweud, rydym wedi gwneud llawer, ond wrth gwrs, fel y dywedodd Peter, mae mwy i'w wneud.

Sandy Mewies is quite right to say that what we want is action and not warm words. I think, again, the actions that we have taken show that that's the case. I can't believe Sandy's old enough—I certainly don't remember indentured apprentices—but it was very interesting to hear about your experience as a young journalist.

Mae Sandy Mewies yn llygad ei lle i ddweud mai'r hyn yr ydym ei eisiau yw gweithredu ac nid geiriau cynnes. Rwy'n meddwl, unwaith eto, bod y camau yr ydym wedi'u cymryd yn dangos bod hynny'n wir. Ni allaf gredu bod Sandy yn ddigon hen—nid wyf i yn sicr yn cofio prentisiaid indentur—ond roedd yn ddiddorol iawn clywed am eich profiad fel newyddiadurwraig ifanc.

Jocelyn reminded us of just how far we have come but how long it has taken. You're quite right: sexism is a formidable enemy and it is a very slow and difficult road that we have to travel. Again, you referred to STEM subjects and how, if we had more women in those areas of jobs, our economy would be so much better off. I know the Minister for Economy, Science and Transport is very keen to take that forward.

Gwnaeth Jocelyn ein hatgoffa o ba mor bell yr ydym wedi dod, ond pa mor hir y mae wedi'i gymryd. Rydych chi'n hollol iawn: mae rhywiaeth yn elyn aruthrol ac mae'n ffordd araf ac anodd iawn y mae'n rhaid i ni ei theithio. Unwaith eto, cyfeiriasoch at bynciau STEM a sut, pe byddai gennym fwy o fenywod yn y meysydd swyddi hynny, y byddai ein heconomi cymaint yn iachach. Rwy'n gwybod bod y Gweinidog Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn awyddus iawn i fwrw ymlaen â hynny.

Last week was National Apprenticeship Week and I think you're right: it's about making sure that we value our apprentices. Certainly, when I was a young girl, apprentices were very valued and then I think we lost something, but I think we really have got that back. I know the Deputy Minister for Skills and Technology is pursuing that agenda very robustly.

Yr wythnos diwethaf oedd Wythnos Prentisiaethau Cenedlaethol a chredaf eich bod yn iawn: mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn gwerthfawrogi ein prentisiaid. Yn sicr, pan oeddwn yn ferch ifanc, roedd prentisiaid yn cael eu gwerthfawrogi'n fawr ac yna rwy'n credu ein bod wedi colli rhywbeth, ond rwy'n credu ein bod mewn gwirionedd wedi cael hynny'n ôl. Rwy'n gwybod bod y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg yn mynd ar drywydd yr agenda honno mewn modd cadarn iawn.

I've also heard Joy Kent say you can't be what you can't see, and I think that was one of the reasons why we had our Girls Make a Difference conference in south Wales last autumn, and we will be having another one in north Wales in May, because it was really important that those 100 sixth-form-age young women could see that women were in different jobs, and it was great to have the chief veterinary officer there, the chief medical officer, and the chief executive of the National Assembly for Wales—all women. It was good to see them engage with the young women in that way.

Rwyf innau hefyd wedi clywed Joy Kent yn dweud na allwch fod yr hyn na allwch ei weld, a chredaf fod hynny'n un o'r rhesymau pam y cawsom ein cynhadledd Menywod yn Gwneud Gwahaniaeth yn y de yr hydref diwethaf, a byddwn yn cael un arall yn y gogledd ym mis Mai, oherwydd ei bod yn wirioneddol bwysig bod y 100 o ferched ifanc o oed chweched dosbarth yn cael gweld bod menywod mewn swyddi gwahanol, ac roedd yn wych i gael y prif swyddog milfeddygol yno, y prif swyddog meddygol, a phrif weithredwr Cynulliad Cenedlaethol Cymru—i gyd yn fenywod. Roedd yn dda eu gweld yn ymgysylltu â'r merched ifanc yn y ffordd honno.

Ann Jones reminded us of how badly hit many women are due to the UK Government, particularly the welfare reform initiatives coming forward. Again, talking to somebody from the Trussell Trust a couple of weeks ago, I was reminded that the reason many people are going to food banks at the moment is because of the welfare reform changes. You also reminded us of the benefits of a Labour Government.

Atgoffodd Ann Jones ni o ba mor wael y mae llawer o fenywod wedi cael eu taro oherwydd Llywodraeth y DU, yn enwedig y mentrau diwygio lles sydd ar ddod. Unwaith eto, wrth siarad â rhywun o Ymddiriedolaeth Trussell wythnos neu ddwy yn ôl, cefais fy atgoffa mai'r rheswm y mae llawer o bobl yn mynd i fanciau bwyd ar hyn o bryd yw oherwydd y newidiadau diwygio lles. Gwnaethoch hefyd ein hatgoffa o fanteision Lywodraeth Lafur.

So, in conclusion, addressing the causes of the gender pay gap is vital if we are to build a stronger economy and a fairer society. The Welsh Government is committed to ensuring equality in Wales. We want Wales to be a country where women are equally represented at all levels, where they receive equal pay, and where there is fairness and equality for all. Diolch.

Felly, i gloi, mae mynd i'r afael ag achosion y bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn hanfodol os ydym am adeiladu economi gryfach a chymdeithas decach. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb yng Nghymru. Rydym eisiau i Gymru fod yn wlad lle mae menywod wedi eu cynrychioli'n gyfartal ar bob lefel, lle maent yn derbyn cyflog cyfartal, a lle mae tegwch a chydraddoldeb i bawb. Diolch.

17:06

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 1 felly wedi ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 1 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? Amendment 2 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 2 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 2 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 2 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? Amendment 3 is agreed.

Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Mae gwelliant 3 wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd gwelliant 3 yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Amendment 3 agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

The proposal is to agree the motion as amended.

Y cynnig yw cytuno ar y cynnig fel y'i diwygiwyd.

Cynnig NDM5721 fel y'i diwygiwyd:

Motion Motion NDM5721 as amended:

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

To propose that the National Assembly for Wales:

1. Yn cydnabod gwerth hyrwyddo Cyflog Cyfartal fel prif flaenoriaeth ar gyfer sicrhau cydraddoldeb rhywiol ac yn nodi'r cynnydd a wnaed gan Lywodraeth Cymru hyd yn hyn wrth ymdrin ag achosion anghydraddoldeb cyflog rhwng y rhywiau.

1. Recognises the value of promoting Equal Pay as a key priority for achieving gender equality and notes the Welsh Government's progress to date in addressing the causes of gender pay inequality.

2. Yn croesawu ffigurau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Tachwedd 2014 yn dangos bod y bwlch cyflog rhwng y rhywiau ar ei lefel isaf erioed.

2. Welcomes figures from the Office of National Statistics in November 2014 showing that the gender pay gap in the UK is at its lowest ever level.

3. Yn croesawu'r ffaith bod y ffigurau diweddaraf gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos bod y bwlch cyflog llawn amser rhwng dynion a menywod yn fwy cul nag y mae wedi bod ers dechrau casglu cofnodion cymharol ym 1997.

3. Welcomes that the latest figures from the ONS show that the full-time pay gap between men and women is at its narrowest since comparative records began in 1997.

4. Yn croesawu gwaith Gweinidog Cydraddoldebau Llywodraeth y DU i sicrhau y bydd angen i gwmnïau sy'n cyflogi mwy na 250 o weithwyr gyhoeddi'r cyflog cyfartalog ar gyfer gweithwyr gwrywaidd a benywaidd, neu wynebu dirwy o hyd at £5,000.

4. Welcomes the UK Government Equalities Minister's work to ensure that firms with more than 250 employees will be required to publish the average pay for male and female workers, or face a fine of up to £5,000.

17:07

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

Senedd.tv Fideo Video

Does any Member object? Then the motion as amended is agreed.

A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Felly mae'r cynnig wedi ei dderbyn fel y'i diwygiwyd.

*Derbyniwyd cynnig NDM5721 fel y'i diwygiwyd yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.*

*Motion NDM5721 as amended agreed in accordance with Standing Order 12.36.*

17:07

# 10. Cyfnod Pleidleisio

# 10. Voting Time

Senedd.tv Fideo Video

## Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer Bywgraffiad Biography

The next item is voting time. Before I conduct the vote, are there three Members who wish for the bell to be rung? There are not.

Yr eitem nesaf yw amser pleidleisio. Cyn i mi gynnal y bleidlais, a oes tri Aelod sy'n dymuno i'r gloch gael ei chanu? Nid oes.

We've got to vote on the Stage 4 debate on the Well-being of Future Generations (Wales) Bill. I call for a vote on the motion tabled in the name of Carl Sargeant. Open the vote. Close the vote. There voted in favour 38. There voted against 11. Therefore, the motion is agreed.

Mae'n rhaid i ni bleidleisio ar y ddadl Cyfnod 4 ar y Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru). Galwaf am bleidlais ar y cynnig a gyflwynwyd yn enw Carl Sargeant. Agorwch y bleidlais. Caewch y bleidlais. Pleidleisiodd 38 o blaid. Pleidleisiodd 11 yn erbyn. Felly, mae'r cynnig wedi ei dderbyn.

*Derbyniwyd y cynnig: O blaid 38, Yn erbyn 11, Ymatal 0.*

*Motion agreed agreed: For 38, Against 11, Abstain 0.*

Canlyniad y bleidlais ar gynnig NDM5725

Result of the vote on motion NDM5725

17:07 **Y Dirprwy Lywydd / The Deputy Presiding Officer** Bywgraffiad Biography

Senedd.tv
Fideo Video

That concludes today's proceedings.

Dyna ddiwedd trafodion heddiw.

*Daeth y cyfarfod i ben am 17:07.*

*The meeting ended at 17:07.*